# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SAFONAU | | STANDARDS COMMITTEE |
| DYDD MERCHER,<br>16 MEDI 2015 am 2.00 o'r gloch y.p. | | WEDNESDAY,<br>16 SEPTEMBER 2015 at 2.00 pm |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1,<br>SWYDDFEYDD Y SIR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1,<br>COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Mrs. Mairwen Hughes<br>01248 752516** | **Committee Officer** |

**Aelodau Annibynnol / Independent Members**

Mrs. Denise Harris Edwards
Mr. Islwyn Jones **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**
Mr. Leslie Lord
Mrs. Dilys Shaw
Mr. Michael Wilson **(Cadeirydd/Chair)**

**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council**

Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes
Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils**

Cynghorydd Raymond Evans
Cynghorydd John Roberts

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

2 **COFNODION Y CYFARFOD** (Tudalennau 1 - 10)

- Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y Pwyllgor Safonau gafwyd ar 11 Mawrth, 2015.
- Cyflwyno, i'w cadarnahu,gofnodion y Panel Caniatad gafwyd ar 1 Ebrill, 2015.

**(PAPUR A)**

3 **ADOLYGU RHEOLAU'R WEITHDREFN GYNLLUNIO - RHAN 4.6 Y CYFANSODDIAD** (Tudalennau 11 - 62)

Derbyn adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) a Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol/ Dirprwy Swyddog Monitro.
***(PAPUR B)***

4 **CANLLAWIAU DIWYGIEDIG AR Y CÔD YMDDYGIAD AR GYFER CYNGHORWYR SIR A CHYNGHORWYR CYMUNED** (Tudalennau 63 - 184)

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Monitro.
***(PAPUR C)***

5 **DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DEMOCRATIAETH) (CYMRU) 2013 A GORCHYMYN DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DEMOCRATIAETH) (CYMRU) 2013 (CYCHWYN RHIF 2) 2015** (Tudalennau 185 - 200)

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Monitro.
***(PAPUR CH)***

6 **TAFLENNI FFEITHIAU A GYHOEDDWYD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU - YMCHWILIADAU A CHYFWELIADAU - CÔD YMDDYGIAD YR AELODAU** (Tudalennau 201 - 212)

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Monitro.
***(PAPUR D)***

7 **CANLLAWIAU LLEOL DRAFFT AR GÔD YMDDYGIAD Y SWYDDOGION** (Tudalennau 213 - 232)

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Monitro.
***(PAPUR DD)***

8 **CWYNION AM YMDDYGIAD A WNAED I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 233 - 236)

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Monitro.
***(PAPUR E)***

9 **ADOLYGU'R TAIR COFRESTR O DDIDDORDEBAU'R AELODAU** (Tudalennau 237 - 258)

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Monitro.
***(PAPUR F)***

**10** **HYFFORDDIANT I GYNGHORWYR TREF** (Tudalennau 259 - 292)

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Monitro.
***(PAPUR FF)***

**11** **FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 293 - 302)

Derbyn adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.
***(PAPUR G)***

**12** **CYNHADLEDD GENEDLAETHOL PWYLLGORAU SAFONAU** (Tudalennau 303 - 310)

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Monitro.
***(PAPUR NG)***

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol** |
| | Mr Michael Wilson (Cadeirydd)<br>Mr Islwyn Jones (Is-Gadeirydd) |
| | Mrs Denise Harris Edwards<br>Mr Leslie Lord<br>Mrs Dilys Shaw |
| | **Yn Cynrychioli'r Cyngor Sir** |
| | Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas |
| | **Yn Cynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned** |
| | Y Cynghorwyr William Raymond Evans a John Roberts |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro (LB)<br>Cyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) (AW)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes |

Mynegodd y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, ei ddymuniadau gorau i'r Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes am wellhad buan yn dilyn ei salwch yn ddiweddar.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2014 fel rhai cywir.

Yn codi o'r cofnodion:-

Eitem 4 – Cyfeiriodd yr Is-Gadeirydd at rôl y Pwyllgor Safonau yn y gwrandawiad, ac a ddylai'r Pwyllgor bennu cosb ai peidio. Cyn cytuno ar benderfyniad, gofynnodd y Pwyllgor am sylwadau gan y Cynghorydd Rogers a Ms Ginwalla.

Roedd yr Is-Gadeirydd yn dymuno iddo gael ei nodi nad oedd yr Ombwdsmon wedi argymell cosb yn y gwrandawiad.

Cyfeiriodd yr Is-Gadeirydd at y gwrandawiad a dywedodd bod y Pwyllgor hwn, ar ôl ystyried a thrafod, wedi pennu cosb o fis yn unig yn hytrach na 2 fis (sef y gosb yr oedd y Pwyllgor yn dymuno ei phennu) a hynny ar ôl cymryd yr amgylchiadau lliniarol i ystyriaeth.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylid diwygio'r cofnodion i gynnwys:-

*"Cafodd y Cynghorydd Rogers ei wahardd fel Cynghorydd Sir am gyfnod o ddau fis ac fe ostyngwyd y cyfnod hwn i un mis oherwydd amgylchiadau lliniarol."*

**3 FFORWM Y PWYLLGOR SAFONAU**

**3A** Cyflwynwyd a chadarnhawyd - cofnodion Fforwm y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd, 2015.

**PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion er gwybodaeth.**

**3B** Cyflwynwyd - crynodeb o'r cyfarfod gan y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol).

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ail ymweliad yr Ombwdsmon â Chyngor Sir Ynys Môn ym mis Awst, 2014 i fynychu cyfarfod o Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru. Cyflwynwyd iddo restr o gwestiynau gan yr Aelodau. Yn dilyn y cyfarfod hwn, cyfarfu'r Cadeirydd gydag Arweinyddion y Cyngor a thrafodwyd atebion yr Ombwdsmon.

Adroddodd y Cadeirydd bod yr Ombwdsmon yn symud tuag at ddatrysiad lleol yn hytrach na gwrandawiadau, lle bo hynny'n briodol.

Adroddodd y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) ar bresenoldeb yr Ombwdsmon yn y Fforwm, ac roedd y prif ymatebion i'w gwestiynau fel a ganlyn:-

- Angen treulio llai o amser yn ymchwilio i gwynion blinderus a wneir gan y Cynghorwyr yn erbyn y naill a'r llall;
- Roedd angen i'r Ombwdsmon ganolbwyntio mwy ar y Gwasanaeth Iechyd fel blaenoriaeth oherwydd roedd ganddo achosion "byw neu farw" ar ei ddwylo;
- Roedd cyllideb yr Ombwdsmon yn dynn, felly byddai angen gwneud newidiadau mawr i'r modd yr oedd yr Ombwdsmon yn gweithio. Byddai hyn yn cael ei drafod mewn papur arall.

Dywedodd y Gyfreithwraig y bu cyfarfod y Fforwm yn llwyddiannus a bod yr Ombwdsmon yn bwriadu cyflwyno rheoliadau i ganiatáu (yn ddewisol ac nid yn orfodol) Pwyllgorau Safonau Rhanbarthol eleni.

Gofynnodd y Cadeirydd i ymateb y Pwyllgor i'r Papur Gwyn gael ei anfon ymlaen i'r Fforwm fel y gellir trafod barn y Pwyllgor hwn.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

4 **CWYNION YNGHYLCH YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) ar ffurf matrics wedi ei ddiweddaru ar gyfer Cynghorwyr Sir.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

**Gweithredu: Y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) i adrodd yn ôl ar ddyddiad apêl.**

5 **HYFFORDDIANT AR GYFER CYNGHORAU TREF A CHYMUNED AR Y CÔD YMDDYGIAD**

**5A** Cyflynwyd – adroddiad gan y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) ar y sesiwn hyfforddiant a gynhaliwyd i Glercod Cynghorau Tref a Chymuned ar y Côd Ymddygiad.

Dywedodd y Gyfreithwraig y cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant gan y Swyddog Monitro i Glercod Cynghorau Tref a Chymuned y llynedd a'u bod yn llwyddiannus iawn. O'r 40 o Gynghorau Tref a Chymuned, mynychodd glercod 29 ohonynt. Yn dilyn yr hyfforddiant, anfonwyd llythyrau yn gofyn am atborth. Roedd y cyfan ond un ohonynt, yn fodlon gyda'r hyfforddiant a ddarparwyd.

Ers mynychu'r sesiynau hyfforddiant, dywedodd y Swyddog Monitro fod mwy o glercod Cynghorau Tref a Chymuned yn cysylltu â hi mewn perthynas â'r Côd Ymddygiad.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**Gweithredu: Y Pwyllgor Safonau i gytuno ar y modd y cyflwynir hyfforddiant yn y dyfodol i Aelodau Cynghorau Tref.**

6 **ADOLYGIAD O'R COFRESTRAU**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) ar gasgliadau'r adolygiad o'r cofrestrau a'r cynllun gweithredu. Adroddodd ar y canlynol:-

Y Gofrestr Sefydlog -

- Aelodau ddim yn datgan statws llywodraethwyr ysgol fel buddiant personol;
- Aelodau ddim yn darparu digon o fanylion ynghylch buddiant mewn tir yn 1.6 y ffurflen;
- Dim digon o fanylion am y gweithgareddau busnes y maent yn ymwneud â nhw;
- Anghysonderau o ran aelodaeth o gyrff allanol fel y'u cofnodwyd gan y Cyngor ac fel y cawsant eu datgan ar ffurflenni, gyda rhai Aelodau ddim yn diweddaru eu cofnodion yn rheolaidd.

Cofrestr Datganiadau o Ddiddordeb mewn Cyfarfodydd -

- Aelodau'n ticio'r blwch, ond ddim yn darparu manylion am y buddiant;
- Dim digon o fanylion ynghylch beth yw'r diddordeb personol ac / neu ddiddordeb sy'n rhagfarnu, a dryswch ynghylch yr hyn y mae'n ei olygu;
- Aelodaeth a monitro presenoldeb cyrff allanol mewn cyfarfodydd;
- Anghysondebau gyda chyhoeddi datganiadau ar wefan y Cyngor.

Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch -

- Ychydig iawn o ddatganiadau'n cael eu gwneud;
- Dylid nodi gwerth y rhoddion;
- Nid oes unrhyw ddolen ar y wefan i roddion a lletygarwch aelodau cyfetholedig.

Cododd Aelodau'r Pwyllgor hwn y materion TGCh canlynol:-

- Datganiadau o ddiddordeb ddim yn cael eu cyhoeddi ar y wefan;
- Anghysonderau rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg y datganiadau ar wefan y Cyngor;
- Mae angen creu dolen o'r Gofrestr Sefydlog i'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer pob Cynghorydd unigol.

Awgrymodd y Swyddog Monitro y dylai'r Adain Gyfreithiol, gyda chytundeb y Pwyllgor hwn, ysgrifennu at yr holl Aelodau yn dweud bod adolygiad wedi'i gynnal ac yn amgáu'r canfyddiadau cyffredinol. Byddai'r llythyr yn dweud hefyd y bydd aelodau o'r Pwyllgor Safonau yn cysylltu gyda phob Aelod i drafod materion ar eu ffurflenni.

**PENDERFYNWYD symud ymlaen ac anfon canfyddiadau cyffredinol yr adolygiad i'r holl Aelodau unwaith y bydd eglurder o ran y materion TGCh.**

**Gweithredu: Bod adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau yn y man.**

## 7 YMGYNGHORIAD AR Y PAPUR GWYN

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) ar y Papur Gwyn a'r adolygiad o bwerau'r Ombwdsmon gan Bwyllgor Cyllid LlCC er mwyn cael sylwadau'r Pwyllgor cyn ymateb i'r ymgynghoriadau.

Dywedodd y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) y bydd Deddf Llywodraeth Leol Cymru (Democratiaeth) 2013, sydd wedi dod i rym, yn cael ei gweithredu cam wrth gam. Bydd nifer o newidiadau'n cael eu cyflwyno'n o fuan, gan gynnwys cyhoeddi cofrestrau diddordeb ar ffurf electronig; grym i drosglwyddo adroddiadau ynghylch camymddwyn a cheisiadau gan aelodau am ganiatâd arbennig rhwng Pwyllgorau Safonau a grym ar gyfer cydweithio mewn Pwyllgorau Safonau rhanbarthol a fydd yn dod i rym yn ddiweddarach eleni. Hefyd eleni, bydd deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno i addasu'r model o'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol i hwyluso gweithrediad polisïau ar gyfer datrys

anghydfodau’n lleol ac i egluro sefyllfa Aelodau Lleol (10.2(B) y Côd Ymddygiad) gyda diddordebau etholaethol.  Bydd Awdurdodau Lleol yn cael eu heithrio rhag cyhoeddi adroddiadau ynghylch camymddygiad pan fydd achosion yn mynd rhagddynt.

Ar y pwynt hwn, gofynnwyd i’r Pwyllgor Safonau ddarparu ymateb i’r isod:

A ddylai fod grym newydd ai peidio i’r Pwyllgor Safonau ystyried achosion lle mae pryderon difrifol bod aelodau etholedig yn methu â chyflawni eu dyletswyddau’n foddhaol. Ymddengys mai rôl newydd ar gyfer rheoli perfformiad yw hon yn hytrach nag achosion yn ymwneud â’r Côd Ymddygiad. Byddai Llywodraeth Cymru yn darparu cosbau y gellid eu gorfodi. Byddai angen gwarchod yn erbyn cwynion blinderus.

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at y Papur Gwyn a chododd y mater ynghylch a fyddai’r Pwyllgor Safonau’n dymuno cael rôl yn y broses o reoli perfformiad Aelodau ac a oes angen sbardun ar gyfer yr ymyrraeth honno? Awgrymodd y byddai angen i gŵyn fod yn angenrheidiol ac yn drothwy, neu fel arall, mae’r Pwyllgor Safonau mewn perygl o gael ei alw’n wleidyddol ragfarnllyd. Mae cwyn ysgrifenedig yn rhywbeth i weithredu arni ond mae angen arweiniad mewn perthynas â disgwyliadau’r Aelodau.

Sut dylid ymdrin ag apeliadau? Cyn 2001, roedd modd cyflwyno apeliadau yn erbyn holl benderfyniadau’r Pwyllgor Safonau i’r Cyngor llawn. A yw hyn yn bosibl gyda chwynion ynghylch “perfformiad”? Roedd Aelodau’r Pwyllgor yn ffafrio’r Panel Dyfarnu fel yr opsiwn gwell.

Cododd yr Aelodau’r materion isod:

- Roedd angen canllawiau cadarn ar gyfer y Pwyllgor Safonau;
- Dylid codi mater diffyg presenoldeb mewn cyfarfodydd gydag Arweinwyr y Grwpiau yn y lle cyntaf;
- Cosbau – mewn perthynas â pherfformiad/presenoldeb mewn cyfarfodydd;
- Dylai cynnal is-etholiad fod yn gosb mewn achosion eithafol.

Dywedodd y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) fod yr Ombwdsmon eisiau cyflwyno grym newydd a fyddai’n sicrhau fod Arweinwyr Cynghorau, Arweinyddion Grŵp a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol yn parchu amrywiaeth. Byddai gan Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau swyddogaethau gorfodaeth. Nid oes gan y Pwyllgor Safonau wrthwynebiad i hyn mewn egwyddor.

**PENDERFYNWYD nodi’r adroddiad.**

**Gweithredu: Bod y Pwyllgor Safonau yn ymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ac Adroddiad yr Ombwdsmon; gyda’r geiriad i’w gymeradwyo gan y Cadeirydd.**

## 8 NODIADAU BRIFFIO DIWEDDARAF

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Gyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol) ar y nodiadau briffio diweddaraf a baratowyd gan yr Adain Gyfreithiol.

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf ym Medi 2014, mae dau nodyn briffio wedi'u drafftio:-

1. Canllawiau Lleol Drafft ar y Côd Ymddygiad i Swyddogion
2. Nodyn Briffio ar Ganiatadau Arbennig

Mae'r Canllawiau Lleol ar y Côd Ymddygiad i Swyddogion wedi cael ei baratoi i gynorthwyo swyddogion sy'n anghyfarwydd gyda'r Côd ac mae'n estyniad i'r Côd Ymddygiad.

Mae dwy ffurflen newydd wedi cael eu drafftio ar Ddatganiadau Diddordeb i swyddogion, h.y. rhoi gwybod am ddiddordeb personol a rhoi gwybod am ddiddordeb personol mewn cyfarfod. Mae'r drydedd ffurflen ar gyfer rhoddion a lletygarwch ac mae eisoes yn cael ei defnyddio.

**PENDERFYNWYD:**

- **Diwygio a chymeradwyo'r dogfennau drafft yn Atodiadau 1 a 2 yn unol â chais y Pwyllgor.**
- **Awdurdodi eu cyhoeddi i Swyddogion ac Aelodau.**

## 9 YMESTYN TYMOR Y PWYLLGOR SAFONAU

Dywedodd y Swyddog Monitro fod y Cyngor Llawn wedi cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Gwaith i ailbenodi Aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau am dymor pellach o 4 blynedd o 17 Rhagfyr, 2015.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai tymor y Cynghorydd Raymond Evans fel Aelod o'r Pwyllgor hwn yn dod i ben ym mis Rhagfyr. Gellir cysylltu gydag Un Llais Môn i lenwi'r 2 sedd sydd wedi eu neilltuo i Gynghorau Tref a Chymuned. Cadarnhaodd holl Aelodau cyfredol y Pwyllgor Safonau, ac eithrio Mr Evans, eu bod yn fodlon parhau i wasanaethu fel Aelodau o'r Pwyllgor Safonau am dymor arall.

Roedd y Pwyllgor yn cydnabod yr awdurdod a roddwyd i Swyddog Monitro'r Cyngor i wneud yr holl newidiadau canlyniadol i Gyfansoddiad y Cyngor ac i Gyfansoddiad y Pwyllgor Safonau, i ymestyn yr holl benodiadau yn y dyfodol i ddau dymor yn awtomatig i holl Aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 10 UNRHYW FATER ARALL

Ni chafwyd gwybod am unrhyw fater arall.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.40 pm

**MR MICHAEL WILSON**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# PANEL CANIATÂD ARBENNIG Y PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Ebrill 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol**<br><br>Mr. Michael Wilson (Cadeirydd)<br><br>Mrs. Denise Harris Edwards<br>Mr. Leslie Lord |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol,<br>Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) (AW),<br>Rheolydd Strategaeth Adnoddau Dynol (MD),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Neb |

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**3 CEISIADAU AM GANIATÂD ARBENNIG**

Cyflwynwyd - cais ar y cyd am ganiatâd arbennig gan Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn yng nghyswllt y Cydgytundeb Statws Sengl a oedd i'w drafod yn y cyfarfod o'r Cyngor Sir llawn ar 7 Ebrill 2015.

Amlinellodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro y categorïau o ddiddordebau personol a rhagfarnus sydd wedi'u rhestru ym mharagraff 10 a 12 y Côd Ymddygiad. Eglurodd na fedrir ond rhoi caniatadau arbennig mewn amgylchiadau penodol oedd wedi'u rhestru yn Adran 2 y dogfennau a oedd wedi eu cyflwyno i'r Panel. Nodwyd y gall 13 o Aelodau Etholedig ddatgan diddordeb rhagfarnus yn y mater.

Rhoddodd y Pennaeth Proffesiwn - Adnoddau Dynol amlinelliad o gefndir y Cytundeb Statws Sengl i'r Panel a'r penderfyniad y bydd ei angen gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 7 Ebrill 2014.

Cafwyd sesiwn cwestiwn ac ateb ac ymneilltuodd y Panel i sesiwn breifat i drafod y mater.

Wedi i'r Panel ddychwelyd, cyhoeddodd y Cadeirydd bod y Panel wedi **PENDERFYNU rhoi caniatadau arbennig i'r holl Aelodau o'r Cyngor Sir a fydd efallai angen datgan diddordebau rhagfarnus, yng nghyswllt statws sengl, oherwydd bod ganddynt gydnabod personol agos**

**ymysg staff y Cyngor a'u bod yn gwybod y byddant yn cael eu heffeithio gan benderfyniad/au'r Cyngor.**

**Rhoddir y caniatâd yn unol â pharagraff 2(d) ac y mae wedi'i gyfyngu i siarad, ond nid i bleidleisio.**

**MR. MICHAEL WILSON**
**CADEIRYDD**

**Eitem Agenda Rhif.: …………**

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | PWYLLGOR SAFONAU |
| **Dyddiad:** | 16 MEDI 2015 |
| **Teitl yr Adroddiad:** | ADOLYGU RHEOLAU'R WEITHDREFN GYNLLUNIO – RHAN 4.6 Y CYFANSODDIAD |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | AR GAIS CADEIRYDD Y PWYLLGOR SAFONAU, ADOLYGU RHEOLAU'R WEITHDREFN GYNLLUNIO |
| **Awdur yr Adroddiad:** | PENNAETH GWASANAETH (CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD) A RHEOLWR GWASANAETHAU CYFREITHIOL / DIRPRWY SWYDDOG MONITRO |
| **Gweithredu:** | PENDERFYNU DERBYN YR ARGYMHELLIAD NA DDYLID GWNEUD UNRHYW NEWID I'R RHEOLAU AM Y RHESYMAU A RODDIR YN YR ADRODDIAD |

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae Rheolau'r Weithdrefn Gynllunio (y Rheolau) wedi'u gosod yn rhan 4.6 o Gyfansoddiad y Cyngor. **Mae copi ynghlwm yn atodiad 1.**

1.2 Nod y Rheolau yw darparu safon uchel o wrthrychedd a thryloywder wrth ddelio â materion cynllunio. Mae cynllunio yn aml yn bwnc sydd o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd a gall rhai materion cynllunio fod yn ddadleuol.

1.3 Mae'r Rheolau'n bwriadu cyflawni eu nod drwy:

- Osod gofynion a chanllawiau i aelodau lleol (fel aelodau'n gyffredinol ac fel aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio) a swyddogion wrth ddelio â cheisiadau cynllunio;
- Osod rheolau ar sut y dylid ymdrin â mathau penodol o geisiadau. Mae natur y ceisiadau hyn yn golygu y byddai angen i'r Cyngor gael ei weld yn eu trin yn deg – megis ceisiadau lle mai'r Cyngor yw'r ymgeisydd.

## 2 Newidiadau Blaenorol

2.1 Mae'r Rheolau wedi cael eu hadolygu a'u diwygio yn gyfnodol dros y blynyddoedd ers eu mabwysiadu'n wreiddiol yn 2001. Cafodd y Rheolau eu hadolygu a'u diwygio ddiwethaf yn 2013. Roedd y newidiadau hynny er mwyn:

- Cau man gwan posib yn y Rheolau lle byddai ceisiadau cynllunio penodol oedd yn mynd yn groes i bolisi dal yn cael eu cyfeirio i'r Pwyllgor yn awtomatig am benderfyniad oherwydd bod yr ymgeisydd yn swyddog perthnasol (neu'n perthyn yn agos i swyddog perthnasol);
- Adlewyrchu ymagwedd fwy rhyddfrydol y llywodraeth yn adran 25 Deddf Lleoliaeth 2011 - h.y. caniatáu rôl ehangach i'r aelodau heb y risg o gael eu herio ar sail rhagfarn neu o fod wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw.

Gwnaed y newidiadau hyn gan y Cyngor llawn yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Gwaith ac ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 12 Medi 2013. **Mae copi o'r adroddiad i'r Pwyllgor hwn ynghlwm yn atodiad 2.**

## 3 Y Sefyllfa Bresennol

3.1 Nid yw'r swyddogion yn ymwybodol o unrhyw broblemau cyfredol o ran sut mae'r Rheolau'n cael eu gweithredu neu eu dehongli. Nid ymddengys fod yna unrhyw broblemau mawr neu gynhenid gyda'r Rheolau yn eu ffurf bresennol. Yn gyffredinol, maent i'w gweld yn gweithio'n dda ac nid oes unrhyw fater penodol y gwyddys sy'n peri anawsterau difrifol. Mae aelodau a swyddogion o dro i dro yn ceisio cyngor ar rannau penodol o'r Rheolau fel maent yn berthnasol i faterion cynllunio penodol, ond nid yn yr ystyr bod y Rheolau yn rhy feichus, yn rhy gaeth neu fel arall yn rhy llac.

## 4 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

4.1 Cafodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (y Ddeddf) Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2015 ac fe ddaw i rym gam wrth gam. Un o amcanion allweddol y Ddeddf yw moderneiddio'r fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio.

4.2 Nawr, mae'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru dan y Ddeddf yn cynnwys pwerau i gyfyngu nifer yr aelodau ar bwyllgor cynllunio ac i reoleiddio a safoni gweithdrefnau pwyllgorau o'r fath. Caiff ail ran hyn ei gyflawni trwy fabwysiadu protocolau cenedlaethol gan felly sicrhau cysondeb y gweithdrefnau mewn gwahanol bwyllgorau cynllunio a sicrhau bod ceisiadau tebyg yn cael eu trin yn debyg trwy Gymru gyfan.

4.3 Mae'n debyg felly y bydd protocol cenedlaethol yn disodli unrhyw reolau lleol sy'n bodoli o ran gweithdrefnau mewn pwyllgorau cynllunio – megis y Rheolau sy'n

gweithredu yma.  Mae'n bosib y bydd nifer o'r darpariaethau yn y Rheolau presennol hefyd yn ymddangos mewn protocol cenedlaethol.

4.4 Gan ei bod yn debyg y bydd y protocol cenedlaethol yn dod i rym yn y misoedd nesaf, mae'n rhesymol peidio ag awgrymu newidiadau i'r Rheolau yn awr.  Mae'n debyg y bydd y Rheolau yn cael eu disodli gan ddarpariaethau'r protocol newydd pan ddaw i rym.  Byddai gwneud newidiadau i'r Rheolau yn awr pan fydd rhagor o newidiadau gweithdrefnol yn dod yn fandadol yn fuan yn creu dryswch ymysg y rheini sy'n gorfod gweithredu'r gweithdrefnau hynny a chymryd rhan yn y system gynllunio yn lleol. Byddai'n gwneud mwy o synnwyr i neilltuo adnoddau sydd ar gael er mwyn gweithredu, ymgorffori a rhoi hyfforddiant yn lleol ar y protocol cenedlaethol newydd pan ddaw i rym.

## 5 Argymhelliad

5.1 Bod yr aelodau'n nodi'r sefyllfa a'r newidiadau arfaethedig a ragwelir gan y Ddeddf ac yn cymeradwyo bod adnoddau'n cael eu neilltuo i weithredu a darparu hyfforddiant ar y protocol cenedlaethol newydd pan ddaw i rym ac ychydig ynghynt.

ATODIAD / ENCLOSURE
1

4.5.18 Materion o fewn cylch gorchwyl mwy nag un Pwyllgor Sgriwtini
Pan fo Pwyllgor Sgriwtini yn gwneud adolygiad neu yn sgriwtineiddio mater sydd hefyd yn dod o fewn cylch gorchwyl Pwyllgor Sgriwtini arall (boed hynny'n gyfan gwbl neu'n rhannol) bydd adroddiad y Pwyllgor Sgriwtini sy'n adolygu, cyn cyflwyno'r casgliadau ynddo i'r Pwyllgor Gwaith a/neu i'r Cyngor, yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini arall i bwrpas derbyn sylwadau. Bydd y sylwadau hynny yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad a yrrir ymlaen wedyn at y corff hwnnw i'w ystyried.

4.5.19 Y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn defnyddio ei bwerau yng nghyswllt swyddogaethau Trosedd ac Anhrefn

Nid yw paragraffau 4.5.10, 4.5.11 na 4.5.12 uchod yn berthnasol yn y sefyllfa hon. Gall y Pwyllgor hwn adolygu a sgriwtineiddio penderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd yng nghyswllt cyflawni swyddogaethau trosedd ac anhrefn gan Awdurdod Cyfrifol dan Adrannau 5 a 6 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Gall y Pwyllgor gyflwyno adroddiadau neu argymhellion i'r Cyngor llawn neu i'r Pwyllgor Gwaith yng nghyswllt cyflawni swyddogaethau trosedd ac anhrefn a than amgylchiadau o'r fath bydd raid iddo gyflwyno copi i bob Awdurdod Cyfrifol ac i'r Bobl a'r Cyrff Cydweithredol hynny a nodir yn y Ddeddf.
Hefyd bydd raid i'r Pwyllgor ystyried unrhyw fater trosedd ac anhrefn lleol (fel y diffinnir hynny dan Adran 19 Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006) sy'n ymddangos ar raglen y cyfarfod ar ôl i'r mater gael ei drosglwyddo i'r Pwyllgor gan aelod o'r Cyngor. Rhaid iddo ystyried a ydyw am baratoi adroddiad neu argymhellion i'r Cyngor llawn a/neu'r Pwyllgor Gwaith yng nghyswllt y mater trosedd ac anhrefn lleol gan ystyried unrhyw sylwadau a wnaeth yr aelod cysylltiedig. Os ydyw'r Pwyllgor yn penderfynu peidio â pharatoi adroddiad nac argymhellion rhaid iddo roddi gwybod i'r aelod perthnasol am ei benderfyniad ac egluro pam. Os ydyw'r Pwyllgor yn paratoi adroddiad neu argymhellion i'r Cyngor llawn a/neu'r Pwyllgor Gwaith yna rhaid iddo gyflwyno copi o'r adroddiad neu o'r argymhellion i'r aelod cysylltiedig ac i'r Awdurdod Cyfrifol a'r Bobl neu'r Cyrff Cydweithredol yn ôl fel y tybio'n briodol.

Pryd bynnag y bydd y Pwyllgor yn cyflwyno copi o adroddiad neu o argymhellion i Awdurdod Cyfrifol neu i Bobl neu Gyrff Cydweithredol bydd raid iddo hefyd atgoffa'r Awdurdod/Corff o'i ddyletswydd statudol i ystyried yr adroddiad neu'r argymhellion wrth gyflawni ei swyddogaethau, hefyd ystyried yr adroddiad neu'r argymhellion ac ymateb i'r Pwyllgor gan ddweud pa gamau (os cymerir camau) y mae'r person neu'r corff hwnnw yn bwriadu eu cymryd.

## 4.6 Rheolau Gweithdrefn Cynllunio

### Cynnwys

4.6.1 Cyflwyniad
4.6.2 Penderfynu ar geisiadau cynllunio
4.6.3 Trafodaethau rhagarweiniol (cyn gwneud penderfyniad) swyddogion gydag Ymgeiswyr


Awdur: Gwasanaethau Cyfreithiol, Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn
cyfraithpolisi@ynysmon.gov.uk

4.6.4 Cynghorwyr yn lobïo ac yn cael eu lobïo
4.6.5 Trefniadau siarad ac eistedd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion
4.6.6 Cyfarfodydd cyhoeddus yn ymwneud â chynigion datblygu
4.6.7 Cynghorwyr sy’n aelodau o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a hefyd yn gynghorwyr tref neu gymuned
4.6.8 Gohebiaeth a dderbyniwyd gan gynghorwyr
4.6.9 Cofrestru a datgan diddordeb
4.6.10 Cynghorwyr a swyddogion yn cyflwyno cynigion datblygu
4.6.11 Adroddiadau swyddogion i’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion
4.6.12 Penderfynu yn groes i argymhellion Swyddogion a/neu’r cynllun datblygu
4.6.13 Apeliadau yn erbyn penderfyniadau’r Cyngor
4.6.14 Ymddygiad swyddogion
4.6.15 Y berthynas rhwng Cynghorwyr a swyddogion
4.6.16 Ymweliadau safle gan y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion
4.6.17 Anrhegion a lletygarwch
4.6.18 Hyfforddiant
Atodiad
4.6.19 Protocol ar gyfer ymweliadau’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion â Safleoedd
4.6.20 Rôl Cadeirydd y Pwyllgor
4.6.21 Y Cyhoedd yn siarad

**4.6.1 Cyflwyniad**

4.6.1.1 Un o ddyletswyddau pwysig y Cyngor Sir yw penderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae’r rheolau hyn yn pennu sut y bydd y Cyngor, fel awdurdod cynllunio lleol, yn delio â cheisiadau cynllunio ac maent yn berthnasol i gynghorwyr a swyddogion gan ddibynnu ar y cyd-destun.

4.6.1.2 swyddogion Cynllunio, yn gweithredu ar ran yr awdurdod cynllunio lleol, fydd yn penderfynu ar y rhan fwyaf o’r ceisiadau a’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion (y Pwyllgor) fydd yn penderfynu ar bob cais arall. Mae’r rheolau sy’n pennu pa un ai swyddogion ynteu’r Pwyllgor fydd yn penderfynu ar geisiadau yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn. O’r achosion hynny lle gall y Pwyllgor wneud y penderfyniad, yr un mwyaf arwyddocaol yw lle y gall cynghorydd lleol (sef unrhyw un sy’n cynrychioli’r ardal leol lle mae’r tir sy’n destun cais cynllunio) fynnu ar gyflwyno cais i’r Pwyllgor benderfynu arno (un a allai fel arall gael ei benderfynu gan swyddogion). Yn yr achosion hyn, rhaid i’r cynghorydd lleol ‘alw i mewn’ yn ysgrifenedig gais o’r fath a gan gyfeirio’r cais galw i mewn at y Prif Swyddog Cynllunio o fewn 21 diwrnod o ddyddiad y llythyr yn rhoi gwybod iddo/iddi am y cais. Yn achos y ceisiadau hynny a elwir yn rhai economaidd “gyda brys” caniateir 14 diwrnod yn unig i’w trosglwyddo i’r Pwyllgor. Gall y cynghorydd lleol sydd wedi galw’r cais cynllunio i mewn dynnu’n ôl eu cais i alw penderfyniad i mewn ar unrhyw adeg cyn cyhoeddi Rhaglen y Pwyllgor drwy roi gwybod i’r swyddog achos a chadarnhau’n ysgrifenedig bod y cais yn cael ei dynnu’n ôl.


Awdur: Gwasanaethau Cyfreithiol, Swyddfa’r Dirprwy Brif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn
cyfraithpolisi@ynysmon.gov.uk

4.6.1.3 Nid yw cynllunio yn wyddor fanwl. Yn hytrach, mae'n dibynnu ar farn gytbwys oddi mewn i gyd-destun polisi cadarn. Mae hefyd yn dra dadleuol oherwydd bod y penderfyniadau'n cael effaith ar fywyd bob dydd pawb a buddiannau preifat unigolion, tirfeddianwyr a datblygwyr. Caiff hyn ei ddwysáu gan natur agored y drefn (mae'n mynd o'i ffordd i wahodd y farn gyhoeddus cyn penderfynu) a natur gyfreithiol cynlluniau datblygu a rhybuddion penderfyniad. Mae'n bwysig, felly, bod y broses o wneud penderfyniadau yn agored ac eglur.

4.6.1.4 Un o amcanion allweddol y drefn gynllunio yw rheoli datblygiadau er lles y cyhoedd. Wrth gyflawni hyn, mae cynllunio o reidrwydd yn cael effaith ar fuddiannau tir ac eiddo, gwerth ariannol tiroedd ac ansawdd yr amgylchedd. Mae'n bwysig, felly, bod awdurdodau cynllunio lleol yn gwneud penderfyniadau cynllunio yn agored pan gânt effaith ar y buddiannau hyn a bod y penderfyniadau yn ddiduedd, yn seiliedig ar farn ddoeth ac wedi eu gwneud am resymau y mae modd eu cyfiawnhau. Ni ddylai'r broses adael dim lle i awgrymu, gydag unrhyw gyfiawnhad, bod penderfyniad yn rhagfarnllyd, yn unochrog neu heb fod yn deg.

**4.6.2 Penderfynu ar Geisiadau Cynllunio**

4.6.2.1 Weithiau bydd penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn cael eu galw yn benderfyniadau rheoleiddiol neu led-farnwrol ac mae hyn yn golygu fod rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau o'r fath

4.6.2.1.1 ystyried yr holl ystyriaethau cynllunio perthnasol

4.6.2.1.2 anwybyddu ystyriaethau amherthnasol neu rai y tu allan i'r maes cynllunio

4.6.2.1.3 gweithredu'n ddiduedd, yn deg a pheidio ystyried unrhyw ystyriaethau gwleidyddol

4.6.2.2 Mae cyfraith cynllunio yn mynnu bod awdurdodau cynllunio lleol yn penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu Statudol oni bai fod ystyriaethau cynllunio perthnasol yn dangos fel arall. Mae'r pwyslais wrth benderfynu ar geisiadau ar drefn 'yn ôl cynllun'.

4.6.2.3 Dibynna'r gyfundrefn gynllunio ar ystyried cynigion preifat yn erbyn lles cyffredinol y cyhoedd. Yn aml mae llawer yn y fantol yn y broses hon a bydd y rhai sy'n rhan ohoni yn aml yn tynnu'n groes iawn i'w gilydd.

4.6.2.4 Mae'n ddyletswydd ar y bobl hynny sy'n penderfynu ar geisiadau cynllunio i ystyried sylwadau ddaw i olwg yr awdurdod cynllunio lleol o ganlyniad i ymgynghori gyda chyrff â diddordeb neu o ganlyniad i rybudd cyhoeddus neu hysbysu cymdogion. Wrth bwyso a mesur mae angen penderfynu pa sylwadau sy'n berthnasol i'r penderfyniad a pha bwysau i osod arnynt. Ni ddylai'r Pwyllgor ddod i gasgliad hyd oni fydd holl ffeithiau wedi'u cyflwyno yn adroddiad y swyddog i'r Pwyllgor.

4.6.2.5 Rhaid i gynghorwyr beidio â gwneud ymrwymiad ynghylch unrhyw fater cynllunio cyn ei ystyried yn y Pwyllgor. Mae'n cael ei dderbyn, fodd bynnag, y bydd ymgeiswyr, asiantiaid a gwrthwynebwyr o bryd i'w gilydd yn mynd i ben cynghorwyr unigol ynghylch cynigion cynllunio. Amcan y rheolau hyn yw cynorthwyo cynghorwyr i drin digwyddiadau o'r fath a chawsant eu llunio i sicrhau cadw cywirdeb y drefn benderfynu.

4.6.2.6 Gallai peidio â dilyn y Rheolau hyn, heb reswm da, fod yn ystyriaeth mewn ymchwiliadau i achosion posibl o gamweinyddu neu mewn ymchwiliad i ymddygiad Cynghorwyr ac/neu Swyddogion.

**4.6.3 Trafodaethau Rhagarweiniol (Cyn Gwneud Penderfyniad) Swyddogion GydagYmgeiswyr**

4.6.3.1 Mewn unrhyw drafodaethau ar faterion cynllunio, eglurir bob amser ar y dechrau na fydd trafodaeth o'r fath :

- yn ymrwymo'r awdurdod cynllunio lleol i wneud penderfyniad penodol, a
- bod unrhyw sylwadau yn cael eu mynegi ar sail barn broffesiynol y swyddogion ar y pryd ond heb ymrwymo'r awdurdod cynllunio lleol i unrhyw benderfyniad arbennig.

4.6.3.2 Bydd unrhyw gyngor a roddir :

- yn gyson ac yn seiliedig ar y Cynllun Datblygu ac ystyriaethau perthnasol eraill.
- yn ddiduedd a'r gorau y gall swyddog ei roddi dan yr amgylchiadau, a
- bydd yn ceisio dwyn sylw at unrhyw broblemau amlwg.

4.6.3.3 Ni chaiff cynghorydd – p'un a ydynt yn gwasanaethu ar y Pwyllgor ai peidio - gymryd rhan yn nhrafodaethau'r swyddogion gydag ymgeiswyr ar unrhyw adeg cyn penderfynu ar y cais.

**4.6.4 Cynghorwyr yn Lobïo ac yn cael eu Lobïo**

**4.6.4.1 Cynghorwyr sy'n Aelodau o'r Pwyllgor**

4.6.4.1.1 Mae ymgeiswyr, gwrthwynebwyr ac eraill â diddordeb yng nghanlyniad ceisiadau cynllunio yn debygol o gysylltu gyda Chynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor. Oherwydd natur led-farnwrol neu reoleiddiol penderfyniadau cynllunio, ni ddylai cynghorwyr ar y Pwyllgor ganiatáu i neb eu lobïo - pa un ai o blaid neu yn erbyn cais. Os digwydd hynny, dylent hysbysu'r person sy'n ceisio pwyso arnynt, os bydd iddynt drafod y cais gyda'r person hwnnw, y gall hynny eu gwahardd rhag cymryd rhan yn y penderfyniad ar y cais. Yn lle hynny, dylid cynghori darpar lobïwyr i gysylltu gyda'u cynghorydd lleol (gweler 4.6.4.3 isod) neu swyddog priodol yn yr Adran Gynllunio.

4.6.4.1.2 Ni ddylai cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor drefnu cefnogaeth neu wrthwynebiad lleol i gynnig cynllunio os ydynt am gymryd rhan yn y drafodaeth ar y cais yn ddiweddarach.

4.6.4.1.3 Wrth ystyried yr angen i wneud penderfyniadau'n ddiduedd, ni ddylai cynghorwyr ar y Pwyllgor ffafrio, na rhoi'r argraff o ffafrio, unrhyw berson, cwmni, grŵp nac ardal, na datgan cyn y cyfarfod pa ffordd y bwriadant bleidleisio. Byddai gwneud hynny heb gael yr holl wybodaeth a sylwadau perthnasol yn annheg a niweidiol. Os bydd cynghorydd yn teimlo y byddai'r cyhoedd yn credu iddynt ddod i farn bendant ar y mater neu gais cynllunio cyn y cyfarfod, neu fod person â diddordeb wedi pwyso arnynt, ni ddylent gymryd rhan yn y drafodaeth, na phleidleisio ar y mater. Nid yw hyn yn cael effaith ar eu hawl i annerch y Pwyllgor yn ôl darpariaeth adran 5.2 y rheolau hyn (4.6.5.2).

4.6.4.1.4 Pan fo'r Swyddog Monitro neu gynrychiolydd yn credu bod cynghorydd wedi gwneud drwg i'w sefyllfa trwy fynegi barn bendant ar gais cyn i'r Pwyllgor benderfynu arno, bydd y Swyddog Monitro neu gynrychiolydd yn hysbysu'r cynghorydd y byddai'n amhriodol iddo gymryd rhan yn y drafodaeth, neu bleideisio ar y cais. Gyda'r cynghorydd, fodd bynnag, mae'r penderfyniad terfynol - ond bydd yn wynebu sgriwtini o'r tu allan.

**4.6.4.2**

Ni ddylai ymgeiswyr, gwrthwynebwyr nac unrhyw un sydd â diddordeb yn y penderfyniad terfynol ar gais cynllunio lobïo Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor ac ni ddylai'r Cynghorwyr rheini adael i'w hunain gael eu lobïo. Ni ddylai Cynghorwyr - p'un a ydynt ar y Pwyllgor ai peidio - lobïo Cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor.
4.6.4.3 Cynghorwyr Lleol

4.6.4.3.1 Mae gwahaniaethau i'r rheolau sy'n ymddangos yn 4.6.4.1.1 a 4.6.4.2 yng nghyswllt ycynghorydd lleol, h.y. unrhyw un o'r cynghorwyr y mae'r datblygiad arfaethedig yn eu ward.
4.6.4.3.2 Os nad yw'r cynghorydd lleol yn aelod o'r Pwyllgor yna mae'n iawn i ymgeisydd, in wrthwynebydd neu unrhyw un arall â diddordeb yn y penderfyniad terfynol ar y cais cynllunio lobïo'r cynghorydd lleol hwnnw. Os ydyw'r cynghorydd lleol yn cael ei lobïo a chyda'r amod nad oes ganddo ddiddordeb i'w ddatgan yn unol â'r Côd Ymddygiad i gynghorwyr, yna bydd â'r hawl i gyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor a siarad yn y Pwyllgor. Fodd bynnag, ni ddylai ef/hi ei hun lobïo, naill a'i uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, gynghorwyr sydd ar y Pwyllgor.

4.6.4.3.3. Os oes cynghorydd lleol yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, yna bydd darpariaethau rheol 4.6.4.3.2. uchod yn berthnasol iddynt ond gall o/hi os ydynt yn dymuno, gyfeirio'r person sy'n ceisio ei lobïo i gynghorydd arall sydd ddim ar y Pwyllgor ac i bwrpas y rheolau hyn, bydd cynghorydd o'r fath yn cael ei ystyried fel cynghorydd lleol.

4.6.4.3.4 Ni all y cynghorwyr lleol gyflwyno sylwadau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor na chwarae rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio os oes ganddynt ddiddordeb i'w ddatgan yn unol â Côd Ymddygiad i gynghorwyr. Bydd hyn yn berthnasol - pa un a ydynt yn aelodau ai peidio o'r Pwyllgor. Os ydyw cynghorydd lleol yn cael ei hun yn y sefyllfa hon dylai gyfeirio unrhyw lobïwr at gynghorydd arall sydd ddim yn aelod o'r Pwyllgor ac i bwrpas y rheolau hyn, bydd cynghorydd o'r fath yn cael ei ystyried fel cynghorydd lleol.

4.6.4.4 Pan fo llythyrau hysbysu cymdogion yng nghyswllt cais cynllunio yn cael eu hanfon i eiddo heb fod yn yr un ward â safle'r cais yna gall cynghorwyr sy'n cynrychioli'r eiddo dan sylw siarad fel cynghorwyr lleol yn y Pwyllgor. Dim ond yr hawl i siarad yn y Pwyllgor a roddir dan y rheol hon ac nid yw'n rhoddi unrhyw hawliau eraill i'r cynghorydd dan sylw fel cynghorydd lleol.

**4.6.5 Trefniadau Siarad ac Eistedd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

4.6.5.1.1 Pryd bynnag y byddant yn mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor dylai cynghorwyr nad ydynt ar y Pwyllgor eistedd hollol ar wahân i gynghorwyr sydd ar y Pwyllgor p'n a ydynt yn bwriadu annerch y Pwyllgor ai peidio. Ni ddylent siarad â'r cynghorwyr hynny sydd ar y Pwyllgor ac a fydd yn gwneud penderfyniadau. Pwrpas y rheol hon yw pwysleisio natur lled-farnwrol trafodaethau'r Pwyllgor ar geisiadau cynllunio.

4.6.5.2 Bydd yr hawl i annerch y Pwyllgor yn berthnasol hefyd i aelodau o'r Pwyllgor (gan gynnwys cynghorydd lleol):

- sydd wedi ei lobïo, neu
- all fod eisoes wedi mynegi barn bendant ar gais, neu
- sydd wedi siarad ar y cais ar lefel Cyngor Tref neu Gyngor Cymuned, neu
- unrhyw gynghorydd sy'n cynrychioli ward arall fel y cyfeiriwyd at hynny yn 4.6.4.3.3.

Fodd bynnag, os caiff yr hawl hon ei hymarfer, dylai'r cynghorwyr ar y Pwyllgor gydymffurfio â pharagraff 4.6.5.1 uchod pan fydd y mater arbennig yn cael ei ystyried. Ni allant gymryd rhan yn y penderfyniad a dylent ddatgan yn y cyfarfod pam nad ydynt yn cyfranogi yn y penderfyniad.

4.6.5.3 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cynnal busnes y cyfarfod yn unol â'r Atodiad sydd ynghlwm.

**4.6.6 Cyfarfodydd Cyhoeddus yn ymwneud â Chynigion Datblygu**

4.6.6.1 Ni ddylai swyddogion sy'n ymwneud â phrosesu neu benderfynu ar faterion cynllunio fynychu cyfarfodydd cyhoeddus mewn perthynas â chynigion datblygu neu geisiadau cynllunio a gyflwynwyd, onid yw'r cyfarfodydd hynny wedi eu trefnu gan yr Awdurdod, neu gyda'i gytundeb pendant. Gallai mynychu arwain at honiadau o ochri

neu ragfarn o ran safbwynt arbennig. O'u cael yn y fath sefyllfa o fynychu cyfarfodydd a drefnwyd gan, neu gyda chydsyniad, yr Awdurdod, neu trwy ddamwain, yna dylai swyddogion fod yn ofalus iawn eu bod yn aros yn ddiduedd, yn canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth ffeithiol, yn gwrando ar sylwadau ac yn osgoi rhoi barn ar fanteision neu anfanteision y cynnig.

4.6.6.2 Yn yr un modd, dylai cynghorwyr sy'n ymwneud â phenderfynu ar geisiadau cynllunio fod yn ofalus iawn eu bod yn aros yn ddiduedd pan yn mynychu cyfarfodydd cyhoeddus ar faterion cynllunio. Mewn cyfarfodydd o'r fath, dylai Cynghorwyr fod yn wyliadwrus wrth ddatgan eu barn ar rinweddau'r bwriad. Fe allent ddatgan rhagdueddiad ond ni ddylent fynegi unrhyw beth a all gael ei ddehongli un ai fel rhagbenderfyniad neu ragfarn o blaid neu yn erbyn y bwriad. Awgrymir y dylai Cynghorwyr sydd eisiau gwneud sylw egluro'n glir fod eu barn yn un amodol, yn seiliedig ar eu gwybodaeth ar y pryd ac y bydd angen iddynt ystyried y mater o'r newydd ac yng ngoleuni'r holl faterion perthnasol pan yn gwneud penderfyniad ar y cais. Mewn achos lle mae Cynghorydd sy'n aelod o'r Pwyllgor yn dangos ei fod wedi cau ei feddwl i gais penodol (h.y. eu bod wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw) neu fod ganddynt ragfarn am y bwriad, yna mae'r gyfraith yn eu gwahardd rhag cymryd rhan yn y penderfyniad.

**4.6.7 Cynghorwyr sy'n Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a hefyd yn Gynghorwyr Tref neu Gymuned**

4.6.7.1 Nid oes unrhyw egwyggor mewn cyfraith i wahardd Cynghorydd sydd wedi cymryd rhan mewn mater cynllunio mewn Cyngor Tref neu Gymuned rhag cymryd rhan yn y mater fel aelod o'r Pwylgor Cynllunio ar yr amod nad yw'r cynghorydd wedi penderfynu ymlaen llaw neu ddangos rhagfarn ar y cais.

4.6.7.2 Mae hawl gan Gynghorwyr i ddangos rhagdueddiad ar fater ond mae'n rhaid iddynt sicrhau nad ydynt wedi rhagbenderfynu'r mater (h.y. nad ydynt wedi cau eu meddyliau i rinweddau'r bwriad). Yn syml, mae Cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor Cynllunio yn cael rhoi arwydd yn gyhoeddus o'u barn am unrhyw gais cyn y gelwir arnynt i wneud penderfyniad arno ond mae'n rhaid i'w sylwadau gael eu geirio'n rhesymol ac mae'n rhaid iddynt gydnabod nad ydynt wedi cau eu meddyliau i benderfynu ar y cais yn y dyfodol ar ei rinweddau.

4.6.7.3 Awgrymir yn gryf bod unrhyw Gynghorydd sydd ar y Pwyllgor Cynllunio ac sy'n teimlo bod rhaid iddynt wneud datganiad cyhoeddus ar gais cyn i'r cais hwnnw ddod gerbron y Pwyllgor, yn datgan bod eu barn yn un amodol; yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ganddynt ar y pryd; ac y bydd yn rhaid iddynt ystyried y mater o'r newydd ar sail pob ystyriaeth berthnasol i'r cais pan ddaw'r amser i wneud penderfyniad ar y cais (gweler hefyd 4.6.6.2 uchod).

**4.6.8 Gohebiaeth y mae cynghorwyr yn ei derbyn**

Os bydd cynghorwyr yn derbyn unrhyw ohebiaeth yn uniongyrchol oddi wrth bobl â

diddordeb yng nghanlyniad cais cynllunio, bydd raid iddynt sicrhau fod copi yn cael ei anfon i'r Adain Rheoli Cynllunio. Yna bydd yr Adain yn gwneud y canlynol:

4.6.8.1 os bydd amser yn caniatáu, anfon copi at yr ymgeisydd neu ei asiant/hasiant er mwyn rhoi'r cyfle iddo/iddi ymateb;

4.6.8.2 rhoi copi o'r holl sylwadau ar y ffeil Gynllunio;ac

4.6.8.3 os bydd amser yn caniatáu, sicrhau fod yr adroddiad i'r Pwyllgor yn cyfeirio at yr ohebiaeth a dderbyniwyd.

**4.6.9 Cofrestru a Datgan Diddordeb**

Mae'r Gyfraith a Chodau Ymddygiad y Cyngor ar gyfer cynghorwyr a swyddogion ar y materion hyn yn arbennig o berthnasol i'r rheiny sy'n ddelio â cheisiadau cynllunio a rhaid eu dilyn bob amser.

**4.6.10 Cynghorwyr a Swyddogion yn Cyflwyno Cynigion Datblygu**

4.6.10.1 Gall cynigion cynghorwyr mewn gwasanaeth (pa un a ydynt yn gynghorwyr ar y Pwyllgor ai peidio) a swyddogion a'u cyfeillion agos a pherthnasau agos yn hawdd beri amheuon o afreoleidd-dra. Mae'n hanfodol trin y cyfryw gynigion mewn ffordd sy'n osgoi amgylchiadau a allai beri cyhuddiadau o ffafriaeth. Yn y rheolau hyn, mae "perthnasau" yn golygu gwr/gwraig neu bartner, rhiant, nain/taid, mab/merch, wyr/wyres, brawd neu chwaer.

4.6.10.2 Cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor eu hystyried ar geisiadau cynllunio sydd yn y categorïau isod ac ni fydd swyddogion yn delio gyda nhw dan 'bwerau dirprwyol':
- ceisiadau gan gynghorydd cyfredol neu rywun sy'n perthyn iddo/iddi
- ceisiadau lle mae cynghorydd cyfredol yn gweithredu fel asiant neu pan fo wedi paratoi unrhyw ran o'r cais neu'r cynlluniauceisiadau gan swyddog perthnasol neu berthynas iddo/iddi. Dan y rheol hon, mae "swyddog perthnasol" yn golygu'r Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr, yr holl Gyfarwyddwyr, yr holl Benaethiaid Gwasanaeth, yr holl swyddogion sy'n gweithio yn yr Adran Gynllunio a'r holl swyddogion eraill y mae eu gwaith yn uniongyrchol gysylltiedig â'r broses rheoli datblygu (megis swyddogion yn yr Adran Briffyrdd ac Iechyd Amgylchedd yr ymgynghorir â nhw neu gyfreithwyr sy'n cynghori ac yn cynrychioli'r Adran Gynllunio mewn materion rheoli datblygu),

- ceisiadau lle mae'r ymgeisydd yn ffrind agos i gynghorydd cyfredol neu swyddog perthnasol.

Dan y rheol hon, bydd "cais cynllunio" yn golygu pob cais y mae'n rhaid ei wneud trwy statud ac a fyddai (oni bai am y rheol hon) yn cael eu penderfynu dan Gyfansoddiad y Cyngor gan y Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio. Byddai'r rhain yn cynnwys ceisiadau


Awdur: Gwasanaethau Cyfreithiol, Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn
cyfraithpolisi@ynysmon.gov.uk

am ganiatâd amlinellol, cymeradwyo materion a gadwyd, caniatâd adeilad rhestredig,caniatâd ardal gadwraeth, caniatâd dan Orchmynion Cadw Coed ac ati.

4.6.10.3 Bydd swyddogion Cynllunio yn ymdrechu i ganfod a dwyn sylw at geisiadau o'r fath abyddant wedyn yn hysbysu Pennaeth y Gwasanaeth Cynllunio a Swyddog Monitro'r Awdurdod.Ni ddylai cynghorwyr cyfredol sy'n cyflwyno ceisiadau, sy'n gweithredu fel asiantiaid neu sy'n paratoi cynllunio neu y mae eu perthnasau'n cyflwyno cieisiadau, gymryd unrhyw rhan yn y broses o wneud penderfyniad ynglyn â'r cais hwnnw.

4.6.10.4 Dylai'r Swyddog Monitro gadarnhau yn yr adroddiad i'r Pwyllgor hwnnw fod cais o'r fath wedi cael ei brosesu yn y modd arferol ac, felly, rhaid i'r swyddog gael cyfle i adolygu'r ffeil.

4.6.10.5 Ni ddylai swyddogion sy'n ymwneud â'r broses rheoli datblygubaratoi cynlluniau na gweithredu fel asiant i unrhyw berson na chorff (gan gynnwys Aelodau o'u teuluoedd eu hunain) sy'n mynd ar ôl mater cynllunio gyda'r Cyngor. Os byddant yn cyflwyno cynnig ar eu rhan eu hunain, ni ddylent fod yn rhan o brosesu'r cais hwnnw.

**4.6.11 Adroddiadau Swyddogion i'r Pwyllgor**

4.6.11.1 Bydd adroddiad ysgrifenedig llawn, gan gynnwys asesiad rhesymedig o'r cynnig ac argymhelliad gyda chyfiawnhad, ynghlwm wrth bob cais cynllunio sy'n mynd gerbron y Pwyllgor.

4.6.11.2 Bydd unrhyw faterion newydd sydd wedi codi rhwng adeg paratoi'r adroddiad a dyddiad cyfarfod y Pwyllgor yn cael eu cyflwyno ar lafar a bydd cyfeiriadau at hynny yn y cofnodion.

4.6.11.3 Bydd ffeil pob cais cynllunio yn cynnwys adroddiad manwl ar ddigwyddiadau drwy gydol oes y cais; yn arbennig bydd yn cynnwys canlyniad cyfarfodydd neu sgyrsiau arwyddocaol ar y ffôn.
4.6.11.4 Bydd yr un egwyddorion o gadw cofnodion da hefyd yn cael eu dilyn gyda materion gorfodi. Bydd rheolwyr yn yr Adain Rheoli Datblygu yn goruchwylio'r broses o gadw cofnodiadau yn barhaus.

**4.6.12 Penderfynu yn groes i Argymhellion Swyddogion**

4.6.12.1 Pan fo'r Pwyllgor yn penderfynu naill ai cymeradwyo neu wrthod datblygiad arfaethedig yn groes i argymhelliad swyddog, bydd yr eitem yn cael ei gohirio hyd y cyfarfod dilynol fel bod cyfle i'r swyddogion gyflwyno adroddiad pellach ar y mater. Rhaid i'r Pwyllgor nodi'r rhesymau dros ddymuno penderfynu yn erbyn argymhelliad y swyddog. Dylai aelodau'r Pwyllgor lynu wrth y Rheolau hyn wrth wneud penderfyniadau cynllunio a chymryd i ystyriaeth arweiniad a rydd swyddogion cynllunio a phleidleisio yn erbyn eu hargymhellion dim ond yn yr achosion hynny lle

mae modd nodi rhesymau cynllunio gwirioneddol ac o bwys. Cedwir cofnod manwl o reswm(rhesymau) y Pwyllgor gan osod copi ar ffeil y cais. Pan fo penderfyniad yn cael ei wneud ar fater yn groes i argymhelliad, gall hynny arwain at gostau apêl a bydd y Pwyllgor yn cofnodi'r bleidlais wrth benderfynu ar y cais waeth beth fo gofynion paragraff 4.1.18.5 y Cyfansoddiad.

4.6.12.2 Yn adroddiad pellach y swyddog, ceir manylion am y rhesymau a gyflwynwyd gan yr aelodau, nodir a ydyw'r rhesymau hynny, yn eu barn nhw, yn faterion cynllunio gwirioneddol ac o bwys a thrafodir y materion defnydd tir a godwyd.

4.6.12.3 Pan fo cynghorwyr eisiau ychwanegu neu newid amodau a argymhellwyd gan swyddogion, dylid gwahodd y swyddogion i lunio amodau a'u cyflwyno, i'w cymeradwyo, yn y cyfarfod dilynol oni bai fod y llunio yn rhwydd a bod modd cytuno arno yn y cyfarfod gwreiddiol.

4.6.12.4 Pan fo swyddogion cynllunio yn methu ag amddiffyn penderfyniadau o'r fath ar apêl (oherwydd gofynion rheolau ymddygiad proffesiynol y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefi) byddant yn egluro'r mater hwn i'r Pwyllgor cyn cymryd pleidlais derfynol ar y mater. Mewn achosion o'r fath, bydd y Pwyllgor yn enwebu (o leiaf) dau o aelodau a bleidleisiodd yn groes i'r argymhelliad i fynychu unrhyw apêl ac egluro yn yr apêl benderfyniadau'r Pwyllgor a'r rhesymau amdanynt. Y ddau hyn fel arfer fydd cynigydd ac eilydd y cynnig sy'n groes i argymhelliad y swyddog.

### 4.6.13 Apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Cyngor

4.6.13.1 Bydd y swyddogion yn trefnu ac yn gyffredinol yn ymddangos fel tystion mewn apeliadau cynllunio ac mewn cyfarfodydd eraill ar ran y Cyngor. Dan rai amgylchiadau, efallai y bydd raid penodi ymgynghorwyr i ymddangos ar ran y Cyngor.

4.6.13.2 Wrth gyflwyno tystiolaeth, bydd swyddogion yn cyflwyno'r achos gorau bosib ar ran y Cyngor ond ar yr un pryd, bydd yn cydymffurfio gyda chôd ymddygiad proffesiynol y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefi.

4.6.13.3 Pan fo'n bosib apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed yn groes i argymhelliad swyddogion a'r swyddogion eisoes wedi dweud wrth y Pwyllgor na fedrant amddiffyn penderfyniad o'r fath, bydd y swyddogion yn cyflwyno adroddiad ar yr apêl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor. Y cynghorwyr fydd yn gyfrifol wedyn am gyflwyno achos y Cyngor yn yr apêl.

### 4.6.14 Ymddygiad Swyddogion

4.6.14.1 Mae Côd Ymddygiad Proffesiynol y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefol (RTPI) yn ganllaw i swyddogion sy'n Gynllunwyr Trefol Siartredig. Bydd raid i'r holl swyddogion, pa un a ydynt yn Aelodau o'r Sefydliad ai peidio, gadw at yr un egwyddorion sef –

4.6.14.1.1 Gweithredu yn fedrus, yn ddidwyll ac yn gywir;

4.6.14.1.2 Ymarfer eu barn broffesiynol annibynnol yn eofn ac yn ddiduedd hyd eithaf eu gallu a'u dealltwriaeth;

4.6.12.1.3 Cyflawni eu dyletswydd i'w cyflogwyr, cleientiaid, cydweithwyr ac eraill gyda dyledus ofal ac ymroddiad yn unol â darpariaethau'r Côd uchod;

4.6.12.1.4 Peidio â dwyn anfri ar y proffesiwn nac ar y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefol;

4.6.12.1.5 Peidio â datgelu na defnyddio gwybodaeth a gafwyd yn gyfrinachol yn ystod eu gwaith i'w mantais eu hunain na'r Awdurdod;

4.6.14.1.6 Gwrthod pob disgownt, anrheg neu gomisiwn sy'n cael ei gynnig gan unrhyw drydydd person mewn perthynas â'u gwaith fel cynllunwyr proffesiynol.

**4.6.15 Y berthynas rhwng Cynghorwyr a Swyddogion**

4.6.15.1 Er mwyn creu perthynas broffesiynol gadarn rhwng swyddogion a chynghorwyr bydd raid i'r naill barchu a deall swyddogaethau'r llall yn y broses benderfynu.

4.6.15.2 Rhaid i gynghorwyr barchu cyngor swyddogion yng nghyfarfodydd y Pwyllgor neu pan fônt yn delio gyda cheisiadau dirprwyol ac ni chânt bwyso ar swyddogion am argymhelliad neu benderfyniad arbennig. Dylai unrhyw swyddog sy'n ystyried bod hyn wedi digwydd ddelio gyda'r mater yn unol ag adran 5.3.4 y Cyfansoddiad hwn (Bwlio ac Ymddwyn yn Ymosodol neu'n Fygythiol).

**4.6.16 Ymweliadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion â Safleoedd**

4.6.16.1 Mae protocol ar ymweliadau safle yn yr Atodiad sydd ynghlwm wrth y rheolau hyn.

**4.6.17 Anrhegion a Lletygarwch**

4.6.17.1 Mae cyngor i gynghorwyr ar gofrestru anrhegion a lletygarwch yng Nghôd Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau a bydd raid glynu wrth y Côd.

4.6.17.2 Yn ystod gwneud eu gwaith, mae'n bosib y cynigir i swyddogion letygarwch gan bobl â diddordeb mewn cynigion cynllunio. Rhaid i swyddogion wrthod pob cynnig o'r fath. Onid oes modd osgoi derbyn lletygarwch, rhaid i swyddogion sicrhau nag fyddant yn derbyn mwy na sydd raid a datgan ei dderbyn i'r Swyddog Monitro mor fuan ag y bo modd.

**4.6.18 Hyfforddiant**

4.6.18.1 Ni all yr un aelod ymuno â'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion hyd oni fydd wedi mynychu hyfforddiant cynefin. Y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) fydd o bryd i'w gilydd yn penderfynu ar gynnwys yr hyfforddiant cynefin. Wedyn, cyflwynir hyfforddiant i ddiweddaru'r wybodaeth a'r sgiliau – bydd hynny'n digwydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac yn rhoi sylw i newidiadau i'r ddeddfwriaeth neu i'r weithdrefn.

4.6.18.2 Sicrha cynghorwyr eu bod yn mynychu o leiaf 3 achlysur hyfforddi dros gyfnod o ddwy flynedd er mwyn cadw ar y blaen i'r materion cynllunio ac yn gallu cyfrannu'n gadarnhaol yn y broses benderfynu. Bydd cofnodion presenoldeb yn cael eu monitro a'u cyflwyno i'r Cyngor. Bydd unrhyw aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion sy'n methu â mynychu nifer benodol a sylfaenol o sesiynau hyfforddi yn cael ei dynnu oddi ar y Pwyllgor neu'n cael ei atal rhag bod arno am gyfnod trwy bleidlais yn y Cyngor llawn pan gyflwynir i'r Cyngor adroddiad ar y cofnod mynychu. Atodiad –

**4.6.19 Protocol ar gyfer ymweliadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion âSafleoedd**

**4.6.19.1 Meini prawf ar gyfer ymweliadau safle**

4.6.19.1.1 Mae'n bwysig bod meini prawf yn cael eu sefydlu ar gyfer penderfynu pryd mae modd cyfiawnhau ymweliad â safle ac ystyried dull gweithredu ymweliadau o'r fath. Yn hyn o beth dylid ystyried y pwyntiau canlynol.
(i) gall ymweliadau safle :

- oedi'r broses benderfynu, ac
- efallai arwain at apêl i'r 'Arolygiaeth Gynllunio' ar sail 'methu â phenderfynu';
- gall effeithio ar berfformiad y gwasanaeth o ran ei darged 8 wythnos a
- pheri costau ychwanegol i'r Gwasanaeth ac efallai i'r ymgeis(-ydd/-wyr) fel ei gilydd.

(ii) mae angen cysondeb wrth benderfynu ar ymweld â safle a sut i gynnal ymweliad o'r fath. Fel arall gall adael yr Awdurdod yn agored i'r cyhuddiad fod ymweliadau safle yn fympwyol neu efallai yn ddyfais lobïo.

(iii) rhaid trefnu ymweliadau â safleoedd yn ofalus a'u mynychu yn dda a sefydlu'n glir ar y cychwyn cyntaf beth yw eu diben, eu ffurf a'u trefniadau a chadw at hynny wedyn.

(iv) rhaid osgoi ymweliadau â safleoedd onid yw'r manteision yn sylweddol. Dylai'r prawf 'mantais sylweddol' fod yn berthnasol ym mhob achos. Ni ddylai ymweliadau â safleoedd fod yn angenrheidiol onid yw'n anodd gweld a dirnad beth fydd effaith y datblygiad arfaethedig h.y. pan fo aneglurder y cais yn gwneud asesiad gweledol yn angenrheidiol.

(v) gall ymweliadau â safleoedd fod yn briodol i ystyried ceisiadau mawr, mwy cymhleth.

Bydd cyfeiriad at argymhelliad swyddog i ymweld â safle yn ymddangos yn yr adroddiad i'r Pwyllgor.

4.6.19.1.2 Ni ddylid ymweld â safle yn yr achosion canlynol:

(i) i ystyried anghydfod ynghylch ffiniau neu rhwng cymdogion yn unig
(ii) i ystyried gwrthwynebiadau ar sail cystadleuaeth.
(iii) i ystyried gwrthwynebiadau a godwyd ar sail gostwng gwerth eiddo.
(iv) i ystyried unrhyw faterion eraill sydd heb fod yn ystyriaethau cynllunio perthnasol
(v) pan fo'r cynghorwyr eisoes wedi ymweld â'r safle yn y 12 mis cynt, onid yw'r amgylchiadau yn eithriadol.

4.6.19.2 Ceisiadau am ymweliadau â Safleoedd

I bwrpas sefydlu trefn strwythuredig i'r ymweliadau a safleoedd bydd raid glynu wrth y drefn ganlynol:-

4.6.19.2.1 Rhaid cyflwyno pob cais am ymweliad â safle yn ysgrifenedig i'r Prif Swyddog Cynllunio / Rheolwr Rheoli Cynllunio erbyn 1.00pm ar y diwrnod gwaith olaf cyn Cyfarfod y Pwyllgor. Rhaid i unrhyw gais llafar ddaw cyn cyfarfod y Pwyllgor gael ei ddilyn gyda chais ysgrifenedig cyn i Gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ddechrau. Bydd y rheswm dros gynnal yr 'ymweliad safle' yn cael ei ddatgan yn eglur a'i gyflwyno felly i'r Pwyllgor Cynllunio.

4.6.19.2.2 Os bydd cais yn cael ei wneud am 'ymweliad safle' yn ystod Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, unwaith eto bydd y rhesymau dros gynnal yr ymweliad yn cael eu cofnodi yn y cofnodion.

**4.6.19.3 Dulliau gweithredu yn ystod yr ymweliad â'r safle**

4.6.19.3.1 Rhoddir gwybod i'r ymgeisydd am yr ymweliad â'r safle ond ni fydd yn cael bod yn bresennol yn ystod yr ymweliad i gyflwyno unrhyw sylwadau.

4.6.19.3.2 Prif ddiben yr ymweliad â'r safle fydd i'r swyddogion Cynllunio egluro'r materion cynllunio sy'n berthnasol i'r achos ac i'r cynghorwyr weld y safle.

4.6.19.3.3 Ni fydd unrhyw drafodaeth yn ystod yr ymweliad â'r safle o ran rhinweddau'r cais. Rhaid peidio â defnyddio'r ymweliad â'r safle fel fforwm i drafodaethau.

4.6.19.3.4 Y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd fydd yn cynnal ac yn arwain yr ymweliad â'r safle. Os bydd naill ai'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd yn absennol, bydd yr Aelodau yn cytuno ar Gadeirydd dros dro.

4.6.19.3.5 Bydd y Cadeirydd yn agor y Cyfarfod yn ffurfiol a nodi'r rhesymau dros gynnal yr ymweliad.

4.6.19.3.6 Gofynnir i'r swyddog cynllunio amlinellu'r cynnig a'r prif faterion.

4.6.19.3.7 Bydd y cynghorwyr yn edrych ar y safle, ar yr adeiladau perthnasol a'r cyffiniau yn ôl yr angen.

4.6.19.3.8 Bydd y cynghorwyr yn cael cyfle i godi cwestiynau neu ofyn am eglurhad ar ffeithiau gyda'r swyddog cynllunio a/neu cynghorydd(-wyr) lleol.

4.6.19.3.9 Bydd cynghorwyr lleol y Ward y mae'r cais ynddi (os yn bresennol) yn cael cyfle i roi sylwadau ar y cynnig.

4.6.19.3.10 Cedwir nodiadau o'r cyfarfod ar y safle a chânt eu cofnodi felly yng nghyfarfod dilynol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion pan fydd y cais yn cael ei drafod.

**4.6.19.4 Adolygu Penderfyniadau'n Rheolaidd**

4.6.19.4.1 Mae Adroddiad y Comisiwn Archwilio 'Building Quality' yn argymell bod cynghorwyr yn ymweld â sampl o hawliau cynllunio sydd wedi eu gweithredu i asesu ansawdd y penderfyniadau. Dylai adolygiad o'r fath wella ansawdd a chysondeb penderfyniadau a, thrwy hynny, atgyfnerthu ymddiriedaeth y cyhoedd, a chynorthwyo gydag adolygiadau o bolisïau cynllunio.

4.6.19.4.2 Dylid cynnal yr adolygiad yn flynyddol. Dylai gynnwys enghreifftiau o amrywiaeth o gategorïau o ddatblygiad gan gynnwys ceisiadau y penderfynodd swyddogion arnynt trwy bwerau dirprwyol.

**4.6.20 Swyddogaeth Cadeirydd y Pwyllgor a Chynnal Busnes y Pwyllgor**

**4.6.20.1 Ethol Cadeirydd / Is-Gadeirydd**

4.6.20.1.1 Bydd y cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor yn ethol Cadeirydd yn ei gyfarfod cyntaf yn dilyn cyfarfod blynyddol y Cyngor. Ar yr un pryd, bydd y cynghorwyr yn ethol Is-Gadeirydd am yr un cyfnod neu hyd oni fydd y naill neu'r llall, neu'r ddau ohonynt, yn ymddiswyddo.

4.6.20.1.2 Pan fo'r Cadeirydd yn absennol am y cyfan o gyfarfod y Pwyllgor neu am ran ohono, yna bydd yr Is-Gadeirydd yn cymryd y Gadair. Yn absenoldeb yr Is-Gadeirydd bydd y Pwyllgor yn dewis un o'u haelodau sy'n bresennol i fod yn

Gadeirydd am y cyfarfod hwnnw neu am ran ohono hyd oni fydd y Cadeirydd (neu'r Is-Gadeirydd) yn dychwelyd.

**4.6.20.2 Cyfrifoldeb y Cadeirydd**

Y rhain fydd cyfrifoldebau'r Cadeirydd :

4.6.20.2.1 llywyddu yn y cyfarfodydd fel bod modd gwneud gwaith y Pwyllgor yn effeithiol gan roddi sylw priodol i hawliau'r cynghorwyr, y swyddogion ac i fudd y gymuned yn gyffredinol.

4.6.20.2.2 sicrhau bod cyfarfod y Pwyllgor yn cael ei gynnal yn briodol fel Fforwm i drafod materion cynllunio a gorchmynion statudol yn unig.

4.6.20.2.3 sicrhau fod busnes y cyfarfod yn cael ei gynnal yn unol â'r darpariaethau perthnasol yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

4.6.20.2.4 cefnogi'r swyddogion cynllunio a chynrychiolydd y Swyddog Monitro i atgoffa'r aelodau ynglyn â'u dyletswydd i lynu wrth drafodaethau cynllunio gwirioneddol ac o bwys yn ystod y broses o wneud penderfyniad.

**4.6.20.3 Swyddogaeth Swyddogion yng nghyfarfodydd y Pwyllgor**

4.6.20.3.1 Bydd y swyddogion yn rhoddi cyngor proffesiynol i'r Cadeirydd fel bod modd iddo gyflawni ei ddyletswyddau yn y swydd.

4.6.20.3.2 Bydd y swyddogion yn darparu cyngor fel a ganlyn :

(i) yn y cyfarfodydd rhagarweiniol cyn y Pwyllgor er mwyn briffio'r Cadeirydd yn llawn ar faterion a allai godi yn y cyfarfodydd;
(ii) mewn unrhyw gyfarfodydd ar ôl y Pwyllgor (os oes gofyn).
(iii) yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor pan fo cwestiynau'n cael eu gofyn i'r Cadeirydd i bwrpas ymateb.
(iv) mewn unrhyw gyfarfod a elwir gan swyddogion i drafod materion sy'n berthnasol i bynciau 'cynllunio' neu i bynciau 'gorchmynion'.

**4.6.20.4 Cynnal Cyfarfodydd o'r Pwyllgor**

4.6.20.4.1 Bydd pob eitem sydd ar y rhaglen i bwrpas trafodaeth neu wybodaeth yn cael ei chyflwyno gan y Cadeirydd.

4.6.20.4.2 Unwaith y bydd y Cadeirydd wedi cyflwyno'r eitem bydd yn sicrhau cyfle i'r swyddog gyflwyno adroddiad ar yr eitem. Lle mae'r drefn siarad cyhoeddus yn berthnasol i gais penodol, bydd hyn yn digwydd cyn i'r swyddog gyflwyno adroddiad ar yr eitem.


Awdur: Gwasanaethau Cyfreithiol, Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn
cyfraithpolisi@ynysmon.gov.uk

4.6.20.4.3 Yn gyntaf, bydd y Cadeirydd yn caniatáu i'r cynghorwyr lleol siarad yn dilyn adroddiad y swyddog. Ond gan ddibynnu ar a ydyw'r cynghorwyr lleol yn dymuno siarad o blaid yr eitem neu yn ei herbyn a chan ddibynnu ar a ydyw ar y Pwyllgor ai peidio.

4.6.20.4.4 Wedyn bydd y Cadeirydd yn caniatáu i'r cynghorwyr ymuno yn y drafodaeth yn y drefn honno sy'n cynrychioli dymuniad y cynghorwyr yn ôl dehongliad y Cadeirydd.

4.6.20.4.5 Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod yr holl gynghorwyr yn cydymffurfio gyda darpariaethau Cyfansoddiad y Cyngor a chyda darpariaethau perthnasol y Rheolau Gweithdrefn hyn.

4.6.20.4.6 Bydd pob cynghorydd sy'n dymuno siarad yn cael cyfle i wneud hynny. Ni fydd cynghorwyr yn cael gwneud areithiau a bydd raid iddynt annerch y Pwyllgor ar faterion 'cynllunio' (h.y. ystyriaethau cynllunio perthnasol) a 'gorchmynion' yn unig. Gall y Cadeirydd dorri ar draws cynghorydd sy'n gwneud datganiadau ailadroddus neu rai amherthnasol.

4.6.20.4.7 Pan fo raid i swyddog ymateb i sylwadau neu i gwestiwn gan gynghorydd yna bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod y swyddogion yn cael cyfle i wneud hynny.

4.6.20.4.8 Os ydyw'r Cadeirydd yn dymuno siarad fel cynghorydd lleol ar eitem benodol, yna bydd darpariaethau'r Cyfansoddiad yn ymwneud ag ef fel Cadeirydd yn union fel yr ymwnânt â'r holl gynghorwyr eraill.

4.6.20.4.9

(i) Ar ddiwedd y drafodaeth, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor bleidleisio ar y mater dan drafodaeth. Onid yw'r cynghorwyr yn anghytuno gydag argymhelliad y swyddog, byddant yn pleidleisio trwy godi dwylo.
(ii) Pan fo gwelliant yn cael ei gynnig a'i eilio yng nghyswllt argymhelliad swyddog yna bydd raid pleidleisio ar y gwelliant yn gyntaf.
4.6.20.4.10 Bydd raid i'r holl gynghorwyr a'r holl swyddogion barchu swyddogaeth y Cadeirydd. Bydd arweiniad y Cadeirydd ar yr holl faterion trefn yn y Pwyllgor yn derfynol ac ni fydd modd trafod ei benderfyniad. Bydd y Cadeirydd, bob amser, yn sicrhau y bydd yr holl gynghorwyr (gan gynnwys ef ei hun) a phob swyddog yn parchu'r protocol ar y berthynas rhwng aelodau a swyddogion a sicrhau hefyd bod y cyngor a roddo'r swyddogion yn y Pwyllgor yn cael ei barchu.

**4.6.21 Y Cyhoedd yn Siarad**

**Hawl i Siarad**

4.6.21.1 Rhaid i'r cais cynllunio fod ar raglen y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Os bydd y cais yn cael ei ohirio, ni fydd hawl i'r cyhoedd siarad os bydd cyfle wedi ei roi

yn barod mewn Pwyllgor blaenorol lle cafodd y cais ei ystyried yn llawn.

4.6.21.2 Fe all y ddau ymgeisydd (neu eu hasiantiaid), a'r gwrthwynebwyr (neu eu hasiantiaid), siarad a does yna ddim meini prawf i'w bodloni ac eithrio cydymffurfio gyda gweithdrefn y Cyngor.

4.6.21.3 Fel arfer, dim ond un person sy'n cael siarad o blaid ac un person yn erbyn cais. Mewn achosion eithriadol, efallai y bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn defnyddio ei ddisgresiwn i adael un siaradwr arall i'r ddwy 'ochr'. Fel arfer ni fydd yn gwneud hyn ond pan fydd ceisiadau mawr lle mae yna wahaniaeth barn o fewn un 'ochr' (e.e. dau yn siarad yn erbyn cais am siop fawr lle mae un yn cynrychioli barn y gwerthwyr a'r llall yn cynrychioli barn rhai sy'n byw gerllaw). Mewn achosion o'r fath bydd yr 'ochr' arall yn cael caniatâd i ddau siaradwr neu ddwywaith yr amser arferol os ydynt eisiau defnyddio'r amser hwnnw.

4.6.21.4 Rhaid i unrhyw un sydd eisiau siarad roi'r hawl i'r Cyngor gyflwyno'i enw a'i rif cyswllt i bobl eraill (o'r un farn) sydd eisiau siarad fel y gallant gytuno pwy sy'n mynd i siarad a pha bethau sydd angen eu dweud ac ati. Os na fyddant yn cytuno, y person cyntaf ofynnodd i'r Cyngor am gael siarad fydd yn cael ei ddewis fel arfer.

4.6.21.5 Rhaid cyflwyno cais am y cyfle i siarad i'r Swyddog Gweinyddol yn yr Adran Gynllunio cyn yr amser cau sy'n cael ei nodi yn y llythyr o rybudd sy'n cael ei anfon at ymgeiswyr a phobl sy'n byw yn ymyl safle'r cais.

**Yr amser a ganiateiri Siarad**

4.6.21.6 Bydd y siaradwr yn cael siarad am hyd at 3 munud gerbron y Pwyllgor.
Lluniau ac ati

4.6.21.7 Does dim hawl gan y siaradwr rannu na dangos papurau yn y Pwyllgor. Rhaid i bob dim ar bapur fod wedi'i gyflwyno i'r Cyngor yn ystod y cyfnod statudol o roddi cyhoeddusrwyd i'r cais a byddant yn cael eu crynhoi yn adroddiad y swyddog.
Y Drefn
4.6.21.8 Mae'r drefn lle mae aelodau'r cyhoedd yn siarad yn y Pwyllgor yn cael ei ddisgrifio yn y dogfennau priodol

## 4.7 Rheolau Gweithdrefn y Pwyllgor Apeliadau

4.7.1 Yr eitem gyntaf ar raglen pob cyfarfod o'r Pwyllgor Apeliadau fydd ethol Cadeirydd am y cyfarfod hwnnw.

4.7.2 Bydd y Cyngor yn rhoddi rhybudd ysgrifenedig o leiaf 7 niwrnod ymlaen llaw yn nodi amser a lle y gwrandawiad oni chytunir ar gyfnod llai gan y ddwy ochr.

ATODIAD / ENCLOSURE 2

# PAPUR / ENCLOSURE F

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Y Pwyllgor Safonau, Y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn |
| **Dyddiad** | Pwyllgor Safonau 12.09.13<br>Pwyllgor Gwaith 21.10.13<br>Cyngor Llawn ...12.13 |
| **Pwnc** | Gwneud Newidiadau i'r Cyfansoddiad (3.5.3.15.5) a'r Rheolau Gweithdrefn Cynllunio (Adran 4.6 y Cyfansoddiad) |
| **Deilydd Portffolio** | Y Cynghorydd J. Arwel Roberts |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Swyddog Cyswllt** | Robyn Jones (x2134) |

**Rheswm am yr adroddiad:**

1.1 Gwneud newidiadau i'r Cyfansoddiad, sef un newid i baragraff 3.5.3.15.5 ac un arall i adran 4.6, Rheolau Gweithdrefn Cynllunio (y Rheolau):

1.1.1 Newid 1 (paragraff 3.5.3.15.5) - Yn y dyfodol, yn achos ceisiadau sy'n tynnu'n groes ac a gyflwynir gan gynghorwyr, swyddogion perthnasol neu eu teulu neu ffrindiau agos, yn hytrach na bod y ceisiadau'n cael eu cyfeirio i'r Pwyllgor Cynllunio (y Pwyllgor) fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, bod modd i swyddogion cynllunio eu gwrthod dan y drefn ddirprwyo ac y byddant wedyn yn destun adroddiad llawn i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor. Lle byddai swyddogion yn dymuno cymeradwyo cais o'r fath sy'n tynnu'n groes, dim ond y Pwyllgor fyddai'n medru ei gymeradwyo.

1.1.2 Newid 2 (rhan 4.6) - Newid y Rheolau i adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol ac i gymryd Adran 25 Deddf Lleoliaeth 2011 i ystyriaeth. Yn gryno, bod gan aelodau'r Pwyllgor hawl i fynegi barn ar rinweddau cais hyd yn oed cyn iddo ddod i Bwyllgor am benderfyniad, ar yr amod bod y farn honno'n rhagdueddiad ac nid yn rhagbenderfyniad. Byddai hynny'n cynnwys caniatáu i aelodau o'r Pwyllgor sydd hefyd yn aelodau o Gyngor Tref neu Gymuned gymryd rhan mewn mater cynllunio mewn cyfarfodydd o'u Cynghorau Tref neu Gymuned.

1.2 Mae'r cyfan o'r newidiadau arfaethedig wedi eu hamlygu yn y dogfennau sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

1.3 Ymgynghorir gyda'r Pwyllgor Safonau ar y cynigion hyn.

1.4 Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhelliad i'r Cyngor llawn mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig; a

1.5 Gofynnir i'r Cyngor llawn wneud penderfyniad i wneud y newidiadau a ddangosir yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn.

## A. Rhagarweiniad / Cefndir / Materion

Mae'r Cyfansoddiad cyfredol yn darparu fel a ganlyn.

2.1 Newid 1

2.1.2 Ni chaniateir i swyddogion cynllunio wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio a gyflwynwyd gan Gynghorwyr, swyddogion perthnasol (uwch swyddogion a'r rheini sy'n cymryd rhan yn uniongyrchol yn y broses gynllunio) a'u teulu a'u ffrindiau agos. Ar hyn o bryd y Pwyllgor sy'n penderfynu ceisiadau o'r fath. Fodd bynnag, mae man gwan yn y drefn, mewn perthynas â cheisiadau sy'n tynnu'n groes i'r cynllun datblygu (statudol). Y cynllun datblygu yw'r prif gyfrwng ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio a rhaid penderfynu ceisiadau yn seiliedig ar ddarpariaethau'r cynllun hwnnw yn y rhan fwyaf o achosion.

2.1.3 Mae ceisiadau sy'n tynnu'n groes yn cael eu penderfynu gan swyddogion pan maent yn dymuno gwrthod y cais, ond rhaid i'r holl geisiadau sy'n tynnu'n groes fynd i'r Pwyllgor os yw'r swyddogion yn dymuno cymeradwyo'r cais. Mae'r man gwan yn codi lle mae cais sy'n tynnu'n groes ac a gyflwynir gan Gynghorydd, swyddog perthnasol neu eu teulu neu eu ffrindiau agos, yn mynd yn syth i'r Pwyllgor am benderfyniad lle byddai cais o'r fath gan bobl eraill, mae'n debyg, yn cael ei wrthod gan swyddogion dan bwerau dirprwyo.

2.1.4 I gau'r man gwan hwn, cynigir bod yr holl geisiadau sy'n tynnu'n groes ac a gyflwynir gan Gynghorwyr, swyddogion perthnasol, neu eu teulu neu eu ffrindiau agos yn cael eu penderfynu gan swyddogion dan bwerau dirprwyo os ydynt yn dymuno gwrthod y cais. Byddai gwrthodiad o'r fath wedyn yn destun adroddiad llawn ysgrifenedig i gyfarfod nesaf y Pwyllgor i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd. Mewn achosion lle mae'r swyddog cynllunio yn dymuno cymeradwyo cais sy'n tynnu'n groes, bydd angen iddo fynd i'r Pwyllgor i'w gymeradwyo fel pob cais arall sy'n tynnu'n groes.

2.2 Newid 2

2.2.1 Mae'r Rheolau cyfredol yn rhy gul o ran yr hyn y gall aelod o'r Pwyllgor ei wneud a'i ddweud y tu allan i gyfyngiadau'r cyfarfod o'r Pwyllgor. Er enghraifft, maent yn rhwystro aelodau o'r Pwyllgor rhag mynegi barn ar rinweddau cais cyn iddo ddod i Bwyllgor a hefyd yn eu rhwystro rhag cymryd rhan ar faterion cynllunio yn rhinwedd eu swyddogaeth fel aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned mewn cyfarfodydd o'r Cynghorau hynny. Mae'r rheolau hyn yn rhy gaeth nag sy'n rhaid iddynt fod yn wyneb Adran 25 Deddf Lleoliaeth 2011.

2.2.2 Er bod y gyfraith wedi dweud erioed bod gan aelodau hawl i fynegi rhagdueddiad ar fater, nid yw'r gyfraith yn caniatáu i aelodau ragbenderfynu. Yn syml, caniateir i aelodau fynegi barn ar bwynt penodol mewn amser, ar yr amod eu bod yn rhoi arwydd clir nad ydynt wedi cau eu meddyliau i wneud penderfyniad ar rinweddau'r mater hwnnw yn y dyfodol. Mae Adran 25 Deddf Lleoliaeth 2011 wedi ceisio atgyfnerthu'r safbwynt hwnnw ac mae copi o'r adran ynghlwm. Yn ddiau, cafodd y rheolau cyfredol eu drafftio yn ôl yn 2011 yn seiliedig ar y sefyllfa a oedd yn bodoli bryd hynny mewn gwirionedd, yn ogystal ag efallai, y sefyllfa a oedd yn bodoli mewn cyfraith.

2.2.3 Fodd bynnag, yn wyneb Adran 25 ac ethol Cyngor newydd, ystyrir ei bod yn briodol yn awr i newid y rheolau fel eu bod yn adlewyrchiad gwell o'r sefyllfa mewn cyfraith. Mae'r newidiadau i'r rheolau yn yr atodiadau yn caniatáu yn awr i aelodau o'r Pwyllgor fynegi barn gyhoeddus ar rinweddau cais, yn amodol ar y diogelwch a grybwyllwyd, ac ar yr amod eu bod yn egluro mai barn amodol yw hon ac y byddant yn gwneud penderfyniad terfynol ar rinweddau'r cais fel y maent ar y pryd. Mater i'w benderfynu gan bob aelod ar y Pwyllgor fydd a ydynt yn dymuno manteisio ar y darpariaethau hyn ai peidio, ond mae'r newid yn y rheolau yn rhoi ystod o opsiynau iddynt ar gyfer y dyfodol.

**B – Ystyriaethau**

3.1 Newid 1 - Mae man gwan yn y rheolau cyfredol o ran ceisiadau sy'n tynnu'n groes sy'n golygu bod ceisiadau o'r fath a wneir gan Gynghorwyr, swyddogion perthnasol neu eu teulu neu eu ffrindiau agos yn cael eu trin yn wahanol i geisiadau sy'n tynnu'n groes a gyflwynir gan ymgeiswyr eraill. Gan bod cynllunio yn bwnc proffil uchel i bob Cyngor, mae'n well bod yr holl ymgeiswyr sy'n gwneud ceisiadau sy'n tynnu'n groes yn cael eu gweld yn cael eu trin yr un fath, yn amodol ar rai camau diogelwch perthnasol. Yn yr achos hwn, y diogelwch hwnnw fyddai'r angen i gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i gyfarfod nesaf y Pwyllgor lle mae cais sy'n tynnu'n groes a gyflwynir gan Gynghorydd, swyddog perthnasol neu eu teulu neu eu ffrindiau agos yn cael ei wrthod gan swyddogion dan bwerau dirprwyol.

3.2 Newid 2 - Mae'r rheolau cyfredol yn debygol o fod yn adlewyrchiad o'r cyfnod pryd cawsant eu drafftio. Erbyn hyn maent yn fwy caeth nag sydd raid iddynt fod ac maent yn rhwystro aelodau'r Pwyllgor rhag mynegi unrhyw farn ar rinweddau cais cyn iddo ddod i Bwyllgor. Yn yr un modd, gwaherddir Aelodau'r Pwyllgor rhag cymryd rhan mewn materion cynllunio yn eu swyddogaeth fel Cynghorwyr Tref neu Gymuned. Nid yw'r cyfyngiadau hyn yn adlewyrchiad o'r sefyllfa gyfreithiol sy'n caniatáu aelodau'r Pwyllgor i fynegi rhagdueddiad ond nid rhagbenderfyniad. Gellir newid y rheolau a chynnwys cyngor fel y gellir rhoi disgresiwn i aelodau o'r Pwyllgor chwarae rhan fwy gweithredol mewn materion cyhoeddus y tu allan i gyfyngiadau'r

| |
|---|
| Pwyllgor. |

| C – Goblygiadau ac Effaith | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyllid / Adran 151** | |
| **2** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | Mae swyddog cyfreithiol y Pwyllgor yn gydawdur yr adroddiad ac mae ei sylwadau wedi ei fynegi ynddi |
| **3** | **Adnoddau Dynol** | Dim yn berthnasol |
| **4** | **Gwasanaethau Eiddo** (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| **5** | **Technoleg Cyfathrebu a Gwybodaeth** | Dim yn berthnasol |
| **6** | **Cydraddoldeb** (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Ni fydd y newidiadau hyn yn cael unrhyw effaith wahaniaethol ar unrhyw un o'r grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. |
| **7** | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol** (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| **8** | **Cyfathrebu** (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim sylwadau |
| **9** | **Ymgynghori** (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Mae'r mater wedi ei ddwyn i sylw aelodau etholedig drwy ohebiaeth ac mae'r adroddiad a'r Atodiad wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Safonau. Adroddir ar lafar ar unrhyw sylwadau. |
| **10** | **Economaidd** | Dim yn berthnasol |
| **11** | **Amgylcheddol** (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| **12** | **Trosedd ac Anhrefn** (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| **13** | **Cytundebau Canlyniadau** | Dim yn berthnasol |

## CH – Crynodeb

4.1 Bydd y Rheolau newydd yn:

4.1.1 Golygu y gall swyddogion cynllunio, dan bwerau dirprwyol, wrthod unrhyw gais sy'n tynnu'n groes ac a gyflwynir gan Gynghorydd, swyddog perthnasol neu eu teulu neu eu ffrindiau agos, ond yn amodol ar gyflwyno adroddiad ysgrifenedig llawn i'r Pwyllgor nesaf er budd tryloywder ac atebolrwydd. Mewn achosion lle mae swyddogion yn dymuno cymeradwyo cais sy'n tynnu'n groes, dim ond y Pwyllgor fedr roi'r caniatâd hwnnw. Bydd hyn yn golygu y bydd y ceisiadau hyn sy'n tynnu'n groes yn cael eu trin yr un fath â'r ceisiadau hynny a wneir gan ymgeiswyr eraill ac mae'n cau man gwan posib yn y Rheolau.

4.1.2 Egluro y bydd aelodau o'r Pwyllgor yn gallu mynegi barn ar rinweddau ceisiadau cynllunio cyn iddynt ddod i Bwyllgor am benderfyniad. Bydd hyn yn amodol ar gamau diogelwch i sicrhau y gall aelodau fynegi rhagdueddiad (a ganiateir) ond nid rhagbenderfyniad (nas caniateir). Gall aelodau o'r Pwyllgor, yn yr un modd, gymryd rhan mewn materion cynllunio yn rhinwedd eu swyddogaethau fel Cynghorwyr Tref neu Gymuned os dymunent. Mae'r newidiadau hyn yn rhoi mwy o opsiynau i aelodau ynghylch sut i ddelio gyda materion cynllunio, ond mater i ddisgresiwn yr unigolion fydd penderfynu sut i ddelio gyda'r materion hyn ac, wrth gwrs, gallant ofyn am gyngor fel y gwelant yn ddoeth.

4.1.3 Gwneud y newidiadau uchod a newidiadau bychan a chanlyniadol eraill i'r Cyfansoddiad fel y dangosir yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn.

## D – Argymhelliad

5.1 Mae'r argymhellion fel a ganlyn:

<u>I'r Pwyllgor Safonau</u>
5.2 Cyflwyno sylwadau fel corff yr ymgynghorwyd ag ef.

<u>I'r Pwyllgor Gwaith</u>
5.3 Argymell i'r Cyngor llawn y dylid gwneud y newidiadau i'r Rheolau yng Nghyfansoddiad y Cyngor fel y manylir arnynt yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn.

<u>I'r Cyngor llawn</u>
5.4 Gwneud y newidiadau i'r Rheolau yng Ngyfansoddiad y Cyngor fel y manylir arnynt yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn, a

| |
|---|
| 5.5 Dirprwyo grym i'r Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol) i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad i weithredu penderfyniad y Cyngor. |

**Enw awdur yr adroddiad: Robyn W. Jones**
**Teitl Swydd: Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol**
**Dyddiad: 2013**

| **Atodiadau:** |
|---|
| Copi o'r Rheolau yn dangos y newidiadau bwriedig. |

| **Papurau Cefndirol:** |
|---|
| Dim. |

PL-16971-RWJ/182386

# NEWID / CHANGE 1

Detholiad o'r Cyfansoddiad yn dangos newidiadau a fwriedir mewn coch:

"3.5.3.15.1 ystyried, cynghori a chyflwyno adroddiadau a gweithredu ar bolisïau a phenderfyniadau'r Cyngor a'r Pwyllgor ynghylch materion cynllunio, gan gynnwys y canlynol:

(i) paratoi ceisiadau am gymorth grant i gynnal prosiectau a chynlluniau

(ii) gweinyddu Grantiau Gwella Masnachol

(iii) gweithredu fel Asiant ar ran Awdurdod Datblygu Cymru wrth weinyddu Grantiau Gwella Trefi a Grantiau Gwella Amgylcheddol eraill

(iv) paratoi astudiaethau ar y tir sydd ar gael i bwrpas datblygu ac astudiaethau monitro defnydd tir

(v) darparu gwasanaethau gwybodaeth ac ymchwil

(vi) rheoli safleoedd ac adeiladau yn y cefn gwlad o ddydd i ddydd

3.5.3.15.2 sefydlu ac arwain fforymau a grwpiau i ystyried, cynghori a chyflwyno adroddiadau ar a gweithredu polisïau a phenderfyniadau'r Cyngor a'r Pwyllgorau ynghylch materion cynllunio.

3.5.3.15.3 darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer pridiannau tir lleol.

3.5.3.15.4 rheoli cyfraniad y staff i waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gwaith rhanbarthol, gwaith proffesiynol a threfniadau gweithio partneriaethol eraill.

3.5.3.15.5 yr holl swyddogaethau sy'n gysylltiedig â chynllunio gwlad a thref a rheoli adeiladu yn unol â darpariaethau'r Deddfau canlynol:

- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990,
- Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990,
- Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990,
- Deddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1961,
- Deddf yr Amgylchedd 1995,
- Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991,
- Deddf Iawndal Tir 1961,
- Deddf Adeiladu 1984.

Sylwer: Dan y darpariaethau uchod, mae pob penderfyniad ar gais cynllunio, ac eithrio'r canlynol, yn cael ei ddirprwyo i Swyddogion:

(i) ceisiadau yr ystyrir eu bod yn tynnu'n groes i'r Cynllun Datblygu lle mae argymhelliad i gymeradwyo'r cynnig.

(ii) ceisiadau y ceir Asesiad Effaith ar yr Amgylchedd gyda hwy,

(iii) ceisiadau a gyflwynir gan y Cyngor Sir neu ar ei ran neu sy'n ymwneud â thir sy'n eiddo i'r Cyngor Sir,

(iv) ceisiadau am ganiatâd i godi llinellau trydan sy'n cludo 132 kV neu fwy,

(v) ceisiadau pan fo'r Cynghorydd y mae'r datblygiad arfaethedig yn ei ward yn cyflwyno cais ysgrifenedig i'r Pennaeth Rheoli Datblygu cyn dyddiad penodol yn gofyn am drosglwyddo'r mater i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion wneud penderfyniad arno.

Ni fydd yr hawl a roddir dan y paragraff hwn yn ymwneud ag unrhyw gais cynllunio y tybio'r Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio, neu rywun arall ar ei ran, ei fod yn gwyro oddi wrth y cynllun datblygu onid yw'r cais un ai:

yn cyfateb i neu'n cynnwys creu pump neu ragor o anheddau newydd, neu

yn cyfateb i neu'n cynnwys creu yn uniongyrchol bump neu ragor o swyddi newydd.

(vi) ceisiadau yn cynnwys ceisiadau Tystysgrifau Datblygiad Cyfreithlon a gyflwynir gan Aelodau'r Cyngor neu Swyddogion y Cyngor a allai gael eu gweld fel bod yn rhan o brosesu ac/neu o benderfynu ar geisiadau cynllunio (h.y. staff a gyflogir yn y Gwasanaeth Cynllunio, Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Penaethiaid Gwasanaeth a Swyddogion eraill sy'n rhan reolaidd o'r system gynllunio - e.e. priffyrdd a draenio, cyfreithiol, iechyd yr amgylchedd, swyddogion tai, datblygu economaidd neu berthnasau agos (gwŷr/gwragedd/partneriaid, rhieni, plant, brodyr a chwiorydd) neu gyfaill agos cynghorydd cyfredol neu swyddog o'r fath).

Ni fydd darpariaethau'r paragraff hwn yn berthnasol i geisiadau o'r fath yr ystyrir eu bod yn groes i bolisi. Bydd y ceisiadau hynny sy'n tynnu'n groes yn cael eu gwrthod gan swyddogion yn unol â'u pwerau dirprwyedig a byddant wedyn yn destun adroddiad ysgrifenedig llawn i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor i sicrhau atebolrwydd a thryloywder y penderfyniad a wnaethpwyd. Mewn achosion lle mae swyddogion yn dymuno caniatáu cais sy'n tynnu'n groes, yna mae'n rhaid i'r Pwyllgor roi'r caniatâd hwnnw."

# NEWID / CHANGE 2

## ATODIAD

**4.6 Rheolau Gweithdrefn Cynllunio**

**Cynnwys**

**4.6.1 Cyflwyniad**

**4.6.2 Penderfynu ar geisiadau cynllunio**

**4.6.3 Trafodaethau rhagarweiniol (cyn gwneud penderfyniad) Swyddogion gydag Ymgeiswyr**

**4.6.4 Cynghorwyr yn lobïo ac yn cael eu lobïo**

**4.6.5 Trefniadau siarad ac eistedd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

**4.6.6 Cyfarfodydd cyhoeddus yn ymwneud â chynigion datblygu**

**4.6.7 Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a hefyd yn gynghorwyr tref neu gymuned**

**4.6.8 Gohebiaeth a dderbyniwyd gan Gynghorwyr**

**4.6.9 Cofrestru a datgan diddordeb**

**4.6.10 Cynghorwyr a Swyddogion yn cyflwyno cynigion datblygu**

**4.6.11 Adroddiadau Swyddogion i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

**4.6.12 Penderfynu yn groes i argymhellion Swyddogion a/neu'r cynllun datblygu**~~**4.6.12 Penderfynu yn groes i argymhellion Swyddogion a/neu y cynllun datblygu**~~

**4.6.13 Apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Cyngor**

**4.6.14 Ymddygiad Swyddogion**

**4.6.15 Y berthynas rhwng Cynghorwyr a Swyddogion**

**4.6.16 Ymweliadau safle gan y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

**4.6.17 Anrhegion a lletygarwch**

**4.6.18 Hyfforddiant**

**Atodiad**

PL-16971-RWJ/182231

**4.6.19 Protocol ar gyfer ymweliadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion â Safleoedd**

**4.6.20 Rôl Cadeirydd y Pwyllgor**

**4.6.21 Y Cyhoedd yn siarad**

4.6.1 **CYFLWYNIAD**

4.6.1.1 Un o ddyletswyddau pwysig y Cyngor Sir yw penderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae'r rheolau hyn yn pennu sut y bydd y Cyngor, fel awdurdod cynllunio lleol, yn delio â cheisiadau cynllunio ac maent yn berthnasol i Gynghorwyr a Swyddogion gan ddibynnu ar y cyd-destun.

4.6.1.2 Swyddogion Cynllunio, yn gweithredu ar ran yr awdurdod cynllunio lleol, fydd yn penderfynu ar y rhan fwyaf o'r ceisiadau a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion (y Pwyllgor) fydd yn penderfynu ar bob cais arall. Mae'r rheolau sy'n pennu pa un ai Swyddogion ynteu'r Pwyllgor fydd yn penderfynu ar geisiadau yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn. O'r achosion hynny lle gall y Pwyllgor wneud y penderfyniad, yr un mwyaf arwyddocaol yw lle y gall Cynghorydd lleol (sef unrhyw un sy'n cynrychioli'r ardal leol lle mae'r tir sy'n destun cais cynllunio) fynnu ar gyflwyno cais i'r Pwyllgor benderfynu arno (un a allai fel arall gael ei benderfynu gan Swyddogion). Yn yr achosion hyn, rhaid i'r cynghorydd lleol 'alw i mewn' yn ysgrifenedig gais o'r fath a gan gyfeirio'r cais galw i mewn at y Prif Swyddog Cynllunio o fewn 21 diwrnod o ddyddiad y llythyr yn rhoi gwybod iddo/iddi am y cais. Yn achos y ceisiadau hynny a elwir yn rhai economaidd "gyda brys" caniateir 14 diwrnod yn unig i chi i'w trosglwyddo i'r Pwyllgor. Gall y cynghorydd lleol sydd wedi galw'r cais cynllunio i mewn dynnu'n ôl eu cais i alw penderfyniad i mewn ar unrhyw adeg cyn cyhoeddi Rhaglen y Pwyllgor drwy roi gwybod i'r swyddog achos a chadarnhau'n ysgrifenedig bod y cais yn cael ei dynnu'n ôl.

4.6.1.3 Nid yw cynllunio yn wyddor fanwl. Yn hytrach, mae'n dibynnu ar farn gytbwys oddi mewn i gyd-destun polisi cadarn. Mae hefyd yn dra dadleuol oherwydd bod y penderfyniadau'n cael effaith ar fywyd bob dydd pawb a buddiannau preifat unigolion, tirfeddianwyr a datblygwyr. Caiff hyn ei ddwysáu gan natur agored y drefn (mae'n mynd o'i ffordd i wahodd y farn gyhoeddus cyn penderfynu) a natur gyfreithiol cynlluniau datblygu a rhybuddion penderfyniad. Mae'n bwysig, felly, bod y broses o wneud penderfyniadau yn agored ac eglur.~~4.6.1.3 Nid yw cynllunio yn wyddor fanwl. Yn hytrach, mae'n dibynnu ar farn gytbwys oddi mewn i gyd-destun polisi cadarn. Mae hefyd yn dra dadleuol oherwydd bod ypenderfyniadau'n cael effaith ar fywyd bob dydd pawb a buddiannau preifat unigolion, tirfeddianwyr a datblygwyr. Caiff hyn ei ddwysáu gan natur agored y drefn (mae'n mynd o'i ffordd i wahodd y farn gyhoeddus cyn penderfynu) a natur gyfreithiol cynlluniau datblygu a rhybuddion penderfyniad. Mae'n bwysig, felly, bod y broses o wneud penderfyniadau yn agored ac eglur.~~

4.6.1.4 Un o amcanion allweddol y drefn gynllunio yw rheoli datblygiadau er lles y cyhoedd. Wrth gyflawni hyn, mae cynllunio o reidrwydd yn cael effaith ar fuddiannau tir ac eiddo, gwerth ariannol tiroedd ac ansawdd yr amgylchedd. Mae'n bwysig, felly, bod awdurdodau cynllunio lleol yn gwneud penderfyniadau cynllunio yn agored pan gânt effaith ar y buddiannau hyn a bod y penderfyniadau yn ddiduedd, yn seiliedig ar farn ddoeth ac wedi eu gwneud am resymau y mae modd eu cyfiawnhau. Ni ddylai'r broses adael dim lle i awgrymu, gydag unrhyw gyfiawnhad, bod penderfyniad yn rhagfarnllyd, yn unochrog neu heb fod yn deg.

4.6.2 **PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

4.6.2.1 Weithiau bydd penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn cael eu galw yn benderfyniadau rheoleiddiol neu led-farnwrol ac mae hyn yn golygu fod rhaid i'r rhai

sy'n gwneud penderfyniadau o'r fath4.6.2.1 Weithiau bydd penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn cael eu galw yn benderfyniadau rheoleiddiol neu led-farnwrol ac mae hyn yn golygu fod raid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau o'r fath

- 4.6.2.1.1 ystyried yr holl ystyriaethau cynllunio perthnasol
- 4.6.2.1.2 anwybyddu ystyriaethau amherthnasol neu rai y tu allan i'r maes cynllunio
- 4.6.2.1.3 gweithredu'n ddiduedd, yn deg a pheidio ystyried unrhyw ystyriaethau gwleidyddol

Formatted: Indent: Left: 0 cm, First line: 0 cm

Formatted: No bullets or numbering, Tab stops: 1.25 cm, Left + Not at 3.81 cm

Formatted: Indent: Left: 0.5 cm, Hanging: 0.75 cm, Tab stops: 1.25 cm, Left + Not at 3.81 cm

4.6.2.2 Mae cyfraith cynllunio yn mynnu bod awdurdodau cynllunio lleol yn penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu Statudol oni bai fod ystyriaethau cynllunio perthnasol yn dangos fel arall. Mae'r pwyslais wrth benderfynu ar geisiadau ar drefn 'yn ôl cynllun'.

4.6.2.3 Dibynna'r gyfundrefn gynllunio ar ystyried cynigion preifat yn erbyn lles cyffredinol y cyhoedd. Yn aml mae llawer yn y fantol yn y broses hon a bydd y rhai sy'n rhan ohoni yn aml yn tynnu'n groes iawn i'w gilydd. 4.6.2.3 Dibynna'r gyfundrefn gynllunioar ystyried cynigion preifat yn erbyn lles cyffredinol y cyhoedd. Yn aml mae llawer yn y fantol yn y broses hon a bydd y rhai sy'n rhan ohoni yn aml yn tynnu'n groes iawn i'w gilydd.

4.6.2.4 Mae'n ddyletswydd ar y bobl hynny sy'n penderfynu ar geisiadau cynllunio i ystyried sylwadau ddaw i olwg yr awdurdod cynllunio lleol o ganlyniad i ymgynghori gyda chyrff â diddordeb neu o ganlyniad i rybudd cyhoeddus neu hysbysu cymdogion. Wrth bwyso a mesur mae angen penderfynu pa sylwadau sy'n berthnasol i'r penderfyniad a pha bwysau i osod arnynt. Ni ddylai'r Pwyllgor ddod i gasgliad hyd oni fydd holl ffeithiau wedi'u cyflwyno yn adroddiad y Swyddog i'r Pwyllgor.

4.6.2.5 Rhaid i Gynghorwyr beidio â gwneud ymrwymiad ynghylch unrhyw fater cynllunio cyn ei ystyried yn y Pwyllgor. Mae'n cael ei dderbyn, fodd bynnag, y bydd ymgeiswyr, asiantiaid a gwrthwynebwyr o bryd i'w gilydd yn mynd i ben Cynghorwyr unigol ynghylch cynigion cynllunio. Amcan y rheolau hyn yw cynorthwyo Cynghorwyr i drin digwyddiadau o'r fath a chawsant eu llunio i sicrhau cadw cywirdeb y drefn benderfynu.

4.6.2.6 Gallai peidio â dilyn y Rheolau hyn, heb reswm da, fod yn ystyriaeth mewn ymchwiliadau i achosion posibl o gamweinyddu neu mewn ymchwiliad i ymddygiad Cynghorwyr ac/neu Swyddogion.4.6.2.6Gallai peidio â dilyn y Rheolau hyn, heb reswm da, fod yn ystyriaeth mewn ymchwiliadau i achosion posibl o gamweinyddu neumewn ymchwiliad i ymddygiad Cynghorwyr ac/neu Swyddogion.

4.6.3 **TRAFODAETHAU RHAGARWEINIOL (CYN GWNEUD PENDERFYNIAD) SWYDDOGION GYDAG YMGEISWYR**

4.6.3.1 Mewn unrhyw drafodaethau ar faterion cynllunio, eglurir bob amser ar y dechrau na fydd trafodaeth o'r fath :

- yn ymrwymo'r awdurdod cynllunio lleol i wneud penderfyniad penodol, a
- bod unrhyw sylwadau yn cael eu mynegi ar sail barn broffesiynol y Swyddogion ar y pryd ond heb ymrwymo'r awdurdod cynllunio lleol i unrhyw benderfyniad arbennig.

4.6.3.2 Bydd unrhyw gyngor a roddir :

- yn gyson ac yn seiliedig ar y Cynllun Datblygu ac ystyriaethau perthnasol eraill.
- yn ddiduedd a'r gorau y gall swyddog ei roddi dan yr amgylchiadau, a
- bydd yn ceisio dwyn sylw at unrhyw broblemau amlwg.

4.6.3.3 Ni chaiff Cynghorydd – p'un a ydynt yn gwasanaethu ar y Pwyllgor ai peidio - gymryd rhan yn nhrafodaethau'r Swyddogion gydag ymgeiswyr ar unrhyw adeg cyn penderfynu ar y cais. ~~Pan fo hynny'n digwydd, mae modd cyflwyno cwyn am y Cynghorydd i Swyddog Monitro'r Cyngor.~~

4.6.4 **CYNGHORWYR YN LOBÏO AC YN CAEL EU LOBÏO**

4.6.4.1 Cynghorwyr sy'n Aelodau o'r Pwyllgor

4.6.4.1.1~~(i)~~ Mae ymgeiswyr, gwrthwynebwyr ac eraill â diddordeb yng nghanlyniad ceisiadau cynllunio yn debygol o gysylltu gyda Chynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor. Oherwydd natur led-farnwrol neu reoleiddiol penderfyniadau cynllunio, ni ddylai Cynghorwyr ar y Pwyllgor ganiatáu i neb eu lobïo - pa un ai o blaid neu yn erbyn cais. Os digwydd hynny, dylent hysbysu'r person sy'n ceisio pwyso arnynt, os bydd iddynt drafod y cais gyda'r person hwnnw, y gall hynny eu gwahardd rhag cymryd rhan yn y penderfyniad ar y cais. Yn lle hynny, dylid cynghori darpar lobïwyr i gysylltu gyda'u Cynghorydd lleol (gweler 4.6.4.3 isod) neu Swyddog priodol yn yr Adran Gynllunio.

4.6.4.1.2~~(ii)~~ Ni ddylai cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor drefnu cefnogaeth neu wrthwynebiad lleol i gynnig cynllunio os ydynt am gymryd rhan yn y drafodaeth ar y cais yn ddiweddarach.

4.6.4.1.3~~(iii)~~ Wrth ystyried yr angen i wneud penderfyniadau'n ddiduedd, ni ddylai Cynghorwyr ar y Pwyllgor ffafrio, na rhoi'r argraff o ffafrio, unrhyw berson, cwmni, grŵ~~w~~p nac ardal, na datgan cyn y cyfarfod pa ffordd y bwriadant bleidleisio. Byddai gwneud hynny heb gael yr holl wybodaeth a sylwadau perthnasol yn annheg a niweidiol. Os bydd Cynghorydd yn teimlo y byddai'r cyhoedd yn credu iddynt ddod i farn bendant ar y mater neu gais cynllunio cyn y cyfarfod, neu fod person â diddordeb wedi pwyso arnynt, ni ddylent gymryd rhan yn y drafodaeth, na phleidleisio ar y mater. Nid yw hyn yn cael effaith ar eu hawl i annerch y Pwyllgor yn ôl darpariaeth adran 5.2 y rheolau hyn (4.6.5.2).

4.6.4.1.4~~(iv)~~ Pan fo'r Swyddog Monitro neu gynrychiolydd yn credu bod Cynghorydd wedi gwneud drwg i'w sefyllfa trwy fynegi barn bendant ar gais cyn i'r Pwyllgor benderfynu arno, bydd y Swyddog Monitro neu gynrychiolydd yn hysbysu'r Cynghorydd y byddai'n amhriodol iddo gymryd rhan yn y drafodaeth, neu bleideisio ar y cais. Gyda'r Cynghorydd, fodd bynnag, mae'r penderfyniad terfynol - ond bydd yn wynebu sgriwtini o'r tu allan.

4.6.4.2 ~~Cynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor~~

Formatted: Indent: Left: 0 cm, First line: 0 cm

Ni ddylai ymgeiswyr, gwrthwynebwyr nac unrhyw un sydd â diddordeb yn y penderfyniad terfynol ar gais cynllunio lobïo Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor ac ni ddylai'r Cygnhorwyr rheini adael i'w hunain gael eu lobïo. Ni ddylai Cynghorwyr - p'un a ydynt ar y Pwyllgor ai peidio - lobïo Cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor. ~~Ni ddylai~~

ymgeiswyr, gwrthwynebwyr nac unrhyw un sydd â diddordeb yn y penderfyniad terfynol ar gais cynllunio lobïo Cynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor. Os oes rhywun yn cysylltu gyda'r Cynghorwyr hyn yna dylai'r Cynghorwyr roi gwybod i'r sawl sy'n lobïo y dylent un ai gysylltu gydag un o'u Cynghorwyr lleol (gweler 4.6.4.3 isod) neu gyda'r Swyddog priodol yn yr Adran Gynllunio. Os ydyw cynghorydd o'r fath yn cael ei lobïo yna ni ddylai lobïo Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor ac ni fydd â'r hawl i siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

4.6.4.3 Cynghorwyr Lleol

(4.6.4.3.1 Mae gwahaniaethau i'r rheolau I sy'n ymddangos yn 4.6.4.1 (i) a 4.6.4.2 yng nghyswllt y Cynghorydd lleol, h.y. unrhyw un o'r Cynghorwyr y mae'r datblygiad arfaethedig yn eu ward.

(4.6.4.3.2) Os nad yw'r Cynghorydd lleol yn aelod o'r Pwyllgor yna mae'n iawn i ymgeisydd, i wrthwynebydd neu unrhyw un arall â diddordeb yn y penderfyniad terfynol ar y cais cynllunio lobïo'r Cynghorydd lleol hwnnw. Os ydyw'r cynghorydd lleol yn cael ei lobïo a chyda'r amod nad oes ganddo ddiddordeb i'w ddatgan yn unol â'r Côd Ymddygiad i Gynghorwyr, yna bydd â'r hawl i gyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor a siarad yn y Pwyllgor. Fodd bynnag, ni ddylai ef/hi ei hun lobïo, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gynghorwyr sydd ar y Pwyllgor.

(4.6.4.3.3.) Os oes cynghorydd lleol yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, yna bydd darpariaethau rheol 4.6.4.3.2. uchod yn berthnasol iddynt a gall o/hi annerch y Pwyllgor ond **ni** fydd ganddo/ganddi'r hawl naill ai i gynnig neu i eilio unrhyw argymhelliad nac ychwaith i bleidleisio ar y cais. Ond gall o/hi os ydynt yn dymuno, gyfeirio'r person sy'n ceisio eu lobïo i gynghorydd arall sydd ddim ar y Pwyllgor ac i bwrpas y rheolau hyn, bydd cynghorydd o'r fath yn cael ei ystyried fel cynghorydd lleol. ,

(4.6.4.3.4.iv) Ni all y Cynghorwyr lleol gyflwyno sylwadau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor na chwarae rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio os oes ganddynt ddiddordeb i'w ddatgan yn unol â'r Côd Ymddygiad i Gynghorwyr. Bydd hyn yn berthnasol – p'a un a ydynt yn aelodau ai peidio o'r Pwyllgor. Os ydyw cynghorydd lleol yn cael ei hun yn y sefyllfa hon dylai gyfeirio unrhyw lobïwr at gynghorydd arall sydd ddim yn aelod o'r Pwyllgor ac i bwrpas y rheolau hyn, bydd cynghorydd o'r fath yn cael ei ystyried fel cynghorydd lleol.

4.6.4.4 Pan fo llythyrau hysbysu cymdogion yng nghyswllt cais cynllunio yn cael eu hanfon i eiddo heb fod yn yr un ward â safle'r cais yna gall Cynghorwyr sy'n cynrychioli'r eiddo dan sylw siarad fel cynghorwyr lleol yn y Pwyllgor. Dim ond yr hawl i siarad yn y Pwyllgor a roddir dan y rheol hon ac nid yw'n rhoddi unrhyw hawliau eraill i'r cynghorydd dan sylw fel cynghorydd lleol.

4.6.5 **TREFNIADAU SIARAD AC EISTEDD YNG NGHYFARFODYDD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION**

4.6.5.1.1 Pryd bynnag y byddant yn mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor dylai cynghorwyr nad ydyntsydd heb fod ar y Pwyllgor eistedd hollol ar wahân i gynghorwyr sydd ar y

Pwyllgor – p'~~a u~~n a ydynt yn bwriadu annerch y Pwyllgor ai peidio. Ni ddylent siarad â'r cynghorwyr hynny sydd ar y Pwyllgor ac a fydd yn gwneud penderfyniadau. Pwrpas y rheol hon yw pwysleisio natur lled-farnwrol trafodaethau'r Pwyllgor ar geisiadau cynllunio.

4.6.5.1.2. Ac eithrio siarad fel cynghorydd lleol, ni chaniateir i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio gymryd rhan yn y drafodaeth ar gais onid ydynt wedi bod yn bresennol yn yr holl ystyriaethau sylweddol blaenorol gan y Pwyllgor ar y cais hwnnw. Mae ystyriaeth sylweddol yn golygu lle cafwyd cyflwyniad gan y swyddog ar y cais, unrhyw drafodaeth gan y Pwyllgor ar rinweddau'r cais neu ymweliad swyddogol â'r safle y mae wnelo'r cais â fo.

4.6.5.2 Bydd yr hawl i annerch y Pwyllgor yn berthnasol hefyd i aelodau o'r Pwyllgor (gan gynnwys cynghorydd lleol):

- sydd wedi cael ei lobïo, neu
- all fod eisoes wedi mynegi barn bendant ar gais, neu
- sydd wedi siarad ar y cais ar lefel Cyngor Tref neu Gyngor Cymuned , neu
- unrhyw gynghorydd sy'n cynrychioli ward arall fel y cyfeiriwyd at hynny yn 4.6.4.3.3~~(iii)(2)~~.

Fodd bynnag, os caiff yr hawl hon ei hymarfer, dylai'r cynghorwyr ar y Pwyllgor gydymffurfio â pharagraff 4.6.5.1 uchod pan fydd y mater arbennig yn cael ei ystyried. Ni allant gymryd rhan yn y penderfyniad a dylent ddatgan yn y cyfarfod pam nad ydynt yn cyfranogi yn y penderfyniad.

4.6.5.3 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cynnal busnes y cyfarfod yn unol â'r Atodiad sydd ynghlwm.

## 4.6.6 CYFARFODYDD CYHOEDDUS YN YMWNEUD Â CHYNIGION DATBLYGU

4.6.6.1 Ni ddylai swyddogion sy'n ymwneud â phrosesu neu benderfynu ar faterion cynllunio fynychu cyfarfodydd cyhoeddus mewn perthynas â chynigion datblygu neu geisiadau cynllunio a gyflwynwyd, onid yw'r cyfarfodydd hynny wedi eu trefnu gan yr Awdurdod, neu gyda'i gytundeb pendant. Gallai mynychu arwain at honiadau o ochri neu ragfarn o ran safbwynt arbennig. O'u cael yn y fath sefyllfa o fynychu cyfarfodydd a drefnwyd gan, neu gyda chydsyniad, yr Awdurdod, neu trwy ddamwain, yna dylai Swyddogion fod yn ofalus iawn eu bod yn aros yn ddiduedd, yn canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth ffeithiol, yn gwrando ar sylwadau ac yn osgoi rhoi barn ar fanteision neu anfanteision y cynnig.

4.6.6.2 Yn yr un modd, dylai cynghorwyr sy'n ymwneud â phenderfynu ar geisiadau cynllunio fod yn ofalus iawn eu bod yn aros yn ddiduedd pan yn mynychu cyfarfodydd cyhoeddus ar faterion cynllunio. Mewn cyfarfodydd o'r fath, dylai Cynghorwyr fod yn wyliadwrus wrth ddatgan eu barn ar rinweddau'r bwriad. Fe allent ddatgan rhagdueddiad ond ni ddylent fynegi unrhyw beth a all gael ei ddehongli un ai fel rhagbenderfyniad neu ragfarn o blaid neu yn erbyn y bwriad. Awgrymir y dylai Cynghorwyr sydd eisiau gwneud sylw egluro'n glir fod eu barn yn un amodol, yn seiliedig ar eu gwybodaeth ar y pryd ac y bydd angen iddynt ystyried y mater o'r newydd ac yng ngoleuni'r holl faterion perthnasol pan yn gwneud penderfyniad ar y cais. Mewn achos lle mae Cynghorydd sy'n aelod o'r Pwyllgor yn

dangos ei fod wedi cau ei feddwl i gais penodol (h.y. eu bod wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw) neu fod ganddynt ragfarn am y bwriad, yna mae'r gyfraith yn eu gwahardd rhag cymryd rhan yn y penderfyniad.4.6.6.2 Yn yr un modd, dylai cynghorwyr sy'n ymwneud â phenderfynu ar geisiadau cynllunio fod yn ofalus iawn eu bod yn aros yn ddiduedd pan yn mynychu cyfarfodydd cyhoeddus ar faterion cynllunio. Mewn cyfarfodydd o'r fath rhaid peidio â datgan unrhyw farn ar fanteision nac ar anfanteision cynnig.

4.6.7 **CYNGHORWYR SY'N AELODAU O'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION A HEFYD YN GYNGHORWYR TREF NEU GYMUNED**

Dylai'r cynghorwyr hyn benderfynu pa beth y dymunant ei wneud yng nghyswllt pob cais cynllunio all gael ei ystyried gan Gyngor Tref neu Gymuned (neu bwyllgor neu is-bwyllgor ohono).Y dewis yw:
**un ai :**

4.6.7.1 cymryd rhan yn nhrafodaeth y Cyngor Tref neu Gymuned ac yna, os dymunant, siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor yn ôl y ddarpariaeth yn y Rheolau yma ond i beidio a chymryd rhan fel arall yn nhrafodaethau'r Pwyllgor na phleidleisio ar y cais, neu

4.6.7.2 peidio â chwarae rhan yn nhrafodaethau'r Cyngor Tref neu Gymuned (a, gorau oll, peidio â bod yn yr ystafell pan fydd y mater yn cael ei drafod) ac yna gyfranogi'n llawn yn y Pwyllgor.

4.6.7.3 **Sylwer:** Mae gan y cynghorwyr hynny sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor ond sydd heb fod yn aelodau o'r Cynghorau Tref a Chymuned hawliau, fel aelodau eraill o'r cyhoedd, i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus y Cynghorau Tref a Chymuned. Mewn achosion o'r fath, sylwedyddion yn unig fydd y Cynghorwyr yng nghyfarfodydd y Cynghorau Tref neu Gymuned ac ni allant gymryd rhan ynddynt.

4.6.7.1 Nid oes unrhyw egwyggor mewn cyfraith i wahardd Cynghorydd sydd wedi cymryd rhan mewn mater cynllunio mewn Cyngor Tref neu Gymuned rhag cymryd rhan yn y mater fel aelod o'r Pwylgor Cynllunio **ar yr amod nad yw'r cynghorydd wedi penderfynu ymlaen llaw neu ddangos rhagfarn ar y cais.**

4.6.7.2 Mae hawl gan Gynghorwyr i ddangos rhagdueddiad ar fater ond mae'n rhaid iddynt sicrhau nad ydynt wedi rhagbenderfynu'r mater (h.y. nad ydynt wedi cau eu meddyliau i rinweddau'r bwriad). Yn syml, mae Cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor Cynllunio yn cael rhoi arwydd yn gyhoeddus o'u barn am unrhyw gais cyn y gelwir arnynt i wneud penderfyniad arno ond mae'n rhaid i'w sylwadau gael eu geirio'n rhesymol ac mae'n rhaid iddynt gydnabod nad ydynt wedi cau eu meddyliau i benderfynu ar y cais yn y dyfodol ar ei rinweddau.

Formatted: Font: Not Bold

4.6.7.3 Awgrymir yn gryf bod unrhyw Gynghorydd sydd ar y Pwyllgor Cynllunio ac sy'n teimlo bod rhaid iddynt wneud datganiad cyhoeddus ar gais cyn i'r cais hwnnw ddod gerbron y Pwyllgor, yn datgan bod eu barn yn un amodol; yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ganddynt ar y pryd; ac y bydd yn rhaid iddynt ystyried y mater o'r newydd ar sail pob ystyriaeth berthnasol i'r cais pan ddaw'r amser i wneud penderfyniad ar y cais (gweler hefyd 4.6.6.2 uchod).

4.6.8 **GOHEBIAETH Y MAE CYNGHORWYR YN EI DERBYN**

Os bydd cynghorwyr yn derbyn unrhyw ohebiaeth yn uniongyrchol oddi wrth bobl â diddordeb yng nghanlyniad cais cynllunio, bydd raid iddynt sicrhau fod copi yn cael ei anfon i'r Adain Rheoli Cynllunio. Yna bydd yr Adain yn gwneud y canlynol:

4.6.8.1 os bydd amser yn caniatáu, anfon copi at yr ymgeisydd neu ei asiant/hasiant er mwyn rhoi'r cyfle iddo/iddi ymateb;

4.6.8.2 rhoi copi o'r holl sylwadau ar y ffeil Gynllunio;ac

4.6.8.3 os bydd amser yn caniatáu, sicrhau fod yr adroddiad i'r Pwyllgor yn cyfeirio at yr ohebiaeth a dderbyniwyd.

4.6.9 **COFRESTRU A DATGAN DIDDORDEB**

Mae'r Gyfraith a Chodau Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Cynghorwyr a swyddogion ar y materion hyn yn arbennig o berthnasol i'r rheiny sy'n delio â cheisiadau cynllunio a rhaid eu dilyn bob amser.

4.6.10 **CYNGHORWYR A SWYDDOGION YN CYFLWYNO CYNIGION DATBLYGU**

4.6.10.1 Gall cynigion Cynghorwyr mewn gwasanaeth (pa un a ydynt yn gynghorwyr ar y Pwyllgor ai peidio) a Swyddogion a'u cyfeillion agos a pherthnasau agos yn hawdd beri amheuon o afreoleidd-dra. Mae'n hanfodol trin y cyfryw gynigion mewn ffordd sy'n osgoi amgylchiadau a allai beri cyhuddiadau o ffafriaeth. Yn y rheolau hyn, mae "perthnasau" yn golygu gwr/gwraig neu bartner, rhiant, nain/taid, mab/merch, wyr/wyres, brawd neu chwaer.

4.6.10.2 Cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor eu hystyried ar geisiadau cynllunio sydd yn y categorïau isod ac ni fydd swyddogion yn delio gyda nhw dan 'bwerau dirprwyol':

- ceisiadau gan gynghorydd cyfredol neu rywun sy'n perthyn iddo/iddi
- ceisiadau lle mae cynghorydd cyfredol yn gweithredu fel asiant neu pan fo wedi paratoi unrhyw ran o'r cais neu'r cynlluniau
- ceisiadau gan swyddog perthnasol neu berthynas iddo/iddi. Dan y rheol hon, mae "swyddog perthnasol" yn golygu'r Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr, yr holl Gyfarwyddwyr Corfforaethol, yr holl Benaethiaid Gwasanaeth, yr holl swyddogion sy'n gweithio yn yr Adran Gynllunio a'r holl swyddogion eraill y mae eu gwaith yn uniongyrchol gysylltiedig â'r broses rheoli datblygu (megis swyddogion yn yr Adran Briffyrdd ac Iechyd Amgylchedd yr ymgynghorir â nhw neu gyfreithwyr sy'n cynghori ac yn cynrychioli'r Adran Gynllunio mewn materion rheoli datblygu),
- ceisiadau lle mae'r ymgeisydd yn ffrind agos i Gynghorydd cyfredol neu swyddog perthnasol

Dan y rheol hon, bydd "cais cynllunio" yn golygu pob cais y mae'n rhaid ei wneud trwy statud ac a fyddai (oni bai am y rheol hon) yn cael eu penderfynu dan Gyfansoddiad y Cyngor gan y Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio. Byddai'r rhain yn cynnwys ceisiadau am ganiatâd amlinellol, cymeradwyo materion a gadwyd, caniatâd adeilad rhestredig, caniatâd ardal gadwraeth, caniatâd dan Orchmynion Cadw Coed ac ati.

4.6.10.3 Bydd Swyddogion Cynllunio yn ymdrechu i ganfod a dwyn sylw at geisiadau o'r fath a byddant wedyn yn hysbysu Pennaeth y Gwasanaeth Cynllunio a Swyddog Monitro'r Awdurdod.Ni ddylai cynghorwyr cyfredol sy'n cyflwyno ceisiadau, sy'n

gweithredu fel asiantiaid neu sy'n paratoi cynllunio neu y mae eu perthnasau'n cyflwyno cieisiadau, gymryd unrhyw rhan yn y broses o wneud penderfyniad ynglyn â'r cais hwnnw.

4.6.10.4 Dylai'r Swyddog Monitro gadarnhau yn yr adroddiad i'r Pwyllgor hwnnw fod cais o'r fath wedi cael ei brosesu yn y modd arferol ac, felly, rhaid i'r Swyddog gael cyfle i adolygu'r ffeil.

4.6.10.5 Ni ddylai Swyddogion sy'n ymwneud â'r broses rheoli datblygu baratoi cynlluniau na gweithredu fel asiant i unrhyw berson na chorff (gan gynnwys Aelodau o'u teuluoedd eu hunain) sy'n mynd ar ôl mater cynllunio gyda'r Cyngor. Os byddant yn cyflwyno cynnig ar eu rhan eu hunain, ni ddylent fod yn rhan o brosesu'r cais hwnnw.

4.6.11 **<u>ADRODDIADAU SWYDDOGION I'R PWYLLGOR</u>**

4.6.11.1 Bydd adroddiad ysgrifenedig llawn, gan gynnwys asesiad rhesymedig o'r cynnig ac argymhelliad gyda chyfiawnhad, ynghlwm wrth bob cais cynllunio sy'n mynd gerbron y Pwyllgor.

4.6.11.2 Bydd unrhyw faterion newydd sydd wedi codi rhwng adeg paratoi'r adroddiad a dyddiad cyfarfod y Pwyllgor yn cael eu cyflwyno ar lafar a bydd cyfeiriadau at hynny yn y cofnodion.

4.6.11.3 Bydd ffeil pob cais cynllunio yn cynnwys adroddiad manwl ar ddigwyddiadau drwy gydol oes y cais; yn arbennig bydd yn cynnwys canlyniad cyfarfodydd neu sgyrsiau arwyddocaol ar y ffôn.

4.6.11.4 Bydd yr un egwyddorion o gadw cofnodion da hefyd yn cael eu dilyn gyda materion gorfodi. Bydd rheolwyr yn yr Adain Rheoli Datblygu yn goruchwylio'r broses o gadw cofnodiadau yn barhaus.

4.6.12 **<u>PENDERFYNU YN GROES I ARGYMHELLION SWYDDOGION</u>**

4.6.12.1 Pan fo'r Pwyllgor yn penderfynu naill ai cymeradwyo neu wrthod datblygiad arfaethedig yn groes i argymhelliad Swyddog, bydd yr eitem yn cael ei gohirio hyd y cyfarfod dilynol fel bod cyfle i'r Swyddogion gyflwyno adroddiad pellach ar y mater. Rhaid i'r Pwyllgor nodi'r rhesymau dros ddymuno penderfynu yn erbyn argymhelliad y Swyddog. Dylai aelodau'r Pwyllgor lynu wrth y Rheolau hyn wrth wneud penderfyniadau cynllunio a chymryd i ystyriaeth arweiniad a rydd swyddogion cynllunio a phleidleisio yn erbyn eu hargymhellion dim ond yn yr achosion hynny lle mae modd nodi rhesymau cynllunio gwirioneddol ac o bwys. Cedwir cofnod manwl o reswm(rhesymau) y Pwyllgor gan osod copi ar ffeil y cais. Pan fo penderfyniad yn cael ei wneud ar fater yn groes i argymhelliad, gall hynny arwain at gostau apêl a bydd y Pwyllgor yn cofnodi'r bleidlais wrth benderfynu ar y cais waeth beth fo gofynion paragraff 4.1.18.5 y Cyfansoddiad

4.6.12.2 Yn adroddiad pellach y swyddog, ceir manylion am y rhesymau a gyflwynwyd gan yr aelodau, nodir a ydyw'r rhesymau hynny, yn eu barn nhw, yn faterion cynllunio gwirioneddol ac o bwys a thrafodir y materion defnydd tir a godwyd.

4.6.12.3 Pan fo Cynghorwyr eisiau ychwanegu neu newid amodau a argymhellwyd gan Swyddogion, dylid gwahodd y Swyddogion i lunio amodau a'u cyflwyno, i'w cymeradwyo, yn y cyfarfod dilynol oni bai fod y llunio yn rhwydd a bod modd cytuno arno yn y cyfarfod gwreiddiol.

4.6.12.4 Pan fo swyddogion cynllunio yn methu ag amddiffyn penderfyniadau o'r fath ar apêl (oherwydd gofynion rheolau ymddygiad proffesiynol y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefi) byddant yn egluro'r mater hwn i'r Pwyllgor cyn cymryd pleidlais derfynol ar y mater. Mewn achosion o'r fath, bydd y Pwyllgor yn enwebu (o leiaf) dau o aelodau a bleidleisiodd yn groes i'r argymhelliad i fynychu unrhyw apêl ac egluro yn yr apêl benderfyniadau'r Pwyllgor a'r rhesymau amdanynt. Y ddau hyn fel arfer fydd cynigydd ac eilydd y cynnig sy'n groes i argymhelliad y swyddog.

4.6.13 **APELIADAU YN ERBYN PENDERFYNIADAU'R CYNGOR**

4.6.13.1 Bydd y swyddogion yn trefnu ac yn gyffredinol yn ymddangos fel tystion mewn apeliadau cynllunio ac mewn cyfarfodydd eraill ar ran y Cyngor. Dan rai amgylchiadau, efallai y bydd raid penodi ymgynghorwyr i ymddangos ar ran y Cyngor.

4.6.13.2 Wrth gyflwyno tystiolaeth, bydd swyddogion yn cyflwyno'r achos gorau bosib ar ran y Cyngor ond ar yr un pryd, bydd yn cydymffurfio gyda chôd ymddygiad proffesiynol y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefi.

4.6.13.3 Pan fo'n bosib apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed yn groes i argymhelliad swyddogion a'r swyddogion eisoes wedi dweud wrth y Pwyllgor na fedrant amddiffyn penderfyniad o'r fath, bydd y swyddogion yn cyflwyno adroddiad ar yr apêl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor. Y Cynghorwyr fydd yn gyfrifol wedyn am gyflwyno achos y Cyngor yn yr apêl.

4.6.14 **YMDDYGIAD SWYDDOGION**

4.6.14.1 Mae Côd Ymddygiad Proffesiynol y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefol (RTPI) yn ganllaw i Swyddogion sy'n Gynllunwyr Trefol Siartredig. Bydd raid i'r holl Swyddogion, pa un a ydynt yn Aelodau o'r Sefydliad ai peidio, gadw at yr un egwyddorion sef –

4.6.14.1.1 Gweithredu yn fedrus, yn ddidwyll ac yn gywir;

4.6.14.1.2 Ymarfer eu barn broffesiynol annibynnol yn eofn ac yn ddiduedd hyd eithaf eu gallu a'u dealltwriaeth;

4.6.12.1.3 Cyflawni eu dyletswydd i'w cyflogwyr, cleientiaid, cydweithwyr ac eraill gyda dyledus ofal ac ymroddiad yn unol â darpariaethau'r Côd uchod;

4.6.12.1.4 Peidio â dwyn anfri ar y proffesiwn nac ar y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefol;

4.6.12.1.5 Peidio â datgelu na defnyddio gwybodaeth a gafwyd yn gyfrinachol yn ystod eu gwaith i'w mantais eu hunain na'r Awdurdod;

(4.6.14.1.6) Gwrthod pob disgownt, anrheg neu gomisiwn sy'n cael ei gynnig gan unrhyw drydydd person mewn perthynas â'u gwaith fel cynllunwyr proffesiynol.

4.6.15 **Y BERTHYNAS RHWNG CYNGHORWYR A SWYDDOGION**

4.6.15.1 Er mwyn creu perthynas broffesiynol gadarn rhwng Swyddogion a chynghorwyr, bydd raid i'r naill barchu a deall swyddogaethau'r llall yn y broses benderfynu.

4.6.15.2 Rhaid i gynghorwyr barchu cyngor swyddogion yng nghyfarfodydd y Pwyllgor neu pan fônt yn delio gyda cheisiadau dirprwyol ac ni chânt bwyso ar swyddogion am argymhelliad neu benderfyniad arbennig. Dylai unrhyw swyddog sy'n ystyried bod hyn wedi digwydd ddelio gyda'r mater yn unol ag adran 5.3.4 y Cyfansoddiad hwn (Bwlio ac Ymddwyn yn Ymosodol neu'n Fygythiol).

4.6.16 **YMWELIADAU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION Â SAFLEOEDD**

4.6.16.1 Mae protocol ar ymweliadau safle yn yr Atodiad sydd ynghlwm wrth y rheolau hyn.

4.6.17 **ANRHEGION A LLETYGARWCH**

4.6.17.1 Mae cyngor i gynghorwyr ar gofrestru anrhegion a lletygarwch yng Nghôd Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau a bydd raid glynu wrth y Côd.

4.6.17.2 Yn ystod gwneud eu gwaith, mae'n bosib y cynigir i Swyddogion letygarwch gan bobl â diddordeb mewn cynigion cynllunio. Rhaid i Swyddogion wrthod pob cynnig o'r fath. Onid oes modd osgoi derbyn lletygarwch, rhaid i Swyddogion sicrhau nag fyddant yn derbyn mwy na sydd raid a datgan ei dderbyn i'r Swyddog Monitro mor fuan ag y bo modd.

4.6.18 **HYFFORDDIANT**

4.6.18.1 Ni all yr un aelod ymuno â'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion hyd oni fydd wedi mynychu hyfforddiant cynefino. Y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) fydd o bryd i'w gilydd yn penderfynu ar gynnwys yr hyfforddiant cynefino. Wedyn, cyflwynir hyfforddiant i ddiweddaru'r wybodaeth a'r sgiliau – bydd hynny'n digwydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac yn rhoi sylw i newidiadau i'r ddeddfwriaeth neu i'r weithdrefn.

4.6.18.2 Sicrha Cynghorwyr eu bod yn mynychu o leiaf 3 achlysur hyfforddi dros gyfnod o ddwy flynedd er mwyn cadw ar y blaen i'r materion cynllunio ac yn gallu cyfrannu'n gadarnhaol yn y broses benderfynu. Bydd cofnodion presenoldeb yn cael eu monitro a'u cyflwyno i'r Cyngor. Bydd unrhyw aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion sy'n methu â mynychu nifer benodol a sylfaenol o sesiynau hyfforddi yn cael ei dynnu oddi ar y Pwyllgor neu'n cael ei atal rhag bod arno am gyfnod trwy bleidlais yn y Cyngor llawn pan gyflwynir i'r Cyngor adroddiad ar y cofnod mynychu.

**ATODIAD -**

4.6.19 **PROTOCOL AR GYFER YMWELIADAU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION Â SAFLEOEDD**

4.6.19.1 **MEINI PRAWF AR GYFER YMWELIADAU SAFLE**

4.6.19.1.1Mae'n bwysig bod meini prawf yn cael eu sefydlu ar gyfer penderfynu pryd mae modd cyfiawnhau ymweliad â safle ac ystyried dull gweithredu ymweliadau o'r fath. Yn hyn o beth, dylid ystyried y pwyntiau canlynol.

(i) Gall ymweliadau safle :

- oedi'r broses benderfynu, ac
- efallai arwain at apêl i'r 'Arolygiaeth Gynllunio' ar sail 'methu â phenderfynu';
- gall effeithio ar berfformiad y gwasanaeth o ran ei darged 8 wythnos a pheri costau ychwanegol i'r Gwasanaeth ac efallai i'r ymgeis(-ydd/-wyr) fel ei gilydd.

(ii) Mae angen cysondeb wrth benderfynu ar ymweld â safle a sut i gynnal ymweliad o'r fath. Fel arall, gall adael yr Awdurdod yn agored i'r cyhuddiad fod ymweliadau safle yn fympwyol neu efallai yn ddyfais lobïo.

- (iii) Rhaid trefnu ymweliadau â safleoedd yn ofalus a'u mynychu yn dda a sefydlu'n glir ar y cychwyn cyntaf beth yw eu diben, eu ffurf a'u trefniadau a chadw at hynny wedyn.

- (iv) Rhaid osgoi ymweliadau â safleoedd onid yw'r manteision yn sylweddol. Dylai'r prawf 'mantais sylweddol' fod yn berthnasol ym mhob achos. Ni ddylai ymweliadau â safleoedd fod yn angenrheidiol onid yw'n anodd gweld a dirnad beth fydd effaith y datblygiad arfaethedig h.y. pan fo aneglurder y cais yn gwneud asesiad gweledol yn angenrheidiol.

- (v) Gall ymweliadau â safleoedd fod yn briodol i ystyried ceisiadau mawr, mwy cymhleth.

- (vi) os yw'r Pwyllgor o'r farn bod angen ymweld â safle cyn y gellir gwneud penderfyniad ar y cais, yna dim ond yr aelodau hynny a aeth ar yr ymweliad swyddogol â'r safle fedr gymryd rhan a phleidleisio ar y cais pan fydd yn cael ei drafod ymhellach gan y Pwyllgor.

  Bydd cyfeiriad at argymhelliad swyddog i ymweld â safle yn ymddangos yn yr adroddiad i'r Pwyllgor.

4.6.19.1.**2Ni ddylid** ymweld â safle yn yr achosion canlynol:

- (i) I ystyried anghydfod ynghylch ffiniau neu rhwng cymdogion yn unig
- (ii) I ystyried gwrthwynebiadau ar sail cystadleuaeth.

PL-16971-RWJ/182231

- (iii) I ystyried gwrthwynebiadau a godwyd ar sail gostwng gwerth eiddo.
- (iv) I ystyried unrhyw faterion eraill sydd heb fod yn ystyriaethau cynllunio perthnasol
- (v) Pan fo'r cynghorwyr eisoes wedi ymweld â'r safle yn y 12 mis cynt, onid yw'r amgylchiadau yn eithriadol.

4.6.19.2 **CEISIADAU AM YMWELIADAU Â SAFLEOEDD**

I bwrpas sefydlu trefn strwythuredig i'r ymweliadau a safleoedd bydd raid glynu wrth y drefn ganlynol:-

4.6.19.2.1 Rhaid cyflwyno pob cais am ymweliad â safle yn ysgrifenedig i'r Prif Swyddog Cynllunio / Rheolwr Rheoli Cynllunio erbyn 1.00pm ar y diwrnod gwaith olaf cyn Cyfarfod y Pwyllgor. Rhaid i unrhyw gais llafar ddaw cyn cyfarfod y Pwyllgor gael ei ddilyn gyda chais ysgrifenedig cyn i Gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ddechrau. Bydd y rheswm dros gynnal yr 'ymweliad safle' yn cael ei ddatgan yn eglur a'i gyflwyno felly i'r Pwyllgor Cynllunio.

4.6.19.2.2 Os bydd cais yn cael ei wneud am 'ymweliad safle' yn ystod Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, unwaith eto, bydd y rhesymau dros gynnal yr ymweliad yn cael eu cofnodi yn y cofnodion.

4.6.19.3 **DULLIAU GWEITHREDU YN YSTOD YR YMWELIAD Â'R SAFLE**

4.6.19.3.1 Rhoddir gwybod i'r ymgeisydd am yr ymweliad â'r safle ond ni fydd yn cael bod yn bresennol yn ystod yr ymweliad i gyflwyno unrhyw sylwadau.

4.6.19.3.2 Prif ddiben yr ymweliad â'r safle fydd i'r Swyddogion Cynllunio egluro'r materion cynllunio sy'n berthnasol i'r achos ac i'r cynghorwyr weld y safle.

4.6.19.3.3 Ni fydd unrhyw drafodaeth yn ystod yr ymweliad â'r safle o ran rhinweddau'r cais. Rhaid peidio â defnyddio'r ymweliad â'r safle fel fforwm i drafodaethau.

4.6.19.3.4 Y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd fydd yn cynnal ac yn arwain yr ymweliad â'r safle. Os bydd naill ai'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd yn absennol, bydd yr Aelodau yn cytuno ar Gadeirydd dros dro.

4.6.19.3.5 Bydd y Cadeirydd yn agor y Cyfarfod yn ffurfiol a nodi'r rhesymau dros gynnal yr ymweliad.

4.6.19.3.6 Gofynnir i'r swyddog cynllunio amlinellu'r cynnig a'r prif faterion.

4.6.19.3.7 Bydd y cynghorwyr yn edrych ar y safle, ar yr adeiladau perthnasol a'r cyffiniau yn ôl yr angen.

4.6.19.3.8 Bydd y cynghorwyr yn cael cyfle i godi cwestiynau neu ofyn am eglurhad ar ffeithiau gyda'r swyddog cynllunio a/neu cynghorydd(-wyr) lleol.

PL-16971-RWJ/182231

4.6.19.3.9 Bydd cynghorwyr lleol y Ward y mae'r cais ynddi (os yn bresennol) yn cael cyfle i roi sylwadau ar y cynnig.

4.6.19.3.10 Cedwir nodiadau o'r cyfarfod ar y safle a chânt eu cofnodi felly yng nghyfarfod dilynol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion pan fydd y cais yn cael ei drafod.

4.6.19.4 **ADOLYGU PENDERFYNIADAU'N RHEOLAIDD**

4.6.19.4.1~~(i)~~ Mae Adroddiad y Comisiwn Archwilio '*Building Quality*' yn argymell bod cynghorwyr yn ymweld â sampl o hawliau cynllunio sydd wedi eu gweithredu i asesu ansawdd y penderfyniadau. Dylai adolygiad o'r fath wella ansawdd a chysondeb penderfyniadau a, thrwy hynny, atgyfnerthu ymddiriedaeth y cyhoedd, a chynorthwyo gydag adolygiadau o bolisïau cynllunio.

4.6.19.4.2~~(ii)~~ Dylid cynnal yr adolygiad yn flynyddol. Dylai gynnwys enghreifftiau o amrywiaeth o gategorïau o ddatblygiad gan gynnwys ceisiadau y penderfynodd Swyddogion arnynt trwy bwerau dirprwyol.

4.6.20 **SWYDDOGAETH CADEIRYDD Y PWYLLGOR A CHYNNAL BUSNES Y PWYLLGOR**

4.6.20.1 **Ethol Cadeirydd / Is-Gadeirydd**

4.6.20.1.1 ~~(i)~~ ~~B~~ydd y cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor yn ethol Cadeirydd yn ei gyfarfod cyntaf yn dilyn cyfarfod blynyddol y Cyngor. Ar yr un pryd, bydd y cynghorwyr yn ethol Is-Gadeirydd am yr un cyfnod neu hyd oni fydd y naill neu'r llall, neu'r ddau ohonynt, yn ymddiswyddo.

4.6.20.1.2 ~~(ii)~~ ~~P~~an fo'r Cadeirydd yn absennol am y cyfan o gyfarfod y Pwyllgor neu am ran ohono, yna bydd yr Is-Gadeirydd yn cymryd y Gadair. Yn absenoldeb yr Is-Gadeirydd bydd y Pwyllgor yn dewis un o'u haelodau sy'n bresennol i fod yn Gadeirydd am y cyfarfod hwnnw neu am ran ohono hyd oni fydd y Cadeirydd (neu'r Is-Gadeirydd) yn dychwelyd.

4.6.20.2 **Cyfrifoldeb y Cadeirydd**

Y rhain fydd cyfrifoldebau'r Cadeirydd :

4.6.20.2.1llywyddu yn y cyfarfodydd fel bod modd gwneud gwaith y Pwyllgor yn effeithiol gan roddi sylw priodol i hawliau'r Cynghorwyr, y swyddogion ac i fudd y gymuned yn gyffredinol.

4.6.20.2.2 sicrhau bod cyfarfod y Pwyllgor yn cael ei gynnal yn briodol fel Fforwm i drafod materion cynllunio a gorchmynion statudol yn unig.

4.6.20.2.3 sicrhau fod busnes y cyfarfod yn cael ei gynnal yn unol â'r darpariaethau perthnasol yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

4.6.20.2.4 cefnogi'r swyddogion cynllunio a chynrychiolydd y Swyddog Monitro i atgoffa'r aelodau ynglyn â'u dyletswydd i lynu wrth drafodaethau cynllunio gwirioneddol ac o bwys yn ystod y broses o wneud penderfyniad.

4.6.20.3 **<u>Swyddogaeth Swyddogion yng nghyfarfodydd y Pwyllgor</u>**

4.6.20.3.1 Bydd y swyddogion yn rhoddi cyngor proffesiynol i'r Cadeirydd fel bod modd iddo gyflawni ei ddyletswyddau yn y swydd.

4.6.20.3.2 Bydd y swyddogion yn darparu cyngor fel a ganlyn :

(i) yn y cyfarfodydd rhagarweiniol cyn y Pwyllgor er mwyn briffio'r Cadeirydd yn llawn ar faterion a allai godi yn y cyfarfodydd;

(ii) mewn unrhyw gyfarfodydd ar ôl y Pwyllgor (os oes gofyn).

(iii) yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor pan fo cwestiynau'n cael eu gofyn i'r Cadeirydd i bwrpas ymateb.

(iv) mewn unrhyw gyfarfod a elwir gan swyddogion i drafod materion sy'n berthnasol i bynciau 'cynllunio' neu i bynciau 'gorchmynion'.

4.6.20.4 **<u>Cynnal Cyfarfodydd o'r Pwyllgor</u>**

(4.6.20.4.1) Bydd pob eitem sydd ar y rhaglen i bwrpas trafodaeth neu wybodaeth yn cael ei chyflwyno gan y Cadeirydd.

(4.6.20.4.2) Unwaith y bydd y Cadeirydd wedi cyflwyno'r eitem, bydd yn sicrhau cyfle i'r swyddog gyflwyno adroddiad ar yr eitem. Lle mae'r drefn siarad cyhoeddus yn berthnasol i gais penodol, bydd hyn yn digwydd cyn i'r swyddog gyflwyno adroddiad ar yr eitem.

(4.6.20.4.3) Yn gyntaf, bydd y Cadeirydd yn caniatáu i'r cynghorwyr lleol siarad yn dilyn adroddiad y swyddog. Ond gan ddibynnu ar a ydyw'r cynghorwyr lleol yn dymuno siarad o blaid yr eitem neu yn ei herbyn a chan ddibynnu ar a ydyw ar y Pwyllgor ai peidio.

(4.6.20.4.4) Wedyn bydd y Cadeirydd yn caniatáu i'r cynghorwyr ymuno yn y drafodaeth yn y drefn honno sy'n cynrychioli dymuniad y cynghorwyr yn ôl dehongliad y Cadeirydd.

(4.6.20.4.5) Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod yr holl gynghorwyr yn cydymffurfio gyda darpariaethau Cyfansoddiad y Cyngor a chyda darpariaethau perthnasol y Rheolau Gweithdrefn hyn.

(4.6.20.4.6) Bydd pob cynghorydd sy'n dymuno siarad yn cael cyfle i wneud hynny. Ni fydd cynghorwyr yn cael gwneud areithiau a bydd raid iddynt annerch y Pwyllgor ar faterion 'cynllunio' (h.y. ystyriaethau cynllunio perthnasol) a 'gorchmynion' yn unig. Gall y Cadeirydd dorri ar draws Cynghorydd sy'n gwneud datganiadau ailadroddus neu rai amherthnasol.

(4.6.20.4.7)Pan fo raid i swyddogion ymateb i sylwadau neu i gwestiwn gan gynghorydd, yna bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod y swyddog yn cael cyfle i wneud hynny.

(4.6.20.4.8)Os ydyw'r Cadeirydd yn dymuno siarad fel cynghorydd lleol ar eitem benodol, yna bydd darpariaethau'r Cyfansoddiad yn ymwneud ag ef fel Cadeirydd yn union fel yr ymwnânt â'r holl gynghorwyr eraill.

(4.6.20.4.9)

(i) Ar ddiwedd y drafodaeth, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor bleidleisio ar y mater dan drafodaeth. Onid yw'r cynghorwyr yn anghytuno gydag argymhelliad y swyddog, byddant yn pleidleisio trwy godi dwylo.

(ii) Pan fo gwelliant yn cael ei gynnig a'i eilio yng nghyswllt argymhelliad swyddog, yna bydd raid pleidleisio ar y gwelliant yn gyntaf.

(4.6.20.4.10) Bydd raid i'r holl gynghorwyr a'r holl swyddogion barchu swyddogaeth y Cadeirydd. Bydd arweiniad y Cadeirydd ar yr holl faterion trefn yn y Pwyllgor yn derfynol ac ni fydd modd trafod ei benderfyniad. Bydd y Cadeirydd, bob amser, yn sicrhau y bydd yr holl gynghorwyr (gan gynnwys ef ei hun) a phob swyddog yn parchu'r protocol ar y berthynas rhwng aelodau a swyddogion a sicrhau hefyd bod y cyngor a roddo'r swyddogion yn y Pwyllgor yn cael ei barchu.

**4.6.21 Y Cyhoedd yn Siarad**

Hawl i Siarad

4.6.21.1 Rhaid i'r cais cynllunio fod ar raglen y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Os bydd y cais yn cael ei ohirio, ni fydd hawl i'r cyhoedd siarad os bydd cyfle wedi ei roi yn barod mewn Pwyllgor blaenorol lle cafodd y cais ei ystyried yn llawn.

4.6.21.2 Fe all y ddau ymgeisydd (neu eu hasiantiaid), a'r gwrthwynebwyr (neu eu hasiantiaid), siarad a does yna ddim meini prawf i'w bodloni ac eithrio cydymffurfio gyda gweithdrefn y Cyngor.

4.6.21.3 Fel arfer, dim ond un person sy'n cael siarad o blaid ac un person yn erbyn cais. Mewn achosion eithriadol, efallai y bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn defnyddio ei ddisgresiwn i adael un siaradwr arall i'r ddwy 'ochr'. Fel arfer. ni fydd yn gwneud hyn ond pan fydd ceisiadau mawr lle mae yna wahaniaeth barn o fewn un 'ochr' (e.e. dau yn siarad yn erbyn cais am siop fawr lle mae un yn cynrychioli barn y gwerthwyr a'r llall yn cynrychioli barn rhai sy'n byw gerllaw). Mewn achosion o'r fath bydd yr 'ochr' arall yn cael caniatâd i ddau siaradwr neu ddwywaith yr amser arferol os ydynt eisiau defnyddio'r amser hwnnw.

4.6.21.4 Rhaid i unrhyw un sydd eisiau siarad roi'r hawl i'r Cyngor gyflwyno'i enw a'i rif cyswllt i bobl eraill (o'r un farn) sydd eisiau siarad fel y gallant gytuno pwy sy'n mynd i siarad a pha bethau sydd angen eu dweud ac ati. Os na fyddant yn cytuno, y person cyntaf ofynnodd i'r Cyngor am gael siarad fydd yn cael ei ddewis fel arfer.

4.6.21.5 Rhaid cyflwyno cais am y cyfle i siarad i'r Swyddog Gweinyddol yn yr Adran Gynllunio cyn yr amser cau sy'n cael ei nodi yn y llythyr o rybudd sy'n cael ei anfon at ymgeiswyr a phobl sy'n byw yn ymyl safle'r cais.

Yr amser a ganiateir~~Faint o amser~~ i Siarad

4.6.21.6 Bydd y siaradwr yn cael siarad am hyd at 3 munud gerbron y Pwyllgor.

Lluniau ac ati

4.6.21.7 Does dim hawl gan y siaradwr rannu na dangos papurau yn y Pwyllgor. Rhaid i bob dim ar bapur fod wedi'i gyflwyno i'r Cyngor yn ystod y cyfnod statudol o roddi cyhoeddusrwydd i'r cais a byddant yn cael eu crynhoi yn adroddiad y Swyddog.

Y Drefn

4.6.21.8 Mae'r drefn lle mae aelodau'r cyhoedd yn siarad yn y Pwyllgor yn cael ei ddisgrifio yn y dogfennau priodol.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD:** | **16 Medi 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Canllawiau Diwygiedig ar y Côd Ymddygiad** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cyflwyno Adroddiad i'r Pwyllgor Safonau ar y Canllawiau Diwygiedig mewn perthynas â'r Côd Ymddygiad** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball, lbxcs@ynysmon.gov.uk 01248 2586** |

## 1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

1.1 Rhaid i awdurdodau lleol a chynghorau cymuned yng Nghymru fabwysiadu côd ymddygiad statudol sy'n nodi'r ymddygiad a ddisgwylir gan aelodau ac aelodau cyfetholedig. Rhaid i aelodau o'r fath wneud ymrwymiad ysgrifenedig i lynu wrth ofynion eu côd ymddygiad yn ystod eu tymor yn y swydd.

1.2 Mae swyddogaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) yn cynnwys darparu canllawiau i aelodau awdurdodau lleol a chynghorau cymuned i'w helpu i ddeall yn well eu rhwymedigaethau dan y côd ymddygiad ac i adlewyrchu unrhyw newidiadau cyfreithiol a phrofiad sy'n esblygu.

1.3 Gweler ynghlwm yn **ATODIADAU 1 a 2** y canllawiau diwygiedig sy'n berthnasol i aelodau ac aelodau cyfetholedig y Cyngor hwn a'r canllawiau diwygiedig yn achos aelodau cynghorau cymuned.

1.4 Hon yw'r drydedd fersiwn o'r Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon ac mae'n disodli'r fersiynau a baratowyd yn flaenorol.

1.5 Yn **ATODIAD 3** ceir copi o'r llythyr a anfonwyd gan yr Ombwdsmon at yr holl gynghorau cymuned drwy eu clercod yn dwyn sylw at y Canllawiau newydd.

1.6 Ysgrifennodd y Swyddog Monitro at holl aelodau ac aelodau cyfetholedig y Cyngor hwn ar 6 Gorffennaf 2015 yn dwyn y Canllawiau newydd i'w sylw.

## 2. ARWYDDOCÂD Y CANLLAWIAU

Wrth benderfynu a ddylid ymchwilio ai peidio i honiad fod y côd wedi ei dorri, neu i barhau gydag ymchwiliad sy'n mynd rhagddo neu gyfeirio ymchwiliad at Bwyllgor Safonau lleol neu at Banel Dyfarnu Cymru (h.y. y pwyllgor safonau cenedlaethol i bob pwrpas) bydd yr Ombwdsmon yn cymryd i ystyriaeth y wybodaeth berthnasol sydd wedi ei chynnwys yn y Canllawiau hyn.

Yn ychwanegol at hyn mae'r Canllawiau yn helpu aelodau i ddeall y lefel o ymddygiad sy'n ddisgwyliedig ohonynt dan y côd ac yn darparu mesur o degwch a chysondeb ar gyfer pob aelod ar draws yr holl gyrff perthnasol.

## 3. CRYNODEB O'R NEWIDIADAU

Isod, ceir crynodeb o'r newidiadau sy'n codi o'r Canllawiau newydd:-

### 3.1 Y PRAWF YMCHWILIO

Yn y lle cyntaf, bydd yr Ombwdsmon yn disgwyl i achwynydd fedru darparu tystiolaeth uniongyrchol (o lygad y ffynnon) o achos o dorri'r côd. Mael lefel y prawf sydd raid wrtho'n seiliedig ar yr hyn sy'n debygol ar ôl pwyso a mesur. Os bydd modd cwrdd â'r prawf tystiolaeth, yna bydd yr Ombwdsmon yn mynd ymlaen i ystyried a oes angen ymchwilio i'r mater ai peidio. Wrth wneud hyn, bydd yn defnyddio'r prawf budd y cyhoedd ac yn ei ganllawiau, amlinellir y ffactorau hynny y bydd yn eu cymryd i ystyriaeth. Nid yw'r rhestr hon yn un hollgynhwysol a bydd pob achos yn dibynnu ar y ffeithiau. Mae'r ffactorau isod wedi eu cynnwys:-

- Difrifoldeb yr achos o dorri'r amod;
- A yw'r aelod wedi mynd ati'n fwriadol ai peidio i sicrhau mantais bersonol iddynt eu hunain (neu eu cydnabod) o'r pwrs cyhoeddus;
- A yw wedi camddefnyddio swydd o ymddiriedaeth neu awdurdod;
- Pa niwed, os o gwbl, a achoswyd i drydydd parti;
- Ai rhagfarn a oedd wrth wraidd yr achos o dorri'r côd;
- A oes unrhyw dystiolaeth o ymddygiad tebyg blaenorol gan yr aelod;
- A oes angen ymchwiliad er mwyn cynnal hyder cyhoeddus mewn aelodau etholedig;
- A yw ymchwiliad yn ymateb cymesur (h.y. a yw'n debygol o arwain at gosb).

Mae gan yr Ombwdsmon ddisgresiwn statudol eang o ran cychwyn, neu barhau, ymchwiliad. Rhydd y Canllawiau diwygiedig ragor o eglurder a chysondeb ynglŷn â'r modd y bydd yn defnyddio'r disgresiwn hwnnw yn y penderfyniadau y mae'n ei wneud.

### 3.2 GWRANDAWIADAU CYHOEDDUS

Am y tro cyntaf, mae'r Ombwdsmon yn cadarnhau bod rhagdybiaeth yn awr y bydd holl wrandawiadau Pwyllgorau Safonau yn cael eu cynnal yn gyhoeddus. Fodd bynnag, dylid nodi mai rhagdybiaeth yn unig yw hon. Mae'r Rheoliadau Hawl i Wybodaeth yn parhau i fod yn berthnasol i bwyllgorau safonau yn yr un modd â phwyllgorau eraill y Cyngor ac efallai y bydd weithiau ddata personol ynghylch trydydd partïon neu wybodaeth arall a ddiogelir, sy'n cyfiawnhau cau allan y wasg a'r cyhoedd. Bydd penderfyniad o'r fath yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Safonau fel mater rhagarweiniol ac yn dilyn derbyn cyngor. Eto, mae pob achos yn dibynnu ar y ffeithiau.

### 3.3 CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Yn wyneb nifer gynyddol y cwynion ynghylch cynnwys rhai o'r sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol, mae'r Ombwdsmon wedi ei gwneud yn glir os bydd aelod yn cyfeirio ato/ati ei hun fel cynghorydd, yna bydd y côd ymddygiad yn berthnasol. Yn wir, mae wedi mynd gam ymhellach ac wedi egluro os bydd aelod yn gwneud sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol lle nad ydynt yn cyfeirio at eu hunain fel cynghorwyr ond lle mae cynnwys y sylwadau yn ymwneud â'u swyddogaeth fel cynghorydd, yna bydd paragraff 6(1) (a) y Côd yn berthnasol h.y. sylwadau sy'n dwyn anfri ar swyddogaeth aelod neu ar y Cyngor.

Mae'r Ombwdsmon yn argymell y dylai aelodau roi sylw dyledus i ddogfen a gynhyrchwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o'r enw 'Cyfryngau Cymdeithasol: Canllawiau i Gynghorwyr'. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan CLILC yn <http://www.cllc.gov.uk/cyfryngau-cymdeithasol-canllaw\-i-gynghorwyr> neu trwy ffonio CLILC ar 029 2046 8600. Yn ogystal, mae

gan y Cyngor polisi a gellir ei weld yn http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cyfansoddiad/cyfansoddiad-rhan-5-codau-a-phrotocolau/cyfansoddiad-510-protocol-ar-gyfryngau-cymdeithasol/. Mae copïau ynghlwm yn **ATODIAD 4**.

### 3.4 PENDERFYNIAD CALVER

Yn dilyn penderfyniad yr Uchel Lys yn Calver http://apw.gov.wales/decision/appeals-decisions/appeals-decisions-apr11-mar12/cllr-m-calver/?lang=en mae'r Canllawiau yn awr wedi cael eu diwygio i atgyfnerthu'r pwynt fod rhyddid gwleidyddol i siarad yn mwynhau lefel uwch o warchodaeth dan Erthygl 10 yr ECHR.

Un o ofynion penodol y Canllawiau (gan adlewyrchu'r gyfraith achos) yw y disgwylir i wleidyddion ac uwch swyddogion gael "croen tewach" ond mae'r gyfraith yn darparu lefel uwch o warchodaeth i'r rheini y tu allan i'r categori prif swyddogion a phenaethiaid gwasanaeth.

Mae'r hyn a olygir gan sylwadau gwleidyddol wedi cael ei ddiffinio'n eang. Ceir enghreifftiau yn nhudalen 15 y Canllawiau.

### 3.5 CWYNION BLINDERUS

Mae'n amlwg y bydd yr Ombwdsmon yn delio'n fwy cadarn na'i ragflaenwyr wrth ddelio gyda chwynion blinderus. Mae wedi cadarnhau yn ei ganllawiau ei fod yn gynyddol bwysig iddo sicrhau defnydd effeithiol o'i adnoddau a bod unrhyw ymchwiliad yr ymgymerir ag ef yn gymesur ac yn angenrheidiol er budd ehangach y cyhoedd. Mae hyn yn debygol o olygu y bydd y mwyafrif o gwynion blinderus yn cael eu taflu allan yn y cam cyntaf.

Hefyd, am y tro cyntaf, mae'r Ombwdsmon yn ei gwneud yn glir os gwêl fod aelod wedi gwneud cwyn flinderus (h.y. heb sail ac er mwyn cythruddo a gwylltio) yna gall yr Ombwdsmon ymchwilio i ymddygiad yr achwynydd sydd wedi gwneud cwyn neu gwynion nad oes ganddynt fawr o sail, os o gwbl. Mae gan yr Ombwdsmon y pŵer i gymryd y cam hwn heb dderbyn cwyn.

### 3.6 DIDDORDEBAU PERSONOL A RHAI SY'N RHAGFARNU

Gan gychwyn ar dudalen 29 y Canllawiau, dan 'Diddordebau Personol a rhai sy'n Rhagfarnu', mae'r Ombwdsmon yn amgáu llif siartiau i gynorthwyo aelodau i benderfynu a oes ganddynt ddiddordeb personol ai peidio ac, os oes, a yw'r diddordeb hwnnw hefyd yn un sy'n rhagfarnu. Fel y gwyddoch, gall aelodau gymryd rhan ar yr amod eu bod wedi gwneud datganiad os oes ganddynt ddiddordeb personol ond rhaid iddynt adael y cyfarfod a pheidio â siarad neu bleidleisio ar y mater os oes ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu. Gellir goresgyn y rhwystr hwn trwy gael caniatâd arbennig gan Bwyllgor Safonau.

## 4. ARGYMHELLIAD

Nodi'r Canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon.

ATODIAD / ENCLOSURE
1

ATODIAD / ENCLOSURE 1

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

# Y Cod Ymddygiad

## ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru

### Canllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

ar gyfer aelodau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau tân ac achub, ac awdurdodau parciau cenedlaethol

## Rhagair

Mae'r canllawiau diwygiedig hyn gennyf i, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn rhoi golwg gyffredinol o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol ("y Cod") a gyflwynwyd yn 2008. Ei fwriad yw eich helpu chi fel aelod i ddeall eich dyletswyddau o dan y Cod. Mae'r Cod yn berthnasol i holl aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru. Fel aelod, gofynnir i chi ymrwymo iddo fel rhan o'ch datganiad wrth dderbyn eich swyddogaeth. Nid yw'r Cod yn berthnasol i weithredoedd awdurdodau yn eu cyfanrwydd, nac i ymddygiad eu swyddogion na'u gweithwyr. Mae cod ymddygiad ar wahân yn berthnasol i swyddogion awdurdodau lleol yng Nghymru.

Hon yw trydedd fersiwn o'r canllawiau a dyma fy un cyntaf i fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r fersiwn hon, am y tro cyntaf, yn esbonio'r prawf dau gam diwygiedig y byddaf yn ei ystyried wrth benderfynu a ddylid ymchwilio neu barhau i ymchwilio achos o dorri amodau'r Cod hyd at y cam o gyfeirio'r mater at bwyllgor safonau neu at Banel Dyfarnu Cymru. Hefyd mae'n cynnwys rhagor o ganllawiau ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a mynegiant gwleidyddol, a'r nod yw rhoi cymorth i aelodau ynghylch buddiannau a all fod yn anodd i rai aelodau. Fel cynt, nid yw'n cynnwys canllawiau sy'n berthnasol i gynghorwyr tref a chymuned yn unig. Mae'n cynnwys enghreifftiau o achosion diweddar sydd wedi cael eu hystyried gan fy swyddfa, pwyllgorau safonau ledled Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru.

Nod y tudalennau a ganlyn yw eich helpu i ddeall y Cod a'i ofynion yn gyffredinol. Mae Adran 1 yn cynnwys cyflwyniad ac mae Adran 2 yn amlinellu eich dyletswyddau o dan y Cod, gan gyfeirio at baragraffau penodol lle ceir rhagor o wybodaeth. Mae Adran 3 ac Adran 4 yn delio â materion cyffredinol sy'n ymwneud â buddiannau. Gallwch gael gafael ar gopi o'r Cod drwy ei lwytho i lawr o wefan eich awdurdod neu drwy gysylltu â'ch Swyddog Monitro.

Bwriad y canllawiau hyn yw eich helpu i ddeall y Cod a sut y mae'n berthnasol, ond nid oes gobaith iddynt roi sylw i bob sefyllfa bosibl. Yn y pen draw, chi sy'n gyfrifol am ofyn am gyngor penodol gan eich Swyddog Monitro a phenderfynu ar y camau mwyaf priodol i'w cymryd.

Rwyf wedi defnyddio enghreifftiau er mwyn helpu i ddod â'r canllawiau hyn yn fyw. Mae'r enghreifftiau hyn yn trafod achosion go iawn sydd wedi cael eu hystyried gan fy swyddfa, ac maent hefyd yn cynnwys penderfyniadau a wnaed gan bwyllgorau safonau lleol a Phanel Dyfarnu Cymru. Mae'n bosibl mai fy rhagflaenydd sydd wedi gwneud rhai o'r penderfyniadau hyn, ond er mwyn hwyluso pethau, byddaf yn cyfeirio atynt drwy gydol y ddogfen fel fy mhenderfyniadau fy hun. Cyhoeddir rhagor o enghreifftiau o achosion diweddar bob chwarter yn "Llyfr Achosion y Cod Ymddygiad" sydd ar fy ngwefan yn **www.ombwdsmon-cymru.org.uk**

Fel aelod, cynigir hyfforddiant i chi ar y Cod, naill ai gan Swyddog Monitro neu gan gorff cynrychioladol. Rwy'n disgwyl i bob aelod fanteisio ar unrhyw hyfforddiant o'r fath, gan gynnwys cyrsiau gloywi, i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r darpariaethau yn y Cod a'r safonau y disgwylir iddynt eu harddel mewn bywyd cyhoeddus. Byddwn yn annog aelodau hefyd i barhau i

ddefnyddio trefniadau lleol er mwyn delio â chwynion aelodau am ei gilydd. Mae'r trefniadau hyn wedi profi'n ffordd effeithiol iawn o ddatrys llawer o'r achosion hyn.

Ers i mi gychwyn yn fy swydd, rwyf yn pryderu mwy a mwy am nifer y cwynion lefel isel a dderbynnir.  Er ei bod yn ymddangos bod y cwynion hyn wedi cael eu cyflwyno gan nifer fach o aelodau, yn y dyddiau anodd hyn o gynildeb cyhoeddus, mae'n bwysicach fyth ein bod yn defnyddio adnoddau fy swydd yn effeithiol a bod unrhyw ymchwiliad a wneir yn gymesur ac yn angenrheidiol er budd y cyhoedd yn gyffredinol.

Dylem barhau i gydweithio i godi safonau mewn bywyd cyhoeddus a chreu diwylliant lle caiff aelodau eu parchu am fod yn anhunanol, yn wrthrychol ac am eu hymddygiad parchus.  Os gwnawn ni hynny, gallwn feithrin hyder y cyhoedd yn ein sefydliadau democrataidd a hyrwyddo llywodraethu da er budd pobl ein holl gymunedau.



**Nick Bennett**
**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**Mawrth 2015**

Caiff y canllawiau statudol hyn eu cyhoeddi gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o dan Adran 68 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ar gyfer aelodau etholedig, aelodau cyfetholedig ac aelodau a benodir ar:

- gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- awdurdodau tân ac achub, ac
- awdurdodau parciau cenedlaethol

yng Nghymru.

## Cydnabyddiaeth

Mae'r canllawiau hyn wedi defnyddio'r canllawiau a baratowyd ac a gyhoeddwyd gan Standards for England ar hen God Ymddygiad Lloegr.  Maent wedi cael eu hymestyn a'u diwygio er mwyn iddynt fod yn berthnasol i God Cymru ac i'r cyd-destun Cymreig.  Hoffwn ddiolch i adran gwasanaethau cyfreithiol Cyngor Sir Ceredigion am gael defnyddio ei siartiau llif ar fuddiannau. Mae'r rhain ar ffurf atodiad i'r canllawiau.

Mae canllawiau ar wahân ar gael ar gyfer aelodau cynghorau cymuned.

Cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf ym mis Ebrill 2010.

Cyhoeddwyd yr argraffiad hwn Mawrth 2015.

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Rhan 1 – Cyflwyniad** | **6** |
| ▪ Yr Egwyddorion | 9 |
| ▪ Penderfynu pryd mae'r Cod yn berthnasol i chi | 11 |
| **Rhan 2 – Dyletswyddau cyffredinol o dan y Cod** | **13** |
| ▪ Cydraddoldeb | 13 |
| ▪ Trin pobl eraill â pharch ac ystyriaeth | 14 |
| ▪ Bwlio a harasio | 16 |
| ▪ Peryglu didueddrwydd swyddogion yr awdurdod | 17 |
| ▪ Datgelu gwybodaeth gyfrinachol | 18 |
| ▪ Rhwystro mynediad at wybodaeth | 19 |
| ▪ Anfri | 20 |
| ▪ Rhoi gwybod am dorri amodau'r Cod | 20 |
| ▪ Cwynion blinderus | 21 |
| ▪ Cydweithredu ag ymchwiliadau | 22 |
| ▪ Defnyddio eich safle yn amhriodol | 23 |
| ▪ Adnoddau'r awdurdod | 24 |
| ▪ Defnyddio adnoddau at ddibenion priodol yn unig | 24 |
| ▪ Gwneud penderfyniadau'n wrthrychol | 25 |
| ▪ Ystyried cyngor a roddir i chi a rhoi rhesymau | 26 |
| ▪ Treuliau | 27 |
| ▪ Rhoddion a lletygarwch | 28 |
| **Rhan 3 – Buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu** | **29** |
| ▪ Buddiant personol | 29 |
| ▪ Beth i'w wneud pan fydd gennych fuddiant personol | 34 |
| ▪ Buddiannau sy'n rhagfarnu | 35 |
| ▪ A yw'r mater yn perthyn i un o'r categorïau eithrio? | 36 |
| ▪ Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu | 37 |
| ▪ Beth i'w wneud pan fydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu | 38 |
| ▪ Swyddogaethau gweithredol neu gabinet | 39 |
| ▪ Goddefebau | 40 |
| **Rhan 4 – Cofrestru Buddiannau** | **42** |
| ▪ Gwybodaeth sensitif | 43 |
| ▪ Rhoddion a lletygarwch | 44 |
| **Atodiadau – Siartiau Llif** | **45** |
| ▪ Atodiad 1 Buddiannau personol | 45 |
| ▪ Atodiad 2 Buddiannau sy'n rhagfarnu | 46 |

## 1. Cyflwyniad

Creodd Deddf Llywodraeth Leol (2000) fframwaith moesegol newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Creodd bŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyhoeddi cod ymddygiad enghreifftiol sy'n berthnasol i aelodau ac aelodau cyfetholedig pob awdurdod perthnasol yng Nghymru. Cafodd y pŵer hwn ei drosglwyddo i Weinidogion Cymru drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn 2008, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru y Cod Ymddygiad Enghreifftiol presennol ac mae'n rhaid i bob awdurdod perthnasol ei fabwysiadu.

Roedd yn rhaid i awdurdodau fabwysiadu'r Cod ar ei ffurf enghreifftiol yn ei gyfanrwydd, ond gallent ychwanegu at y Cod, ar yr amod bod hyn yn cyd-fynd â'r Cod Enghreifftiol. Bwriad hyn oedd rhoi sicrwydd i aelodau a'r cyhoedd ynghylch pa safonau a ddisgwylir. Mae'n helpu i sicrhau cysondeb drwy'r awdurdodau perthnasol, gan osgoi dryswch i'r cyhoedd ac i'r rheini sy'n aelodau o fwy nag un awdurdod.

Gofynnir i bwyllgorau safonau prif gynghorau helpu aelodau ac aelodau cyfetholedig eu hawdurdodau ynghyd ag aelodau cynghorau tref a chymuned yn eu hardal i lynu wrth y Cod a threfnu i ddarparu cyngor a hyfforddiant. Rwyf yn argymell yn gryf y dylai pob aelod gael hyfforddiant a chymryd cyngor pan gaiff ei gynnig. Rwyf yn cefnogi awdurdodau unigol sy'n mynnu bod aelodau'n cael hyfforddiant ar y Cod cyn iddynt gael ymuno â rhai cyrff sy'n gwneud penderfyniadau megis pwyllgorau cynllunio.

Fel aelod, pan fyddwch yn llofnodi'r datganiad eich bod yn derbyn y swydd, rydych yn cadarnhau y byddwch yn glynu wrth y Cod. Eich cyfrifoldeb personol chi yw sicrhau eich bod yn deall eich dyletswyddau o dan y Cod ac yn gweithredu mewn modd sy'n dangos eich bod wedi ymrwymo i gyrraedd y safonau ymddygiad uchel a ddisgwylir gennych fel aelod.

Yn y pen draw, chi sy'n gyfrifol am y penderfyniadau a wnewch a gellir eich dal i gyfrif amdanynt. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y cewch wneud penderfyniadau sy'n torri amodau'r Cod neu sy'n mynd yn groes i gyngor oherwydd mai eich penderfyniad chi ydyw. Mae'r canllawiau hyn yn egluro'r cyfyngiadau y disgwylir i chi weithredu o'u mewn i sicrhau y gall aelodau'r cyhoedd fod â hyder yn y ffordd mae awdurdodau yng Nghymru yn gwneud eu penderfyniadau.

Fy swyddogaeth i fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw ymchwilio'n annibynnol i gwynion difrifol bod aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi torri'r Cod. Wrth benderfynu a ddylid ymchwilio i gŵyn, neu a ddylid parhau ag ymchwiliad i achos o dorri amodau'r Cod, byddaf yn defnyddio prawf dau gam. Yn y cam cyntaf, byddaf yn ceisio canfod a oes tystiolaeth uniongyrchol sy'n dangos bod amodau'r Cod wedi cael eu torri. Mae lefel y dystiolaeth sy'n angenrheidiol yn seiliedig ar debygolrwydd. Os llwyddir i ddangos y dystiolaeth, byddaf, yn yr ail gam, yn ystyried a oes angen cynnal ymchwiliad neu gyfeirio at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru er budd y cyhoedd. Rwyf wedi nodi isod rai o'r ffactorau y byddaf yn eu hystyried sy'n ymwneud â budd y cyhoedd. Nid yw'r rhestr hon o ffactorau yn gyflawn a bydd y sylw a roddir i bob un yn amrywio yn ôl ffeithiau a rhinweddau pob achos.

**Mae ffactorau budd y cyhoedd yn cynnwys:**

- difrifoldeb y tor-amod
- a yw'r aelod wedi mynd ati'n fwriadol i geisio cael buddiant personol iddo'i hun neu i rywun arall ar draul y cyhoedd
- a yw amgylchiadau'r tor-amod yn golygu bod aelod wedi camddefnyddio sefyllfa o ymddiriedaeth neu awdurdod ac wedi achosi niwed i unigolyn
- ai unrhyw ffurf o wahaniaethu yn erbyn tarddiad cenedlaethol neu ethnig, rhyw, anabledd, oed, crefydd neu gred, hunaniaeth o ran rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol y dioddefwr a oedd wrth wraidd y tor-amod
- a oes tystiolaeth o ymddygiad tebyg blaenorol ar ran yr aelod
- a oes angen ymchwilio neu gyfeirio at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru er mwyn sicrhau y bydd y cyhoedd yn dal yn gallu ymddiried yn aelodau etholedig yng Nghymru
- a yw'r ymchwiliad neu'r cyfeirio at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn ymateb cymesur, hynny yw, a yw'n debygol y byddai'r tor-amod yn arwain at gosbi'r aelod (byddaf yn ystyried canlyniadau achosion blaenorol a ystyriwyd gan bwyllgorau safonau ledled Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru), ac a ellid ystyried bod defnyddio adnoddau i gynnal ymchwiliad neu wrandawiad gan bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn ormodol wrth bwyso a mesur hyn yn erbyn unrhyw gosb debygol.

Mae gennyf gryn dipyn o ddisgresiwn ynghylch a ddylid cychwyn neu barhau ag ymchwiliad neu beidio. Rwyf wedi adolygu'r prawf dau gam a fabwysiadwyd gan fy rhagflaenydd er mwyn egluro'n well sut y byddaf fel rheol yn defnyddio fy nisgresiwn ac yn sicrhau penderfyniadau cyson a sicr.

Mae'r broses y byddaf yn ei defnyddio i ymchwilio i gwynion ar gael ar fy ngwefan yn **www.ombwdsmon-cymru.org.uk**

### Proses Datrys yn Lleol

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol ledled Cymru wedi rhoi gweithdrefnau datrys yn lleol ar waith i ddelio â chwynion lefel isel sy'n cael eu gwneud gan un aelod yn erbyn aelod arall. Mae'r trefniadau hyn yn effeithiol wrth ddatrys llawer o'r mathau hyn o gwynion. Fel rheol bydd y cwynion hyn yn dal yn ymwneud â honiadau o fethu â dangos parch ac ystyriaeth at bobl eraill fel sy'n ofynnol gan baragraff 4(b) y Cod neu'r ddyletswydd i beidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus na gwamal yn erbyn aelodau eraill o dan baragraff 6(1)(d) o'r Cod. Er bod rhyddid i aelod gwyno'n uniongyrchol wrthyf i am gyd-aelod, os bydd y mater o dan sylw yn ymwneud â pharagraffau 4(b) a 6(1)(d), rwyf yn debygol o gyfeirio'n mater yn ôl at Swyddog Monitro'r Cyngor i'w ystyried o dan y broses hon. Yn fy marn i, mae'n fwy priodol datrys cwynion o'r fath yn anffurfiol ac yn lleol er mwyn cyflymu'r broses gwyno ac i sicrhau bod fy adnoddau'n cael eu cyfeirio at ymchwilio i gwynion difrifol.

Nod datrys yn lleol yw datrys materion yn gynnar er mwyn atal y sefyllfa rhag gwaethygu'n ddiangen, a all niweidio'r berthynas rhwng pobl yn yr awdurdod ac enw da'r awdurdod. Gall y broses arwain at ofyn i'r aelod o dan sylw ymddiheuro. Fodd bynnag, pan fydd aelod wedi torri protocol lleol ei awdurdod droeon, byddwn yn disgwyl i'r Swyddog Monitro gyfeirio'r mater yn ôl ataf fi. Os gwelaf fod patrwm o gwynion tebyg yn cael eu cyflwyno i mi gan yr un aelodau, byddaf yn ystyried hyn yn fater difrifol ac yn penderfynu a yw cyflwyno cwynion o'r fath yn gyson ynddo'i hun yn ymddygiad y dylid ymchwilio iddo fel achos posibl o dorri amodau'r Cod.

Pan fyddaf wedi ymchwilio i gŵyn, mae'n bosibl y byddaf yn cyfeirio'r mater at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru. Bydd hyn yn dibynnu ar natur ac amgylchiadau unigol yr achos honedig o dor-amod.

### Pwyllgorau Safonau

Mae pwyllgorau safonau'n cynnwys aelodau lleyg annibynnol ac aelodau etholedig o'r awdurdod. Pan fyddaf yn cyfeirio achos at bwyllgor safonau, rôl y pwyllgor yw penderfynu a yw aelod wedi torri amodau'r Cod ac a ddylid gosod cosb. Yn fy marn i, dylid cynnal gwrandawiadau yn gyhoeddus er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd hyder yn safonau bywyd cyhoeddus, oni bai fod rhesymau dilys dros beidio â gwneud hynny. Pan fydd pwyllgor safonau'n penderfynu bod aelod neu aelod cyfetholedig wedi methu cydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol, caiff benderfynu:

- nad oes angen cymryd camau yng nghyswllt y methiant hwnnw
- y dylid ceryddu'r aelod neu'r aelod cyfetholedig ar ffurf gyhoeddus, neu
- y dylid gwahardd, neu wahardd yn rhannol, yr aelod neu'r aelod cyfetholedig rhag bod yn aelod o'r awdurdod hwnnw am gyfnod heb fod yn fwy na chwe mis.

Caiff aelod apelio yn erbyn penderfyniad pwyllgor safonau i Banel Dyfarnu Cymru.

### Panel Dyfarnu Cymru

Pan fyddaf yn cyfeirio achos at Banel Dyfarnu Cymru, ei rôl hefyd yw penderfynu a yw aelod wedi torri amodau'r Cod ac a ddylid gosod cosb. Yn ogystal â hynny, bydd yn ystyried unrhyw apeliadau yn erbyn penderfyniadau pwyllgor safonau. Dyma'r pwerau sydd ar gael i'r Panel pan fydd yn penderfynu bod aelod neu aelod cyfetholedig wedi methu cydymffurfio â'r Cod:

- anghymwyso'r atebydd rhag bod, neu rhag dod, yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod perthnasol o dan sylw neu unrhyw awdurdod perthnasol arall am gyfnod o hyd at bum mlynedd
- gwahardd neu wahardd yn rhannol yr atebydd rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod perthnasol dan sylw am hyd at 12 mis
- peidio â chymryd unrhyw gamau yng nghyswllt torri amodau'r Cod. Mewn achosion o'r fath, mae'n bosibl y bydd y Panel yn ei ystyried yn briodol i rybuddio'r aelod ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol. Os bydd rhybudd o'r fath wedi'i gofnodi, mae'n debygol y caiff ei ystyried yn ystod unrhyw wrandawiad a gynhelir yn y dyfodol os gwelir bod yr aelod wedi methu â dilyn darpariaethau'r Cod eto.

Pan fydd pwyllgor safonau neu'r Panel yn gwahardd neu'n gwahardd yn rhannol aelod neu aelod cyfetholedig, mae'r aelod neu'r aelod cyfetholedig hwnnw yn dal yn rhwym wrth y Cod, yn enwedig y darpariaethau ym mharagraffau 6(1)(a) (dwyn anfri ar swyddogaeth aelod neu awdurdod) a pharagraff 7 (defnyddio safle aelod yn amhriodol).

## Yr Egwyddorion

Roedd y Ddeddf Llywodraeth Leol yn grymuso'r Cynulliad Cenedlaethol i gyhoeddi egwyddorion y mae'n rhaid i chi eu hystyried wrth gyflawni eich rôl fel aelod. Mae'r Cod yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn sydd wedi'u llunio i hyrwyddo'r safonau uchaf posibl. Mae'r egwyddorion hyn yn dod o 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a oedd yn rhan o Adroddiad Nolan "Safonau Ymddygiad mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban". Ychwanegwyd tri arall at y rhain; dyletswydd i gynnal y gyfraith; stiwardiaeth briodol o adnoddau'r Cyngor a chydraddoldeb a pharch at bobl eraill.

Mae aelodau a gaiff eu hethol i awdurdodau lleol yn rhoi o'u hamser a'u hymrwymiad yn hael er budd eu cymunedau. Mae'r egwyddorion hyn yn rhoi fframwaith ar gyfer sianelu eich ymrwymiad mewn ffordd sy'n adlewyrchu'n dda arnoch chi a'ch awdurdod, ac a fydd yn rhoi hyder i'ch cymunedau yn y ffordd mae'ch awdurdod yn cael ei lywodraethu.

Mae adrannau unigol y Cod wedi'u llunio i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Egwyddorion. Er enghraifft, mae'r egwyddor Anhunanoldeb yn dod o dan Adran 7 y Cod – Anhunanoldeb a Stiwardiaeth. Cafodd yr egwyddorion presennol eu gosod allan mewn offeryn statudol[1] ac mae eu manylion isod.

1. **Anhunanoldeb**
   Rhaid i aelodau weithredu er lles y cyhoedd yn unig. Rhaid iddynt beidio byth â defnyddio'u safle fel aelodau er mantais amhriodol iddynt eu hunain, neu i osgoi anfantais iddynt eu hunain, neu er mantais neu anfantais amhriodol i bobl eraill.
2. **Gonestrwydd**
   Rhaid i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus, a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro mewn modd sy'n diogelu buddiannau'r cyhoedd.
3. **Uniondeb a Gwedduster**
   Rhaid i aelodau beidio â'u rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle mae unrhyw rwymedigaethau ariannol neu rwymedigaeth arall tuag at unigolion neu gyrff a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau yn bwrw amheuaeth ar eu huniondeb. Rhaid i aelodau bob amser osgoi ymddygiad sy'n ymddangos felly.

[1] Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 SI 2001 Rhif 2276 (W.166)

4. **Dyletswydd i Gynnal y Gyfraith**
Rhaid i aelodau weithredu i gynnal y gyfraith, a gweithredu bob amser yn unol â'r ymddiriedaeth sydd gan y cyhoedd ynddynt.

5. **Stiwardiaeth**
Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau rhaid i aelodau sicrhau bod adnoddau'r awdurdod yn cael eu defnyddio'n gyfreithlon ac yn ddarbodus.

6. **Gwrthrychedd wrth wneud Penderfyniadau**
Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys gwneud penodiadau, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon a manteision, rhaid i aelodau wneud penderfyniadau ar sail haeddiant. Er bod rhaid i aelodau roi sylw i gyngor proffesiynol swyddogion a gall fod yn briodol iddynt roi sylw i farn pobl eraill, gan gynnwys eu grwpiau gwleidyddol, eu cyfrifoldeb nhw yw penderfynu pa safbwynt i'w arddel ac, os yw'n briodol, sut i bleidleisio ar unrhyw fater.

7. **Cydraddoldeb a Pharch**
Rhaid i aelodau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r angen i hybu cyfle cyfartal i bawb, ni waeth beth yw eu rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed na'u crefydd, a dangos parch ac ystyriaeth tuag at bobl eraill.

8. **Didwylledd**
Rhaid i aelodau fod mor agored â phosibl ynghylch eu holl weithredoedd a gweithredoedd eu hawdurdod. Rhaid iddynt geisio sicrhau bod datgeliadau gwybodaeth yn cael eu cyfyngu yn unol â'r gyfraith yn unig.

9. **Atebolrwydd**
Mae aelodau'n atebol i'r etholwyr ac i'r cyhoedd yn gyffredinol am eu gweithredoedd ac am sut y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel aelod. Rhaid iddynt fod yn barod i ildio i unrhyw archwiliad sy'n briodol ar gyfer eu cyfrifoldebau.

10. **Arweinyddiaeth**
Rhaid i aelodau hybu a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy roi arweiniad ac esiampl er mwyn hybu hyder y cyhoedd yn eu rôl ac yn yr awdurdod. Rhaid iddynt barchu didueddrwydd ac uniondeb swyddogion statudol yr awdurdod a gweithwyr eraill yr awdurdod.

Nid yw'r egwyddorion yn rhan o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol, ac felly nid yw methu cydymffurfio â'r Egwyddorion ynddo'i hun yn dangos bod amodau'r Cod wedi cael eu torri. Fodd bynnag, mae'n debyg y byddai methu glynu wrth yr egwyddor sy'n ymwneud â chydraddoldeb a pharch, er enghraifft, yn golygu bod y gofynion ym mharagraffau 4(a) a 4(b) y Cod wedi'u torri yng nghyswllt cyfle cyfartal a pharch.

Beth bynnag, mae'r Egwyddorion yn rhoi sylfaen gref ar gyfer eich ymddygiad yn eich swyddogaeth, ac rwyf yn annog aelodau i'w hystyried bob amser.

## Penderfynu pryd mae'r Cod yn berthnasol i chi

**Gweler Paragraffau 2 a 3**

> Ystyriwch eich ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus phreifat

Mae gan aelodau'r hawl i gael preifatrwydd yn eu bywydau personol, ac mae llawer o ddarpariaethau'r Cod ond yn berthnasol i chi pan fyddwch yn gweithredu yn rhinwedd eich swyddogaeth fel aelod neu'n cynrychioli'ch awdurdod. Fodd bynnag, gan ei bod yn bosibl y bydd amgylchiadau'n codi lle gall eich ymddygiad yn eich bywyd preifat effeithio ar enw da ac uniondeb eich awdurdod, mae rhai o ddarpariaethau'r Cod yn berthnasol i chi bob amser.

Wrth benderfynu a yw'r Cod yn berthnasol i chi ar adeg benodol, byddaf yn ystyried yr amgylchiadau arbennig a natur eich ymddygiad ar yr adeg honno.

Cyn ystyried eich dyletswyddau o dan y Cod, dylech yn gyntaf ystyried a yw'r Cod yn berthnasol ac, os yw, pa rai o'r darpariaethau.

**Pa bryd y mae'r Cod yn berthnasol?**

- Pryd bynnag y byddwch yn gweithredu yn rhinwedd eich swyddogaeth, gan gynnwys pan fyddwch yn cynnal busnes eich awdurdod neu'n gweithredu, yn honni eich bod yn gweithredu, neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu, yn rhinwedd eich swyddogaeth fel aelod neu fel cynrychiolydd o'ch awdurdod.
- Unrhyw bryd, pe byddech yn ymddwyn mewn modd y byddai'n rhesymol ystyried bod hynny'n dwyn anfri ar eich swyddogaeth neu ar eich awdurdod neu os ydych yn defnyddio neu'n ceisio defnyddio eich safle i ennill mantais neu i osgoi anfantais i chi'ch hun neu i unrhyw un arall neu os ydych chi'n camddefnyddio adnoddau eich awdurdod.

Pan fyddwch yn cynrychioli eich awdurdod ar unrhyw awdurdod perthnasol arall, neu ar unrhyw gorff arall, rhaid i chi, wrth weithredu ar ran yr awdurdod arall, gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwnnw. Pan gewch eich enwebu gan eich awdurdod fel ymddiriedolwr elusen, rhaid i chi wneud hynny er budd gorau'r elusen honno wrth weithredu felly, yn unol â chyfraith elusennau a'r canllawiau a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Elusennau (gweler ei wefan: **www.charity-commission.gov.uk**).

Os ydych chi'n cynrychioli eich awdurdod ar gorff arall, er enghraifft ar fwrdd cymdeithas dai, nad oes ganddo god ymddygiad sy'n berthnasol i'w aelodau, rhaid i chi gydymffurfio â Chod eich awdurdod eich hun oni bai fod hynny'n gwrthdaro ag unrhyw ofynion cyfreithiol y mae'n rhaid i'r corff arall gydymffurfio â nhw.

Os ydych yn cyfeirio atoch eich hun fel cynghorydd, bydd y Cod yn berthnasol i chi. Mae hyn yn berthnasol ar lafar, ar bapur neu mewn gohebiaeth electronig. Mae nifer y cwynion a gyflwynir i mi ynghylch defnyddio Facebook, blogiau a Twitter wedi cynyddu'n sylweddol. Os ydych yn cyfeirio at eich rôl fel cynghorydd mewn unrhyw ffordd, neu os yw eich sylwadau'n amlwg yn berthnasol

i'ch rôl, bydd y Cod yn berthnasol i unrhyw sylwadau a wnewch yno.  Hyd yn oed os na fyddwch yn cyfeirio at eich rôl fel cynghorydd, gallai eich sylwadau ddwyn anfri ar eich swyddogaeth neu eich awdurdod ac felly gallent fynd yn groes i baragraff 6(1)(a) y Cod.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi llunio canllawiau defnyddiol ar gyfryngau cymdeithasol yn dwyn y teitl "Cyfryngau Cymdeithasol: Canllaw i Gynghorwyr".  Nod y canllawiau yw rhoi syniad cliriach i chi am sut y gallwch ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, y peryglon posibl a sut i'w hosgoi.  Mae'r canllaw ar gael ar wefan Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn **www.wlga.gov.uk** neu drwy ffonio **029 2046 8600**.

Os cewch eich enwebu gan eich awdurdod i fod yn gyfarwyddwr cwmni (cymdeithas dai trosglwyddo stoc er enghraifft) rhaid i chi weithredu er budd gorau'r cwmni.  Os oes ganddo god ymddygiad ar gyfer ei gyfarwyddwyr, rhaid i chi lynu wrtho.  Os nad oes ganddo un, rhaid i chi gydymffurfio â Chod eich awdurdod, ac eithrio ar yr adegau prin pan fydd yn gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol sydd gan y cwmni.

Os cewch eich gwahardd o'ch swydd am unrhyw reswm, rhaid i chi ddal i lynu wrth yr elfennau hynny o'r Cod fel y mae'n berthnasol, yn benodol fel y nodir ym mharagraff 2(1)(d) tra byddwch wedi cael eich gwahardd.

**Enghraifft**

Roedd cyngor bwrdeistref sirol wedi enwebu Cynghorydd B i wasanaethu fel aelod bwrdd cymdeithas dai trosglwyddo stoc.  Roedd Prif Weithredwr y gymdeithas dai wedi anfon neges e-bost gyfrinachol at Brif Weithredwr y Cyngor gan anfon copi at holl aelodau'r bwrdd hefyd. Cyfaddefodd Cynghorydd B iddo anfon y neges e-bost i'r wasg leol a dywedodd iddo wneud hynny oherwydd ei fod yn teimlo bod ei ddyletswydd fel cynghorydd yn drech na'i ddyletswydd fel aelod o fwrdd y gymdeithas dai. Roedd Cynghorydd B wedi torri amodau paragraff 3(a) Cod y Cyngor drwy ddatgelu'r neges e-bost a oedd yn mynd yn groes i god ymddygiad y bwrdd.  Gwelwyd hefyd ei fod wedi dwyn anfri ar ei swyddogaeth ac ar yr awdurdod drwy wneud datganiad camarweiniol ei fod "wedi gorfod ymddiswyddo'n ddiweddar" oddi ar fwrdd y gymdeithas dai, ac yntau wedi cael ei ddiswyddo ar unwaith am dorri cyfrinachedd yn ddifrifol.

**Enghraifft**

Roedd y gliniadur a ddarparwyd i Gynghorydd B gan y cyngor, ynghyd â'i fynediad i'r we a'i gyfeiriad e-bost cyngor, wedi cael eu defnyddio i greu arolwg ar-lein am rywun a oedd wedi cael ei gyhuddo o lofruddiaeth. Roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys iaith amhriodol.  Dywedodd Cynghorydd B nad oedd ef yn bersonol wedi creu'r arolwg.  Fodd bynnag, gan fod y Cyngor wedi rhoi'r gliniadur iddo, roedd ef yn gyfrifol amdano.  Wrth iddo ymateb i gais am gyngor yn rhinwedd ei swyddogaeth fel cynghorydd, defnyddiodd ei dudalen Facebook i wneud sylwadau difrïol am bobl sy'n hawlio budd-daliadau tai. Penderfynodd y Panel Dyfarnu fod Cynghorydd B wedi gweithredu yn rhinwedd ei swyddogaeth gan ei fod wedi defnyddio'r offer a'r cyfeiriad e-bost a oedd wedi cael eu rhoi gan y cyngor.

Felly, byddai'n rhesymol ystyried ei fod yn cynrychioli ei hun fel cynghorydd.

## 2. Dyletswyddau cyffredinol o dan y Cod Ymddygiad

Os ydych yn ystyried bod y Cod yn berthnasol i chi ar adeg benodol, yna rhaid i chi ystyried pa ddarpariaethau a allai fod yn berthnasol a'ch dyletswyddau o dan y Cod.  Rwyf wedi cyfeirio at bob paragraff isod i roi arweiniad i chi ar eich dyletswyddau cyffredinol.

## Cydraddoldeb

**Gweler Paragraff 4(a)**

Rhaid i chi gyflawni eich dyletswyddau gan ystyried yr egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb, ni waeth beth yw eu rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed na'u crefydd.

Dylech bob amser geisio osgoi gwahaniaethu.  Ceir pedwar prif fath o wahaniaethu:

- Gwahaniaethu uniongyrchol: trin pobl yn wahanol oherwydd eu rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd
- Gwahaniaethu anuniongyrchol: trin pobl mewn ffordd nad yw'n ymddangos ei bod yn gwahaniaethu rhwng pobl oherwydd eu rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed, neu eu crefydd, ond sy'n eu rhoi o dan anfantais anghymesur
- Harasio: ymddwyn mewn modd sy'n ddigroeso ar sail rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oed neu grefydd, sy'n mynd yn erbyn urddas unigolyn arall neu sy'n creu amgylchedd gelyniaethus, diraddiol neu sy'n sarhau neu'n bychanu
- Erledigaeth: trin rhywun yn llai ffafriol oherwydd eu bod wedi cwyno am wahaniaethu, wedi cychwyn achos am wahaniaethu, neu oherwydd eu bod wedi bod yn ymwneud â chwyno neu gychwyn achos am wahaniaethu.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (fel y'i diwygiwyd) yn atgyfnerthu pwysigrwydd y rhan hon o'r Cod. Mae'n rhoi dyletswyddau cadarnhaol i roi diwedd ar wahaniaethu anghyfreithlon a harasio ac er mwyn hybu cydraddoldeb.  Dan gyfreithiau cydraddoldeb, gall eich awdurdod fod yn atebol am unrhyw weithredoedd gwahaniaethu a wnewch.  Bydd hyn yn berthnasol os byddwch yn gwneud rhywbeth yn rhinwedd eich swyddogaeth mewn ffordd sy'n gwahaniaethu.

Rhaid i chi ochel rhag gwneud dim sydd mewn unrhyw ffordd yn unrhyw un o'r mathau o wahaniaethu sydd wedi'u gwahardd, a gwneud dim sy'n rhwystro eich awdurdod rhag cyflawni ei ddyletswyddau cadarnhaol o dan gyfreithiau cydraddoldeb.  Gall ymddygiad o'r fath olygu bod eich awdurdod yn torri'r gyfraith, a gallai rywun gwyno eich bod wedi mynd yn groes i'r paragraff hwn o'r Cod.

Rhaid i chi gofio bob amser hefyd na ddylech weithredu mewn ffordd a fyddai'n dwyn anfri ar eich Cyngor, gan gynnwys wrth weithredu mewn rhinwedd breifat.  Mae'n debyg y byddai ymddwyn mewn modd y gellid ystyried ei fod yn torri'r Ddeddf Cydraddoldeb yn eich rhinwedd breifat yn dod o dan y categori hwn.

**Enghraifft**

Roedd aelod o gyngor sir yn aelod o Banel Recriwtio'r Cyngor i benodi Prif Weithredwr newydd. Roedd pum ymgeisydd wedi cyrraedd y rhestr fer. Ar ôl i un ymgeisydd orffen ei gyflwyniad a gadael yr ystafell, dywedodd Cynghorydd A "ymgeisydd da, bechod ei fod e'n ddu". Penderfynodd Panel Dyfarnu Cymru fod paragraff 4(a) y Cod wedi cael ei dorri a bod Cynghorydd A wedi dwyn anfri ar swyddogaeth aelod ac ar ei awdurdod (yn groes i baragraff 6(1)(a) y Cod).

## Trin pobl eraill â pharch ac ystyriaeth

**Gweler Paragraff 4(b)**

Mae hawliau Erthygl 10 yn berthnasol i sylwadau gwleidyddol

Mae rhyddid mynegiant yn hawl sy'n berthnasol i bob syniad a gwybodaeth, nid dim ond y rheini sy'n canfod ffafriaeth. Fodd bynnag, mae'n hawl y gellir cyfyngu arni o dan amgylchiadau penodol, er enghraifft, er mwyn gwarchod hawliau a buddiannau pobl eraill. Mae rhyddid mynegiant aelod yn cael ei amddiffyn ymhellach pan fydd natur sylwadau'r aelod yn wleidyddol. Felly, mae beirniadu syniadau a barn gwrthwynebydd yn cael ei ystyried yn rhan o ddadl ddemocrataidd, ac mae'n annhebygol y byddai sylwadau o'r fath byth yn cael eu hystyried fel achos o dorri amodau'r Cod.

Nid yw sylwadau "gwleidyddol" wedi eu cyfyngu i'r rheini a wneir yn siambr y cyngor ac, er enghraifft, maent yn cynnwys sylwadau y gall aelodau eu gwneud yn gyffredinol ynghylch polisïau eu cyngor neu ynghylch eu gwrthwynebwyr gwleidyddol. Felly, os nad yw'r sylwadau'n hynod sarhaus neu'n dramgwyddus, mae'n annhebyg y byddaf yn ymchwilio gan ystyried fod angen i'r gynghorwr fod yn fwy "croendew".

Mae'n bosibl hefyd y byddaf yn gwrthod ymchwilio i gŵyn lle mae'r aelod wedi codi materion "gwleidyddol" gyda swyddogion. Ond ni fyddai hynny'n cynnwys bygythiadau i safle neu les swyddog. Mae cyfraith achosion diweddar wedi cadarnhau y dylai swyddogion y cyngor gael eu hamddiffyn rhag sylwadau direswm a all gael effaith andwyol ar weinyddu da. Mae'n nodi ei bod yn bwysig, er lles y cyhoedd, nad yw swyddogion yn cael sylwadau direswm sy'n eu hanalluogi rhag cyflawni eu dyletswyddau neu sy'n tanseilio hyder y cyhoedd yn y weinyddiaeth. Wedi dweud hynny, bydd disgwyl i'r swyddogion sydd mewn swyddi uwch, er enghraifft Prif Weithredwyr neu Benaethiaid Gwasanaethau, fod yn fwy cadarn.

Rwyf yn disgwyl i aelodau ddangos yr un cwrteisi ac ystyriaeth i gydweithwyr, gwrthwynebwyr a swyddogion ag y maent yn eu dangos i bobl eraill yn eu bywydau bob dydd. Er fy mod yn cydnabod y gall trafodaeth wleidyddol fod yn danllyd ar brydiau, ni ddylid defnyddio'r hawl i ryddid mynegiant fel esgus dros ymddwyn yn wael yn gyffredinol. Bydd ymddygiad gwael o'r fath ond yn bwrw amheuaeth ar rôl aelod yng ngolwg y cyhoedd.

Wrth ystyried cwynion o'r fath, byddaf yn ystyried amgylchiadau arbennig yr achos, a oedd gan yr aelod, yn fy marn i, yr hawl i gwestiynau'r swyddog dan sylw, a oedd ymgais i frawychu neu danseilio'r swyddog, a chynnwys a chyd-destun yr hyn a ddywedwyd.

**Enghraifft**

Bu tribiwnlys apêl Panel Dyfarnu Cymru yn ystyried apêl gan Gynghorydd X yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Safonau'r Cyngor. Canfu'r Pwyllgor Safonau fod Cynghorydd X wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth at aelod arall drwy ei wahardd rhag anfon e-bost ar y clerc a mynd ar wefan y Cyngor. Hefyd, roedd Cynghorydd X wedi gwneud sylwadau mewn neges e-bost i aelodau eraill ynghylch arferion cawodi ei gydweithiwr. Wrth wneud hyn, canfu'r Pwyllgor Safonau fod Cynghorydd X wedi dwyn anfri ar y Cyngor.

Penderfynodd y Panel Dyfarnu fod natur sylwadau Cynghorydd X yn wleidyddol ac yn cael eu hamddiffyn ymhellach yn unol ag Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Cafodd penderfyniad y Pwyllgor Safonau ei wrthdroi a chafodd y gosb ei diddymu. Mae modd gweld penderfyniad y Panel Dyfarnu yma **http://apw.wales.gov.uk** (Ref: APW/001/2014-015/AT).

**Enghraifft**

Cadarnhaodd y Panel Dyfarnu un o ganfyddiadau pwyllgor safonau am gynghorydd a gyhuddwyd o beidio â dangos parch ac ystyriaeth i bobl eraill drwy wneud sylwadau ar-lein am gynghorwyr eraill a'r ffordd roedd y Cyngor yn cael ei redeg. Gofynnodd yr aelod am adolygiad barnwrol o'r penderfyniad hwn. Er bod y sylwadau'n wawdlyd ac yn watwarus a bod eu tôn yn bychanu ei gyd-aelodau, penderfynodd y Llys fod y sylwadau'n "Fynegiant Gwleidyddol" oherwydd bod y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â sut roedd y Cyngor yn cael ei redeg, sut roedd ei benderfyniadau'n cael eu cofnodi a chymhwysedd yr aelodau. Yn ôl y dyfarniad, ni roddwyd ystyriaeth i'r angen i wleidyddion fod yn fwy "croendew". Wrth ystyried rhyddid mynegiant yr aelod a'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r sylwadau wedi'u cyfeirio at gyd-gynghorwyr, roedd y casgliad bod amodau wedi'u torri yn yr achos hwn yn ymyrryd yn anghymesur â hawliau'r aelod o dan Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Felly, cafodd penderfyniad y Pwyllgor Safonau i geryddu'r aelod ei roi o'r neilltu.

**Enghraifft**

Ysgrifennodd aelod o gyngor tref lythyr at un o Ddirprwy Weinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru am weithiwr ("Mr Smith") a oedd yn gweithio mewn cyngor sir. Anfonwyd copi o'r llythyr at y Cyngor hefyd. Yn y llythyr roedd yr aelod yn cwestiynu cymhwysedd a chymhelliant Mr Smith a gwnaeth nifer o sylwadau dilornus a phersonol ynghylch Mr Smith a phobl mae ganddo gysylltiad personol agos â nhw. Cododd fater gwrywgydiaeth a chyfeirio ato fel "anabledd anfad" a bod "gwrywgydiaeth ond yn gythraul y gellir ei yrru allan". Cyfeiriwyd yr aelod at Banel Dyfarnu Cymru.

Canfu'r Panel fod yr aelod wedi torri amodau paragraff 4(b) oherwydd ei fod wedi methu dangos parch ac ystyriaeth at bobl eraill. Canfu hefyd fod y geiriau roedd wedi'u defnyddio wedi dwyn anfri ar swyddogaeth aelod yn groes i baragraff 6(1)(a) y Cod.

Cafodd yr aelod ei anghymwyso am 12 mis rhag bod, na dod, yn aelod o awdurdod lleol.

## Bwlio a harasio

**Gweler Paragraff 4(c)**

Ystyriwch eich ymddygiad o safbwynt rhywun arall

Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn ffordd sy'n bwlio nac yn harasio neb, gan gynnwys aelodau eraill, swyddogion y cyngor nac aelodau'r cyhoedd.

Mae harasio yn golygu ymddygiad sy'n cael ei ailadrodd sy'n cynhyrfu neu'n gwylltio pobl. Mae bwlio'n gallu golygu ymddygiad tramgwyddus, brawychus, maleisus, sarhaus neu ddigywilydd. Gall ymddygiad o'r fath ddigwydd unwaith neu gall fod yn rhan o batrwm ymddygiad sydd wedi'i gyfeirio at unigolyn gwannach neu unigolyn y mae gennych rywfaint o ddylanwad gwirioneddol neu ymddangosiadol drosto. Mae ymddygiad sy'n bwlio yn ceisio tanseilio unigolyn neu grŵp o unigolion, mae'n niweidiol i'w hyder ac i'w gallu a gall effeithio'n andwyol ar eu hiechyd. Gellir cyferbynnu hyn â'r sialensiau dilys y gall aelod eu gwneud wrth gwestiynu polisi neu wrth graffu ar berfformiad. Byddai enghraifft o hyn yn cynnwys dadleuon yn y siambr am bolisi, neu ofyn i swyddogion egluro'r sail resymegol dros y safbwyntiau proffesiynol y maent wedi'u cyflwyno. Mae gennych hawl i herio cynghorwyr eraill a swyddogion ynghylch pam maent yn arddel eu safbwyntiau.

Wrth ystyried honiadau o fwlio a harasio, byddaf yn ystyried o safbwynt y dioddefwr honedig, ac a oedd yr aelod yn bwriadu i'w weithredoedd fod yn fwlio. Byddaf hefyd yn ystyried a oedd gan yr unigolyn hawl resymol i gredu ei fod yn cael ei fwlio. Caiff bwlio yn aml ei wneud wyneb yn wyneb, ond yn fwyfwy, gall ddigwydd ar bapur neu drwy ddefnyddio e-gyfryngau. Yr un safonau ymddygiad a ddisgwylir, boed chi'n mynegi eich hun ar lafar neu yn ysgrifenedig.

Bydd angen i chi sicrhau nad yw eich ymddygiad yn croesi'r ffin o fod yn rymus i fod yn fwlio. Ni ellir cael rheolau pendant sy'n llywodraethu pob set o amgylchiadau ond bydd lefel cyfrifoldeb y swyddog yn ffactor mewn rhai achosion. Fel yr amlinellir o dan baragraff 4(b) y Cod, gall y swyddogion sydd ar y lefel uchaf gymryd rhan mewn trafodaeth gadarn ag aelodau a byddant mewn sefyllfa dda i allu cyflwyno eu safbwynt eu hunain yn gadarn. Nid yw'r un peth yn wir yng nghyswllt swyddogion iau ac mae angen i aelodau fod yn ymwybodol o hyn. Nid yw hyn yn golygu fy mod yn goddef bwlio gan uwch swyddogion, ond po fwyaf yw'r gwahaniaeth pŵer rhwng y swyddog a'r aelod, y mwyaf yw'r tebygolrwydd y bydd y swyddog yn ystyried bod yr ymddygiad yn fwlio.

Yn ddiweddar, penderfynodd yr Uchel Lys fod angen gwarchod hyder y cyhoedd mewn gweision cyhoeddus heb eu hethol er budd y cyhoedd, a bod angen cydbwyso hyn yn erbyn y budd o gael trafodaeth agored ar faterion sy'n bwysig i'r cyhoedd. Canfu hefyd y dylai pob aelod fel ei gilydd barchu'r ymddiriedaeth a'r hyder sydd rhyngddynt a'r swyddogion, sy'n hanfodol i sicrhau gweinyddiaeth dda.

Mae gan awdurdodau lleol sianeli priodol ar gyfer mynegi pryder ynghylch perfformiad swyddog ac mae'n bwysig eich bod yn codi materion ynghylch perfformiad gwael yn y ffordd gywir ac mewn fforwm priodol. Nid yw'n dderbyniol codi materion o'r fath mewn cyfarfod lle mae pobl eraill yn bresennol, yn enwedig os ydynt o gyrff allanol neu'n aelodau o'r cyhoedd. Nid yw ychwaith yn dderbyniol gwneud hynny yn y cyfryngau, yn eich cyhoeddiadau eich hun neu drwy ddefnyddio

blog, Twitter, Facebook nac unrhyw ddulliau electronig eraill.  Os yw eich beirniadaeth yn ymosodiad personol neu'n dramgwyddus, rydych yn debygol o groesi'r ffin o ran yr hyn sy'n ymddygiad derbyniol.

**Enghraifft**

Cafodd aelod o gyngor sir ei anghymwyso o'i swydd am 2 flynedd a 6 mis gan Banel Dyfarnu Cymru yn dilyn honiadau o fwlio, harasio, amarch a dwyn anfri ar swyddogaeth aelod.  Bu'r digwyddiadau honedig yn digwydd dros ddwy flynedd.  Yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd yr aelod wedi gwneud sylwadau bygythiol at swyddogion ar lefel iau a lefel uwch.  Er enghraifft, gwnaethpwyd sylwadau fel, roedd sawl rheolwr yn y Cyngor wedi colli eu swyddi ac roedd mwy i fynd eto a "Fyddwch chi ddim yn hoffi'r dyn y trof i mewn iddo os na cha i fy ffordd....Does dim angen i mi eich bygwth, rydych chi'n fenyw ddeallus ac rwy'n gwybod eich bod yn gwrando arnaf fi".

Apeliodd yr aelod yn erbyn y penderfyniad a chyfeiriwyd y mater i'r Uchel Lys. Yno, cadarnhawyd pob achos o dorri amodau heblaw tri. Mae modd gweld y penderfyniad yma **http://apw.wales.gov.uk** (Ref: APW/005/2010-011/CT).

## Peryglu didueddrwydd swyddogion yr awdurdod

**Gweler Paragraff 4(d)**

Rhaid i chi beidio â pheryglu didueddrwydd unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod, neu ar ran yr awdurdod, na cheisio gwneud hynny.  Ni ddylech fynd at unrhyw un sy'n gweithio i, neu ar ran, yr awdurdod gyda'r bwriad o bwyso arnynt i gyflawni eu dyletswyddau mewn ffordd unochrog neu bleidiol.  Rhaid iddynt fod yn ddiduedd ac ni ddylid eu gorfodi na'u perswadio i weithredu mewn ffordd a fyddai'n golygu na fyddent yn ddiduedd.  Er enghraifft, ni ddylech gael swyddogion i'ch helpu chi i baratoi deunyddiau pleidiau gwleidyddol, na'ch helpu chi gyda materion sy'n ymwneud â'ch busnes preifat.  Ni ddylech roi na chynnig unrhyw gymhelliant na gwobr yn gyfnewid am weithredu mewn ffordd benodol na gwneud penderfyniad penodol na bygwth neb os nad ydynt yn bwriadu gweithredu mewn ffordd benodol.  Yn ogystal ag osgoi rhoi pwysau ar swyddogion yn bersonol, mae'n rhaid i chi osgoi gwneud hynny ar bapur, drwy ddefnyddio cyfryngau electronig nac yn y wasg.

Er eich bod yn cael cwestiynu swyddogion yn gadarn er mwyn deall, er enghraifft, eu rhesymau dros gynnig gweithredu mewn ffordd benodol, neu gynnwys adroddiad maent wedi'i ysgrifennu, rhaid i chi beidio â cheisio eu gorfodi i ymddwyn yn wahanol, newid eu cyngor neu addasu cynnwys yr adroddiad hwnnw, os byddai gwneud hynny'n niweidio eu gonestrwydd proffesiynol.

Os bydd aelod yn datblygu perthynas bersonol agos gyda swyddog, gall hyn fod yn fuddiant personol ac o bosibl yn fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod.  Byddwn yn eich annog i lynu wrth unrhyw brotocol sydd wedi'i ddatblygu gan eich awdurdod sy'n delio â pherthynas rhwng aelodau a swyddogion.

**Enghraifft**

Roedd mab a merch yng nghyfraith aelod cyngor bwrdeistref sirol yn gymdogion i deulu a oedd yn denantiaid i'r Cyngor.  Roedd cwynion wedi cael eu gwneud am ymddygiad y teulu.  Roedd

yr aelod wedi cysylltu droeon â swyddogion y Cyngor ynghylch meddiannaeth y teulu o eiddo'r Cyngor ac effaith hynny ar deulu ei fab, weithiau y tu allan i oriau swyddfa. Cafodd y galwadau eu gwneud yn ei swyddogaeth fel aelod etholedig ac roedd ganddo fynediad uniongyrchol at swyddogion oherwydd ei fod yn aelod. Cafodd rybudd gan y Dirprwy Swyddog Monitro ynghylch ei ymddygiad, a bwysleisiodd y swyddogaeth bwerus sydd gan aelodau etholedig wrth ddelio ag aelodau o staff.

Er gwaethaf hyn, daliodd ati i gysylltu â swyddogion am y mater gan gynnwys gofyn i swyddog ymweld â'i deulu "y funud honno" a chyhuddo swyddog o "roi gwybod" i'r teulu yr oedd cwynion amdanynt fod offer monitro sŵn yn cael ei osod.

Canfu Panel Dyfarnu Cymru fod ymddygiad yr aelod yn ymddygiad parhaus dros gyfnod o 6 mis gyda'r bwriad o roi pwysau gormodol ar swyddogion y Cyngor. Canfu fod ei weithredoedd wedi ceisio tanseilio diduеddrwydd swyddogion y Cyngor. Canfu hefyd fod yr aelod wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth at bobl eraill a bod ei weithredoedd yn gyfystyr â harasio a'i fod wedi defnyddio ei swyddogaeth yn amhriodol i hybu buddiannau ei deulu ei hun. Ac ystyried natur gronnus y ffordd roedd wedi delio â swyddogion a'i fod wedi gwneud honiad ffug bod swyddog wedi "rhoi gwybod" i'r teulu, roedd hefyd wedi dwyn anfri ar swyddogaeth aelod. Cafodd yr aelod ei wahardd o'i swyddogaeth am 12 mis.

## Datgelu gwybodaeth gyfrinachol

**Gweler Paragraff 5(a)**

Rhaid i chi beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol na gwybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, ac eithrio yn unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:

- rydych wedi cael caniatâd y sawl sydd ag awdurdod i'w roi
- mae'r gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny.

Mae gan y Comisiynydd Gwybodaeth ganllawiau defnyddiol am y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data sydd ar gael ar y **wefan www.ico.gov.uk** neu drwy ffonio **0303 123 1113**. Fel aelod, efallai y byddwch yn gweld gwybodaeth gyfrinachol am unigolion neu sefydliadau gan gynnwys materion sy'n fasnachol neu'n bersonol sensitif. Gall hyn gynnwys gwybodaeth am gyflogaeth neu faterion personol pobl sy'n codi o waith gwasanaethau cymdeithasol, er enghraifft. Ambell waith bydd y rhain yn cael eu marcio fel cyfrinachol. Ar adegau eraill, ni fydd hynny'n wir, ond rhaid i chi beidio â datgelu'r wybodaeth hyd yn oed os nad yw wedi cael ei marcio. Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i'ch Swyddog Monitro.

Yn gyffredinol, dylech chi ystyried materion a drafodir yn adrannau cyfrinachol cyfarfodydd (eitemau eithriedig) fel rhai cyfrinachol. Fel rheol mae'r adroddiadau hyn wedi cael eu hasesu gan yr awdur fel rhai sy'n cynnwys gwybodaeth sensitif, yn dilyn cyngor cyfreithiol arbenigol. Efallai y bydd sensitifrwydd y wybodaeth yn lleihau dros amser, ond cewch eich annog yn gryf i gael cyngor cyfreithiol priodol cyn ei datgelu. Yn yr un modd, mae cyngor cyfreithiol, boed wedi'i ddarparu gan gyfreithwyr allanol neu staff cyfreithiol mewnol eich awdurdod, bron bob amser yn dod o dan fraint gyfreithiol ac felly ni ddylid ei ddatgelu.

Pan roddir gwybodaeth i aelodau yn ystod ymchwiliad, rwy'n disgwyl iddi gael ei thrin yn gwbl gyfrinachol, ac ni ddylid ei datgelu i unrhyw un arall heblaw cynghorydd cyfreithiol yr aelod neu gynghorydd arall. Os datgelir y wybodaeth i bobl eraill, mae'n bosibl y byddaf yn ystyried hyn yn achos o fethu cydymffurfio â'r paragraff hwn o'r Cod. Ar ben hynny, ni ddylai aelodau drafod y gŵyn ag unrhyw dystion, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Gellid ystyried hynny hefyd i fod yn achos o dorri'r Cod.

**Enghraifft**

Roedd aelod cyngor bwrdeistref sirol a oedd yn eistedd ar banel mabwysiadu'r Cyngor wedi datgelu'n gyhoeddus fanylion unigolyn a oedd wedi gwneud cais i'r panel i fabwysiadu plentyn. Dim ond oherwydd ei fod yn aelod o'r panel y gallai fod wedi gwybod am y wybodaeth a ddatgelwyd. Canfu'r Panel Dyfarnu fod yr aelod wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol a oedd yn mynd yn groes i'r Cod. Gwaharddodd yr aelod o'r cyngor am 6 mis.

## Rhwystro mynediad at wybodaeth

**Gweler Paragraff 5(b)**

Rhaid i chi beidio â rhwystro unrhyw un rhag cael gwybodaeth y mae ganddynt hawl i'w gweld yn ôl y gyfraith. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu gopïau o gofnodion, agendâu, adroddiadau a dogfennau eraill eich awdurdod y mae ganddynt hawl i'w gweld. I gael gwybod mwy am y mathau o wybodaeth y mae gan y cyhoedd hawl i'w gweld, cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy fynd i www.ico.gov.uk neu drwy ffonio 0303 123 1113 neu os oes gennych chi ymholiadau penodol, dylech holi eich Swyddog Monitro.

Mae'n debygol y bydd unrhyw wybodaeth rydych chi'n ei chynhyrchu yn rhinwedd eich swyddogaeth yn rhwym wrth ofynion datgelu'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac efallai y bydd yn rhaid i'ch awdurdod ei rhyddhau er mwyn ymateb i gais. Os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth i swyddog perthnasol eich awdurdod ar gais, byddwch yn torri'r Cod.

Bydd yn rhaid i'ch awdurdod benderfynu a ddylid datgelu gwybodaeth ynteu a yw'n dod dan eithriad. Hyd yn oed os ydych chi'n meddwl bod y wybodaeth sydd gennych wedi'i heithrio, rhaid i chi ei rhoi i swyddog perthnasol eich awdurdod er mwyn caniatáu i'r awdurdod wneud penderfyniad. Yn ogystal â thorri'r Cod, mae'n drosedd os caiff gwybodaeth ei dinistrio ar ôl cael cais Rhyddid Gwybodaeth.

**Enghraifft**

Roedd arweinydd cyngor sir wedi gwrthod rhoi llythyr i Swyddog Gwybodaeth y Cyngor a ysgrifennodd at Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Pwyllgor Gwaith y Cyngor. O'r herwydd ni allai'r Cyngor ymateb yn briodol i gais Deddf Rhyddid Gwybodaeth a arweiniodd at wneud cwyn i swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Roedd yr aelod yn parhau i wrthod datgelu'r llythyr er iddo gael cyngor clir a digamsyniol gan y Swyddog Gwybodaeth. Arweiniodd hyn at ganfyddiad croes gan Swyddog y Comisiynydd Gwybodaeth. Canfu'r Panel Dyfarnu fod yr aelod wedi torri paragraff

5(b) a 6(1)(a) (anfri) yng nghyswllt y mater hwn a materion cysylltiedig eraill. Erbyn i'r achos gael ei ystyried gan y Panel, roedd yr aelod wedi ymddiswyddo. Cafodd ei wahardd rhag dal swyddogaeth am 12 mis.

## Anfri

Gellir ystyried bod unrhyw ymddygiad amhriodol gan aelod yn dwyn anfri

### Gweler Paragraff 6(1)(a)

Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn ffordd y byddai'n rhesymol ystyried ei bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu awdurdod unrhyw bryd. Fel aelod, ceir mwy o graffu ar eich gweithredoedd ac ar eich ymddygiad nag aelodau cyffredin o'r cyhoedd. Dylech gofio y gall eich gweithredoedd yn eich bywyd cyhoeddus a phreifat effeithio'n andwyol ar eich swyddogaeth neu ar eich awdurdod. Dylech sicrhau hefyd nad ydych yn ymddwyn mewn modd a allai niweidio ymchwiliad a gynhelir gennyf fi neu eich Swyddog Monitro. Gellid ystyried bod hyn hefyd yn dwyn anfri.

Bydd ymddygiad anonest a thwyllodrus yn dwyn anfri ar eich awdurdod, yn yr un modd ag ymddygiad sy'n arwain at euogfarn droseddol, yn enwedig os yw'n golygu ymddygiad anonest, bygythiol neu dreisgar, hyd yn oed os yw'r ymddygiad yn digwydd yn eich bywyd preifat. Gellir ystyried bod beirniadu eich awdurdod yn anghywir neu'n annheg yn gyhoeddus yn dwyn anfri ar eich awdurdod. Gall negeseuon e-bost amhriodol neu negeseuon amhriodol ar gyfryngau cymdeithasol ddwyn anfri ar swyddogaeth aelod.

Rhaid i chi hefyd gynnal eich hun mewn ffordd briodol gyda phobl eraill o fewn adeilad cyngor, ni waeth a yw eich ymddygiad yn debyg o fod yng ngŵydd y cyhoedd ai peidio.

### Enghraifft

Roedd cynghorydd cymuned wedi bod yn sarhaus at berchennog siop a dau aelod o'i staff ac wedi ceisio cael disgownt ar rywbeth yr oedd yn ei brynu'n breifat drwy ddweud ei fod yn ei brynu ar ran y Cyngor Cymuned, a phan wrthodwyd ei gais am ddisgownt, gwnaeth fygythiadau yn erbyn y busnes. Canfu'r Panel Dyfarnu fod yr aelod wedi dwyn anfri ar swyddogaeth aelod a chafodd ei wahardd am 9 mis.

## Rhoi gwybod am dorri'r Cod

### Gweler Paragraff 6(1)(c)

Os ydych chi'n credu'n rhesymol bod y Cod wedi cael ei dorri, rhaid i chi roi gwybod i mi ac i'ch Swyddog Monitro. Er mwyn credu'n rhesymol bod y Cod wedi cael ei dorri, bydd yn rhaid i chi gael tystiolaeth uniongyrchol i gefnogi hyn. Os nad ydych chi'n siŵr a yw'r Cod wedi cael ei dorri ai peidio, dylech holi eich Swyddog Monitro ar y cyfle cyntaf. Os cafodd y Cod ei dorri mewn modd technegol neu fach, neu os nad oes dim tystiolaeth glir i'r Cod gael ei dorri, efallai y bydd eich Swyddog Monitro'n dweud wrthych am y trothwy tebygol y byddaf yn ei osod ac awgrymu y byddai'n fwy priodol delio â'r mater drwy broses datrys yn lleol yr awdurdod. Serch hynny, fi sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid

ymchwilio i achos o dorri'r Cod ai peidio.  Os oes unrhyw amheuaeth, dylid rhoi gwybod bob tro.  Mae'n ddefnyddiol os gallwch fynegi pa elfen o'r Cod rydych yn credu sydd wedi ei thorri.

Pan fydd aelod wedi rhoi gwybod am gyd-aelod i'w Swyddog Monitro o dan broses datrys yn lleol yr awdurdod, nid oes angen rhoi gwybod i mi am y mater hefyd.

Wrth benderfynu a wyf am ymchwilio i gŵyn ynghylch torri'r Cod ai peidio, byddaf yn defnyddio'r prawf dau gam rwyf wedi'i amlinellu ar dudalennau 6 a 7 uchod.  Dylech wneud yn siŵr eich bod yn rhoi unrhyw dystiolaeth sydd gennych pan fyddwch yn cwyno, gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd, gohebiaeth, nodiadau cyfoes neu negeseuon e-bost.  Os oes unigolion eraill sydd yn dystion i'r honiad o dorri'r Cod, dylech ddweud wrthym pwy ydynt.  Mae'r ail bwynt yn arbennig o bwysig oherwydd os wyf yn delio â gair rhywun yn erbyn gair rhywun arall, efallai na fydd yn bosibl i mi ddod i gasgliad sicr bod digon o dystiolaeth i warantu ymchwilio i'r mater.

I roi gwybod am dorri'r Cod, gallwch gysylltu â'm swyddfa ar **0845 6010987**, dros e-bost at **holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk** neu drwy'r wefan yn **www.ombwdsmon-cymru.org.uk**. Mae taflen arbennig am wneud cwynion am honiadau o dorri'r Cod ar gael ar gais neu ar y wefan.

## Cwynion blinderus

**Gweler Paragraff 6(1)(d)**

Rhaid i chi beidio â chwyno yn erbyn aelodau eraill, aelodau o staff na phobl sy'n gweithio ar ran eich awdurdod os nad yw'r gŵyn yn seiliedig ar ffeithiau ac os yw wedi'i chymell gan falais (dymuniad i'w niweidio) neu gystadleuaeth wleidyddol.  Yn anffodus, bu rhai achosion pan mae aelodau wedi ceisio cyflwyno cwynion am gystadleuwyr gyda'r bwriad o'u rhoi dan anfantais, weithiau cyn etholiad, a lle nad oes dim tystiolaeth o dorri'r amodau neu mae'r dystiolaeth yn wan iawn.  Yn y lle cyntaf, rwyf yn credu y dylid ystyried ymddygiad o'r fath o dan broses datrys yn lleol yr awdurdod perthnasol.

Pan fydd manylion penodol cwynion o'r fath yn cael eu trosglwyddo i'r wasg a'r cyfryngau lleol, gall hyn wneud niwed i ymchwiliad a gall hyn ynddo'i hun hefyd olygu torri'r Cod fel rwyf wedi'i esbonio.  Rhaid i chi roi gwybod i mi ac i'ch Swyddog Monitro am honiadau cadarn o dorri amodau'r Cod, nid i'r papur newydd nac i'r orsaf radio leol.  Bydd y wasg yn rhoi sylw priodol i fusnes unrhyw wrandawiadau a'u canlyniadau, ac ni ddylai aelodau sy'n gwneud honiadau greu unrhyw gyhoeddusrwydd cyn y rhain.

Ni ddylai aelodau ddefnyddio'r Cod i fynd ar drywydd eu gwahaniaethau gwleidyddol neu breifat. Dylech felly osgoi gwneud cwynion nad oes ganddynt ddim neu ddim llawer o sylwedd (cwynion gwamal) sydd â'r bwriad yn bennaf o wylltio'r sawl y gwnaed yn ei erbyn, er enghraifft, pan allech fod yn anghytuno ag agwedd aelod at fusnes eich awdurdod neu at eu rôl fel aelod.  Os byddaf yn gweld tystiolaeth sy'n awgrymu bod cwyn wedi'i gwneud i'm swyddfa nad yw'n seiliedig ar ffeithiau a'i bod wedi'i chymell gan falais neu gystadleuaeth wleidyddol, byddaf yn ystyried bod hyn yn fater difrifol ac mae'n bosibl y byddaf yn ymchwilio i hyn.  Mae gwneud cwynion blinderus,

maleisus neu wamal yn mynd yn groes i'r paragraff hwn ond mae'n bosibl hefyd ei fod yn mynd yn groes i'ch dyletswyddau eraill o dan y Cod megis y gofyniad i beidio â dwyn anfri ar eich statws fel cynghorydd neu beidio â defnyddio eich safle mewn modd amhriodol.

**Enghraifft**

Roedd aelod o gyngor bwrdeistref sirol wedi honni bod arweinydd y Cyngor wedi cynnig rhoi cyfleusterau swyddfa i gynghorydd arall a'i grŵp o aelodau pe byddai'r cynghorydd hwnnw'n cefnogi hoff ymgeisydd yr arweinydd ar gyfer swydd y Prif Weithredwr. Roedd y dystiolaeth yn cefnogi safbwynt yr arweinydd nad oedd cysylltiad rhwng y ddau fater ac felly bod y gŵyn yn un faleisus. Gwaharddodd y Panel Dyfarnu yr aelod a wnaeth y gŵyn am 12 mis.

## Cydweithredu ag ymchwiliadau

**Gweler Paragraff 6(2)**

Rhaid i chi gydweithredu ag unrhyw ymchwiliad pan fydd yn cael ei gynnal gennyf i neu gan eich Swyddog Monitro yn defnyddio ein pwerau statudol. Mae peidio â gwneud hynny'n torri amodau'r Cod. Mae hyn yn golygu y dylech ymateb yn brydlon i bob gohebiaeth a galwad ffôn, sicrhau eich bod ar gael ar gyfer cyfweliadau os oes angen a darparu copïau o unrhyw ddogfennau y gofynnir amdanynt. Byddai'n fuddiol pe gallech nodi unrhyw bryderon a allai fod gennych yn ystod yr ymchwiliad fel bod modd eu datrys yn ddi-oed. Bydd fy swyddfa a'ch Swyddog Monitro yn ystyried unrhyw bwysau brys rydych chi'n eu hwynebu ac unrhyw drefniadau a wnaed o'r blaen, er enghraifft, ar gyfer gwyliau. Fodd bynnag, disgwylir i chi flaenoriaethu eu hymchwiliadau, er mwyn osgoi llusgo materion yn ddiangen. Mae'r gofyniad i gydweithredu ag ymchwiliad yn berthnasol p'un ai a ydych yn dyst neu'n destun yr ymchwiliad.

Rwyf wedi dod i wybod am enghreifftiau o aelodau wedi'u cyhuddo o dorri'r Cod yn ceisio rhoi pwysau ar yr unigolion sydd wedi cyflwyno'r gŵyn neu ar dystion eraill. Ystyriaf ymddygiad o'r fath yn hollol annerbyniol. Rhaid i chi beidio â brawychu na cheisio brawychu unrhyw un sydd, neu sy'n debygol o fod, yn achwynydd, yn dyst, neu'n ymwneud â gweinyddu unrhyw ymchwiliad neu achos sy'n ymwneud â methu cydymffurfio â'r Cod.

Ni waeth faint rydych chi'n pryderu am honiadau eich bod chi neu gynghorydd arall wedi methu cydymffurfio â'r Cod, ni ddylech ar unrhyw gyfrif fwlio, brawychu neu geisio brawychu unrhyw un sy'n ymwneud â'r ymchwiliad neu'r gwrandawiad. Hyd yn oed os nad ydych chi wedi torri'r Cod, cewch ddweud eich dweud yn ystod unrhyw wrandawiad neu ymchwiliad annibynnol, a dylech ganiatáu i'r prosesau hyn ddilyn eu trywydd naturiol.

Os ydych chi'n brawychu tyst mewn ymchwiliad am eich ymddygiad, er enghraifft, efallai y byddwch yn destun cwyn arall oherwydd i chi fynd yn groes i baragraff 4(c) o'r Cod parthed bwlio neu frawychu, neu baragraff 6(1)(a) parthed dwyn anfri ar y swyddogaeth o fod yn aelod.

## Defnyddio eich safle'n amhriodol

**Gweler Paragraff 7(a)**

Rhaid i chi beidio â defnyddio na cheisio defnyddio eich safle'n amhriodol i roi mantais neu anfantais i chi'ch hun nac i unrhyw un arall. **Mae'r paragraff hwn yn berthnasol bob amser** ac nid dim ond pan ydych yn cyflawni eich dyletswyddau fel aelod. Ni ddylech ddefnyddio na cheisio defnyddio eich swyddogaeth gyhoeddus ychwaith er eich budd neu eich colled eich hun na budd na cholled eraill. Er enghraifft, byddai eich ymddygiad yn amhriodol pe byddech yn ceisio hyrwyddo eich buddiannau preifat eich hun drwy eich safle fel aelod. Mae hyn hefyd yn berthnasol os ydych yn defnyddio eich swydd i wella eich lles ar draul pobl eraill.

Mae angen i aelodau sy'n berchen ar dir, neu bobl y mae ganddynt gysylltiad personol agos â nhw sy'n berchen ar dir, fod yn arbennig o ofalus yng nghyswllt materion sy'n ymwneud â chynllunio. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, dylech ofyn am gyngor. Mae hyn yr un mor berthnasol i aelodau cynghorau cymuned pan ymgynghorir â'ch Cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â chynllunio. Yn yr un modd, er ei bod yn rhesymol disgwyl i aelodau helpu etholwyr i wneud cais i'r Cyngor, er enghraifft, ar gyfer tai, mae'n gwbl amhriodol ceisio dylanwadu ar y penderfyniad a wneir gan y swyddogion.

Mae darpariaethau Deddf Llwgrwobrwyo 2010 yn berthnasol i aelodau sy'n cyflawni eu dyletswyddau cyhoeddus. Os ceir aelod yn euog o drosedd o dan y Ddeddf hon, yna mae'n debyg y bydd hefyd wedi defnyddio ei safle'n amhriodol (gan dorri paragraff 7(a)) a dwyn anfri ar swyddogaeth aelod neu ar ei awdurdod gan dorri paragraffau 6(1)(a). Os caf unrhyw gŵyn sy'n ymwneud ag ymddygiad a all fod yn drosedd, yna rwyf yn debyg o gyfeirio'r mater at yr heddlu.

**Enghraifft**

Roedd aelod o gyngor sir wedi gofyn bod tir roedd yn berchen arno ym Mhentref A yn cael ei gynnwys fel tir addas ar gyfer datblygu yng Nghynllun Datblygu Lleol y Cyngor. Pan roedd y Cyngor yn ystyried ardaloedd aneddiadau addas i'w cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol, roedd swyddogion wedi argymell cynnwys tir yn y pentref cyfagos (Pentref B) yn y cynllun drafft yn lle. Er gwaethaf cael cyngor clir iawn gan Swyddog Monitro'r Cyngor ar ei fuddiant sy'n rhagfarnu, anfonodd yr aelod e-bost at swyddog polisi cynllunio'r Cyngor gan amlinellu nifer o ddadleuon roedd yn honni a oedd yn ffafrio cynnwys ei dir ef ym Mhentref A yn hytrach na'r tir ym Mhentref B. Ar yr adeg dan sylw roedd y cynllun drafft wedi cael ei ddatgelu i aelodau'r Cyngor yn gyfrinachol ac nid oedd wedi cael ei ddatgelu'n gyhoeddus.

Canfu'r Panel Dyfarnu fod yr aelod, drwy anfon yr e-bost, wedi torri amodau paragraff 7(a) y Cod drwy geisio defnyddio ei safle yn amhriodol er budd personol. Yn y gwrandawiad ceisiodd roi'r bai ar Swyddog Monitro'r Cyngor am beidio â'i hyfforddi a'i gynghori'n iawn ar y Cod, ond roedd hi'n amlwg nad oedd hyn yn wir. Roedd ei weithredoedd hefyd wedi dwyn anfri ar ei swyddogaeth ac ar y Cyngor. Cafodd yr aelod ei wahardd rhag dal swyddogaeth am 18 mis am hyn ac am achosion eraill o dorri'r Cod.

## Adnoddau'r awdurdod

**Gweler Paragraff 7(b)**

Dim ond yn unol â'i ofynion y cewch chi ddefnyddio adnoddau'r awdurdod neu awdurdodi pobl eraill i wneud hynny. **Mae'r paragraff hwn yn berthnasol bob amser**. Pan fydd eich awdurdod yn rhoi adnoddau i chi (er enghraifft ffôn, cyfrifiadur a chyfleusterau TG eraill, trafnidiaeth neu gefnogaeth gan weithwyr y cyngor), dim ond ar gyfer cyflawni eich busnes awdurdod lleol ac unrhyw weithgarwch arall y mae eich awdurdod wedi eich awdurdodi i'w defnyddio ar eu cyfer y cewch chi ddefnyddio'r rhain.

Rhaid i chi fod yn gyfarwydd â'r rheolau sy'n berthnasol i ddefnyddio'r adnoddau hyn a wnaed gan eich awdurdod. Mae methu cydymffurfio â rheolau eich awdurdod yn debygol o arwain at dorri'r Cod. Os ydych chi'n awdurdodi rhywun (er enghraifft aelod o'ch teulu) i ddefnyddio adnoddau eich awdurdod, rhaid i chi ofalu bod rheolau eich awdurdod yn caniatáu hyn.

## Defnyddio adnoddau at ddibenion priodol yn unig

**Gweler Paragraffau 7(b)(v) a 7(b)(vi)**

Rhaid i chi wneud yn siŵr mai dim ond at ddibenion priodol rydych chi'n defnyddio adnoddau'r awdurdod. Nid yw'n briodol defnyddio'r adnoddau at ddibenion gwleidyddol, gan gynnwys dibenion pleidiau gwleidyddol, nac awdurdodi pobl eraill i'w defnyddio yn y fath fodd. Wrth ddefnyddio adnoddau'r awdurdod, os yw'n berthnasol rhaid i chi ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan eich awdurdod lleol.

Ni ddylech byth ddefnyddio adnoddau'r awdurdod at ddibenion sydd ond yn ddibenion gwleidyddol, gan gynnwys dylunio a dosbarthu deunyddiau pleidiau gwleidyddol a gynhyrchir at ddibenion cyhoeddusrwydd. Fodd bynnag, efallai gall eich awdurdod eich awdurdodi i ddefnyddio ei adnoddau a'i gyfleusterau at ddibenion gwleidyddol yng nghyswllt busnes eich awdurdod, er enghraifft, cynnal cyfarfodydd eich grŵp gwleidyddol. Yn yr achos hwn, rhaid i chi fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau a roddir ar ddefnydd o'r fath at y dibenion hyn. Dylai aelodau hefyd ystyried y ffaith bod cyfnodau cyn etholiadau llywodraeth leol yn hynod sensitif yn hyn o beth. Mae defnyddio adnoddau eich awdurdod y tu allan i'r cyfyngiadau hyn yn debygol o arwain at dorri'r Cod. Bydd rhai awdurdodau'n caniatáu i aelodau ddefnyddio offer TG a ddarperir gan y Cyngor megis gliniaduron at ddefnydd atodol. Ar yr amod bod defnydd o'r fath yn unol â gofynion yr awdurdod, ni fyddai'r Cod yn cael ei dorri, ond ni fyddai'n briodol anfon negeseuon e-bost fel rhan o ymgyrch etholiadol er enghraifft. Fodd bynnag, os nad oes polisi neu os yw'r polisi'n dawel, ni chewch ddefnyddio'r adnoddau hyn at unrhyw ddibenion gwleidyddol na phreifat.

**Enghraifft**

Roedd un o aelodau cyngor sir wedi torri'r Cod am ddefnyddio ei offer cyfrifiadurol, a roddwyd iddo gan y Cyngor, yn amhriodol at ddibenion preifat drwy lawrlwytho delweddau pornograffig amhriodol o oedolion ac anfon nifer o lythyrau at bapur newydd lleol, gan honni mai aelodau o'r cyhoedd oedd yn eu hanfon. Canfu'r Panel Dyfarnu fod yr aelod wedi camddefnyddio offer y Cyngor a'i fod wedi torri'r Cod ac wedi dwyn anfri ar swyddogaeth aelod. Cafodd ei anghymwyso am 2 flynedd a 6 mis rhag bod, na dod, yn aelod o awdurdod lleol.

**Enghraifft**

Penderfynwyd bod aelod o gyngor bwrdeistref sirol wedi torri'r Cod am ddefnyddio gormod ar ei ffôn symudol, a roddwyd iddo gan y Cyngor, at ddibenion preifat. Er bod polisi TG y cyngor yn caniatáu rhywfaint o ddefnydd personol, cafwyd bil o dros £1000 am alwadau preifat roedd yr aelod wedi'u gwneud. Penderfynodd y Panel Dyfarnu wahardd yr aelod am 9 mis am hyn ac am achosion eraill o dorri'r Cod.

## Gwneud penderfyniadau'n wrthrychol

**Gweler Paragraff 8(a)**

Wrth gymryd rhan yng nghyfarfodydd eich awdurdod, neu wrth wneud penderfyniadau ynghylch busnes yr awdurdod, rhaid i chi wneud hynny â meddwl agored ac yn wrthrychol. Yn ystod y broses penderfynu rhaid i chi weithredu'n deg ac ystyried budd y cyhoedd yn briodol.

Mewn rhai penderfyniadau, megis penderfyniadau pwyllgorau cynllunio, rhaid i chi bob amser wneud eich penderfyniadau ar sail y ffeithiau sydd o'ch blaen chi, a rhaid i chi beidio â bod wedi penderfynu ymlaen llawn i'r graddau eich bod yn hollol anfodlon ystyried yr holl dystiolaeth a chyngor a gewch chi. Rhagderfyniad yw'r enw ar fod â meddwl hollol gaeedig. Mae gennych hawl i fod â safbwynt ymlaen llaw ynghylch mater penodol cyn cyfarfod (rhagdueddiad) ar yr amod eich bod yn cadw meddwl agored a'ch bod yn fodlon ystyried rhinweddau'r holl ddadleuon a phwyntiau a wneir ynghylch y mater a drafodir cyn i chi wneud penderfyniad.

Mae rhagderfyniad ar y llaw arall yn golygu eich bod, yn amlwg, wedi penderfynu ar eich gweithredoedd cyn y cyfarfod ac yn gwbl amharod i ystyried y dystiolaeth a'r dadleuon a gyflwynir ar y mater hwnnw yn ystod y cyfarfod. Gallai rhagderfyniad wneud y penderfyniad yn annilys, ond gallai hefyd olygu eich bod yn torri'r Cod.

Mae Adran 78 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gwahardd aelod o gyfarfod pwyllgor craffu neu drosolwg rhag pleidleisio ar gwestiwn mewn cyfarfod, os yw'r aelod wedi cael chwip y blaid yng nghyswllt y cwestiwn cyn y cyfarfod.

Er mwyn i mi ymchwilio i gwynion o "chwipio" pleidleisiau gan grwpiau gwleidyddol, rhaid cael tystiolaeth ysgrifenedig neu dystiolaeth ategol arall sydd ar gael o'r chwip. Ni fydd tybiaethau ar sail patrymau pleidleisio grwpiau penodol yn ddigon o dystiolaeth o chwip.

## Ystyried cyngor a roddir i chi a rhoi rhesymau

**Gweler Paragraff 8(b)**

Rhaid i chi ystyried yr holl gyngor a gewch gan swyddogion eich awdurdod, yn enwedig y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Cyllid, y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyfreithiol pan fyddant yn rhoi eu cyngor o dan eu dyletswyddau statudol. Gall cyngor o'r fath hefyd fod mewn dogfennau polisi a chanllawiau a gynhyrchir gan eich awdurdod. Mae hwn yn faes dyrys a cheir darpariaethau mewn deddfwriaeth arall sy'n sail iddo, ond at ei gilydd, mae'n fwy na gofyniad i ddim ond ystyried a gwrthod cyngor os nad ydych yn ei groesawu. Rwyf yn disgwyl i aelodau ddilyn y cyngor oni bai fod rhesymau cryf dros beidio â gwneud hynny, ac os gwneir penderfyniad i beidio â dilyn cyngor, cynghorir yn gryf eich bod yn cofnodi'r rhesymau dros beidio â gwneud hynny.

Mae'n werth ystyried hefyd bod hyn yn rhoi cryn ddyletswydd ar swyddogion statudol i ystyried eu cyngor ffurfiol yn ofalus, ac eto, os ydynt yn credu ei bod yn debygol y bydd cynnen, dylent gadw cofnod o hynny. Efallai y bydd rhai achosion lle rhoddir cyngor i aelod sydd yn golygu torri'r Cod pan gaiff ei ddilyn. Wrth ymchwilio i achosion o'r fath, os yw'r dystiolaeth yn awgrymu y cafodd y Cod ei dorri, at ei gilydd byddwn yn ystyried y cyngor diffygiol fel ffactor lliniaru, yn hytrach na thystiolaeth na chafodd y Cod ei dorri.

Mae cael cyngor mor gynnar ag sy'n bosibl bob amser yn ddefnyddiol. Os gallwch chi, holwch am gyngor mewn da bryd cyn cyfarfod, yn hytrach nag yn y cyfarfod neu yn union cyn iddo ddechrau. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol i'r swyddog dan sylw wrth roi cyngor i chi.

Os ydych chi'n gofyn am gyngor, neu os rhoddir cyngor i chi, er enghraifft ynghylch a ddylech chi gofrestru buddiant personol, dylech ystyried y cyngor hwn cyn i chi benderfynu. Gallai methu gwneud hynny olygu torri'r Cod.

Rhaid i chi roi rhesymau am bob penderfyniad yn unol ag unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion rhesymol a roddir gan eich awdurdod. Mae rhoi rhesymau am benderfyniadau yn arbennig o bwysig yng nghyswllt penderfyniadau ynghylch rheoliadau a phenderfyniadau sy'n effeithio ar hawliau pobl, ond nid yw'n gyfyng i'r rhain.

Fel mater o arfer da, pan fyddwch yn anghytuno ag argymhellion swyddog wrth wneud penderfyniad, dylech chi roi rhesymau clir dros eich penderfyniad. Mae hyn yn berthnasol i benderfyniadau i bleidleisio yn erbyn cyngor y swyddogion statudol, hyd yn oed os ydych yn colli'r bleidlais. Os byddwch yn penderfynu pleidleisio yn erbyn eu cyngor dylech sicrhau bod eich rhesymau dros wneud hynny'n cael eu cofnodi yn y cofnodion perthnasol. Dylech fod yn ymwybodol y gall pleidleisio yn erbyn cyngor y swyddogion statudol heb reswm da olygu eich bod yn torri'r Cod.

Wrth wneud penderfyniadau pan na chaiff y cyngor ei roi gan y swyddogion statudol, dylech dal ystyried y cyngor a roddir gan swyddogion a'i ystyried wrth wneud eich penderfyniad. Efallai eich bod hefyd eisiau ystyried cyngor arall rydych chi wedi'i gael ac wrth gwrs, safbwynt grŵp

gwleidyddol rydych chi'n aelod ohono. Mewn rhai amgylchiadau, megis penderfyniadau cynllunio, rhaid i chi beidio â phleidleisio ar sail "chwip" a roddir gan eich grŵp. Mewn amgylchiadau eraill, mae'n rhesymol gwneud hynny ond dylech osgoi cau eich meddwl yn gyfan gwbl cyn dadl. Unwaith eto, beth bynnag yw'r rhesymau dros bleidleisio yn erbyn cyngor swyddog, cynghorir yn gryf eich bod yn eu cofnodi.

**Enghraifft**

Roedd aelod o gyngor sir a gadeiriodd un o gyfarfodydd y Cyngor wedi gwrthod caniatáu i Swyddog Monitro'r Cyngor gynghori aelodau yn ystod dadl ynghylch "Llythyr Blynyddol" y Cyngor oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru. Hefyd, pan lwyddodd y Swyddog Monitro i gamu i mewn i fynegi pryderon difrifol am y ffordd roedd pethau'n cael eu gwneud, methodd ag ystyried y cyngor cyfyngedig roedd wedi gallu ei roi, a'r cyfan ddywedodd oedd ei fod wedi "nodi ei sylwadau".

Canfu fod yr aelod wedi torri amodau paragraff 8(a)(iii) o'r Cod. Roedd y Panel Dyfarnu wedi ystyried ymddiheuriad llawn yr aelod a'i fod yn edifarhau am ei ymddygiad a nododd pe na bai'r aelod eisoes wedi derbyn ei fod wedi gwneud rhywbeth o'i le byddai wedi rhoi cosb fwy na'r 4 mis o waharddiad a roddodd.

## Treuliau

**Gweler Paragraff 9(a)**

Mae angen i chi ddilyn y gyfraith a gofynion eich awdurdod wrth hawlio treuliau a lwfansau. Os oes gennych chi unrhyw amheuaeth ynghylch eich hawliau, neu'r ffordd briodol o hawlio, dylech ofyn am gyngor. Mae angen i chi gadw cofnodion priodol o wariant wedi'u hategu gan dderbynebau pan fydd hynny'n briodol, er mwyn i chi allu cyflwyno tystiolaeth briodol o'ch hawliau. Hyd yn oed os nad oes angen i chi gyflwyno derbynebau, fe'ch cynghorir yn gryf i gadw'r rhain er mwyn i chi allu profi faint rydych chi wedi'i wario ar yr eitemau rydych chi'n hawlio amdanynt e.e. gofal plant.

**Enghraifft**

Honnwyd bod un o aelodau cyngor bwrdeistref sirol wedi defnyddio'r Lwfans Gofal Plentyn/Dibynnydd i dalu ei wraig i ofalu am eu merch. Yn ystod yr ymchwiliad daeth i'r amlwg ei fod wedi talu incwm wythnosol rheolaidd i'w fab sy'n oedolyn (o briodas flaenorol) i ofalu am y plentyn yn ôl yr angen. Roedd yr aelod yn gallu darparu prawf o'r taliadau drwy dderbynebau a bonion sieciau. Oherwydd hyn, nid oedd dim tystiolaeth o unrhyw fethiant ar ran yr aelod i gydymffurfio â'r Cod.

# Rhoddion a lletygarwch

**Gweler Paragraff 9(b)**

Mae'n bwysig nad ydych chi'n derbyn unrhyw roddion na lletygarwch i chi eich hun, nac ar ran pobl eraill, a fyddai'n eich rhoi chi dan rwymedigaethau neu'n ymddangos i wneud hynny. Gellid ystyried bod derbyn rhoddion neu letygarwch o'r fath yn tanseilio eich gallu i fod yn wrthrychol pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau neu'n cyflawni gwaith eich Cyngor. Mae hyn hefyd yn wir am unrhyw wasanaethau neu roddion ymarferol.

Nid yw hyn yn eich atal rhag mynychu digwyddiadau swyddogol megis derbyniadau dinesig neu giniawau gwaith pan fydd y rhain yn cael eu hawdurdodi gan eich awdurdod. (Gweler hefyd yr adran ar gofrestru rhoddion a lletygarwch ar dudalen 44).

## 3. Buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu

Mae elfennau'r Cod sy'n berthnasol i fuddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu yn arwain at nifer o gwestiynau gan aelodau. Eu bwriad yw diogelu egwyddorion anhunanoldeb a gwrthrychedd. Eu nod yw rhoi hyder i'r cyhoedd bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er budd gorau iddynt hwy, nid er budd gorau aelodau awdurdodau neu bobl mae ganddynt gysylltiad personol agos â nhw.

Mae buddiannau personol yn ymwneud â materion lle mae gennych chi neu rywun mae gennych gysylltiad personol agos â nhw rhyw gyswllt â mater sy'n cael ei drafod. Gall y buddiannau hyn fod yn rhai sy'n rhagfarnu pan allai arsyllwr annibynnol gwybodus ddod i'r casgliad y byddai'r buddiant yn dylanwadu ar eich pleidlais, neu ar eich penderfyniad.

Yn fy mhrofiad i, y gwahaniaeth rhwng buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu, a pha gam y dylai aelod ei gymryd yn dibynnu ar natur eu buddiant, sy'n achosi'r anhawster mwyaf i aelodau.

Bwriad y paragraffau isod yw cynnig canllawiau yn y maes hwn. Byddwn yn argymell yn gryf os oes gennych chi unrhyw amheuaeth ynghylch a oes gennych chi fuddiant personol neu fuddiant sy'n rhagfarnu, ac, os oes, beth y mae angen i chi ei wneud, dylech chi ofyn i'ch Swyddog Monitro am gyngor. Fodd bynnag, chi fydd yn dal yn penderfynu pa gam y dylid ei gymryd.

I'ch helpu gyda hyn, rwyf wedi amgáu dwy siart llif yn Atodiad 1 a 2 sydd wedi'u cynllunio gan Swyddog Monitro Cyngor Sir Ceredigion i'ch helpu i fynd drwy'r cwestiynau y dylech ofyn i chi'ch hun wrth benderfynu a oes gennych fuddiant. Dim ond enghraifft i ddangos yw'r atodiadau ac nid ydynt yn derfynol.

Mae'r canllawiau ar gofrestru buddiannau yn Adran 4.

### Buddiant personol

**Gweler Paragraff 10**

> Oes gennych chi gyswllt neu gysylltiad agos â'r eitem dan sylw?

Wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau, bydd angen i chi benderfynu a oes gennych chi fuddiant personol, ac os felly, a oes angen i chi ei ddatgelu. Mae'r rhan fwyaf o aelodau'n gwybod bod angen i chi ddatgelu buddiant personol mewn cyfarfodydd, ond ceir adegau eraill, er enghraifft wrth siarad â swyddogion eich awdurdod ynghylch y mater dan sylw, pan fydd angen i chi wneud hynny hefyd.

Isod, gwelir rhai cwestiynau y dylech eu gofyn wrth benderfynu a oes gennych chi fuddiant.

## Oes gennyf fi fuddiant personol?

Mae gennych fuddiant personol yn unrhyw ran o fusnes eich awdurdod, gan gynnwys wrth wneud penderfyniadau, pan fydd hwnnw'n ymwneud â neu'n debygol o effeithio ar:

1. eich swydd neu eich busnes
2. eich cyflogwr, neu unrhyw ffyrm rydych chi'n bartner neu'n gyfarwyddwr sy'n cael tâl ynddo
3. unrhyw un sydd wedi talu am gostau eich etholiad neu'ch treuliau fel aelod
4. unrhyw gwmni y mae gennych gyfranddaliadau ynddo gyda gwerth nominal o dros £25,000 neu pan mae eich daliad dros 1% o gyfanswm y cyfalaf cyfrannau a gyhoeddwyd sydd ag eiddo neu dir yn ardal eich cyngor
5. unrhyw gontract mae'ch awdurdod yn ei lunio â chwmni rydych chi'n bartner ynddo, yn gyfarwyddwr sy'n cael tâl neu mae gennych gyfranddaliadau ynddo fel y disgrifir yn 4
6. unrhyw dir mae gennych fuddiant ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod (mae hyn yn arbennig o bwysig ym mhob mater cynllunio gan gynnwys cynlluniau strategol)
7. unrhyw dir a osodir gan eich awdurdod i gwmni rydych chi'n bartner ynddo, yn gyfarwyddwr sy'n cael tâl neu gorff fel y nodir yn 4
8. unrhyw gorff rydych chi wedi cael eich ethol, eich penodi neu eich enwebu iddo gan eich awdurdod
9. unrhyw:
   - awdurdod neu gorff cyhoeddus sy'n ymarfer swyddogaethau cyhoeddus eu natur
   - cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen neu gorff a gyfarwyddir at ddibenion elusennol
   - corff â'i brif swyddogaeth yw dylanwadu ar bolisïau neu farn gyhoeddus
   - undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol
   - clwb neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu yn ardal eich awdurdod, yr ydych yn aelod ohono neu lle mae gennych swyddogaeth reoli gyffredinol
10. unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych drwydded i'w feddiannu am o leiaf 28 diwrnod.

Mae bob amser yn fwy diogel datgan buddiant, fodd bynnag, holwch eich Swyddog Monitro os oes gennych chi unrhyw amheuaeth.

## Materion sy'n ymwneud â wardiau ac adrannau etholiadol - gan gynnwys paragraff 10(2)(b)

Pe byddai'n rhesymol **i aelod o'r cyhoedd** gasglu pan fyddwch yn gwneud penderfyniad ar ran yr awdurdod yn ei gyfanrwydd bod materion yn eich ward neu eich adran etholiadol yn dylanwadu mwy arnoch chi nag y byddai buddiannau'r awdurdod yn ei gyfanrwydd er enghraifft, os oes angen i'r awdurdod wneud darpariaeth ond nad ydych chi'n meddwl y dylai fod yn eich ward neu'ch adran etholiadol chi, yna byddai gennych fuddiant personol.

Mae'r paragraff hwn wedi arwain at anawsterau mawr o ran dehongli. Gwraidd y broblem yw y gallai dehongli'r paragraff yn gaeth, gair am air, olygu eithrio aelodau rhag cymryd rhan mewn

unrhyw benderfyniad sy'n effeithio ar eu ward - ond bwriad sylfaenol y polisi oedd cyfyngu cwmpas y ddarpariaeth hon i benderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan gynghorwyr unigol wrth ymarfer swyddogaethau gweithredol.

Nid wyf o'r farn y byddai mabwysiadu dehongliad llythrennol fel mater o drefn er budd y cyhoedd, nac er budd democratiaeth leol. Felly yn gyffredinol, wrth ddefnyddio fy nisgresiwn, bydd y penderfyniad i ymchwilio neu beidio'n seiliedig ar y dybiaeth bod y paragraff wedi'i gyfeirio at aelodau unigol yn gwneud penderfyniad wrth ymarfer swyddogaethau a phenderfyniadau gweithredol megis y rheini sy'n cael eu gwneud mewn pwyllgorau cynllunio neu drwyddedu.

Mae Adran 25 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn disgrifio amgylchiadau pan na ddylid ystyried bod gan aelodau feddwl caeedig wrth wneud penderfyniadau. Byddaf yn parhau i adolygu hyn yng ngoleuni unrhyw benderfyniadau a chyfraith achosion yn y dyfodol ar effaith y ddarpariaeth hon

### Enghraifft

Roedd y Panel Dyfarnu wedi ystyried achos a oedd yn ymwneud â'r ddarpariaeth hon o'r Cod. Roedd yr aelod wedi datgan ei fod yn gwrthwynebu cais cynllunio dadleuol yn ei faniffesto etholiadol gan addo "gweithio'n ddiflino ar faterion sy'n achosi pryder" a "gwrthwynebu'r cynnig datblygu presennol". Ac yntau wedi cael ei ethol, pleidleisiodd yr aelod yn erbyn y cais cynllunio cyntaf yr oedd y Cyngor yn ei ystyried pan gafodd y cais ei wrthod. Cafodd ei ddyfynnu wedyn yn y wasg leol a chenedlaethol yn amddiffyn ei benderfyniad i wrthwynebu'r datblygiad. Canfu'r Panel Dyfarnu fod yr aelod wedi gweithredu mewn ffordd a fyddai'n rhoi achos rhesymol i aelod o'r cyhoedd weld gwrthdaro rhwng ei swyddogaeth fel cynghorydd lleol a'i swyddogaeth wrth wneud penderfyniad ar ran ei awdurdod. Gwaharddodd yr aelod o'r pwyllgor cynllunio am 3 mis.

### Materion sy'n effeithio ar eich lles neu eich sefyllfa ariannol

Os gellir gweld bod penderfyniad yn effeithio ar eich lles neu eich sefyllfa ariannol chi neu les neu sefyllfa ariannol unrhyw un sy'n byw gyda chi neu rywun y mae gennych gysylltiad personol agos â nhw, yn fwy na phobl eraill yn eich ward neu, ar gyfer aelodau awdurdodau lle nad oes wardiau (er enghraifft, parciau cenedlaethol), yn ardal eich awdurdod, mae gennych fuddiant personol. Mae enghreifftiau o benderfyniadau o'r math hwn yn cynnwys materion amlwg megis dyfarnu contractau i gwmni eich partner ond hefyd faterion ynghylch lleoliad datblygiadau, lle gallai wneud gwahaniaeth mawr i le rydych chi neu bobl mae gennych gysylltiad agos â nhw yn byw. Mae enghreifftiau wedi cynnwys lleoliad meysydd chwarae, lle mae aelodau etholedig wedi'u gwrthwynebu ger eu tai oherwydd materion sy'n ymwneud â sŵn.

### Beth yw "corff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus"?

Mae'r ymadrodd "corff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus" wedi cael ei ddehongli'n eang gan y llysoedd am nifer o ddibenion gwahanol. Er nad yw'n bosibl cynhyrchu rhestr derfynol o gyrff o'r fath, dyma rai o'r meini prawf i'w hystyried wrth benderfynu a yw corff yn diwallu'r diffiniad hwnnw:

- A yw'r corff hwnnw'n cyflawni gwasanaeth cyhoeddus?
- A yw'r corff yn cymryd lle llywodraeth ganolog neu leol wrth gyflawni'r swyddogaeth er enghraifft, cartref gofal gyda phreswylwyr sy'n cael cefnogaeth gwasanaethau cymdeithasol?

- A yw'r corff (gan gynnwys corff yn y sector preifat sydd ar gontract allanol) yn arfer swyddogaeth a ddirprwywyd iddo gan awdurdod cyhoeddus, er enghraifft, cwmni preifat sy'n casglu sbwriel ar ran yr awdurdod?
- A yw'r swyddogaeth yn cael ei arfer o dan ddeddfwriaeth neu yn ôl rhyw bŵer statudol?
- A oes modd adolygu'r corff yn farnwrol?

Oni bai eich bod yn ateb un o'r cwestiynau uchod yn gadarnhaol, mae'n annhebygol bod y corff yn eich achos chi yn arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus. Dyma enghreifftiau o gyrff sydd wedi'u cynnwys yn y diffiniad hwn - cyrff iechyd, cwmnïau sy'n eiddo i'r cyngor sy'n arfer swyddogaethau a chyrff llywodraethu ysgolion. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch neu gyngor penodol am y mater hwn, cysylltwch â'ch Swyddog Monitro.

**Beth mae "effeithio ar les neu sefyllfa ariannol" yn ei olygu?**

Mae modd disgrifio'r term 'lles' fel amod o fodlonrwydd a hapusrwydd. Mae unrhyw beth sy'n effeithio ar ansawdd eich bywyd, yn gadarnhaol neu'n negyddol, yn debygol o effeithio ar eich lles. Gall buddiant personol effeithio yn gadarnhaol ac yn negyddol arnoch chi neu ar bobl y mae gennych gysylltiad personol agos â nhw. Felly, os yw'n bosibl i chi neu nhw ennill neu golli oherwydd mater sy'n cael ei ystyried, mae angen i chi ddatgan buddiant personol yn y naill sefyllfa a'r llall.

**Beth yw'r diffiniad o rywun mae gennych chi gysylltiad personol agos â nhw?**

Mae pobl mae gennych chi gysylltiad personol agos â nhw yn cynnwys pobl megis ffrindiau agos, cydweithwyr mae gennych gysylltiadau arbennig o gryf â nhw, pobl rydych chi'n eu hadnabod yn dda drwy fusnes a pherthnasau agos. Nid yw'n golygu cydnabod achlysurol, perthnasau pell neu bobl rydych ond yn dod i gysylltiad â nhw drwy eich swyddogaeth fel aelod neu eich gwaith yn y gymuned leol.

> Mae pobl mae gennych chi gysylltiad personol agos â nhw yn cynnwys ffrindiau, perthnasau, cydweithwyr, pobl rydych chi'n eu hadnabod yn dda drwy fusnes a phobl rydych chi wedi anghydweld â nhw

Gall pobl mae gennych chi gysylltiad personol agos â nhw hefyd gynnwys rhywun rydych chi wedi cael anghydfod â nhw, neu lle gellir ystyried y byddech yn achosi anfantais iddynt. Er enghraifft, ni fyddai bod yn aelod o'r un clwb golff â rhywun arall ynddo'i hun yn golygu bod gennych chi gysylltiad personol agos â nhw ond gallai bod yn bartner golff wythnosol iddynt olygu bod gennych chi gysylltiad personol agos â nhw. Os nad ydych chi'n siŵr, dylech chi holi eich Swyddog Monitro.

**Beth os ydw i'n perthyn i awdurdod heb wardiau neu adrannau etholiadol?**

Os ydych chi'n aelod o awdurdod heb wardiau nac adrannau etholiadol, bydd angen i chi ddatgan buddiant personol pan fyddwch chi'n ystyried mater yn un o gyfarfodydd eich awdurdod os yw'n effeithio ar eich lles neu ar eich sefyllfa ariannol chi neu les neu sefyllfa ariannol un neu fwy o'r bobl mae gennych chi gysylltiad agos â nhw, yn fwy nag y byddai'n effeithio ar bobl eraill yn ardal eich awdurdod. Os ydych chi'n aelod awdurdod lleol o awdurdod tân, er enghraifft, byddai angen i chi ddatgan buddiant o dan y pennawd hwn ar faterion sy'n ymwneud ag ardal yr awdurdod sy'n eich enwebu.

### Aelodau sy'n gwisgo "dwy het"

Os ydych yn aelod o gyngor cymuned ac o gyngor sir, ni chewch eich atal rhag trafod yr un materion yn y ddau le. Er enghraifft, gallwch gymryd rhan mewn trafodaeth am gais cynllunio yr ymgynghorwyd â'ch Cyngor Cymuned yn ei gylch, a pharhau i gymryd rhan mewn penderfyniad ynghylch y cais os ydych yn eistedd ar Bwyllgor Cynllunio eich Cyngor Sir.

Os byddwch yn gwneud hyn, fe'ch cynghorir yn gryf i ddweud yng nghyfarfod y Cyngor Cymuned y byddech chi'n edrych ar y mater o'r newydd wrth ei ystyried yn y Cyngor Sir, ac y byddech chi'n ystyried yr holl wybodaeth a chyngor a roddir i chi. Yn y Pwyllgor Cynllunio, dylech ddweud yn glir nad ydych yn rhwym wrth farn y Cyngor Cymuned. Mae'r cyngor ynghylch gwneud penderfyniadau gwrthrychol yng nghyd-destun paragraffau 8(a) a 10(2)(b) y Cod yn berthnasol yma hefyd.

Yn amlwg, os yw'r cais yn un a gyflwynir gan y Cyngor Cymuned, yna byddai gennych fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu, a byddai'n ofynnol i chi ei ddatgan a thynnu'n ôl yn unol â'r canllawiau isod ynghylch "beth i'w wneud os oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu".

### Enghraifft

Roedd Cynghorydd F wedi cymryd rhan mewn cyfarfod a oedd yn ystyried a ddylid cymeradwyo enwebiad yr achwynydd ar gyfer swydd llywodraethwr ysgol; roedd gŵr Cynghorydd F hefyd wedi gwneud cais am y swydd. Roedd y Panel Dyfarnu wedi penderfynu y dylai hi fod wedi datgan buddiant personol yn yr eitem oherwydd ei chysylltiad personol agos â'i gŵr, ond roedd hefyd o'r farn y bu hanes o elyniaeth tuag at yr aelod gan yr achwynydd a oedd wedi cael ei gofnodi'n gyhoeddus. Roedd ganddi hefyd fuddiant personol oherwydd ei chysylltiad personol agos â'r achwynydd.

Roedd elfen arall yn perthyn i'r gŵyn hon sef, ar ôl i'r achwynydd gwyno i mi ynghylch yr aelod, roedd yr aelod wedi eistedd ar Bwyllgor Safonau'r Cyngor pan roedd yn ystyried cwyn ar wahân gan yr achwynydd yn erbyn aelod arall. Roedd y Panel Dyfarnu o'r farn, yng ngoleuni'r berthynas elyniaethus rhwng yr aelod a'r achwynydd, y byddai wedi bod yn rhesymol credu bod cyfranegiad yr aelod yng ngwrandawiad y Pwyllgor Safonau yn effeithio ar les yr achwynydd oherwydd bod ganddi hawl i gael gwrandawiad teg a diduedd o'i chŵyn.

### Beth os nad ydw i'n gwybod am fy muddiant personol?

Dim ond pan rydych chi'n ymwybodol **neu pan fyddai'n rhesymol disgwyl i chi fod yn ymwybodol** bod y buddiant personol hwnnw'n bodoli y mae'ch dyletswydd i ddatgan buddiant personol mewn cyfarfod yn berthnasol. Yn amlwg, nid oes disgwyl i chi ddatgan rhywbeth nad ydych yn ymwybodol ohono. Byddai'n anymarferol disgwyl i chi ymchwilio i gyflogaeth, buddiannau busnes a gweithgareddau eraill eich holl berthnasau a phawb mae gennych chi gysylltiad agos â nhw. Fodd bynnag, ni ddylech chi anwybyddu bodolaeth buddiannau y dylech chi fod wedi bod yn ymwybodol ohonynt, o safbwynt arsylwr rhesymol a gwrthrychol.

## Beth i'w wneud pan fydd gennych fuddiant personol

**Gweler Paragraff 11**

> Ar ôl datgelu buddiant, cewch aros a chymryd rhan os nad yw eich buddiant yn un sy'n rhagfarnu

Os byddwch yn penderfynu bod gennych fuddiant personol, rhaid i chi gymryd y camau canlynol cyn i'r mater gael ei drafod neu cyn gynted ag y daw'n amlwg i chi ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig:

- datgan bod gennych fuddiant personol a natur y buddiant hwnnw
  - mewn cyfarfodydd
  - wrth gyflwyno sylwadau ysgrifenedig (gan gynnwys negeseuon e-bost, ffacs ayb)
  - wrth wneud sylwadau ar lafar, hyd yn oed os yw eich buddiant ar y gofrestr buddiannau.
- cadarnhau eich buddiant dros e-bost neu'n ysgrifenedig i'r swyddog dan sylw ac i'r Swyddog Monitro cyn pen 14 diwrnod
- ystyried a oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu (gweler isod).

Os ydych yn gwneud sylwadau ysgrifenedig i aelod arall neu i swyddog, rhaid i chi gynnwys manylion unrhyw fuddiannau personol sydd gennych. Yn yr un modd, os ydych chi'n siarad â swyddog neu aelod yn bersonol, dros y ffôn neu mewn cynhadledd fideo, dylech ddweud wrthynt am unrhyw fuddiant personol sydd gennych cyn cyflwyno eich sylwadau neu pan ddaw'r buddiant yn amlwg. At ei gilydd, byddai'r Ombwdsman yn disgwyl i swyddogion gadw cofnod o unrhyw sgwrs lle mae aelod wedi datgan buddiant a'i atodi i'r ffeil briodol.

Os ydych chi'n gwneud penderfyniad fel rhan o bwyllgor gwaith neu fwrdd, rhaid i chi wneud yn siŵr bod y cofnod ysgrifenedig o'r penderfyniad hwnnw (er enghraifft, cofnodion cyfarfod cabinet) yn cynnwys manylion eich buddiant. Os ydych chi wedi datgan buddiant mewn cyfarfod nad yw wedi cael ei gofnodi o'r blaen, rhaid i chi ei gyflwyno ar bapur i'ch awdurdod yn unol â'r trefniadau a bennwyd gan eich Swyddog Monitro. Fel arfer, bydd hyn yn golygu cyn neu ar unwaith ar ôl y cyfarfod dan sylw neu gyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl hynny. Rhaid i chi nodi ar bapur beth yw'r buddiant, pa fusnes a ystyriwyd gan y cyfarfod y mae'n berthnasol iddo, ac mae angen i chi ei lofnodi.

Os ydych chi wedi cytuno â'ch Swyddog Monitro bod y wybodaeth am eich buddiant personol yn wybodaeth sensitif, dylech chi ddatgan bodolaeth buddiant personol, a chadarnhau bod y Swyddog Monitro wedi cytuno bod y wybodaeth dan sylw yn sensitif. Mae'r adran isod yn cynnwys rhagor o wybodaeth am hyn.

Os ydych chi'n datgan buddiant personol, cewch aros yn y cyfarfod, siarad a phleidleisio ar y mater, **oni bai fod eich buddiant personol hefyd yn fuddiant sy'n rhagfarnu**. Mae'r adran nesaf yn amlinellu'r hyn sy'n fuddiant sy'n rhagfarnu.

## Buddiannau sy'n rhagfarnu

**Gweler Paragraff 12**

**Oes gennyf fi fuddiant sy'n rhagfarnu?**

Peidiwch â gadael i'r hyn rydych chi'n credu ynddo ddylanwadu arnoch - meddyliwch beth fyddai aelod o'r cyhoedd yn ei feddwl

Bydd eich buddiant personol hefyd yn fuddiant sy'n rhagfarnu mewn mater os oes unrhyw rai o'r amodau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r mater yn perthyn i un o'r categorïau busnes sydd wedi'u heithrio (gweler isod), neu
- mae'r mater yn ymwneud â mater rheoliadol neu drwyddedu (gweler paragraff 12 (3)),

  a

  byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd, sy'n gwybod am y ffeithiau perthnasol, feddwl bod eich buddiant personol mor arwyddocaol ei fod yn debygol o liwio eich barn ynghylch budd y cyhoedd.

**Beth sydd mor arwyddocaol ei fod yn debygol o lywio eich barn?**

Pe byddai aelod rhesymol o'r cyhoedd sy'n gwybod yr holl ffeithiau perthnasol yn meddwl y gallai fod eich barn er budd y cyhoedd wedi'i ragfarnu, yna mae gennych fuddiant sy'n rhagfarnu. **Mae hwn yn brawf gwrthrychol**. Rhaid i chi benderfynu ar hyn - nid a fyddech yn gwneud y penderfyniad heb ragfarn, ond a ellid gweld eich bod yn gwneud hynny.

Rhaid i chi ofyn i chi'ch hun a fyddai **aelod o'r cyhoedd**, petai'n gwybod am yr holl ffeithiau perthnasol, yn meddwl bod eich buddiant personol mor arwyddocaol y byddai'n debygol o liwio eich barn. Mewn geiriau eraill, rhaid i'r buddiant ymddangos fel pe bai'n gallu niweidio neu amharu ar eich gallu i farnu budd y cyhoedd.

Fel rheol ni fydd bodolaeth gwybodaeth leol, neu gysylltiadau â'r gymuned leol, yn ddigon i ddiwallu'r prawf. Rhaid cael rhyw ffactor a allai niweidio eich gallu i farnu budd y cyhoedd yn wrthrychol. Mae natur y mater hefyd yn bwysig, gan gynnwys a yw'n effeithio ar nifer fawr o bobl yn yr un modd ynteu a oes effaith benodol arnoch chi neu ar grŵp llai.

Rhaid cofio rhai egwyddorion cyffredinol wrth ddefnyddio'r prawf hwn. Dylech weithredu er budd y cyhoedd yn amlwg ac nid er budd unrhyw bobl mae gennych gysylltiad agos â nhw. Rydych chi'n gwarchod y pwrs cyhoeddus a budd y cyhoedd a dylai eich ymddygiad a'ch penderfyniadau adlewyrchu'r cyfrifoldeb hwn.

Byddai gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn cais cynllunio petai rhywun mae gennych chi gysylltiad personol agos â nhw (er enghraifft, eich mab neu gyfaill agos) yn byw drws nesaf i'r safle dan sylw. Y rheswm am hyn yw oherwydd ei bod yn debygol y byddai'r cais yn debygol o gael mwy o effaith ar y sawl mae gennych chi gysylltiad personol agos â nhw nag ar y rhan fwyaf o'r bobl sy'n byw yn y ward neu'r adran etholiadol yr effeithir arni gan y penderfyniad (neu'r awdurdod, os nad oes gan eich awdurdod wardiau). Mae hyn yn golygu bod gennych fuddiant personol yn y mater. Mae bodolaeth y cyswllt personol agos yn golygu y byddai aelod rhesymol o'r cyhoedd yn gallu meddwl y byddai hyn yn llywio eich safbwynt o fudd y cyhoedd wrth ystyried y cais cynllunio. **Nid oes gwahaniaeth p'un ai a fyddai'n gwneud hynny ai peidio**.

Mewn achosion eraill, lle bu anghydfod rhyngoch chi ac unigolyn y byddai penderfyniad yn gallu bod o anfantais iddo, gallai aelod gwybodus rhesymol o'r cyhoedd gasglu y byddech yn tueddu i bleidleisio'n unol â hynny, boed hynny'n wir ai peidio.

## A yw'r mater yn perthyn i un o'r categorïau eithrio?

**Gweler Paragraff 12(2)**

Ni fydd gan aelod fuddiant sy'n rhagfarnu os yw'r busnes yn perthyn i un o nifer o eithriadau a nodir isod.

Mae'r busnes yn ymwneud â'r canlynol:

- awdurdod perthnasol arall rydych hefyd yn aelod ohono
- awdurdod cyhoeddus arall neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus lle mae gennych chi swyddogaeth rheoli
- corff rydych chi wedi cael eich ethol, eich penodi neu eich enwebu iddo gan eich awdurdod
- eich swyddogaeth fel llywodraethwr ysgol os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod (er enghraifft, rhiant-lywodraethwr) oni bai fod y busnes yn ymwneud yn benodol â'ch ysgol
- eich swyddogaeth fel aelod o fwrdd iechyd pan nad ydych chi wedi cael eich penodi gan eich awdurdod
- tai - os oes gennych les neu denantiaeth gyda'r awdurdod, ar yr amod nad oes arnoch chi ôl-ddyledion rhent o fwy na 2 fis i'ch awdurdod, ac ar yr amod nad yw'r swyddogaethau hynny'n ymwneud yn arbennig â'ch tenantiaeth neu â'ch les chi
- prydau ysgol neu gludiant ysgol a threuliau teithio, os ydych chi'n rhiant, yn warcheidwad, yn nain/mam-gu neu'n daid/tad-cu, neu â chyfrifoldeb rhiant am blentyn mewn addysg amser llawn oni bai ei fod yn ymwneud yn benodol â'r ysgol mae'ch plentyn yn ei mynychu
- penderfyniadau ynghylch tâl salwch statudol os ydych chi'n ei gael neu mae gennych hawl i'w gael gan eich awdurdod
- lwfans neu daliad i aelodau  Nid wyf o'r farn bod aelod sy'n cyflwyno'i hun ar gyfer ei ethol i swyddogaeth yn y cyngor sydd â Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig yn golygu bod ganddo fuddiant sy'n rhagfarnu gan fy mod yn credu bod yr oddefeb hon yn berthnasol iddynt.

Ni fydd yr eithriadau hyn yn berthnasol pan fydd y busnes rydych chi'n ei ystyried yn ymwneud â phennu cymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu reoliad.  Rwyf yn ystyried bod y disgrifiadau hyn yn cyfeirio at gategori cul o benderfyniadau, megis rhoi caniatâd cynllunio a phenderfyniadau trwyddedu.  Bydd dehongliad ehangach o gymeradwyaeth, er enghraifft, yn berthnasol i bob agwedd ar fusnes eich awdurdod bron ac yn amlwg nid oedd yn fwriadol.

Os oes un o'r eithriadau yn berthnasol, **ni** ystyrir bod gennych fuddiant sy'n rhagfarnu.  Rhaid i chi ddatgelu eich buddiant personol o hyd **ond mae gennych hawl i gymryd rhan yn yr eitem o dan sylw.**

**Enghraifft**

Canfu Pwyllgor Safonau'r Cyngor fod dau aelod o gyngor bwrdeistref sirol, a oedd yn chwiorydd, wedi methu datgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu pan benderfynasant ddyrannu arian o'u Cynllun Taliadau Bach Aelodau i gwmni, ac roedd un o'r aelodau yn gyfarwyddwr nad oedd yn cael tâl i'r cwmni hwnnw. Yn ystod fy ymchwiliad roedd un o'r aelodau'n dadlau yn erbyn y ffaith ei bod wedi cael cyngor gan y Swyddog Monitro ynghylch datgan buddiannau o'r fath, ac roedd yr aelod arall, er gwaethaf cael cyngor ar ddatgan buddiannau, wedi datgan yn ffug nad oedd ganddi ddim buddiant yn y cwmni ar y ffurflen enwebu. Roedd y Pwyllgor Safonau wedi ystyried bod y Cod wedi cael ei dorri'n ddifrifol. Penderfynodd geryddu'r ddwy aelod.

**Enghraifft**

Roedd pwyllgor safonau o'r farn bod yr amgylchiadau lle roedd aelodaeth aelod o sefydliad lleol wedi dod i ben gan arwain at anghydfod chwerw a pharhaus rhyngddi hi a'r sefydliad (gan gynnwys llythyrau cyfreithwyr i adennill dyled) yn gysylltiad personol agos. Penderfynodd fod natur y cysylltiad hwn yn golygu bod gan yr aelod fuddiant sy'n rhagfarnu a'i bod wedi methu â datgan hyn ac wedi peidio â thynnu'n ôl o sawl cyfarfod lle trafodwyd rhoi rhodd ariannol i'r sefydliad.

## Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

**Gweler Paragraff 13**
**Noder: nid yw'r adran hon yn berthnasol i awdurdodau tân ac achub, ac awdurdodau parciau cenedlaethol.**

Os caiff y ddau ofyniad canlynol eu diwallu, mae gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes gerbron pwyllgor neu is-bwyllgor trosolwg neu graffu:

- mae'r busnes hwnnw'n ymwneud â phenderfyniad a wnaed (boed hwnnw wedi cael ei weithredu ai peidio) neu gamau a gymerwyd gan bwyllgor gwaith neu fwrdd eich awdurdod neu unrhyw un o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cydbwyllgorau neu gyd is-bwyllgorau eraill eich awdurdod
- roeddech yn aelod o'r corff a wnaeth y penderfyniad hwnnw bryd hynny ac roeddech yn bresennol ar yr adeg y gwnaed y penderfyniad neu y cymerwyd y cam gweithredu.

Os yw'r pwyllgor trosolwg a chraffu yn gwirio penderfyniad roeddech chi'n rhan o'i wneud, gellir gofyn i chi ddod i'r cyfarfod i roi tystiolaeth neu i ateb cwestiynau am y mater, a chewch wneud hynny ar yr amod eich bod yn gweithredu'n unol â'i bwerau statudol

## Beth i'w wneud pan fydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu

Rhaid i chi ddatgan eich buddiant a gadael yr ystafell

**Gweler Paragraff 14**

Os ydych yn ystyried bod gennych fuddiant sy'n rhagfarnu ym musnes eich awdurdod, rhaid i chi gymryd camau penodol.

Er hynny, hyd yn oed pan fydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu, mae'r Cod yn cefnogi eich swyddogaeth fel eiriolwr cymunedol ac yn eich galluogi, mewn rhai amgylchiadau, i gynrychioli eich cymuned ac i siarad am faterion sy'n bwysig iddynt hwy ac i chithau.

**Pwynt allweddol:**

Os oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn mater sy'n cael ei drafod mewn cyfarfod, ar ôl i chi ddatgan eich buddiant personol yn y mater, rhaid i chi adael yr ystafell (neu unrhyw leoliad arall lle mae'r cyfarfod yn cael ei gynnal gan gynnwys, er enghraifft, lleoliad cyfarfod safle).

**Mae hyn yn berthnasol oni bai fod aelodau'r cyhoedd yn cael cyflwyno sylwadau, rhoi tystiolaeth neu ateb cwestiynau am y mater**, yn ôl hawl statudol neu fel arall. Os yw hynny'n wir, cewch hefyd fynychu'r cyfarfod i'r perwyl hwnnw. Fodd bynnag, rhaid i chi adael yr ystafell neu'r siambr ar unwaith ar ôl i'r cyfnod ar gyfer ystyried sylwadau ddod i ben, a chyn i unrhyw drafodaeth am yr eitem ddechrau, hyd yn oed os yw aelodau'r cyhoedd yn cael aros. Ni chewch aros yn yr oriel gyhoeddus i arsylwi'r bleidlais ar y mater.

Ar ben hynny, **rhaid i chi beidio â dylanwadu ar benderfyniad y mae gennych fuddiant sy'n rhagfarnu ynddo**. Mae'r rheol hon yn debyg i'ch dyletswydd gyffredinol i beidio â defnyddio eich safle fel aelod yn amhriodol i roi mantais neu anfantais i chi'ch hun neu i roi mantais neu anfantais i rywun arall. Golyga hyn, yn ogystal â gadael cyfarfodydd lle y mae'r eitem yn cael ei drafod, ni ddylech ysgrifennu na gwneud unrhyw sylwadau ar lafar ynghylch y mater.

**Oes gennyf hawl statudol i siarad gerbron y cyfarfod?**

Nid yw'r Cod yn rhoi hawl gyffredinol i chi siarad gerbron cyfarfod pan fydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, gall deddfwriaeth roi hawl i chi siarad (er enghraifft, gwrandawiadau trwyddedu a gwrandawiadau safonau) y mae'r Cod yn ei chydnabod. Os felly, byddwch yn cael arfer yr hawl honno i siarad. Dylai eich Swyddog Monitro allu cadarnhau a yw hyn yn berthnasol yn eich achos chi ai peidio.

**Os nad oes gennyf hawl statudol, a fyddaf yn cael siarad gerbron y cyfarfod?**

Mae'r Cod yn ceisio rhoi i aelodau'r un hawliau ag aelodau cyffredin o'r cyhoedd i siarad ar faterion penodol mewn cyfarfodydd, er gwaethaf y ffaith bod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu. Fel rheol, caiff yr hawliau hyn eu llywodraethu gan gyfansoddiad, rheolau gweithdrefn neu reolau sefydlog eich awdurdod, a gallech fod yn rhwym wrth amodau gan gynnwys terfynau amser neu'r ffaith mai dim ond yn ysgrifenedig y ceir cyflwyno sylwadau.

Pe byddai aelod cyffredin o'r cyhoedd yn cael siarad gerbron cyfarfod am eitem, dylech chi gael yr un cyfle.  Byddwch yn cael gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth, hyd yn oed os oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu yn yr eitem.  Ni chewch gymryd rhan yn y drafodaeth nac arsylwi'r bleidlais.

**Pryd y bydd yn rhaid i mi adael lleoliad y cyfarfod?**

Rhaid i chi adael ar unwaith pan ddaw'r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau, rhoi tystiolaeth neu ateb cwestiynau i ben, a chyn i unrhyw drafodaeth ddechrau.

**Beth mae dylanwadu ar benderfyniad yn ei olygu?**

Rhaid i chi beidio â chyflwyno dim sylwadau na chymryd rhan mewn penderfyniadau mae gennych chi fuddiant sy'n rhagfarnu ynddynt, ac eithrio pan mae gennych chi hawl i siarad fel y disgrifir uchod. Gallai eich presenoldeb yn unig gael ei ystyried fel ffactor a allai ddylanwadu ar y broses penderfynu.

**Beth os na chaiff y cyhoedd siarad gerbron y cyfarfod am y mater?**

Os na chaiff aelod cyffredin o'r cyhoedd siarad am y mater, ni chewch chi wneud hynny os oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu.  Rhaid i chi adael y man lle cynhelir y ddadl a rhaid i chi beidio â cheisio dylanwadu ar y drafodaeth mewn unrhyw ffordd.

Gall hyn fod yn wir, er enghraifft, pan fydd eich awdurdod yn trafod mater cyfrinachol mewn sesiwn gaeedig neu pan nad oes ganddo reolau gweithdrefnau na rheolau sefydlog ar waith sy'n caniatáu i aelodau'r cyhoedd siarad yn un o gyfarfodydd eich awdurdod.  Yn yr un modd â'r cyhoedd, ni chewch chi gymryd rhan os oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu.  Fodd bynnag, pan fydd y cyhoedd yn cael eistedd yn yr oriel gyhoeddus i arsylwi'r cyfarfod, **bydd yn rhaid i chi adael yr ystafell yn ystod y ddadl a'r bleidlais**.

**Beth os wyf wedi cael fy ngwysio i fynychu pwyllgor craffu i drafod busnes y mae gennyf fuddiant sy'n rhagfarnu ynddo?**

Os gofynnir i chi fynychu gan y pwyllgor sy'n arfer ei bwerau statudol, yna cewch fynychu a chymryd rhan yn y cyfarfod.

## Swyddogaethau gweithredol neu gabinet

**Noder: ni fydd yr adran hon yn berthnasol i awdurdodau tân ac achub nac awdurdodau parciau cenedlaethol, oni bai fod trefniadau gweithredol ar waith yn yr achos olaf**

Os ydych chi'n arweinydd neu'n aelod cabinet awdurdod sy'n gweithredu trefniadau gweithredol, rhaid i chi ddilyn y rheolau arferol ar gyfer aelodau gweithredol sydd â buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu.  Os yw eich budd yn bersonol ond nid yn rhagfarnu, cewch hefyd gynghori'r pwyllgor gwaith ar y mater a chymryd rhan mewn trafodaethau a phenderfyniadau gweithredol ar yr amod eich bod yn datgan eich buddiant.  Cewch hefyd arfer pwerau dirprwyedig yn y mater ar yr amod eich bod yn cofnodi bodolaeth a natur eich buddiant personol.

Os ydych chi'n aelod gweithredol sy'n cael gwneud penderfyniadau unigol, ac mae gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn penderfyniad, gall eich awdurdod wneud trefniadau eraill fel y nodir yn adrannau 14-16 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae hyn yn golygu gall swyddog, aelod arall o'r cabinet, y pwyllgor gwaith llawn neu un o bwyllgorau'r pwyllgor gwaith wneud y penderfyniad.

Er bod gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn mater, efallai y cewch gyflwyno sylwadau, ateb cwestiynau a rhoi tystiolaeth ar yr amod y byddai gan aelod o'r cyhoedd yr un hawliau, ond ni chewch wneud penderfyniadau ynghylch y mater hwnnw'n unigol nac mewn cabinet. Ni ddylech ychwaith gymryd rhan mewn unrhyw ystyriaeth gynnar ohono, nac ymarfer unrhyw bwerau dirprwyedig sy'n gysylltiedig ag ef. Os oes gennych bwerau dirprwyedig yn y maes hwnnw, dylech gyfeirio'r dasg o ystyried a gwneud unrhyw benderfyniadau ar y mater i'r cabinet er mwyn osgoi sefyllfa lle credir eich bod yn ddylanwad amhriodol.

## Goddefebau

**Os oes gennyf fuddiant sy'n rhagfarnu, a allaf gael goddefeb i ganiatáu i mi gymryd rhan yn y cyfarfod?**

Gallwch wneud cais ysgrifenedig i Bwyllgor Safonau eich awdurdod am oddefeb i siarad a/neu bleidleisio ar fater am un neu ragor o'r rhesymau canlynol:

- byddai o leiaf 50 y cant o aelodau'r awdurdod neu'r pwyllgor yn cael eu hatal rhag cymryd rhan lawn mewn cyfarfod oherwydd buddiannau sy'n rhagfarnu
- byddai o leiaf hanner y cabinet hefyd yn cael ei atal yn y fath fodd (dylid cynnwys yr arweinydd yn y cabinet wrth gyfrifo'r gyfran)
- yn achos cyngor sir/cyngor bwrdeistref sirol, byddai'n amharu cymaint ar y cydbwysedd gwleidyddol yn y cyfarfod y byddai'n debyg o effeithio ar y canlyniad
- mae natur eich buddiant o'r fath fodd na fyddai'r ffaith eich bod yn cymryd rhan yn niweidio hyder y cyhoedd
- mae eich buddiant yn gyffredin ymysg cyfran sylweddol o'r cyhoedd
- mae gennych swyddogaeth neu arbenigedd penodol a fyddai'n cyfiawnhau eich cyfranogiad
- mae'r busnes yn cael ei ystyried gan bwyllgor trosolwg neu graffu ac nid oes gennych fuddiant ariannol; mae'r busnes yn ymwneud â chyllid neu eiddo mudiad gwirfoddol ac rydych chi'n aelod o'i fwrdd neu ei bwyllgor yn eich rhinwedd eich hun ac nid oes gennych ddim buddiant arall, er yn yr enghraifft hon, ni fydd unrhyw oddefeb yn caniatáu i chi bleidleisio ar y mater, neu
- mae'r pwyllgor o'r farn y byddai eich cyfranogiad er budd pobl ardal eich awdurdod a bod y pwyllgor yn hysbysu Gweinidogion Cymru cyn pen saith niwrnod.

Gallwch wneud cais am oddefeb yn unigol ac mewn rhai amgylchiadau, gallwch wneud ceisiadau ar y cyd pan fydd nifer o aelodau yn awyddus i gael goddefeb i siarad neu i bleidleisio ar yr un mater. Os bydd y Pwyllgor Safonau'n cymeradwyo eich cais, rhaid iddo roi'r oddefeb yn ysgrifenedig a chyn cynnal y cyfarfod. Os ydych yn awyddus i gael goddefeb, dylech wneud cais am un cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl.

Dim ond y Pwyllgor Safonau gaiff roi'r oddefeb a bydd yn gwneud hynny'n ôl ei ddisgresiwn. Bydd angen i'r Pwyllgor Safonau gydbwyso budd y cyhoedd mewn atal aelodau sydd â buddiannau sy'n rhagfarnu rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau gan grŵp o aelodau'r awdurdod sy'n weddol gynrychioladol. Os na fydd awdurdod neu bwyllgor yn cyflawni'r cworwm am nad oedd modd rhoi goddefeb, gall hyn fod yn rheswm dros roi goddefeb.

Pan fydd gennych oddefeb, gallwch hefyd wneud sylwadau ysgrifenedig ond rhaid i chi roi manylion yr oddefeb mewn unrhyw ohebiaeth. Os ydych chi'n gwneud sylwadau llafar, naill ai'n bersonol neu dros y ffôn, rhaid i chi gyfeirio at yr oddefeb a chadarnhau hyn ar bapur cyn pen 14 diwrnod

## 4. Cofrestru Buddiannau

**Pwyntiau allweddol:**

Rhaid i holl aelodau awdurdodau ddarparu cofnod o'u buddiannau mewn cofrestr buddiannau cyhoeddus. Os ydych yn aelod o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, awdurdod tân neu awdurdod parc cenedlaethol, rhaid i chi hysbysu eich Swyddog Monitro ar bapur cyn pen 28 diwrnod o gael eich swyddogaeth, neu cyn pen 28 diwrnod o unrhyw newid i'ch cofrestr o fuddiannau, am unrhyw fuddiannau sy'n perthyn i'r categorïau sydd wedi'u pennu yn y Cod, fel yr amlinellir isod.

Mae angen i chi gofrestru eich buddiannau er mwyn i'r cyhoedd, staff yr awdurdod a chyd aelodau wybod pa rai o'ch buddiannau a allai arwain at wrthdaro rhwng buddiannau. Mae'r gofrestr yn ddogfen y gellir taro golwg arni pan (neu cyn) y bydd mater yn codi, ac felly mae'n caniatáu i bobl eraill wybod pa fuddiannau sydd gennych, ac a allent arwain at wrthdaro posibl rhwng buddiannau.

Mae'r gofrestr hefyd yn eich amddiffyn chi. Chi sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylech chi ddatgan buddiant mewn cyfarfod, ond gall fod yn ddefnyddiol i chi wybod yn gynnar os yw eraill yn meddwl y gallai gwrthdaro posibl godi. Mae'n bwysig hefyd bod y cyhoedd yn gwybod am unrhyw fuddiannau y gallai fod yn rhaid i chi neu aelodau eraill eu datgan, er mwyn i'r cyhoedd weld bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn agored ac yn onest. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod hyder y cyhoedd yng nghywirdeb llywodraethu lleol yn cael ei gynnal.

Fel y nodwyd yn flaenorol, oni bai eich bod yn gynghorydd cymuned, rhaid i chi hysbysu eich swyddog monitro ar bapur cyn pen 28 diwrnod o gael eich swyddogaeth, neu cyn pen 28 diwrnod o unrhyw newid i'ch cofrestr o fuddiannau, am unrhyw fuddiannau sy'n perthyn i'r categorïau sydd wedi'u pennu yn y Cod. Mae'r rhain yn cynnwys:

- eich swydd(i) neu eich busnes(au)
- enw eich cyflogwr neu bobl sydd wedi eich penodi i weithio iddynt
- enw unrhyw un sydd wedi rhoi taliad i chi yng nghyswllt eich etholiad neu dreuliau rydych chi wedi'u cael wrth gyflawni eich dyletswyddau
- enw unrhyw unigolyn, cwmni neu gorff arall sydd â lleoliad busnes neu dir yn ardal yr awdurdod, ac mae eich cyfranddaliadau yn y cwmni dros £25,000 (gwerth nominal) neu mae gennych gyfran dros 1/100 o gyfalaf cyfrannau'r cwmni
- unrhyw gontractau rhwng yr awdurdod a chi, eich ffyrm (os ydych yn bartner) neu gwmni (os ydych yn gyfarwyddwr sy'n cael tâl neu os oes gennych chi gyfranddaliadau fel y disgrifir uchod) gan gynnwys unrhyw les, trwydded gan yr awdurdod ac unrhyw gontractau ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu waith. Pan fydd y contract yn ymwneud â defnyddio tir neu eiddo, rhaid nodi'r tir ar y gofrestr
- unrhyw dir ac eiddo yn ardal yr awdurdod y mae gennych fuddiant manteisiol ynddo (neu drwydded i'w feddiannu am fwy na 28 diwrnod) gan gynnwys, ond nid yn unig, y tir a'r tĐ lle rydych chi'n byw ac unrhyw randiroedd rydych chi'n berchen arnynt neu'n eu defnyddio

- os ydych yn rheoli neu'n aelod o:
  - unrhyw gyrff eraill y cawsoch eich ethol, eich penodi neu eich enwebu iddynt gan yr awdurdod
  - unrhyw gyrff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus (a ddisgrifir uchod), neu a gyfarwyddir at ddibenion elusennol, neu y mae eu prif ddibenion yn cynnwys dylanwadu ar bolisïau neu farn gyhoeddus, gan gynnwys unrhyw blaid wleidyddol neu undeb llafur
  - unrhyw glwb neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu yn ardal eich awdurdod.

## Gwybodaeth sensitif

**Pwyntiau allweddol:**

Efallai y cewch eich eithrio rhag gorfod cynnwys gwybodaeth sensitif ar eich cofrestr buddiannau. Os yw eich buddiant personol mewn mater sy'n cael ei drafod mewn cyfarfod yn wybodaeth sensitif, bydd angen i chi ddatgan bod gennych fuddiant personol ond ni fydd yn rhaid i chi roi dim manylion am natur y buddiant hwnnw.

Gall gwybodaeth sensitif gynnwys eich cyflogaeth sensitif (megis ymchwil wyddonol benodol neu'r Lluoedd Arfog) neu fuddiannau eraill sy'n debygol o beri risg ddifrifol o drais neu frawychu i chi neu rywun sy'n byw gyda chi petai'r cyhoedd yn gwybod amdanynt.

Dylech roi'r wybodaeth hon i'ch Swyddog Monitro ac egluro eich pryderon ynghylch datgelu'r wybodaeth sensitif; gan gynnwys pam ei bod yn debygol o beri risg ddifrifol o drais neu frawychu i chi neu rywun sy'n byw gyda chi.  Nid oes angen i chi gynnwys y wybodaeth hon ar eich cofrestr o fuddiannau os bydd eich Swyddog Monitro'n cytuno â hynny.  Yn y pen draw, rhaid i chi benderfynu pa wybodaeth i'w chynnwys ar eich cofrestr o fuddiannau a fydd ar gael i'r cyhoedd.  Os na fydd gwybodaeth ar eich cofrestr yn sensitif mwyach, rhaid i chi roi gwybod i'ch Swyddog Monitro cyn pen 28 diwrnod a gofyn iddo ddiwygio'r wybodaeth yn unol â hynny.

# Rhoddion a lletygarwch

**Pwyntiau allweddol:**

Rhaid i chi gofrestru unrhyw roddion neu letygarwch sy'n werth mwy na'r swm a bennwyd gan eich awdurdod a gewch yng nghyswllt eich dyletswyddau swyddogol fel aelod, ynghyd â ffynhonnell y rhodd neu'r lletygarwch.

Rhaid i chi gofrestru'r rhodd neu'r lletygarwch a'i ffynhonnell cyn pen 28 diwrnod o'i dderbyn. Yn yr un modd â buddiannau eraill yn eich cofrestr buddiannau, gall fod gennych **fuddiant personol** mewn mater sy'n cael ei ystyried os yw'n debygol o effeithio ar unigolyn a roddodd rodd neu letygarwch i chi sydd wedi'i gofrestru. Os hynny yw'r achos, rhaid i chi ddatgan bodolaeth a natur y rhodd neu'r lletygarwch, y sawl a'i rhoddodd i chi, sut y mae'r busnes dan sylw yn berthnasol i'r unigolyn hwnnw ac wedyn penderfynu a yw'r buddiant hwnnw hefyd yn **fuddiant sy'n rhagfarnu**. Mae hefyd yn arfer da darparu nodyn o unrhyw gynigion o roddion rydych wedi'u gwrthod.

**A yw'r rhodd neu'r lletygarwch yn gysylltiedig â'm dyletswyddau swyddogol fel aelod?**

Dylech ofyn i chi'ch hun, a fyddwn i wedi cael y rhodd hwn pe na bawn i ar y Cyngor? Os nad ydych chi'n siŵr o'r cymhelliant y tu ôl i rodd neu letygarwch, rwyf yn argymell eich bod yn ei gofrestru neu'n siarad â'ch Swyddog Monitro.

Nid oes angen i chi gofrestru rhoddion a lletygarwch nad ydynt yn berthnasol i'ch swyddogaeth fel aelod, megis anrhegion Nadolig gan eich ffrindiau a'ch teulu, na rhoddion nad ydych chi'n eu derbyn. Fodd bynnag, dylech bob amser gofrestru rhodd neu letygarwch pe byddai modd i bobl ei weld fel rhywbeth a roddwyd i chi oherwydd eich safle neu os yw eich awdurdod yn mynnu eich bod yn gwneud hynny.

**Beth os nad wyf yn gwybod beth yw gwerth rhodd neu letygarwch?**

Yn gyffredinol, os nad ydych chi'n siŵr o werth rhodd neu letygarwch, dylech ei gofrestru, fel mater o ymarfer da ac yn unol â'r egwyddorion o fod yn agored ac yn atebol mewn bywyd cyhoeddus. Efallai y bydd yn rhaid i chi amcangyfrif gwerth rhodd neu letygarwch. Hefyd, os ydych chi wedi cael nifer o roddion bach o'r un ffynhonnell dros gyfnod byr sydd, at ei gilydd, yn cyrraedd y gwerth a bennwyd gan eich awdurdod, dylech gofrestru hynny.

Mae'r Cod hefyd yn cyfeirio at fudd neu fantais faterol. Y ffordd o fesur hyn yw pe byddai arsyllwr annibynnol gwybodus yn gallu dod i'r casgliad y gellid gweld eich bod ar eich ennill o ganlyniad.

# Buddiannau Personol

**Cwestiynau i ofyn i chi'ch hun. Os nad ydych yn siŵr, holwch eich Swyddog Monitro.**

**CAM 1**
A yw'r Cod yn berthnasol?

**A ydych yn:**
- cynnal busnes eich awdurdod?
- gweithredu, yn honni eich bod yn gweithredu, neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu, yn rhinwedd eich swyddogaeth fel aelod neu fel cynrychiolydd o'ch awdurdod?
- gweithredu fel penodai neu enwebai eich awdurdod ar unrhyw gorff arall a hwnnw heb god ymddygiad ei hun?

**YDW** → **Mae'r** Cod yn berthnasol. Ewch i Gam 2.

**NAC YDW** → **Nid yw'r** Cod yn berthnasol. Nid oes angen cymryd camau pellach

**CAM 2**
Oes gennych fuddiant personol?

**Buddiant sydd yn Rhagfarnu**

**A yw'r busnes yn ymwneud â'r canlynol neu'n debygol o effeithio ar y canlynol:**
1. eich swydd neu eich busnes?
2. eich cyflogwr neu eich cwmni?
3. unrhyw un sydd wedi talu tuag at gostau eich etholiad neu'ch treuliau fel aelod?
4. unrhyw gwmni y mae gennych gyfranddaliadau ynddo gyda gwerth nominal dros £25000 neu pan mae eich daliad dros 1% o gyfanswm y cyfalaf cyfrannau, sydd ag eiddo neu dir yn ardal eich awdurdod?
5. unrhyw gontract mae'ch awdurdod yn ei lunio â'ch cwmni neu â chwmni mae gennych gyfranddaliadau ynddo? (fel y disgrifiwyd yn 4)
6. unrhyw dir y mae gennych fuddiant ynddo?
7. unrhyw dir a osodir gan eich awdurdod i'ch cwmni? (fel y disgrifiwyd yn 4)
8. unrhyw gorff rydych chi wedi cael eich ethol neu eich penodi iddo gan eich awdurdod?
9. unrhyw
   - awdurdod neu gorff cyhoeddus sy'n ymarfer swyddogaethau cyhoeddus eu natur?
   - cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen neu gorff a gyfarwyddir at ddibenion elusennol?
   - corff â'i brif rôl yw dylanwadu ar bolisïau neu farn gyhoeddus?
   - undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol?
   - clwb neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu yn ardal eich awdurdod, yr ydych yn aelod ohono neu lle mae gennych swyddogaeth reoli gyffredinol?

   neu
10. unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych drwydded i'w feddiannu am o leiaf 28 diwrnod?

**NEU** ↓

**A fyddai'n rhesymol bod aelod o'r cyhoedd yn casglu, pan fyddwch yn gwneud penderfyniad, fod materion yn eich ward yn dylanwadu mwy arnoch chi nag y byddai buddiannau'r awdurdod yn ei gyfanrwydd?**

**NEU** ↓

**A ellid ystyried yn rhesymol y byddai penderfyniad yn effeithio (mwy nag y byddai ar bobl eraill yn eich ward/ardal awdurdod) ar::**
- eich lles neu eich sefyllfa ariannol?
- lles neu sefyllfa ariannol unrhyw un sy'n byw gyda chi neu rywun y mae gennych gysylltiad agos â nhw?
- cyflogaeth/busnes, cyflogwr, neu gwmni unrhyw un sy'n byw gyda chi neu rywun y mae gennych gysylltiad agos â nhw?
- unrhyw gwmni y mae unrhyw un sy'n byw gyda chi neu rywun y mae gennych gysylltiad agos â nhw yn berchen ar gyfranddaliadau ynddo?

**Os YW,** mae gennych **FUDDIANT PERSONOL**

**Rhaid i chi:**
- ddatgan eich buddiant a natur y buddiant hwnnw:
- mewn cyfarfodydd
- wrth gyflwyno sylwadau ysgrifenedig
- wrth wneud sylwadau ar lafar (a'i gadarnhau yn ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod)
- ystyried a oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu (gweler Atodiad 2)

**Os NAD** YW, nid oes gennych fuddiant personol

- Os yw'r busnes yn mynd gerbron Pwyllgor Trosolwg neu Graffu, rhaid i chi ystyried a oes gennych chi fuddiant sy'n rhagfarnu
- Fel arall, **nid oes angen cymryd camau pellach**

# Atodiad 2

## Buddiannau sy'n rhagfarnu

**Cwestiynau i ofyn i chi'ch hun. Os nad ydych yn siŵr, holwch eich Swyddog Monitro.**

**CAM 3:** Oes gennyf fi fuddiant **sy'n rhagfarnu**

**A fyddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd, sy'n gwybod am y ffeithiau perthnasol, feddwl bod eich buddiant personol mor arwyddocaol ei fod yn debygol o liwio eich barn ynghylch budd y cyhoedd?**

**NEU**

A yw Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ystyried penderfyniad a wnaed neu gam a gymerwyd gan bwyllgor gwaith, bwrdd eich awdurdod neu unrhyw bwyllgor arall a chithau'n aelod o'r corff penderfynu hwnnw a'r corff presennol?

**BYDDAI** / **NA FYDDAI** / **NAC YDY** / **YDY**

**Buddiant sydd yn Rhagfarnu**

A yw'r busnes yn ymwneud â'r canlynol:

- awdurdod perthnasol arall rydych hefyd yn aelod ohono?
- awdurdod cyhoeddus arall neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus lle mae gennych chi swyddogaeth rheoli?
- corff rydych chi wedi cael eich ethol, eich penodi neu eich enwebu iddo gan eich awdurdod?
- eich swyddogaeth fel llywodraethwr ysgol os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod (e.e., rhiant-lywodraethwr) oni bai fod y busnes yn ymwneud yn benodol â'ch ysgol?
- eich swyddogaeth fel aelod o fwrdd iechyd pan nad ydych chi wedi cael eich penodi gan eich awdurdod?
- tai, os oes gennych les neu denantiaeth gyda'r awdurdod, ar yr amod nad oes arnoch chi ôl-ddyledion rhent o fwy na 2 fis i'ch awdurdod, ac ar yr amod nad yw'r swyddogaethau hynny'n ymwneud yn arbennig â'ch tenantiaeth neu â'ch les chi?
- prydau ysgol neu gludiant ysgol a threuliau teithio: os ydych chi'n rhiant, yn warcheidwad, yn nain/mam-gu neu'n daid/tad-cu, neu â chyfrifoldeb rhiant am blentyn mewn addysg amser llawn oni bai ei fod yn ymwneud yn benodol â'r ysgol mae'ch plentyn yn ei mynychu?
- penderfyniadau ynghylch tâl salwch statudol os ydych chi'n ei gael neu mae gennych hawl i'w gael gan eich awdurdod?
- lwfans neu daliad i aelodau (yn dibynnu ar amodau penodol)?

**NAC YDY, nid oes dim o'r eithriadau yn berthnasol**

**Ydy, mae un o'r eithriadau yn berthnasol**

**Ni** ystyrir bod gennych fuddiant sy'n rhagfarnu. Rhaid i chi ddatgelu eich buddiant personol **ond mae gennych hawl i gymryd rhan yn yr eitem o dan sylw.**

**Ni** ystyrir bod gennych fuddiant sy'n rhagfarnu. Rhaid i chi ddatgelu eich buddiant personol **ond mae gennych hawl i gymryd rhan yn yr eitem o dan sylw.**

**Mae gennych chi FUDDIANT SY'N RHAGFARNU**

**Rhaid i chi:**

- ddatgan eich buddiant personol
- gadael yr ystafell neu unrhyw leoliad arall lle mae'r cyfarfod yn cael ei gynnal
- peidio â chymryd rhan yn y broses penderfynu na dylanwadu ar hynny

**ONI BAI**

- eich bod wedi cael goddefeb gan eich pwyllgor safonau i gymryd rhan a/neu bleidleisio
- Gall aelodau'r cyhoedd wneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth
- Rydych chi wedi cael eich galw i fynd i gyfarfod Pwyllgor Trosolwg neu Graffu

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**1 Ffordd yr Hen Gae**
**Pencoed**
**CF35 5LJ**
**Ffôn: 01656 641150**
**Ffacs: 01656 641199**

**E-bost: holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk**
**Gwefan: www.ombwdsmon-cymru.org.uk**
**Trydar: @Ombwdsmon**

ATODIAD / ENCLOSURE
2

ATODIAD / ENCLOSURE 2

OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

# Y Cod Ymddygiad

ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru

## Canllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

ar gyfer aelodau cynghorau cymuned

## Rhagair

Mae'r canllawiau diwygiedig hyn gennyf fi, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn rhoi golwg gyffredinol ar y Cod Ymddygiad Enghreifftiol ("y Cod") a gyflwynwyd yn 2008. Ei fwriad yw eich helpu chi fel aelod i ddeall eich goblygiadau o dan y Cod. Mae'r Cod yn berthnasol i holl aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru. Fel aelod, gofynnir i chi ymrwymo iddo fel rhan o'ch datganiad wrth dderbyn eich swyddogaeth. Nid yw'r Cod yn berthnasol i weithredoedd awdurdodau yn eu cyfanrwydd, nac i ymddygiad eu swyddogion na'u gweithwyr. Mae cod ymddygiad ar wahân yn berthnasol i swyddogion awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae hwn yn fersiwn ar wahân o fy nghanllawiau cyntaf i fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer cynghorwyr tref a chymuned (drwy gydol y canllawiau hyn byddwn yn cyfeirio at y cynghorwyr hyn fel cynghorwyr cymuned). Mae sawl rhan o'r canllawiau hyn yn wahanol i fy nghanllawiau i gynghorwyr sir gan eu bod yn cydnabod y rôl wahanol fydd cynghorwyr cymuned yn ei hysgwyddo.

Nod y tudalennau a ganlyn yw eich helpu i ddeall y Cod a'i ofynion yn gyffredinol. Mae Adran 1 yn cynnwys cyflwyniad ac mae Adran 2 yn amlinellu eich dyletswyddau o dan y Cod, gan gyfeirio at baragraffau penodol lle ceir rhagor o wybodaeth. Mae Adrannau 3 a 4 yn delio â materion cyffredinol sy'n ymwneud â buddiannau, a'u nod yw egluro nifer o ddarpariaethau sydd yn Rhannau 3 a 4 y Cod. Gallwch gael copi o'r Cod drwy ofyn i'ch Clerc.

Bwriad y canllawiau hyn yw eich helpu i ddeall y Cod a sut y mae'n berthnasol, ond nid oes gobaith iddynt roi sylw i bob sefyllfa bosibl. Yn y pen draw, chi sy'n gyfrifol am ofyn am gyngor penodol gan eich Clerc neu eich Swyddog Monitro a phenderfynu ar y camau mwyaf priodol i'w cymryd.

Rwyf wedi defnyddio enghreifftiau drwy gydol yr adroddiad er mwyn helpu i ddod â'r canllawiau hyn yn fyw. Mae'r enghreifftiau hyn yn trafod achosion go iawn sydd wedi cael eu hystyried gan fy swyddfa, ac maent hefyd yn cynnwys penderfyniadau a wnaed gan bwyllgorau safonau lleol a Phanel Dyfarnu Cymru. Mae'n bosibl mai fy rhagflaenydd sydd wedi gwneud rhai o'r penderfyniadau hyn, ond er mwyn hwyluso pethau, byddaf yn cyfeirio atynt drwy gydol y ddogfen fel fy mhenderfyniadau fy hun. Cyhoeddir rhagor o enghreifftiau o achosion diweddar bob chwarter yn "Llyfr Achosion y Cod Ymddygiad" sydd ar fy ngwefan yn www.ombwdsmon-cymru.org.uk

Fel aelod, cynigir hyfforddiant i chi ar y Cod, naill ai gan eich Clerc, Swyddog Monitro neu gan gorff cynrychioladol. Rwy'n disgwyl i bob aelod fanteisio ar unrhyw hyfforddiant o'r fath, gan gynnwys cyrsiau gloywi, i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r darpariaethau yn y Cod a'r safonau y disgwylir iddynt eu harddel mewn bywyd cyhoeddus. Byddwn yn annog yr aelodau i ddefnyddio unrhyw drefniadau lleol sydd ar waith i ddelio â chwynion am eu cyd-aelodau.

Ers i mi gychwyn yn fy swydd, rwyf yn pryderu mwy a mwy am nifer y cwynion lefel isel sy’n dod i law. Er ei bod yn ymddangos bod y cwynion hyn wedi cael eu cyflwyno gan nifer fach o aelodau, yn y dyddiau anodd hyn o gynildeb cyhoeddus, mae’n bwysicach fyth ein bod yn defnyddio adnoddau fy swyddfa yn effeithiol a bod unrhyw ymchwiliad a wneir yn gymesur ac yn angenrheidiol er budd y cyhoedd yn gyffredinol.

Dylem barhau i gydweithio i godi safonau a chreu diwylliant lle caiff aelodau eu parchu am fod yn anhunanol, yn wrthrychol ac am eu hymddygiad parchus. Os gwnawn ni hynny, gallwn feithrin hyder y cyhoedd yn ein sefydliadau democrataidd a hyrwyddo llywodraethu da er budd pobl ein holl gymunedau.



**Nick Bennett**
**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**Mawrth 2015**

Caiff y canllawiau statudol hyn eu cyhoeddi gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o dan Adran 68 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ar gyfer aelodau etholedig, aelodau cyfetholedig ac aelodau a benodir ar gynghorau tref a chymuned yng Nghymru.

Mae canllawiau ar wahân ar gael i aelodau etholedig, cyfetholedig ac a benodir ar gynghorau sir, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.

**Cydnabyddiaeth**

Mae'r canllawiau hyn yn pwyso ar y canllawiau a baratowyd ac a gyhoeddwyd gan Standards for England ar God Ymddygiad Lloegr. Maent wedi cael eu hymestyn a'u diwygio er mwyn iddynt fod yn berthnasol i God Cymru ac i'r cyd-destun Cymreig.

Hoffwn ddiolch i adran gwasanaethau cyfreithiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am gael defnyddio ei siartiau llif ar fuddiannau. Cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf ym mis Ebrill 2010. Cyhoeddwyd yr argraffiad hwn Mawrth 2015.

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Rhan 1 – Cyflwyniad** | **6** |
| ▪ Yr Egwyddorion | 10 |
| ▪ Penderfynu pryd mae'r Cod yn berthnasol i chi | 12 |
| **Rhan 2 – Dyletswyddau cyffredinol o dan y Cod Ymddygiad** | **14** |
| ▪ Cydraddoldeb | 14 |
| ▪ Trin pobl eraill â pharch ac ystyriaeth | 15 |
| ▪ Bwlio a harasio | 17 |
| ▪ Peryglu didueddrwydd swyddogion yr awdurdod | 18 |
| ▪ Datgelu gwybodaeth gyfrinachol | 19 |
| ▪ Rhwystro mynediad at wybodaeth | 20 |
| ▪ Anfri | 21 |
| ▪ Rhoi gwybod am dorri amodau'r Cod | 22 |
| ▪ Cwynion blinderus | 22 |
| ▪ Cydweithredu ag ymchwiliadau | 23 |
| ▪ Defnyddio eich safle yn amhriodol | 24 |
| ▪ Adnoddau'r awdurdod | 25 |
| ▪ Defnyddio adnoddau at ddibenion priodol yn unig | 25 |
| ▪ Gwneud penderfyniadau'n wrthrychol | 26 |
| ▪ Ystyried cyngor a roddir i chi a rhoi rhesymau | 26 |
| ▪ Treuliau | 27 |
| ▪ Rhoddion a lletygarwch | 27 |
| **Rhan 3 – Buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu** | **28** |
| ▪ Buddiannau personol | 28 |
| ▪ Beth i'w wneud pan fydd gennych fuddiant personol | 32 |
| ▪ Buddiannau sy'n rhagfarnu | 32 |
| ▪ Beth i'w wneud pan fydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu | 34 |
| ▪ Goddefebau | 35 |
| **Rhan 4 – Cofrestru Buddiannau** | **37** |
| ▪ Rhoddion a lletygarwch | 37 |
| **Atodiad – Siart Llif Buddiannau** | **38** |

## 1. Cyflwyniad

Creodd Deddf Llywodraeth Leol (2000) fframwaith moesegol newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Creodd bŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyhoeddi cod ymddygiad enghreifftiol sy'n berthnasol i aelodau ac aelodau cyfetholedig pob awdurdod perthnasol yng Nghymru. Cafodd y pŵer hwn ei drosglwyddo i Weinidogion Cymru drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn 2008, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru y Cod Ymddygiad Enghreifftiol presennol ac mae'n rhaid i bob awdurdod perthnasol ei fabwysiadu.

Roedd yn rhaid i awdurdodau fabwysiadu'r Cod ar ei ffurf enghreifftiol yn ei gyfanrwydd, ond gallent ychwanegu at y Cod, ar yr amod bod hyn yn cyd-fynd â'r Cod Enghreifftiol. Bwriad hyn oedd rhoi sicrwydd i aelodau a'r cyhoedd ynghylch pa safonau a ddisgwylir. Mae'n helpu i sicrhau cysondeb drwy'r awdurdodau perthnasol, gan osgoi dryswch i'r cyhoedd ac i'r rheini sy'n aelodau o fwy nag un awdurdod.

Gofynnir i bwyllgorau safonau prif gynghorau helpu aelodau ac aelodau cyfetholedig cynghorau tref a chymuned yn eu hardal i lynu wrth y Cod a threfnu i ddarparu cyngor a hyfforddiant. Rwyf yn argymell yn gryf y dylai pob aelod gael hyfforddiant a chymryd cyngor pan gaiff ei gynnig.

Er na fydd cynghorwyr cymuned yn gweithredu ar gyrff sy'n gwneud penderfyniadau fel pwyllgorau cynllunio, bydd gofyn i chi wneud penderfyniadau ar ddyrannu arian o'ch praesept a chynnig arweiniad, drwy ddefnyddio eich gwybodaeth leol werthfawr, i'r Cyngor Sir am effaith ceisiadau cynllunio. Felly mae'n hanfodol eich bod yn gwbl ymwybodol o'r Cod a'i oblygiadau i'ch penderfyniadau ac a ddylech chi fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniad ai peidio. Gan ystyried hyn, rwyf yn argymell bod pob cynghorydd yn cael hyfforddiant ar y Cod cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl dechrau ar ei swyddogaeth.

Fel aelod, pan fyddwch yn llofnodi'r datganiad eich bod yn derbyn y swydd, rydych yn cadarnhau y byddwch yn glynu wrth y Cod. Eich cyfrifoldeb personol chi yw sicrhau eich bod yn deall eich dyletswyddau o dan y Cod ac yn gweithredu mewn modd sy'n dangos eich bod wedi ymrwymo i gyrraedd y safonau ymddygiad uchel a ddisgwylir gennych fel aelod. Yn y pen draw, fel aelod, chi sy'n gyfrifol am y penderfyniadau a wnewch, a gellir eich dal i gyfrif amdanynt. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y cewch wneud penderfyniadau sy'n torri amodau'r Cod neu sy'n mynd yn groes i gyngor oherwydd mai eich penderfyniad chi ydyw. Mae'r canllawiau hyn yn egluro'r cyfyngiadau y disgwylir i chi weithredu o'u mewn i sicrhau y gall aelodau'r cyhoedd fod â hyder yn y ffordd mae awdurdodau yng Nghymru yn gwneud eu penderfyniadau.

Fy rôl i fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw ymchwilio i gwynion bod aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi torri amodau'r Cod. Wrth benderfynu a ddylid ymchwilio i gŵyn, neu a ddylid parhau ag ymchwiliad i achos o dorri amodau'r Cod, byddaf yn defnyddio prawf dau gam. Yn y cam cyntaf, byddaf yn ceisio canfod a oes tystiolaeth uniongyrchol sy'n dangos bod amodau'r Cod wedi cael eu torri. Mae lefel y dystiolaeth sy'n angenrheidiol yn seiliedig ar debygolrwydd.

Os bydd tystiolaeth o hynny byddaf, yn yr ail gam, yn ystyried a oes angen cynnal ymchwiliad neu gyfeirio at bwyllgorau safonau neu Banel Dyfarnu Cymru er budd y cyhoedd. Rwyf wedi nodi isod rai o'r ffactorau y byddaf yn eu hystyried sy'n ymwneud â budd y cyhoedd. Nid yw'r rhestr hon o ffactorau yn gyflawn a bydd y sylw a roddir i bob un yn amrywio yn ôl ffeithiau a rhinweddau pob achos.

**Mae ffactorau budd y cyhoedd yn cynnwys:**

- difrifoldeb y tor-amod
- a yw'r aelod wedi mynd ati'n fwriadol i geisio cael buddiant personol iddo'i hun neu i rywun arall ar draul y cyhoedd
- a yw amgylchiadau'r tor-amod yn golygu bod aelod wedi camddefnyddio sefyllfa o ymddiriedaeth neu awdurdod ac wedi achosi niwed i unigolyn
- a oedd unrhyw ffurf o wahaniaethu yn erbyn tarddiad cenedlaethol neu ethnig, rhyw, anabledd, oed, crefydd neu gred, hunaniaeth o ran rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol y dioddefwr, wrth wraidd y tor-amod
- a oes tystiolaeth o ymddygiad tebyg blaenorol ar ran yr aelod
- a oes angen ymchwilio neu gyfeirio at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru er mwyn sicrhau y bydd y cyhoedd yn dal yn gallu ymddiried yn aelodau etholedig yng Nghymru
- a yw'r ymchwiliad neu'r cyfeirio at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn ymateb cymesur, hynny yw, a yw'n debygol y byddai'r tor-amod yn arwain at gosbi'r aelod (byddaf yn ystyried canlyniadau achosion blaenorol a ystyriwyd gan bwyllgorau safonau ledled Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru), ac a ellid ystyried bod defnyddio adnoddau i gynnal ymchwiliad neu wrandawiad gan bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn ormodol wrth bwyso a mesur hyn yn erbyn unrhyw gosb debygol.

Mae gennyf gryn dipyn o ddisgresiwn ynghylch a ddylid cychwyn neu barhau ag ymchwiliad neu beidio. Rwyf wedi adolygu'r prawf dau gam a fabwysiadwyd gan fy rhagflaenydd er mwyn egluro'n well sut y byddaf fel rheol yn defnyddio fy nisgresiwn ac yn sicrhau penderfyniadau cyson a sicr.

Mae'r broses y byddaf yn ei defnyddio i ymchwilio i gwynion ar gael ar fy ngwefan yn **www.ombwdsmon-cymru.org.uk**. Pan fo'n bosibl yn y canllawiau hyn rwyf wedi ceisio defnyddio enghreifftiau o achosion sydd wedi cael eu cyfeirio ataf ac sy'n berthnasol i gynghorau cymuned. Os nad oedd hyn yn bosibl rwyf wedi rhoi enghreifftiau o sefyllfaoedd posibl sy'n dangos sut gellid torri amodau'r Cod wrth i chi gyflawni eich rôl.

## Proses Datrys yn Lleol

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol ledled Cymru wedi rhoi gweithdrefnau datrys yn lleol ar waith i ddelio â chwynion lefel isel sy'n cael eu gwneud gan un aelod yn erbyn aelod arall. Mae'r trefniadau hyn wedi profi'n effeithiol wrth ddatrys llawer o'r mathau hyn o gwynion. Rwyf yn gefnogol i gael gweld hyn yn cael ei ymestyn i gynnwys cynghorau cymuned. Fel rheol bydd y cwynion hyn yn ymwneud â honiadau o fethu dangos parch ac ystyriaeth i bobl eraill fel sy'n

ofynnol gan baragraff 4(b) y Cod neu'r ddyletswydd i beidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus na gwamal yn erbyn aelodau eraill o dan baragraff 6(1)(d) o'r Cod. Er bod rhyddid i aelod gwyno'n uniongyrchol wrthyf fi am gyd-aelod, os bydd y mater o dan sylw yn ymwneud â pharagraffau 4(b) a 6(1)(d), rwyf yn debygol o gyfeirio'r mater yn ôl at Swyddog Monitro'r Cyngor i'w ystyried o dan y broses hon. Yn fy marn i, mae'n fwy priodol datrys cwynion o'r fath yn anffurfiol ac yn lleol er mwyn cyflymu'r broses gwyno ac i sicrhau bod fy adnoddau'n cael eu cyfeirio at ymchwilio i gwynion difrifol.

Nod y broses hon yw datrys materion yn gynnar er mwyn atal y sefyllfa rhag gwaethygu'n ddiangen, a all niweidio'r berthynas rhwng pobl yn yr awdurdod ac enw da'r awdurdod. Gall y broses arwain at ofyn i'r aelod o dan sylw ymddiheuro. Fodd bynnag, pan fydd aelod wedi torri protocol lleol ei awdurdod droeon, byddwn yn disgwyl i'r Swyddog Monitro gyfeirio'r mater yn ôl ataf fi. Os gwelaf fod patrwm o gwynion tebyg yn cael eu cyflwyno i mi gan yr un aelodau, byddaf yn ystyried hyn yn fater difrifol ac yn penderfynu a yw cyflwyno cwynion o'r fath yn gyson ynddo'i hun yn ymddygiad y dylid ymchwilio iddo fel achos posibl o dorri amodau'r Cod.

Pan fyddaf wedi ymchwilio i gŵyn, mae'n bosibl y byddaf yn cyfeirio'r mater at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru. Bydd hyn yn dibynnu ar natur ac amgylchiadau unigol yr achos honedig o dor-amod.

### Pwyllgorau Safonau

Mae pwyllgorau safonau'n cynnwys aelodau lleyg annibynnol ac aelodau etholedig o'r awdurdod. Pan fyddaf yn cyfeirio achos at bwyllgor safonau, rôl y pwyllgor yw penderfynu a yw aelod wedi torri amodau'r Cod ac a ddylid gosod cosb. Yn fy marn i, dylid cynnal gwrandawiadau yn gyhoeddus er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd hyder yn safonau bywyd cyhoeddus, oni bai fod rhesymau dilys dros beidio â gwneud hynny. Pan fydd pwyllgor safonau'n penderfynu bod aelod neu aelod cyfetholedig wedi methu cydymffurfio â chod ymddygiad y cyngor perthnasol, caiff benderfynu:

- nad oes angen cymryd camau yng nghyswllt y methiant hwnnw
- y dylid ceryddu'r aelod neu'r aelod cyfetholedig ar ffurf gyhoeddus, neu
- y dylid gwahardd, neu wahardd yn rhannol, yr aelod neu'r aelod cyfetholedig rhag bod yn aelod o'r awdurdod hwnnw am gyfnod heb fod yn fwy na chwe mis.

Caiff aelod apelio yn erbyn penderfyniad pwyllgor safonau i Banel Dyfarnu Cymru.

### Y Panel Dyfarnu Cymru

Pan fyddaf yn cyfeirio achos at Banel Dyfarnu Cymru, ei rôl hefyd yw penderfynu a yw aelod wedi torri amodau'r Cod ac a ddylid gosod cosb. Yn ogystal â hynny, bydd yn ystyried unrhyw apeliadau yn erbyn penderfyniadau pwyllgor safonau. Dyma'r pwerau sydd ar gael i'r Panel pan fydd yn penderfynu bod aelod neu aelod cyfetholedig wedi methu cydymffurfio â'r Cod:

- anghymwyso'r atebydd rhag bod, neu rhag dod, yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod perthnasol o dan sylw neu unrhyw awdurdod perthnasol arall am gyfnod o hyd at bum mlynedd

- gwahardd neu wahardd yn rhannol yr atebydd rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod perthnasol dan sylw am hyd at 12 mis
- peidio â chymryd unrhyw gamau yng nghyswllt torri amodau'r Cod. Mewn achosion o'r fath, mae'n bosibl y bydd y Panel yn ei ystyried yn briodol i rybuddio'r aelod ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol. Os bydd rhybudd o'r fath wedi'i gofnodi, mae'n debygol y caiff ei ystyried yn ystod unrhyw wrandawiad a gynhelir yn y dyfodol os gwelir bod yr aelod wedi methu â dilyn darpariaethau'r Cod eto.

Pan fydd pwyllgor safonau neu'r Panel yn gwahardd neu'n gwahardd yn rhannol aelod neu aelod cyfetholedig, mae'r aelod neu'r aelod cyfetholedig hwnnw yn dal yn rhwym wrth y Cod, yn enwedig y darpariaethau ym mharagraffau 6(1)(a) (dwyn anfri ar swyddogaeth aelod neu awdurdod) a pharagraff 7 (defnyddio safle aelod yn amhriodol).

## Rôl y Clerc

Mae'r Clerc yn cael ei gyflogi gan eich Cyngor ac mae'n gyfrifol am nifer o dasgau gan gynnwys rhoi cefnogaeth weinyddol i'r Cyngor, cynghori ar ddatblygu polisïau a gweithdrefnau ynghyd â chynghori'r Cyngor ar weithredu a defnyddio ei weithdrefnau. Mae'r Clerc yno i gefnogi a dyma'r sawl i chi droi ato yn y lle cyntaf os bydd angen cyngor arnoch chi.

Mae gan y Clerc rôl gymhleth a bydd yn gallu cynghori cynghorwyr ar ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â'r Cod a rheolau sefydlog y Cyngor. Bydd y Clerc yn gweithio'n agos gyda'r Cadeirydd i sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn mewn cyfarfodydd a bod yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gael i gynghorwyr er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau gwybodus. Gall Clercod ofyn am gyngor Swyddog Monitro y cyngor sir perthnasol (gweler isod).

Mae'r Clerc yn gweithio i'r Cyngor, ac nid oes rhaid iddo ddilyn y Cod. Mae unrhyw faterion sy'n ymwneud â pherfformiad y Clerc yn faterion personél, a dylid defnyddio gweithdrefnau cyflogaeth priodol wrth ddelio â'r materion hynny. Ni all yr Ombwdsmon ystyried cwynion sy'n ymwneud â pherfformiad y Clerc; mae hyn yn fater i'r Cyngor fel cyflogwr y Clerc.

## Rôl y Swyddog Monitro

Mae'r Swyddog Monitro yn cael ei gyflogi gan y Cyngor Sir. Ymysg nifer o bethau eraill, bydd yn cynghori ac yn helpu cynghorwyr sir. Gall Swyddogion Monitro gynnig rhywfaint o hyfforddiant i gynghorau cymuned.

Mae gan y Swyddog Monitro rôl bwysig yn y broses datrys yn lleol a amlinellir uchod, a bydd hefyd yn gweithio'n agos drwy gynghori'r Pwyllgor Safonau. Dylech bob tro ofyn i'ch Clerc yn gyntaf am unrhyw arweiniad neu wybodaeth. Efallai y bydd y Swyddog Monitro yn gallu rhoi gwybodaeth i chi os na fydd y Clerc ar gael.

## Yr Egwyddorion

Roedd y Ddeddf Llywodraeth Leol yn grymuso'r Cynulliad Cenedlaethol i gyhoeddi egwyddorion y mae'n rhaid i chi eu hystyried wrth gyflawni eich rôl fel aelod. Mae'r Cod yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn sydd wedi'u llunio i hyrwyddo'r safonau uchaf posibl. Mae'r egwyddorion hyn yn dod o 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a oedd yn rhan o Adroddiad Nolan "Safonau Ymddygiad mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban". Ychwanegwyd tri arall at y rhain; dyletswydd i gynnal y gyfraith; stiwardiaeth briodol o adnoddau'r Cyngor a chydraddoldeb a pharch at bobl eraill.

Mae aelodau a gaiff eu hethol i awdurdodau lleol yn rhoi eu hamser a'u hymrwymiad yn hael er budd eu cymunedau. Mae'r egwyddorion hyn yn rhoi fframwaith ar gyfer sianelu eich ymrwymiad mewn ffordd sy'n adlewyrchu'n dda arnoch chi a'ch awdurdod, ac a fydd yn rhoi hyder i'ch cymunedau yn y ffordd mae'ch awdurdod yn cael ei lywodraethu.

Mae adrannau unigol y Cod wedi'u llunio i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Egwyddorion. Er enghraifft, mae'r egwyddor Anhunanoldeb yn dod o dan Adran 7 y Cod – Anhunanoldeb a Stiwardiaeth. Cafodd yr egwyddorion presennol eu gosod allan mewn offeryn statudol[1] ac mae eu manylion isod.

**1. Anhunanoldeb**

Rhaid i aelodau weithredu er lles y cyhoedd yn unig. Rhaid iddynt beidio byth â defnyddio'u safle fel aelodau er mantais amhriodol iddynt eu hunain, neu i osgoi anfantais iddynt eu hunain, neu er mantais neu anfantais amhriodol i bobl eraill.

**2. Gonestrwydd**

Rhaid i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus, a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro mewn modd sy'n diogelu buddiannau'r cyhoedd.

**3. Uniondeb a Gwedduster**

Rhaid i aelodau beidio â'u rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle mae unrhyw rwymedigaethau ariannol neu rwymedigaeth arall tuag at unigolion neu gyrff a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau yn bwrw amheuaeth ar eu huniondeb. Rhaid i aelodau bob amser osgoi ymddygiad sy'n ymddangos felly.

**4. Dyletswydd i Gynnal y Gyfraith**

Rhaid i aelodau weithredu i gynnal y gyfraith, a gweithredu bob amser yn unol â'r ymddiriedaeth sydd gan y cyhoedd ynddynt.

**5. Stiwardiaeth**

Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau rhaid i aelodau sicrhau bod adnoddau'r awdurdod yn cael eu defnyddio'n gyfreithlon ac yn ddarbodus.

[1] Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 SI 2001 Rhif 2276 (W.166)

**6. Gwrthrychedd wrth wneud Penderfyniadau**

Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys gwneud penodiadau, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon a manteision, rhaid i aelodau wneud penderfyniadau ar sail haeddiant. Er bod rhaid i aelodau roi sylw i gyngor proffesiynol swyddogion a gall fod yn briodol iddynt roi sylw i farn pobl eraill, gan gynnwys eu grwpiau gwleidyddol, eu cyfrifoldeb nhw yw penderfynu pa safbwynt i'w arddel ac, os yw'n briodol, sut i bleidleisio ar unrhyw fater.

**7. Cydraddoldeb a Pharch**

Rhaid i aelodau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r angen i hybu cyfle cyfartal i bawb, ni waeth beth yw eu rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed na'u crefydd, a dangos parch ac ystyriaeth i bobl eraill.

**8. Didwylledd**

Rhaid i aelodau fod mor agored â phosibl ynghylch eu holl weithredoedd a gweithredoedd eu hawdurdod. Rhaid iddynt geisio sicrhau bod datgeliadau gwybodaeth yn cael eu cyfyngu yn unol â'r gyfraith yn unig.

**9. Atebolrwydd**

Mae aelodau'n atebol i'r etholwyr ac i'r cyhoedd yn gyffredinol am eu gweithredoedd, ac am sut maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel aelod. Rhaid iddynt fod yn barod i ildio i unrhyw archwiliad sy'n briodol ar gyfer eu cyfrifoldebau.

**10. Arweinyddiaeth**

Rhaid i aelodau hybu a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy roi arweiniad ac esiampl er mwyn hybu hyder y cyhoedd yn eu rôl ac yn yr awdurdod. Rhaid iddynt barchu didueddrwydd ac uniondeb swyddogion statudol yr awdurdod a gweithwyr eraill yr awdurdod.

Nid yw'r egwyddorion yn rhan o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol, ac felly nid yw methu cydymffurfio â'r Egwyddorion ynddo'i hun yn dangos bod amodau'r Cod wedi cael eu torri. Fodd bynnag, mae'n debyg y byddai methu glynu wrth yr egwyddor sy'n ymwneud â chydraddoldeb a pharch, er enghraifft, yn golygu bod y gofynion ym mharagraffau 4(a) a 4(b) y Cod wedi'u torri yng nghyswllt cyfle cyfartal a pharch.

Beth bynnag, mae'r Egwyddorion yn rhoi sylfaen gref ar gyfer eich ymddygiad yn eich swyddogaeth, ac rwyf yn annog aelodau i'w hystyried bob amser.

## Penderfynu pryd mae'r Cod yn berthnasol i chi

Ystyriwch eich ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus a phreifat

**Gweler Paragraffau 2 a 3**

Mae gan aelodau'r hawl i gael preifatrwydd yn eu bywydau personol, ac mae llawer o ddarpariaethau'r Cod ond yn berthnasol i chi pan fyddwch yn gweithredu yn rhinwedd eich rôl fel aelod neu'n cynrychioli'ch Cyngor. Fodd bynnag, gan ei bod yn bosibl y bydd amgylchiadau'n codi lle gall eich ymddygiad yn eich bywyd preifat effeithio ar enw da ac uniondeb eich Cyngor, mae rhai o ddarpariaethau'r Cod yn berthnasol i chi bob amser.

Wrth benderfynu a yw'r Cod yn berthnasol i chi ar adeg benodol, byddaf yn ystyried yr amgylchiadau arbennig a natur eich ymddygiad ar yr adeg honno.

Cyn ystyried eich dyletswyddau o dan y Cod, dylech yn gyntaf ystyried a yw'r Cod yn berthnasol ac, os yw, pa rai o'r darpariaethau.

**Pa bryd y mae'r Cod yn berthnasol?**

- Pryd bynnag y byddwch yn gweithredu yn rhinwedd eich swyddogaeth, gan gynnwys pan fyddwch yn cynnal busnes eich awdurdod neu'n gweithredu, yn honni eich bod yn gweithredu, neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu, yn rhinwedd eich swyddogaeth fel aelod neu fel cynrychiolydd o'ch awdurdod
- Unrhyw bryd, pe byddech yn ymddwyn mewn modd y byddai'n rhesymol ystyried bod hynny'n dwyn anfri ar eich swyddogaeth neu ar eich awdurdod neu os ydych yn defnyddio neu'n ceisio defnyddio eich safle i ennill mantais neu i osgoi anfantais i chi'ch hun neu i unrhyw un arall neu os ydych chi'n camddefnyddio adnoddau eich awdurdod.

Pan fyddwch yn cynrychioli eich Cyngor ar unrhyw awdurdod perthnasol arall, neu ar unrhyw gorff arall, rhaid i chi, wrth weithredu ar ran yr awdurdod arall, gydymffurfio â'r god ymddygiad hwnnw. Pan gewch eich enwebu gan eich Cyngor fel ymddiriedolwr elusen rhaid i chi wneud hynny er budd gorau'r elusen honno wrth weithredu felly, yn unol â chyfraith elusennau a'r canllawiau a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Elusennau (gweler ei wefan: **www.charity-commission.gov.uk**).

Os ydych chi'n cynrychioli eich Cyngor ar gorff arall, er enghraifft ar bwyllgor digwyddiad, nad oes ganddo god ymddygiad sy'n berthnasol i'r aelodau, rhaid i chi gydymffurfio â Chod eich Cyngor eich hun oni bai fod hynny'n gwrthdaro ag unrhyw ofynion cyfreithiol y mae'n rhaid i'r corff arall gydymffurfio â nhw.

Os ydych yn cyfeirio atoch eich hun fel cynghorydd, bydd y Cod yn berthnasol i chi. Mae hyn yn berthnasol ar lafar, ar bapur neu mewn gohebiaeth electronig. Mae nifer y cwynion a gyflwynir i mi ynghylch defnyddio Facebook, blogiau a Twitter wedi cynyddu'n sylweddol. Os ydych yn cyfeirio at eich rôl fel cynghorydd mewn unrhyw ffordd, neu os yw eich sylwadau'n amlwg yn berthnasol i'ch rôl, bydd y Cod yn berthnasol i unrhyw sylwadau a wnewch yno. Hyd yn oed os na fyddwch yn

cyfeirio at eich rôl fel cynghorydd, gallai eich sylwadau ddwyn anfri ar eich swyddogaeth neu eich awdurdod ac felly gallent fynd yn groes i baragraff 6(1)(a) y Cod.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi llunio canllawiau defnyddiol ar gyfryngau cymdeithasol yn dwyn y teitl "Cyfryngau Cymdeithasol: Canllaw i Gynghorwyr". Nod y canllawiau yw rhoi syniad cliriach i chi am sut y gallwch ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, y peryglon posibl a sut i'w hosgoi. Mae'r canllaw ar gael ar wefan Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn **www.wlga.gov.uk** neu drwy ffonio **029 2046 8600**.

Os cewch eich gwahardd o'ch swydd am unrhyw reswm, rhaid i chi ddal i lynu wrth yr elfennau hynny o'r Cod fel y mae'n berthnasol, yn benodol fel y nodir ym mharagraff 2(1)(d) tra byddwch wedi cael eich gwahardd.

**Enghraifft**

Gwnaeth Cynghorydd A sylwadau am Gynghorydd B mewn cyfarfod pwyllgor a oedd yn trefnu parêd ar lan y dŵr. Roedd y parêd yn cael ei drefnu gan grŵp o wirfoddolwyr a oedd wedi gofyn i'r Cyngor Cymuned ddarparu cynrychiolwyr i'w helpu i fod yn ymwybodol o faterion cymunedol wrth drefnu'r digwyddiad. Roeddwn yn fodlon bod Cynghorydd A yn gweithredu yn rhinwedd ei swyddogaeth fel cynghorydd yng nghyfarfod y Pwyllgor, gan mai cynrychioli'r Cyngor oedd ei rôl ar y Pwyllgor ac ni fyddai wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod oni bai am y ffaith honno. Fodd bynnag, yn yr achos hwn roeddwn yn fodlon nad oedd y sylwadau a wnaed gan Gynghorydd A yn ddigon difrifol i olygu, petaent yn cael eu profi, y byddent yn arwain at roi cosb i'r aelod a oedd yn cael ei gyhuddo gan bwyllgor safonau. Felly nid oeddwn wedi ymchwilio i'r gŵyn hon.

**Enghraifft**

Yn groes i hynny, cafwyd cwyn bod Cynghorydd J wedi meddwi ac yn ymddwyn yn amhriodol mewn parti stryd. Cadarnhawyd nad oedd rhaid i Gynghorydd J weithredu ar ran y Cyngor yn y parti. Felly, yn fy marn i roedd hi yn y parti fel aelod o'r cyhoedd a gan nad oedd wedi dibynnu ar ei statws fel cynghorydd mewn unrhyw ffordd, nid oedd y Cod yn berthnasol (ac eithrio paragraff 6(1)(a)). Er bod rhai efallai'n ystyried bod ei hymddygiad yn amhriodol, nid oedd yn berthnasol i'w rôl fel cynghorydd ac yn fy marn i nid oedd yn dwyn anfri ar y Cyngor felly nid oedd paragraff 6(1)(a) yn berthnasol. Nid oeddwn wedi ymchwilio i'r gŵyn hon.

## 2. Dyletswyddau cyffredinol o dan y Cod Ymddygiad

Os ydych yn ystyried bod y Cod yn berthnasol i chi ar adeg benodol, yna rhaid i chi ystyried pa ddarpariaethau a allai fod yn berthnasol a'ch dyletswyddau o dan y Cod. Rwyf wedi cyfeirio at bob paragraff isod i roi arweiniad i chi ar eich dyletswyddau cyffredinol.

## Cydraddoldeb

**Gweler Paragraff 4(a)**

Rhaid i chi gyflawni eich dyletswyddau gan ystyried yr egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb, ni waeth beth yw eu rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed na'u crefydd.

Dylech bob amser geisio osgoi gwahaniaethu. Ceir pedwar prif fath o wahaniaethu:

- Gwahaniaethu uniongyrchol: trin pobl yn wahanol oherwydd eu rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd
- Gwahaniaethu anuniongyrchol: trin pobl mewn ffordd nad yw'n ymddangos ei bod yn gwahaniaethu rhwng pobl oherwydd eu rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed, neu eu crefydd, ond sy'n eu rhoi o dan anfantais anghymesur
- Harasio: ymddwyn mewn modd sy'n ddigroeso ar sail rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oed neu grefydd, sy'n mynd yn erbyn urddas unigolyn arall neu sy'n creu amgylchedd gelyniaethus, diraddiol neu sy'n sarhau neu'n bychanu
- Erledigaeth: trin rhywun yn llai ffafriol oherwydd ei fod wedi cwyno am wahaniaethu, wedi cychwyn achos am wahaniaethu, neu oherwydd ei fod wedi bod yn ymwneud â chwyno neu gychwyn achos am wahaniaethu

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (fel y'i diwygiwyd) yn atgyfnerthu pwysigrwydd y rhan hon o'r Cod. Mae'n rhoi dyletswyddau cadarnhaol i roi diwedd ar wahaniaethu anghyfreithlon a harasio ac er mwyn hybu cydraddoldeb. O dan gyfreithiau cydraddoldeb, gall eich Cyngor fod yn atebol am unrhyw weithredoedd wahaniaethu a wnewch. Bydd hyn yn berthnasol os byddwch yn gwneud rhywbeth yn rhinwedd eich swyddogaeth mewn ffordd sy'n gwahaniaethu.

Rhaid i chi ofalu nad ydych yn gwneud dim sydd mewn unrhyw ffordd yn unrhyw un o'r mathau o wahaniaethu sydd wedi'u gwahardd, nac yn gwneud dim sy'n rhwystro eich Cyngor rhag cyflawni ei ddyletswyddau cadarnhaol o dan gyfreithiau cydraddoldeb. Gall ymddygiad o'r fath olygu bod eich Cyngor yn torri'r gyfraith, a gallech fod yn destun cwyn eich bod wedi mynd yn groes i'r paragraff hwn o'r Cod.

Rhaid i chi gofio bob amser hefyd na ddylech weithredu mewn ffordd a fyddai'n dwyn anfri ar eich Cyngor, gan gynnwys wrth weithredu mewn rhinwedd breifat. Mae'n debyg y byddai ymddwyn mewn modd y gellid ystyried ei fod yn torri'r Ddeddf Cydraddoldeb yn eich rhinwedd breifat yn dod o dan y categori hwn.

**Enghraifft**

Roedd aelod o gyngor sir yn aelod o Banel Recriwtio'r Cyngor i benodi Prif Weithredwr newydd. Roedd pum ymgeisydd wedi cyrraedd y rhestr fer. Ar ôl i un ymgeisydd orffen ei gyflwyniad a gadael yr ystafell, dywedodd Cynghorydd A "ymgeisydd da, bechod ei fod e'n ddu". Penderfynodd Panel Dyfarnu Cymru fod paragraff 4(a) y Cod wedi cael ei dorri a bod Cynghorydd A wedi dwyn anfri ar swyddogaeth aelod ac ar ei awdurdod (yn groes i baragraff 6(1)(a) y Cod).

## Trin pobl eraill â pharch ac ystyriaeth

Mae hawliau Erthygl 10 yn berthnasol i sylwadau gwleidyddol

**Gweler Paragraff 4(b)**

Rhaid i chi ddangos parch ac ystyriaeth i bobl eraill. Mae rhyddid mynegiant yn hawl sy'n berthnasol i bob syniad a gwybodaeth, nid dim ond y rheini sy'n canfod ffafriaeth. Fodd bynnag, mae'n hawl y gellir cyfyngu arni o dan amgylchiadau penodol, er enghraifft, er mwyn gwarchod hawliau a buddiannau pobl eraill. Mae rhyddid mynegiant aelod yn cael ei amddiffyn ymhellach pan fydd natur sylwadau'r aelod yn wleidyddol. Felly, mae beirniadu syniadau a barn gwrthwynebydd yn cael ei ystyried yn rhan o ddadl ddemocrataidd, ac mae'n annhebygol y byddai sylwadau o'r fath byth yn cael eu hystyried fel achos o dorri amodau'r Cod.

Nid yw sylwadau "gwleidyddol" wedi'u cyfyngu i sylwadau a wneir yng nghyfarfodydd y cyngor ac maent yn cynnwys, er enghraifft, sylwadau cyffredinol gan aelodau ynghylch polisïau'r Cyngor neu ynghylch eu gwrthwynebwyr gwleidyddol. Felly os nad yw'r sylwadau'n hynod sarhaus neu'n dramgwyddus, mae'n annhebygol y byddaf yn ymchwilio i gwynion a wneir yn y cyd-destun hwn ac mae angen i gynghorwyr fod yn fwy "croendew".

Mae hefyd yn bosibl y byddaf yn gwrthod ymchwilio i gŵyn lle mae'r aelod wedi codi materion "gwleidyddol" gyda swyddogion, er enghraifft Clerc y cyngor. Ond ni fyddai hynny'n cynnwys bygythiadau i safle neu les swyddog. Mae cyfraith achosion diweddar wedi cadarnhau y dylai swyddogion y cyngor gael eu hamddiffyn rhag sylwadau direswm a all gael effaith andwyol ar weinyddu da. Mae'n nodi ei bod yn bwysig, er lles y cyhoedd, nad yw swyddogion yn cael sylwadau direswm sy'n eu hanalluogi rhag cyflawni eu dyletswyddau neu sy'n tanseilio hyder y cyhoedd yn y weinyddiaeth. Wedi dweud hynny, bydd disgwyl i'r swyddogion sydd mewn swyddi uwch fod yn fwy cadarn hefyd.

Rwyf yn disgwyl i aelodau ddangos yr un cwrteisi ac ystyriaeth i gydweithwyr, gwrthwynebwyr a swyddogion ag y maent yn eu dangos i bobl eraill yn eu bywydau bob dydd. Er fy mod yn cydnabod y gall trafodaeth wleidyddol fod yn danllyd ar brydiau, ni ddylid defnyddio'r hawl i ryddid mynegiant fel esgus dros ymddwyn yn wael yn gyffredinol. Bydd ymddygiad gwael o'r fath ond yn bwrw amheuaeth ar rôl aelod yng ngolwg y cyhoedd.

Wrth ystyried cwynion o'r fath, byddaf yn ystyried amgylchiadau arbennig yr achos, a oedd gan yr aelod, yn fy marn i, hawl i gwestiynu'r swyddog o dan sylw, a oedd ymgais i frawychu neu danseilio'r swyddog, a chynnwys a chyd-destun yr hyn a ddywedwyd.

**Enghraifft**

Bu tribiwnlys apêl Panel Dyfarnu Cymru yn ystyried apêl gan Gynghorydd X yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Safonau'r Cyngor. Canfu'r Pwyllgor Safonau fod Cynghorydd X wedi methu dangos parch ac ystyriaeth i aelod arall drwy ei wahardd rhag anfon e-bost at y clerc a mynd ar wefan y Cyngor. Hefyd, roedd Cynghorydd X wedi gwneud sylwadau mewn neges e-bost i aelodau eraill ynghylch arferion cawodi ei gydweithiwr. Wrth wneud hyn, canfu'r Pwyllgor Safonau fod Cynghorydd X wedi dwyn anfri ar y Cyngor.

Penderfynodd y Panel Dyfarnu fod natur sylwadau Cynghorydd X yn wleidyddol ac yn cael eu hamddiffyn ymhellach yn unol ag Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Cafodd penderfyniad y Pwyllgor Safonau ei wrthdroi a chafodd y gosb ei diddymu. Mae modd gweld penderfyniad y Panel Dyfarnu yma **http://apw.wales.gov.uk** (Ref: APW/001/2014-015/AT).

**Enghraifft**

Cadarnhaodd y Panel Dyfarnu un o ganfyddiadau pwyllgor safonau am gynghorydd a gyhuddwyd o beidio â dangos parch ac ystyriaeth i bobl eraill drwy wneud sylwadau ar-lein am gynghorwyr eraill a'r ffordd roedd y Cyngor yn cael ei redeg. Gofynnodd yr aelod am adolygiad barnwrol o'r penderfyniad hwn. Er bod y sylwadau'n wawdlyd ac yn watwarus a bod eu tôn yn bychanu ei gyd-aelodau, penderfynodd y Llys fod y sylwadau'n "Fynegiant Gwleidyddol" oherwydd bod y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â sut roedd y Cyngor yn cael ei redeg, sut roedd ei benderfyniadau'n cael eu cofnodi a chymhwysedd y cynghorwyr. Yn ôl y dyfarniad, ni roddwyd ystyriaeth i'r angen i wleidyddion fod yn fwy "croendew". Wrth ystyried rhyddid mynegiant yr aelod a'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r sylwadau wedi'u cyfeirio at gyd-gynghorwyr, roedd y casgliad bod amodau wedi'u torri yn yr achos hwn yn ymyrryd yn anghymesur â hawliau'r aelod o dan Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Felly, cafodd penderfyniad y Pwyllgor Safonau i geryddu'r aelod ei roi o'r neilltu.

**Enghraifft**

Ysgrifennodd aelod o gyngor tref lythyr at un o Ddirprwy Weinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru am weithiwr ("Mr Smith") a oedd yn gweithio mewn cyngor sir. Anfonwyd copi o'r llythyr at y Cyngor hefyd. Yn y llythyr roedd yr aelod yn cwestiynu cymhwysedd a chymhelliant Mr Smith a gwnaeth nifer o sylwadau dilornus a phersonol ynghylch Mr Smith a phobl mae ganddo gysylltiad personol agos â nhw. Cododd fater gwrywgydiaeth a chyfeirio ato fel "anabledd anfad" a bod "gwrywgydiaeth ond yn gythraul y gellir ei yrru allan". Cyfeiriwyd yr aelod at Banel Dyfarnu Cymru.

Canfu'r Panel fod yr aelod wedi torri paragraff 4(b) y Cod oherwydd ei fod wedi methu dangos parch ac ystyriaeth i bobl eraill. Canfu hefyd fod y geiriau roedd wedi'u defnyddio wedi dwyn anfri ar swyddogaeth aelod yn groes i baragraff 6(1)(a) y Cod.

Cafodd yr aelod ei anghymwyso am 12 mis rhag bod, na dod, yn aelod o awdurdod lleol.

## Bwlio a harasio

Ystyriwch eich ymddygiad o safbwynt rhywun arall

**Gweler Paragraff 4(c)**

Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn ffordd sy'n bwlio nac yn harasio neb, gan gynnwys cynghorwyr eraill, swyddogion cyngor (y Clerc neu'r Swyddog Priodol) nac aelodau'r cyhoedd.

Mae harasio yn golygu ymddygiad sy'n cael ei ailadrodd sy'n cynhyrfu neu'n gwylltio pobl. Mae bwlio'n gallu golygu ymddygiad tramgwyddus, brawychus, maleisus, sarhaus neu ddigywilydd. Gall ymddygiad o'r fath ddigwydd unwaith neu gall fod yn rhan o batrwm ymddygiad sydd wedi'i gyfeirio at unigolyn gwannach neu unigolyn y mae gennych rywfaint o ddylanwad gwirioneddol neu ymddangosiadol drosto. Mae ymddygiad sy'n bwlio yn ceisio tanseilio unigolyn neu grŵp o unigolion, mae'n niweidiol i'w hyder ac i'w gallu a gall effeithio'n andwyol ar eu hiechyd.

Wrth ystyried honiadau o fwlio a harasio, byddaf yn ystyried o safbwynt y dioddefwr honedig, ac a oedd yr aelod yn bwriadu i'w weithredoedd fod yn fwlio. Byddaf hefyd yn ystyried a oedd gan yr unigolyn hawl resymol i gredu ei fod yn cael ei fwlio. Caiff bwlio yn aml ei wneud wyneb yn wyneb, ond yn fwyfwy, gall ddigwydd ar bapur neu drwy ddefnyddio e-gyfryngau. Yr un safonau ymddygiad a ddisgwylir, boed chi'n mynegi eich hun ar lafar neu yn ysgrifenedig

**Enghraifft**

Roedd Cynghorydd Cymuned P wedi anghytuno â threfniadau'r Cyngor Sir ar gyfer gorfodi achosion o dorri rheolau parcio yn y dref. Roedd Cynghorydd P wedi defnyddio iaith sarhaus ac amharchus ac roedd wedi ymddwyn mewn modd a oedd yn brawychu ac yn bwlio tuag at swyddogion Gorfodaeth Sifil y Cyngor bedair gwaith. Roedd hefyd wedi ceisio defnyddio ei safle fel cynghorydd yn amhriodol mewn perthynas â throsedd parcio. Canfu'r Pwyllgor Safonau fod Cynghorydd P wedi torri paragraff 4(c) o'r Cod gan ei fod wedi parhau ag ymddygiad bygythiol tuag at weithwyr y Cyngor Sir. Roedd y Pwyllgor Safonau hefyd wedi penderfynu bod Cynghorydd P wedi torri paragraff 4(b), 7(a) a 6(1)(a) o'r Cod. Cafodd ei wahardd rhag gweithredu fel cynghorydd am 12 mis.

Bydd angen i chi sicrhau nad yw eich ymddygiad yn croesi'r ffin o fod yn rymus i fod yn fwlio. Ni ellir cael rheolau pendant sy'n llywodraethu pob set o amgylchiadau ond bydd lefel cyfrifoldeb y swyddog yn ffactor mewn rhai achosion. Fel yr amlinellir o dan baragraff 4(b) y Cod, gall y swyddogion sydd ar y lefel uchaf gymryd rhan mewn trafodaeth gadarn ag aelodau a byddant mewn sefyllfa dda i allu cyflwyno eu safbwynt eu hunain yn gadarn. Nid yw'r un peth yn wir yng nghyswllt swyddogion iau ac mae angen i aelodau fod yn ymwybodol o hyn. Nid yw hyn yn golygu fy mod yn goddef bwlio uwch swyddogion, ond po fwyaf yw'r gwahaniaeth pŵer rhwng y swyddog a'r aelod, y mwyaf yw'r tebygolrwydd y bydd y swyddog yn ystyried bod yr ymddygiad yn fwlio.

Yn ddiweddar, penderfynodd yr Uchel Lys fod angen gwarchod hyder y cyhoedd mewn gweision cyhoeddus heb eu hethol er budd y cyhoedd, a bod angen cydbwyso hyn yn erbyn y budd o gael trafodaeth agored ar faterion sy'n bwysig i'r cyhoedd. Canfu hefyd y dylai pob aelod fel ei gilydd barchu'r ymddiriedaeth a'r hyder sydd rhyngddynt a'r swyddogion, sy'n hanfodol i sicrhau gweinyddiaeth dda.

Mae gan Awdurdodau Lleol sianeli priodol ar gyfer mynegi pryder ynghylch perfformiad swyddog ac mae'n bwysig eich bod yn codi materion ynghylch perfformiad gwael yn y ffordd gywir ac mewn fforwm priodol. Nid yw'n dderbyniol codi materion o'r fath mewn cyfarfod lle mae pobl eraill yn bresennol, yn enwedig os ydynt o gyrff allanol neu'n aelodau o'r cyhoedd. Nid yw ychwaith yn dderbyniol gwneud hynny yn y cyfryngau, yn eich cyhoeddiadau eich hun neu drwy ddefnyddio blog, Twitter, Facebook nac unrhyw ddulliau electronig eraill. Os yw eich beirniadaeth yn ymosodiad personol neu'n dramgwyddus, rydych yn debygol o groesi'r ffin o ran yr hyn sy'n ymddygiad derbyniol.

**Enghraifft**

Cafodd aelod o gyngor sir ei anghymwyso o'i swydd am 2 flynedd a 6 mis gan Banel Dyfarnu Cymru yn dilyn honiadau o fwlio, harasio, amarch a dwyn anfri ar swyddogaeth aelod. Bu'r digwyddiadau honedig yn digwydd dros ddwy flynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd yr aelod wedi gwneud sylwadau bygythiol wrth swyddogion ar lefel iau a lefel uwch. Er enghraifft, gwnaethpwyd sylwadau fel, roedd sawl rheolwr yn y Cyngor wedi colli eu swyddi ac roedd mwy i fynd eto a "Fyddwch chi ddim yn hoffi'r dyn y trof i mewn iddo os na cha i fy ffordd....Does dim angen i mi eich bygwth, rydych chi'n fenyw ddeallus ac rwy'n gwybod eich bod yn gwrando arnaf fi".

Apeliodd yr aelod yn erbyn y penderfyniad a chyfeiriwyd y mater i'r Uchel Lys. Yno, cadarnhawyd pob achos o dorri amodau heblaw tri. Mae modd gweld y penderfyniad yma **http://apw.wales.gov.uk** (Ref: APW/005/2010-011/CT).

## Peryglu didueddrwydd swyddogion yr awdurdod

**Gweler Paragraff 4(d)**

Rhaid i chi beidio â pheryglu didueddrwydd unrhyw un sy'n gweithio i'r Cyngor, neu ar ran y Cyngor, na cheisio gwneud hynny. Ni ddylech fynd at unrhyw un sy'n gweithio i'r Cyngor, neu ar ei ran, gyda'r bwriad o bwyso arnynt i gyflawni eu dyletswyddau mewn ffordd unochrog neu bleidiol. Rhaid iddynt fod yn ddiduedd ac ni ddylid eu gorfodi na'u perswadio i weithredu mewn ffordd a fyddai'n golygu na fyddent yn ddiduedd. Er enghraifft, ni ddylech gael swyddogion i'ch helpu chi i baratoi deunyddiau pleidiau gwleidyddol, na'ch helpu chi gyda materion sy'n ymwneud â'ch busnes preifat. Ni ddylech roi na chynnig unrhyw gymhelliant na gwobr yn gyfnewid am weithredu mewn ffordd benodol na gwneud penderfyniad penodol na bygwth neb os nad ydynt yn bwriadu gweithredu mewn ffordd benodol. Os bydd aelod yn datblygu perthynas bersonol agos gyda swyddog, gall hyn fod yn fuddiant personol ac o bosibl yn fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod.

**Sefyllfa Ddamcaniaethol**

Mae'r Clerc yn gyfrifol am ddyrannu rhandiroedd o restr aros, mae'r rhandiroedd yn boblogaidd dros ben a phur anaml bydd rhai gwag yn codi. Dywedodd y Clerc wrth y Cyngor fod rhandir ar gael ac y byddent yn edrych ar y rhestr ac yn dyrannu'r rhandir i'r sawl a oedd wedi bod yn aros hiraf yn unol â gweithdrefn dyrannu rhandir y Cyngor. Roedd tad Cynghorydd D wedi bod yn aros am randir am bron i saith mlynedd. Aeth Cynghorydd D at y Clerc ar ôl y cyfarfod a gofyn am gael gweld y rhestr. Gwelodd fod un enw uwchben enw ei dad a bod hwnnw wedi bod yn disgwyl mis yn hirach. Gofynnodd Cynghorydd D i'r Clerc roi'r rhandir gwag i'w dad, dywedodd gan fod cymaint o amser wedi mynd heibio ers i'w dad a'r unigolyn arall wneud cais ei bod yn annhebygol y byddai'r unigolyn arall yn cwestiynu pwy oedd gyntaf, a beth bynnag ni fyddai'n anodd ail-deipio'r rhestr. Awgrymodd Cynghorydd D y byddai, yn gyfnewid am y ffafr hon, yn annog y Cyngor i edrych yn ffafriol ar yr elusen a awgrymwyd gan y Clerc wrth ystyried ble i ddyrannu'r arian a fyddai'n cael ei godi mewn diwrnod o hwyl a oedd yn cael ei gynnal y mis canlynol.

## Datgelu gwybodaeth gyfrinachol

**Gweler Paragraff 5(a)**

Rhaid i chi beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol na gwybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, ac eithrio yn unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:

- rydych wedi cael caniatâd y sawl sydd ag awdurdod i'w roi
- mae'r gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny.

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi canllawiau defnyddiol am y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data, ac maent ar gael ar y wefan **www.ico.gov.uk** neu drwy ffonio **0303 123 1113**. Fel cynghorydd cymuned, efallai byddwch yn cael gweld gwybodaeth sensitif, er enghraifft gwybodaeth fasnachol. Fel cynghorydd rhaid i chi gofio bod gennych swyddogaeth yr ymddiriedir ynddi a byddwch yn gweld bod aelodau'r cyhoedd yn rhoi gwybodaeth i chi y gellid ei hystyried yn wybodaeth gyfrinachol a dylech chi bob tro gadarnhau (a chael cytundeb ysgrifenedig pan fo'n bosibl) bod gennych chi'r hawl i ddatgelu gwybodaeth o'r fath cyn i chi wneud hynny. Yn gyffredinol, dylech chi ystyried materion a drafodir yn adrannau cyfrinachol cyfarfodydd (eitemau eithriedig) fel rhai cyfrinachol. Yn yr un modd, bydd cyngor cyfreithiol bron bob tro'n dod o dan fraint gyfreithiol ac ni ddylid ei ddatgelu.

**Enghraifft**

Cafodd Cynghorydd Cymuned S neges e-bost gan Gynghorydd arall (T) ynghylch cyflogi'r gofalwr. Roedd y neges e-bost wedi cael ei marcio fel un gyfrinachol. Roedd Cynghorydd S wedi datgelu'r neges e-bost honno i wraig y gofalwr, ac wedyn cafodd y wybodaeth yn y negeseuon e-bost ei defnyddio yn erbyn y Cyngor mewn gwrandawiad tribiwnlys a oedd yn ymwneud â chyflogaeth y gofalwr. Fe wnes i ddod i'r casgliad bod Cynghorydd S wedi torri paragraff 5(a) o'r Cod.

## Rhwystro mynediad at wybodaeth

**Gweler Paragraff 5(b)**

Rhaid i chi beidio â rhwystro unrhyw un rhag cael gwybodaeth y mae ganddynt hawl i'w gweld yn ôl y gyfraith. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu gopïau o gofnodion, agendâu, adroddiadau a dogfennau eraill eich Cyngor y mae ganddynt hawl i'w gweld. I gael gwybod mwy am y mathau o wybodaeth y mae gan y cyhoedd hawl i'w gweld, cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy daro golwg ar **www.ico.gov.uk** neu drwy ffonio **0303 123 1113** neu os oes gennych chi ymholiadau penodol, dylech holi eich Swyddog Monitro neu eich Clerc.

Mae'n debygol y bydd unrhyw wybodaeth rydych chi'n ei chynhyrchu yn rhinwedd eich swyddogaeth yn rhwym wrth ofynion datgelu'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac efallai y bydd yn rhaid i'ch Cyngor ei rhyddhau er mwyn ymateb i gais. Os na fyddwch yn rhoi'r wybodaeth i'r Clerc ar gais, byddwch yn torri amodau'r Cod.

Mae angen i'ch Cyngor benderfynu a ddylid datgelu gwybodaeth ynteu a yw'n dod o dan eithriad. Hyd yn oed os ydych chi'n meddwl bod y wybodaeth sydd gennych wedi'i heithrio, rhaid i chi ei rhoi i'ch Clerc er mwyn i'r Cyngor allu gwneud penderfyniad. Yn ogystal â thorri amodau'r Cod, mae'n drosedd os caiff gwybodaeth ei dinistrio ar ôl cael cais Rhyddid Gwybodaeth.

**Enghraifft**

Roedd arweinydd cyngor sir wedi gwrthod rhoi llythyr i Swyddog Gwybodaeth y Cyngor a ysgrifennodd at Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Pwyllgor Gwaith y Cyngor. O'r herwydd ni allai'r Cyngor ymateb yn briodol i gais Deddf Rhyddid Gwybodaeth a arweiniodd at wneud cwyn i swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Roedd yr aelod yn parhau i wrthod datgelu'r llythyr er iddo gael cyngor clir a digamsyniol gan y Swyddog Gwybodaeth. Arweiniodd hyn at ganfyddiad croes gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Canfu'r Panel Dyfarnu fod yr aelod wedi torri paragraff 5(b) a 6(1)(a) (anfri) yng nghyswllt y mater hwn a materion cysylltiedig eraill. Erbyn i'r achos gael ei ystyried gan y Panel, roedd yr aelod wedi ymddiswyddo. Cafodd ei wahardd rhag dal swyddogaeth am 12 mis.

## Anfri

Gellir ystyried bod unrhyw ymddygiad amhriodol gan aelod yn dwyn anfri

**Gweler Paragraff 6(1)(a)**

Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn ffordd y byddai'n rhesymol ystyried ei bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu awdurdod unrhyw bryd. Fel aelod, ceir mwy o graffu ar eich gweithredoedd ac ar eich ymddygiad nag aelodau cyffredin o'r cyhoedd. Dylech gofio y gall eich gweithredoedd yn eich bywyd cyhoeddus a phreifat effeithio'n andwyol ar y Cyngor.

Bydd ymddygiad anonest a thwyllodrus yn dwyn anfri ar y Cyngor, yn yr un modd ag ymddygiad sy'n arwain at euogfarn droseddol, yn enwedig os yw'n golygu ymddygiad anonest, bygythiol neu dreisgar, hyd yn oed os yw'r ymddygiad yn digwydd yn eich bywyd preifat. Gellir ystyried bod beirniadu'r Cyngor yn anghywir neu'n annheg yn gyhoeddus yn dwyn anfri ar y Cyngor. Gall negeseuon e-bost amhriodol at etholwyr neu negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol ddwyn anfri ar swyddogaeth aelod.

**Enghraifft**

Roedd cynghorydd cymuned wedi bod yn sarhaus at berchennog siop a dau aelod o'i staff ac wedi ceisio cael disgownt ar rywbeth yr oedd yn ei brynu'n breifat drwy ddweud ei fod yn ei brynu ar ran y Cyngor Cymuned, a phan wrthodwyd ei gais am ddisgownt, gwnaeth fygythiadau yn erbyn y busnes. Canfu'r Panel Dyfarnu fod yr aelod wedi dwyn anfri ar swyddogaeth aelod a chafodd ei wahardd am 9 mis.

**Enghraifft**

Roedd aelod o gyngor bwrdeistref sirol a oedd yn ysgrifennu erthygl reolaidd ar gyfer cyhoeddiad misol lleol wedi sôn yn ei erthygl am ddamwain ffordd ddiweddar pan gafodd bachgen 10 oed ei anafu. Y sawl a oedd yn cwyno oedd mam y bachgen a gafodd ei anafu. Ar ôl cyhoeddi'r erthygl, ffoniodd y cynghorydd a ddywedodd ei bod wedi bod yn sarhaus tuag ato yn ystod yr alwad. Mewn negeseuon e-bost dilynol dywedodd y cynghorydd wrthi ei bod wedi "methu â chymryd unrhyw gyfrifoldeb dros ei phlentyn drwy ganiatáu iddo fynd allan ar ei ben ei hun" mai ei mab "nad oedd wedi cael gwybodaeth dda am reolau'r ffordd fawr" oedd ar fai a dywedodd "peidiwch chi â meiddio rhoi'r bai arna i am eich diffygion chi fel rhiant".

Penderfynwyd bod yr aelod wedi torri paragraff 4(b) (parch ac ystyriaeth) a 6(1)(a) (anfri). Cyfeiriwyd y mater at Banel Dyfarnu Cymru. Er bod yr aelod wedi dweud iddo ymddiheuro am ei ymddygiad, yr hyn a ddywedodd mewn gwirionedd oedd "Does gen i ddim i ymddiheuro amdano... Rwyf yn ymddiheuro os oeddwn, am ryw reswm, wedi achosi gofid i chi".

Penderfynodd y Panel fod yr aelod wedi torri paragraffau 4(b) (trin pobl eraill â pharch) a 6(1)(a) (anfri). Roedd y Panel wedi'i wahardd o'r blaen am 2 fis am anfon negeseuon e-bost amhriodol yn 2006. Cafod ei wahardd am 12 mis yng nghyswllt yr achosion hyn.

## Rhoi gwybod am dorri amodau'r Cod

**Gweler Paragraff 6(1)(c)**

Os ydych chi'n credu'n rhesymol bod amodau'r Cod wedi cael eu torri, rhaid i chi roi gwybod i mi ac i'ch Swyddog Monitro. Er mwyn credu'n rhesymol bod amodau'r Cod wedi cael eu torri, bydd angen i chi gael tystiolaeth i gefnogi hyn. Os nad ydych chi'n siŵr a yw amodau'r Cod wedi cael eu torri ai peidio, dylech holi eich Swyddog Monitro ar y cyfle cyntaf. Os cafodd amodau'r Cod eu torri mewn modd technegol neu fach, neu os nad oes dim tystiolaeth glir bod amodau'r Cod wedi cael eu torri, efallai y bydd eich Swyddog Monitro'n dweud wrthych am y trothwy tebygol y byddaf yn ei osod. Serch hynny, fi sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid ymchwilio i achos o dorri amodau'r Cod ai peidio. Os oes unrhyw amheuaeth, dylid rhoi gwybod bob tro. Mae'n ddefnyddiol os gallwch fynegi pa elfen o'r Cod rydych yn credu sydd wedi ei thorri.

Wrth benderfynu a wyf am ymchwilio i gŵyn ynghylch a yw amodau'r Cod wedi cael eu torri ai peidio, byddaf yn defnyddio'r prawf dau gam rwyf wedi'i amlinellu ar dudalennau 6 a 7 uchod. Dylech wneud yn siŵr eich bod yn rhoi unrhyw dystiolaeth sydd gennych pan fyddwch yn cwyno, gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd, gohebiaeth, nodiadau cyfoes neu negeseuon e-bost. Os oes unigolion eraill sydd yn dystion i'r honiad o dorri amodau'r Cod, dylech ddweud wrthym pwy ydynt. Mae'r ail bwynt yn arbennig o bwysig oherwydd os dim ond gair rhywun yn erbyn gair rhywun arall sydd gennyf, fel rheol nid yw'n bosibl i mi benderfynu bod amodau'r Cod wedi cael eu torri, ac os nad oes cadarnhad annibynnol, efallai na fydd yn bosibl i mi ddod i gasgliad sicr bod digon o dystiolaeth i warantu ymchwilio i'r mater.

I roi gwybod bod amodau'r Cod wedi cael eu torri, gallwch gysylltu â'm swyddfa ar **0845 6010987**, dros e-bost at **holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk** neu drwy'r wefan yn **www.ombwdsmon-cymru.org.uk** Mae taflen arbennig am wneud cwynion am honiadau o dorri amodau'r Cod ar gael ar gais neu ar y wefan.

## Cwynion blinderus

**Gweler Paragraff 6(1)(d)**

Rhaid i chi beidio â chwyno yn erbyn aelodau eraill, aelodau o staff na phobl sy'n gweithio ar ran y Cyngor os nad yw'r gŵyn yn seiliedig ar ffeithiau ac os yw wedi'i chymell gan falais (dymuniad i'w niweidio) neu gystadleuaeth wleidyddol. Yn anffodus, bu rhai achosion pan mae aelodau wedi ceisio cyflwyno cwynion am gystadleuwyr gyda'r bwriad o'u rhoi o dan anfantais, weithiau cyn etholiad, a lle nad oes dim tystiolaeth o dorri'r amodau neu mae'r dystiolaeth yn wan iawn. Yn y lle cyntaf rwyf yn credu y dylid ystyried ymddygiad o'r fath o dan broses datrys yn lleol yr awdurdod perthnasol os oes un ar gael.

Pan fydd manylion penodol cwynion o'r fath yn cael eu trosglwyddo i'r wasg a'r cyfryngau lleol, gall hyn wneud niwed i ymchwiliad a gall hyn ynddo'i hun hefyd olygu torri amodau'r Cod. Rhaid i chi roi gwybod i mi ac i'ch Swyddog Monitro am honiadau cadarn o dorri amodau'r Cod, nid i'r papur newydd nac i'r orsaf radio leol. Bydd y wasg yn rhoi sylw priodol i fusnes unrhyw wrandawiadau a'u canlyniadau, ac ni ddylai aelodau sy'n gwneud honiadau greu cyhoeddusrwydd cyn y rhain.

Ni ddylai aelodau ddefnyddio'r Cod i fynd ar drywydd eu gwahaniaethau gwleidyddol neu breifat. Dylech felly osgoi gwneud cwynion nad oes ganddynt ddim neu ddim llawer o sylwedd (cwynion gwamal) sydd â'r bwriad yn bennaf o wylltio'r sawl y gwnaed yn ei erbyn. Yn y gorffennol, mae fy rhagflaenydd wedi gorfod gohebu â Chlerc cyngor ynghylch pryderon y ddwy ochr am nifer y cwynion oedd yn dod i law o ran yr aelodau. Fel y dywedwyd yn flaenorol, ers i mi gychwyn ar fy swydd, rwyf finnau hefyd wedi bod yn pryderu am nifer y cwynion lefel isel sy'n dal i ddod i law gan aelodau. Er ei bod yn ymddangos bod y cwynion hyn wedi cael eu cyflwyno gan nifer fach o aelodau, gallant greu argraff negyddol o'r aelodau a'r cynghorau hynny a niweidio ffydd y cyhoedd yn ein haelodau etholedig yn gyffredinol. Pan mae'n dod yn amlwg bod cwynion aelod yn erbyn aelod yn cael eu hailadrodd i fy swyddfa i, byddwn yn annog y cynghorau hynny i ystyried y diwylliant sydd wedi arwain at y cwynion hyn a sut byddai modd newid ymddygiad i osgoi cwynion o'r fath.

Os byddaf yn gweld tystiolaeth sy'n awgrymu bod cwyn wedi'i gwneud i'm swyddfa nad yw'n seiliedig ar ffeithiau a'i bod wedi'i chymell gan falais neu gystadleuaeth wleidyddol, byddaf yn ystyried bod hyn yn fater difrifol ac mae'n bosibl y byddaf yn ymchwilio i'r sefyllfa. Mae gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal yn mynd yn groes i'r paragraff hwn ond mae'n bosibl hefyd ei fod yn mynd yn groes i'ch dyletswyddau eraill o dan y Cod, fel y gofyniad i beidio â dwyn anfri ar eich statws fel cynghorydd neu beidio â defnyddio eich safle mewn modd amhriodol.

Cofiwch fod y Cod ond yn berthnasol i'r rheini sydd wedi cael eu hethol, eu cyfethol neu eu penodi fel arall i gorff a ddaw o dan y Cod. Nid yw'n berthnasol i aelodau o'r cyhoedd. Er fy mod yn gwerthfawrogi ei bod yn gallu bod yn rhwystredig os bydd aelod o'r cyhoedd yn cwyno amdanoch chi droeon a'ch bod chi yn credu bod hynny'n flinderus neu'n wamal, rhaid i mi ystyried pob cwyn yn ôl ei rhinwedd ei hun. Fodd bynnag, mae'n debyg na fyddai cwynion o'r fath yn pasio'r prawf dau gam ac yn arwain at ymchwiliad.

## Cydweithredu ag ymchwiliadau

**Gweler Paragraff 6(2)**

Rhaid i chi gydweithredu ag unrhyw ymchwiliad pan fydd yn cael ei gynnal gennyf fi neu gan eich Swyddog Monitro yn defnyddio ein pwerau statudol. Mae peidio â gwneud hynny'n torri amodau'r Cod. Mae hyn yn golygu y dylech ymateb yn brydlon i bob gohebiaeth a galwad ffôn, sicrhau eich bod ar gael ar gyfer cyfweliadau os oes angen a darparu copïau o unrhyw ddogfennau y gofynnir amdanynt. Byddai'n fuddiol pe gallech nodi unrhyw bryderon a allai fod gennych yn ystod yr ymchwiliad fel bod modd eu datrys yn ddi-oed. Bydd fy swyddfa a'ch Swyddog Monitro yn rhoi ystyriaeth rhesymol i unrhyw bwysau brys rydych chi'n eu hwynebu ac unrhyw drefniadau a wnaed o'r blaen, er enghraifft, ar gyfer gwyliau. Fodd bynnag, byddant yn disgwyl i chi flaenoriaethu eu hymchwiliadau, er mwyn osgoi llusgo materion yn ddiangen. Mae'r gofyniad i gydweithredu ag ymchwiliad yn berthnasol p'un ai a ydych yn dyst neu'n destun yr ymchwiliad.

Rwyf wedi dod i wybod am enghreifftiau o aelodau wedi'u cyhuddo o dorri amodau'r Cod yn ceisio rhoi pwysau ar yr unigolion sydd wedi cyflwyno'r gŵyn neu ar dystion eraill. Ystyriaf ymddygiad o'r fath yn hollol annerbyniol. Rhaid i chi beidio â brawychu na cheisio brawychu unrhyw un sydd, neu sy'n debygol o fod, yn achwynydd, yn dyst, neu'n ymwneud â gweinyddu unrhyw ymchwiliad neu achos sy'n ymwneud â methu cydymffurfio â'r Cod.

Ni waeth faint rydych chi'n pryderu am honiadau eich bod chi neu gynghorydd arall wedi methu cydymffurfio â'r Cod, ni ddylech ar unrhyw gyfrif fwlio, brawychu neu geisio brawychu unrhyw un sy'n ymwneud â'r ymchwiliad neu'r gwrandawiad. Hyd yn oed os nad ydych chi wedi torri amodau'r Cod, cewch ddweud eich dweud yn ystod unrhyw wrandawiad neu ymchwiliad annibynnol, a dylech ganiatáu i'r prosesau hyn ddilyn eu trywydd naturiol.

Os ydych chi'n brawychu tyst mewn ymchwiliad am eich ymddygiad, er enghraifft, efallai y byddwch yn destun cwyn arall oherwydd i chi fynd yn groes i baragraff 4(c) o'r Cod ynghylch bwlio neu harasio, er enghraifft, neu baragraff 6(1)(a) ynghylch dwyn anfri ar y swyddogaeth o fod yn aelod.

## Defnyddio eich safle'n amhriodol

**Gweler Paragraff 7(a)**

Rhaid i chi beidio â defnyddio na cheisio defnyddio eich safle'n amhriodol i roi mantais neu anfantais i chi'ch hun nac i unrhyw un arall. **Mae'r paragraff hwn yn berthnasol bob amser** ac nid dim ond pan rydych yn cyflawni eich dyletswyddau fel aelod. Ni ddylech ddefnyddio na cheisio defnyddio eich swyddogaeth gyhoeddus ychwaith er eich budd neu eich colled eich hun na budd na cholled eraill. Er enghraifft, byddai eich ymddygiad yn amhriodol pe byddech yn ceisio hyrwyddo eich buddiannau preifat eich hun drwy eich safle fel aelod. Mae hyn hefyd yn berthnasol os ydych yn defnyddio eich swydd i wella eich lles ar draul pobl eraill.

Mae angen i aelodau sy'n berchen ar dir, neu sydd â chysylltiad personol agos â phobl sy'n berchen ar dir, fod yn arbennig o ofalus yng nghyswllt materion cynllunio. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, dylech ofyn am gyngor. Mae hyn yr un mor berthnasol i aelodau cynghorau cymuned pan ymgynghorir â'ch Cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â chynllunio. Yn yr un modd, er ei bod yn rhesymol disgwyl i aelodau helpu etholwyr i wneud cais i'r Cyngor, er enghraifft, ar gyfer tai, mae'n gwbl amhriodol ceisio dylanwadu ar y penderfyniad a wneir gan y swyddogion.

Mae darpariaethau Deddf Llwgrwobrwyo 2010 yn berthnasol i aelodau sy'n cyflawni eu dyletswyddau cyhoeddus. Os ceir aelod yn euog o drosedd o dan y Ddeddf hon, mae'n debyg y bydd hefyd wedi defnyddio ei safle'n amhriodol (gan dorri paragraff 7(a)) ac wedi dwyn anfri ar swyddogaeth aelod neu ar ei awdurdod gan dorri paragraffau 6(1)(a). Os caf unrhyw gŵyn sy'n ymwneud ag ymddygiad a all fod yn drosedd, yna rwyf yn debyg o gyfeirio'r mater at yr heddlu.

**Enghraifft**

Roedd Cynghorydd D yn 'gydlynydd ar y cyd' ar grŵp cymunedol. Ni ddywedodd Cynghorydd D wrth y Cyngor am ei swyddogaeth yn y grŵp hwn. Cymerodd ran mewn ystyriaethau a phleidleisiodd ar y penderfyniad i negodi les newydd yng nghyswllt gweithdy a oedd yn cael ei ddefnyddio gan y grŵp cymunedol hwn. Daeth pwyllgor safonau i'r casgliad ei bod wedi defnyddio ei safle ar y Cyngor yn amhriodol gan fod y penderfyniad roedd hi wedi pleidleisio arno wedi bod o fudd i'r grŵp a'i bod yn amlwg bod ganddi fuddiant yn y grŵp hwnnw ac nad oedd wedi datgelu hynny i'r Cyngor. Penderfynwyd ei bod wedi torri paragraff 7(a) o'r Cod, a chafodd ei gwahardd rhag gweithredu fel cynghorydd am bedair wythnos.

## Adnoddau'r awdurdod

**Gweler Paragraff 7(b)**

Dim ond yn unol â'i ofynion y cewch chi ddefnyddio adnoddau'r Cyngor neu awdurdodi pobl eraill i wneud hynny. **Mae'r paragraff hwn yn berthnasol bob amser**. Pan fydd eich Cyngor yn rhoi adnoddau i chi (er enghraifft ffôn, cyfrifiadur a chyfleusterau TG eraill), dim ond ar gyfer cyflawni gwaith y Cyngor ac unrhyw weithgarwch arall y mae eich Cyngor wedi eich awdurdodi i'w defnyddio ar eu cyfer y cewch chi ddefnyddio'r rhain.

Rhaid i chi fod yn gyfarwydd â'r rheolau ynghylch defnyddio'r adnoddau hyn a wnaed gan eich Cyngor. Mae methu cydymffurfio â rheolau eich Cyngor yn debygol o olygu eich bod wedi torri amodau'r Cod. Os byddwch chi'n awdurdodi rhywun (er enghraifft aelod o'ch teulu) i ddefnyddio adnoddau eich Cyngor, rhaid i chi ofalu bod rheolau eich Cyngor yn caniatáu hyn.

## Defnyddio adnoddau at ddibenion priodol yn unig

**Gweler Paragraffau 7(b)(v) a 7(b)(vi)**

Rhaid i chi wneud yn siŵr mai dim ond at ddibenion priodol rydych chi'n defnyddio adnoddau'r Cyngor. Nid yw'n briodol defnyddio'r adnoddau at ddibenion gwleidyddol, gan gynnwys dibenion pleidiau gwleidyddol, nac awdurdodi pobl eraill i'w defnyddio yn y fath fodd. Wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor, os yw'n berthnasol rhaid i chi ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan eich Cyngor.

**Enghraifft**

Roedd un o aelodau cyngor sir wedi torri amodau'r Cod am ddefnyddio ei offer cyfrifiadurol, a oedd yn eiddo i'r Cyngor, yn amhriodol at ddibenion preifat drwy lawrlwytho delweddau pornograffig amhriodol o oedolion ac anfon nifer o lythyrau at bapur newydd lleol, gan honni mai aelodau o'r cyhoedd oedd yn eu hanfon. Canfu'r Panel Dyfarnu fod yr aelod wedi camddefnyddio offer y cyngor a'i fod wedi torri amodau'r Cod ac wedi dwyn anfri ar swyddogaeth aelod. Cafodd ei anghymwyso am 2 flynedd a 6 mis rhag bod, na dod, yn aelod o awdurdod lleol.

## Gwneud penderfyniadau'n wrthrychol

**Gweler Paragraff 8(a)**

Wrth gymryd rhan yng nghyfarfodydd eich Cyngor, neu wrth wneud penderfyniadau ynghylch busnes y Cyngor, rhaid i chi wneud hynny â meddwl agored ac yn wrthrychol. Yn ystod y broses penderfynu rhaid i chi weithredu'n deg ac ystyried budd y cyhoedd yn briodol.

Mae'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan gyngor cymuned yn ymwneud â materion lleol ac ariannu prosiectau lleol. Er bod faint o arian sy'n cael ei wario'n llai nag ar lefel sirol, rhaid i'r holl benderfyniadau gael eu gwneud ar sail y ffeithiau sydd o'ch blaen chi, a rhaid i chi beidio â phenderfynu ymlaen llaw i'r graddau eich bod yn hollol anfodlon ystyried yr holl dystiolaeth a chyngor a gewch chi. Rhagderfyniad yw'r enw ar fod â meddwl hollol gaeedig. Mae gennych hawl i fod â safbwynt ymlaen llaw ynghylch mater penodol cyn cyfarfod (rhagdueddiad) ar yr amod eich bod yn cadw meddwl agored a'ch bod yn fodlon ystyried rhinweddau'r holl ddadleuon a phwyntiau a wneir ynghylch y mater a drafodir cyn i chi wneud penderfyniad.

Mae rhagderfyniad ar y llaw arall yn golygu eich bod, yn amlwg, wedi penderfynu ar eich gweithredoedd cyn y cyfarfod ac yn gwbl amharod i ystyried y dystiolaeth a'r dadleuon a gyflwynir ar y mater hwnnw yn ystod y cyfarfod. Gallai rhagderfyniad wneud y penderfyniad yn annilys, a gallai hefyd olygu eich bod yn torri amodau'r Cod.

## Ystyried cyngor a roddir i chi a rhoi rhesymau

**Gweler Paragraff 8(b)**

Rhaid i chi ystyried yr holl gyngor a gewch gan eich Clerc. Fel rheol y Clerc yw'r Swyddog Priodol hefyd ac mae ei rôl yn cynnwys ymchwilio i'r polisi, y canllawiau a'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r cyngor sy'n cael ei roi wrth wneud penderfyniadau.

Mae cael cyngor mor gynnar ag sy'n bosibl bob amser yn ddefnyddiol. Os gallwch chi, gofynnwch am gyngor mewn da bryd cyn cyfarfod, yn hytrach nag yn y cyfarfod neu yn union cyn iddo ddechrau. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol i'r Clerc wrth iddo roi cyngor i chi.

Os ydych chi'n gofyn am gyngor, neu os rhoddir cyngor i chi, er enghraifft ynghylch a ddylech chi gofrestru buddiant personol, dylech ystyried y cyngor hwn cyn i chi benderfynu. Gallai peidio â gwneud hynny olygu eich bod yn torri amodau'r Cod.

Fel mater o arfer da, pan fyddwch yn anghytuno ag argymhellion y Clerc wrth wneud penderfyniad, dylech chi roi rhesymau clir dros eich penderfyniad. Os byddwch yn penderfynu pleidleisio mewn ffordd sy'n mynd yn groes i gyngor y Clerc, dylech sicrhau bod eich rhesymau dros wneud hynny'n cael eu cofnodi yn y cofnodion perthnasol.

## Treuliau

**Gweler Paragraff 9(a)**

Mae angen i chi ddilyn y gyfraith a gofynion eich Cyngor wrth hawlio treuliau a lwfansau. Os oes gennych chi unrhyw amheuaeth ynghylch eich hawliau, neu'r ffordd briodol o hawlio, dylech ofyn i'ch Clerc am gyngor. Mae angen i chi gadw cofnodion priodol o wariant wedi'u hategu gan dderbynebau pan fydd hynny'n briodol, er mwyn i chi allu cyflwyno tystiolaeth briodol o'ch hawliadau. Hyd yn oed os nad yw cynllun penodol yn mynnu eich bod yn cyflwyno derbynebau, fe'ch cynghorir yn gryf i gadw'r rhain er mwyn i chi allu profi faint rydych chi wedi'i wario ar yr eitemau rydych chi'n hawlio amdanynt.

## Rhoddion a lletygarwch

**Gweler Paragraff 9(b)**

Mae'n bwysig nad ydych chi'n derbyn unrhyw roddion na lletygarwch i chi eich hun, nac ar ran pobl eraill, a fyddai'n eich rhoi chi o dan rwymedigaethau neu'n ymddangos i wneud hynny. Gellid ystyried bod derbyn rhoddion neu letygarwch o'r fath yn tanseilio eich gallu i fod yn wrthrychol pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau neu'n cyflawni gwaith eich Cyngor. Mae hyn hefyd yn wir am unrhyw wasanaethau neu roddion ymarferol.

Nid yw hyn yn eich atal rhag mynd i ddigwyddiadau swyddogol fel derbyniadau dinesig neu giniawau gwaith pan fydd y rhain yn cael eu hawdurdodi gan eich Cyngor

## 3. Buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu

Mae elfennau'r Cod sy'n berthnasol i fuddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu yn arwain at nifer o gwestiynau gan aelodau. Eu bwriad yw diogelu egwyddorion anhunanoldeb a gwrthrychedd. Eu nod yw rhoi hyder i'r cyhoedd bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er budd gorau iddynt hwy, nid er budd gorau aelodau awdurdodau neu bobl mae ganddynt gysylltiad personol agos â nhw.

Mae buddiannau personol yn ymwneud â materion lle mae gennych chi, neu rywun mae gennych gysylltiad personol agos â nhw, rhyw gyswllt â mater sy'n cael ei drafod. Gall y buddiannau hyn fod yn rhai sy'n rhagfarnu pan allai arsyllwr annibynnol gwybodus ddod i'r casgliad y byddai'r buddiant yn dylanwadu ar eich pleidlais, neu ar eich penderfyniad.

Yn fy mhrofiad i, y gwahaniaeth rhwng buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu, a pha gam y dylai aelod ei gymryd yn dibynnu ar natur y buddiant, sy'n achosi'r anhawster mwyaf i aelodau.

Bwriad y paragraffau isod yw cynnig canllawiau ar gyfer hyn. Os oes gennych chi unrhyw amheuaeth ynghylch a oes gennych chi fuddiant personol neu fuddiant sy'n rhagfarnu, ac, os oes, beth y mae angen i chi ei wneud, byddwn yn argymell yn gryf y dylech chi ofyn i'ch Clerc am gyngor. Fodd bynnag, chi fydd yn dal yn penderfynu pa gam y dylid ei gymryd.

I'ch helpu gyda hyn, rwyf wedi amgáu siart llif ar gyfer y canllawiau hyn. Mae'r siart llif yn seiliedig ar ddogfen a baratowyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, a bydd yn eich helpu i ystyried y cwestiynau y dylech ofyn i chi'ch hun wrth benderfynu a oes gennych chi fuddiant. Dim ond enghraifft yw'r siart llif, ac nid yw'n derfynol.

Mae canllawiau ar gofrestru buddiannau ar gael yn Adran 4.

### Buddiannau personol

**Gweler Paragraff 10**

Oes gennych chi gyswllt neu gysylltiad agos â'r eitem o dan sylw?

Wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau, bydd angen i chi benderfynu a oes gennych chi fuddiant personol, ac os felly, a oes angen i chi ei ddatgelu. Mae'r rhan fwyaf o aelodau'n gwybod bod angen i chi ddatgelu buddiannau personol mewn cyfarfodydd, ond fel y byddwch yn darllen isod, bydd angen i chi wneud hynny ar adegau eraill hefyd, er enghraifft wrth siarad â'r Clerc ynghylch y mater o dan sylw.

Isod, gwelir rhai cwestiynau y dylech eu gofyn wrth benderfynu a oes gennych chi fuddiant.

### Oes gennyf fi fuddiant personol?

Mae gennych chi fuddiant personol yn unrhyw ran o fusnes eich Cyngor, gan gynnwys wrth wneud penderfyniadau, pan fydd hwnnw'n ymwneud â'r canlynol neu'n debygol o effeithio ar y canlynol:

1. eich swydd neu eich busnes
2. eich cyflogwr, neu unrhyw ffyrm lle rydych chi'n bartner neu'n gyfarwyddwr sy'n cael tâl
3. unrhyw un sydd wedi talu am gostau eich etholiad neu'ch treuliau fel aelod
4. unrhyw gwmni y mae gennych gyfranddaliadau ynddo gyda gwerth nominal dros £25,000 neu pan mae eich daliad dros 1% o gyfanswm y cyfalaf cyfrannau a gyhoeddwyd sydd ag eiddo neu dir yn ardal eich Cyngor
5. unrhyw gontract mae'ch Cyngor yn ei lunio â chwmni rydych chi'n bartner ynddo, yn gyfarwyddwr sy'n cael tâl neu mae gennych gyfranddaliadau ynddo fel y disgrifir yn 4
6. unrhyw dir mae gennych fuddiant ynddo ac sydd yn ardal eich Cyngor (mae hyn yn arbennig o bwysig ym mhob mater cynllunio gan gynnwys cynlluniau strategol)
7. unrhyw dir a osodir gan eich Cyngor i gwmni rydych chi'n bartner ynddo, yn gyfarwyddwr sy'n cael tâl neu gorff fel y nodir yn 4
8. unrhyw gorff rydych chi wedi cael eich ethol, eich penodi neu eich enwebu iddo gan eich Cyngor
9. unrhyw:
   - awdurdod neu gorff cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus eu natur
   - cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen neu gorff a gyfarwyddir at ddibenion elusennol
   - corff â'i brif rôl yw dylanwadu ar bolisïau neu farn gyhoeddus
   - undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol
   - clwb neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu yn ardal eich Cyngor rydych yn aelod ohono neu lle mae gennych safle o reolaeth gyffredinol, neu
10. unrhyw dir yn ardal eich Cyngor y mae gennych drwydded i'w feddiannu am o leiaf 28 diwrnod.

Mae bob amser yn fwy diogel datgan buddiant, fodd bynnag, holwch eich Clerc neu'ch Swyddog Monitro os oes gennych chi unrhyw amheuaeth.

### Materion sy'n effeithio ar eich lles neu eich sefyllfa ariannol

Os gellir gweld bod penderfyniad yn effeithio ar eich lles neu eich sefyllfa ariannol chi neu les neu sefyllfa ariannol unrhyw un sy'n byw gyda chi neu rywun y mae gennych gysylltiad personol agos â nhw, yn fwy na phobl eraill yn ardal eich Cyngor, mae gennych chi fuddiant personol. Mae enghreifftiau o benderfyniadau o'r math hwn yn cynnwys materion amlwg fel dyfarnu contractau i gwmni eich partner ond hefyd faterion ynghylch lleoliad datblygiadau, lle gallai wneud gwahaniaeth mawr i le rydych chi neu bobl mae gennych gysylltiad agos â nhw yn byw. Mae enghreifftiau wedi cynnwys lleoliad meysydd chwarae, lle mae aelodau etholedig wedi'u gwrthwynebu ger eu tai oherwydd materion sy'n ymwneud â sŵn.

### Beth yw "corff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus"?

Mae'r ymadrodd "corff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus" wedi cael ei ddehongli'n eang gan y llysoedd at nifer o ddibenion gwahanol. Er nad yw'n bosibl creu rhestr derfynol o gyrff o'r fath, dyma rai o'r meini prawf i'w hystyried wrth benderfynu a yw corff yn diwallu'r diffiniad hwnnw ai peidio:

- A yw'r corff hwnnw'n cyflawni gwasanaeth cyhoeddus?
- A yw'r swyddogaeth yn cael ei arfer o dan ddeddfwriaeth neu yn ôl rhyw bŵer statudol?
- A oes modd adolygu'r corff yn farnwrol?

Wrth gynnal busnes cyngor cymuned mae'n debyg y byddwch chi'n gweithredu ar gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus. Efallai eich bod hefyd yn gwneud hyn os ydych wedi cael eich penodi i weithredu ar ran y Cyngor ar grŵp buddiant neu brosiect cymunedol.

### Beth mae "effeithio ar les neu sefyllfa ariannol" yn ei olygu?

Mae modd disgrifio'r term 'lles' fel amod o fodlonrwydd a hapusrwydd. Mae unrhyw beth sy'n effeithio ar ansawdd eich bywyd, yn gadarnhaol neu'n negyddol, yn debygol o effeithio ar eich lles. Gall buddiant personol effeithio yn gadarnhaol ac yn negyddol arnoch chi neu ar bobl y mae gennych gysylltiad personol agos â nhw. Felly, os yw'n bosibl i chi neu'r bobl hynny ennill neu golli oherwydd mater sy'n cael ei ystyried, mae angen i chi ddatgan buddiant personol yn y naill sefyllfa a'r llall.

### Beth yw'r diffiniad o rywun mae gennych chi gysylltiad personol agos â nhw?

Mae rhywun mae gennych chi gysylltiad personol agos â nhw yn cynnwys pobl fel ffrindiau agos, cydweithwyr mae gennych gysylltiadau arbennig o gryf â nhw, pobl rydych chi'n eu hadnabod yn dda drwy fusnes a pherthnasau agos. Nid yw'n golygu cydnabod achlysurol, perthnasau pell na phobl rydych ond yn dod i gysylltiad â nhw drwy eich rôl fel aelod neu eich gwaith yn y gymuned leol.

> Mae pobl mae gennych chi gysylltiad personol agos â nhw yn cynnwys ffrindiau, perthnasau, cydweithwyr, pobl rydych chi'n eu hadnabod yn dda drwy fusnes a phobl rydych chi wedi anghydweld â nhw

Gall rhywun mae gennych chi gysylltiad personol agos â nhw hefyd gynnwys rhywun rydych chi wedi cael anghydfod â nhw, neu lle gellir ystyried y byddech yn achosi anfantais iddynt. Er enghraifft, ni fyddai bod yn aelod o'r un clwb golff â rhywun arall ynddo'i hun yn golygu bod gennych chi gysylltiad personol agos â nhw, ond gallai bod yn bartner golff wythnosol iddynt olygu bod gennych chi gysylltiad personol agos â nhw. Os nad ydych chi'n siŵr, dylech chi holi eich Clerc neu'ch Swyddog Monitro.

### Aelodau sy'n gwisgo "dwy het"

Os ydych yn aelod o gyngor cymuned ac o gyngor sir, ni chewch eich atal rhag trafod yr un materion yn y ddau le. Er enghraifft, gallwch gymryd rhan mewn trafodaeth am gais cynllunio yr ymgynghorwyd â'ch Cyngor Cymuned yn ei gylch, a pharhau i gymryd rhan mewn penderfyniad ynghylch y cais os ydych yn eistedd ar Bwyllgor Cynllunio eich Cyngor Sir.

Os byddwch yn gwneud hyn, fe'ch cynghorir yn gryf i ddweud yng nghyfarfod y Cyngor Cymuned y byddech chi'n edrych ar y mater o'r newydd wrth ei ystyried yng nghyfarfod y Cyngor Sir, ac y byddech chi'n ystyried yr holl wybodaeth a chyngor a roddir i chi. Yn y Pwyllgor Cynllunio, dylech ddweud yn glir nad ydych yn rhwym wrth farn y Cyngor Cymuned. Mae'r cyngor ynghylch gwneud penderfyniadau gwrthrychol yng nghyd-destun paragraff 8(a) y Cod yn berthnasol yn y sefyllfa hon hefyd.

Yn amlwg, os yw'r cais yn un a gyflwynir gan y Cyngor Cymuned, yna byddai gennych fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu, a byddai'n ofynnol i chi ei ddatgan a thynnu'n ôl yn unol â'r canllawiau isod ynghylch "beth i'w wneud pan fydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu".

### Enghraifft

Roedd Cynghorydd F wedi cymryd rhan mewn cyfarfod a oedd yn ystyried a ddylid cymeradwyo enwebiad yr achwynydd ar gyfer swydd llywodraethwr ysgol; roedd gŵr Cynghorydd F hefyd wedi gwneud cais am y swydd. Roedd y Panel Dyfarnu wedi penderfynu y dylai hi fod wedi datgan buddiant personol yn yr eitem oherwydd ei chysylltiad personol agos â'i gŵr, ond roedd hefyd o'r farn y bu hanes o elyniaeth tuag at yr aelod gan yr achwynydd a oedd wedi cael ei gofnodi'n gyhoeddus. Roedd ganddi hefyd fuddiant personol oherwydd ei chysylltiad personol agos â'r achwynydd.

Roedd elfen arall yn perthyn i'r gŵyn hon sef, ar ôl i'r achwynydd gwyno i mi ynghylch yr aelod, roedd yr aelod wedi eistedd ar Bwyllgor Safonau'r Cyngor pan roedd yn ystyried cwyn ar wahân gan yr achwynydd yn erbyn aelod arall. Roedd y Panel Dyfarnu o'r farn, yng ngoleuni'r berthynas elyniaethus rhwng yr aelod a'r achwynydd, y byddai wedi bod yn rhesymol credu bod cyfranegiad yr aelod yng ngwrandawiad y Pwyllgor Safonau yn effeithio ar les yr achwynydd oherwydd bod ganddi hawl i gael gwrandawiad teg a diduedd o'i chŵyn.

### Beth os nad ydw i'n gwybod am fy muddiant personol?

Dim ond pan rydych chi'n ymwybodol neu pan fyddai'n rhesymol disgwyl i chi fod yn ymwybodol bod y buddiant personol hwnnw'n bodoli y mae'ch dyletswydd i ddatgan buddiant personol mewn cyfarfod yn berthnasol. Yn amlwg, nid oes disgwyl i chi ddatgan rhywbeth nad ydych yn ymwybodol ohono. Byddai'n anymarferol disgwyl i chi ymchwilio i gyflogaeth, buddiannau busnes a gweithgareddau eraill eich holl berthnasau a phawb mae gennych chi gysylltiad agos â nhw. Fodd bynnag, ni ddylech chi anwybyddu bodolaeth buddiannau y dylech chi, yng ngolwg arsylwr rhesymol a gwrthrychol, fod wedi bod yn ymwybodol ohonynt.

## Beth i'w wneud pan fydd gennych fuddiant personol

**Gweler Paragraff 11**

> Ar ôl datgelu buddiant, cewch aros a chymryd rhan os nad yw eich buddiant yn un sy'n rhagfarnu

Os byddwch yn penderfynu bod gennych fuddiant personol, rhaid i chi gymryd y camau canlynol cyn i'r mater gael ei drafod neu cyn gynted ag y daw'n amlwg i chi, ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig:

- Datgan bod gennych fuddiant personol a natur y buddiant hwnnw
  - mewn cyfarfodydd
  - wrth gyflwyno sylwadau ysgrifenedig (gan gynnwys negeseuon e-bost, ffacs ayb)
  - wrth wneud sylwadau ar lafar, hyd yn oed os yw eich buddiant ar y gofrestr buddiannau.
- Cadarnhau eich buddiant dros e-bost neu'n ysgrifenedig i'r swyddog o dan sylw ac i'r Clerc cyn pen 14 diwrnod
- Ystyried a oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu (gweler isod).

Os ydych chi wedi cytuno â'ch Clerc neu'ch Swyddog Monitro bod y wybodaeth am eich buddiant personol yn wybodaeth sensitif, dylech chi ddatgan bodolaeth buddiant personol, a chadarnhau bod y Clerc neu'r Swyddog Monitro wedi cytuno bod y wybodaeth o dan sylw yn sensitif. Mae'r adran isod yn cynnwys rhagor o wybodaeth am hyn.

Os ydych chi'n datgan buddiant personol, cewch aros yn y cyfarfod, siarad a phleidleisio ar y mater, **oni bai fod eich buddiant personol hefyd yn fuddiant sy'n rhagfarnu**. Mae'r adran nesaf yn amlinellu'r hyn sy'n fuddiant sy'n rhagfarnu.

## Buddiannau sy'n rhagfarnu

**Gweler Paragraff 12**

> Peidiwch â gadael i'r hyn rydych chi'n credu ynddo ddylanwadu arnoch - meddyliwch beth fyddai aelod o'r cyhoedd yn ei feddwl

### Oes gennyf fi fuddiant sy'n rhagfarnu?

Bydd eich buddiant personol hefyd yn fuddiant sy'n rhagfarnu mewn mater os byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd, sy'n gwybod am y ffeithiau perthnasol, feddwl bod eich buddiant personol mor arwyddocaol ei fod yn debygol o liwio eich barn ynghylch budd y cyhoedd. Ceir eithriadau i hyn ym mharagraff 12(2) y Cod er ei bod yn annhebygol y bydd nifer o'r enghreifftiau'n berthnasol i fusnes sy'n cael ei gyflawni gan gyngor cymuned.

### Beth sydd mor arwyddocaol ei fod yn debygol o lywio eich barn?

Pe byddai aelod rhesymol o'r cyhoedd sy'n gwybod yr holl ffeithiau perthnasol yn meddwl y gallai fod eich barn er budd y cyhoedd wedi'i ragfarnu, yna mae gennych fuddiant sy'n rhagfarnu. Mae hwn yn **brawf gwrthrychol**. Rhaid i chi benderfynu ar hyn - nid a fyddech yn gwneud y penderfyniad heb ragfarn, ond a ellid gweld eich bod yn gwneud hynny.

Rhaid i chi ofyn i chi'ch hun a fyddai **aelod o'r cyhoedd**, petai'n gwybod am yr holl ffeithiau perthnasol, yn meddwl bod eich buddiant personol mor arwyddocaol y byddai'n debygol o liwio eich barn. Mewn geiriau eraill, rhaid i'r buddiant ymddangos fel pe bai'n gallu niweidio neu amharu ar eich gallu i farnu budd y cyhoedd.

Fel rheol ni fyddai'r ffaith bod gennych chi wybodaeth leol, neu gysylltiadau â'r gymuned leol, yn ddigon i ddiwallu'r prawf. Rhaid cael rhyw ffactor a allai niweidio eich gallu i farnu budd y cyhoedd yn wrthrychol. Mae natur y mater hefyd yn bwysig, gan gynnwys a yw'n effeithio ar nifer fawr o bobl yn yr un modd ynteu a oes effaith benodol arnoch chi neu ar grŵp llai.

Rhaid cofio rhai egwyddorion cyffredinol wrth ddefnyddio'r prawf hwn. Dylech weithredu er budd y cyhoedd yn amlwg ac nid er budd unrhyw bobl mae gennych gysylltiad agos â nhw. Rydych chi'n gwarchod y pwrs cyhoeddus a budd y cyhoedd, a dylai eich ymddygiad a'ch penderfyniadau adlewyrchu'r cyfrifoldeb hwn.

Byddai gennych fuddiant sy'n rhagfarnu yn yr ystyriaeth a'r penderfyniad ynghylch a ddylid cefnogi cais cynllunio petai rhywun mae gennych chi gysylltiad personol agos â nhw (er enghraifft eich mab neu gyfaill agos) yn byw drws nesaf i'r safle o dan sylw. Y rheswm am hyn yw oherwydd ei bod yn debygol y byddai'r cais yn cael mwy o effaith ar y sawl mae gennych chi gysylltiad personol agos â nhw nag ar y rhan fwyaf o'r bobl sy'n byw yn ardal eich Cyngor, ac mae hyn yn golygu bod gennych fuddiant personol yn y mater. Mae bodolaeth y cyswllt personol agos yn golygu y byddai aelod rhesymol o'r cyhoedd yn gallu meddwl y byddai hyn yn llywio eich safbwynt o fudd y cyhoedd wrth ystyried y cais cynllunio. **Nid oes gwahaniaeth p'un ai a fyddai'n gwneud hynny ai peidio**.

Mewn achosion eraill, lle bu anghydfod rhyngoch chi ac unigolyn y byddai penderfyniad yn gallu bod o anfantais iddo, gallai aelod gwybodus rhesymol o'r cyhoedd gasglu y byddech yn tueddu i bleidleisio'n unol â hynny, boed hynny'n wir ai peidio.

Nid oes gan gynghorwyr cymuned fuddiant sy'n rhagfarnu mewn penderfyniadau a wneir gan eu Cyngor yng nghyswllt grantiau, benthyciadau neu gymorth ariannol arall i grwpiau cymunedol neu i fudiadau gwirfoddol pan nad yw'r gwerth dros £500. Ar ben hynny, ni fydd gan gynghorwyr cymuned sydd wedi'u penodi i'r grŵp cymunedol neu i'r mudiad gwirfoddol o dan sylw, e.e. i fwrdd neuadd gymunedol, gan eu Cyngor Cymuned ddim buddiant sy'n rhagfarnu mewn penderfyniadau a wneir gan eu Cyngor yng nghyswllt unrhyw grantiau, benthyciadau neu unrhyw gymorth ariannol arall. Ar y llaw arall, os ydych chi ar fwrdd o'r fath yn eich rhinwedd eich hun ac nad ydych wedi cael eich penodi gan eich Cyngor, bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu.

## Beth i’w wneud pan fydd gennych fuddiant sy’n rhagfarnu

**Gweler Paragraff 14**

Os ydych chi’n credu bod gennych chi fuddiant sy’n rhagfarnu ym musnes eich Cyngor, bydd rhaid i chi gymryd camau priodol.

Er hynny, hyd yn oed pan fydd gennych fuddiant sy’n rhagfarnu, mae’r Cod yn cefnogi eich rôl fel eiriolwr cymunedol ac yn eich galluogi, mewn rhai amgylchiadau, i gynrychioli eich cymuned ac i siarad am faterion sy’n bwysig i’r gymuned ac i chithau.

**Pwynt allweddol**

Os oes gennych chi fuddiant sy’n rhagfarnu mewn mater sy’n cael ei drafod mewn cyfarfod, ar ôl i chi ddatgan eich buddiant personol yn y mater, rhaid i chi adael yr ystafell (neu unrhyw leoliad arall lle mae’r cyfarfod yn cael ei gynnal gan gynnwys, er enghraifft, lleoliad cyfarfod safle).

**Mae hyn yn berthnasol oni bai fod aelodau’r cyhoedd yn cael cyflwyno sylwadau, rhoi tystiolaeth neu ateb cwestiynau am y mater,** yn ôl hawl statudol neu fel arall. Os felly, cewch hefyd fod yn bresennol yn y cyfarfod i’r perwyl hwnnw. Fodd bynnag, rhaid i chi adael yr ystafell neu’r siambr ar unwaith ar ôl i’r cyfnod ar gyfer ystyried sylwadau ddod i ben, a chyn i unrhyw drafodaeth am yr eitem ddechrau, hyd yn oed os yw aelodau’r cyhoedd yn cael aros. Ni chewch aros yn yr oriel gyhoeddus i wylio’r bleidlais ar y mater.

Ar ben hynny, **rhaid i chi beidio â dylanwadu ar benderfyniad y mae gennych fuddiant sy’n rhagfarnu ynddo**. Mae’r rheol hon yn debyg i’ch dyletswydd gyffredinol i beidio â defnyddio eich safle fel aelod yn amhriodol i roi mantais neu anfantais i chi’ch hun neu i roi mantais neu anfantais i rywun arall. Mae hyn yn golygu y dylech adael cyfarfodydd pan mae’r eitem yn cael ei thrafod, ac na ddylech ychwaith ysgrifennu na gwneud unrhyw sylwadau ar lafar ynghylch y mater.

Nid yw’r Cod yn rhoi hawl gyffredinol i chi siarad gerbron cyfarfod pan fydd gennych fuddiant sy’n rhagfarnu. Mae’r Cod yn ceisio sicrhau bod gan aelodau yr un hawliau ag aelodau cyffredin o’r cyhoedd i siarad ar faterion penodol mewn cyfarfodydd, er gwaethaf y ffaith bod ganddynt fuddiant sy’n rhagfarnu. Fel rheol, caiff yr hawliau hyn eu llywodraethu gan gyfansoddiad, rheolau gweithdrefn neu reolau sefydlog eich Cyngor, a gallech fod yn rhwym wrth amodau gan gynnwys terfynau amser neu’r ffaith mai dim ond yn ysgrifenedig y ceir cyflwyno sylwadau.

Pe byddai aelod cyffredin o’r cyhoedd yn cael siarad gerbron cyfarfod am eitem, dylech chi gael yr un cyfle. Byddwch yn cael gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth, hyd yn oed os oes gennych fuddiant sy’n rhagfarnu yn yr eitem. Ni chewch gymryd rhan yn y drafodaeth na gwylio’r bleidlais.

**Pryd y bydd yn rhaid i mi adael lleoliad y cyfarfod?**

Rhaid i chi adael ar unwaith pan ddaw’r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau, rhoi tystiolaeth neu ateb cwestiynau i ben, a chyn i unrhyw drafodaeth ddechrau.

**Beth mae dylanwadu ar benderfyniad yn ei olygu?**

Rhaid i chi beidio â chyflwyno dim sylwadau na chymryd rhan mewn penderfyniadau mae gennych chi fuddiant sy'n rhagfarnu ynddynt, ac eithrio pan mae gennych chi hawl i siarad fel y disgrifir uchod. Gallai eich presenoldeb yn unig gael ei ystyried fel ffactor a allai ddylanwadu ar y broses penderfynu.

**Beth os nad yw'r cyhoedd yn cael siarad gerbron y cyfarfod am y mater?**

Os nad yw aelod cyffredin o'r cyhoedd yn cael siarad am y mater, ni chewch chi wneud hynny os oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu. Rhaid i chi adael y man lle cynhelir y drafodaeth a rhaid i chi beidio â cheisio dylanwadu ar y drafodaeth mewn unrhyw ffordd.

Gall hyn fod yn wir, er enghraifft, pan fydd eich Cyngor yn trafod mater cyfrinachol mewn sesiwn gaeedig neu pan nad oes ganddo reolau gweithdrefn na rheolau sefydlog ar waith sy'n caniatáu i aelodau'r cyhoedd siarad yn un o gyfarfodydd eich Cyngor. Yn yr un modd â'r cyhoedd, ni chewch chi gymryd rhan os oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu. Fodd bynnag, pan fydd y cyhoedd yn cael eistedd yn yr oriel gyhoeddus i wylio'r cyfarfod, **bydd yn rhaid i chi adael yr ystafell yn ystod y ddadl a'r bleidlais**.

**Enghraifft**

Roedd Cynghorydd R mewn gweithdy gyda'r Awdurdod Parc Lleol ynghylch ystyried tir i'w gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol. Yn y gorffennol roedd Cynghorydd R wedi cyflwyno cais am gael cynnwys tir roedd yn berchen arno yn y Cynllun Datblygu Lleol. Roeddwn o'r farn bod gan Gynghorydd R fuddiant sy'n rhagfarnu yn yr eitem a oedd yn cael ei thrafod gan y gallai'r canlyniad gael effaith sylweddol ar ei eiddo a gallai effeithio ar ei les ariannol. Penderfynodd y Pwyllgor Safonau ei fod wedi torri paragraff 14(1)(a) y Cod drwy beidio â datgan buddiant a gadael yr ystafell yn ystod trafodaethau ynghylch yr ardal lle'r oedd ei dir ei hun.

## Goddefebau

**Os oes gennyf fuddiant sy'n rhagfarnu, a allaf gael goddefeb i ganiatáu i mi gymryd rhan yn y cyfarfod?**

Gallwch wneud cais ysgrifenedig i Bwyllgor Safonau eich Cyngor Sir am oddefeb i siarad ac/neu bleidleisio ar fater neu fwy am un neu ragor o'r rhesymau canlynol:

- byddai o leiaf 50 y cant o aelodau'r Cyngor neu'r Pwyllgor yn cael eu hatal rhag cymryd rhan lawn mewn cyfarfod oherwydd buddiannau sy'n rhagfarnu
- mae natur eich buddiant o'r fath fodd na fyddai'r ffaith eich bod yn cymryd rhan yn niweidio hyder y cyhoedd
- mae eich buddiant yn gyffredin ymysg cyfran sylweddol o'r cyhoedd
- mae gennych rôl neu arbenigedd penodol a fyddai'n cyfiawnhau eich cyfranogiad

- mae'r busnes yn ymwneud â chyllid neu eiddo mudiad gwirfoddol ac rydych chi'n aelod o'i fwrdd neu ei bwyllgor yn eich rhinwedd eich hun ac nid oes gennych ddim buddiant arall, er yn yr enghraifft hon, ni fydd unrhyw oddefeb yn caniatáu i chi bleidleisio ar y mater, neu
- mae'r pwyllgor o'r farn y byddai eich cyfraniad er budd pobl yn ardal eich Cyngor a bod y pwyllgor yn hysbysu Gweinidogion Cymru cyn pen saith diwrnod.

Gallwch wneud cais am oddefeb yn unigol ac mewn rhai amgylchiadau, gallwch wneud ceisiadau ar y cyd pan fydd nifer o aelodau yn awyddus i gael goddefeb i siarad neu i bleidleisio ar yr un mater. Os bydd y Pwyllgor Safonau yn cymeradwyo eich cais, rhaid iddo roi'r oddefeb yn ysgrifenedig a chyn cynnal y cyfarfod. Os ydych yn awyddus i gael goddefeb, dylech wneud cais am un cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl.

Dim ond y Pwyllgor Safonau gaiff roi'r oddefeb a bydd yn gwneud hynny'n ôl ei ddisgresiwn. Bydd angen i'r Pwyllgor Safonau gydbwyso budd y cyhoedd mewn atal aelodau sydd â buddiannau sy'n rhagfarnu rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau gan grŵp o aelodau'r Cyngor sy'n weddol gynrychioladol. Os na fydd cyngor neu bwyllgor yn gallu sicrhau cworwm am nad oedd modd rhoi goddefeb, gall hyn fod yn rheswm dros roi goddefeb.

Pan fydd gennych oddefeb, gallwch hefyd wneud sylwadau ysgrifenedig ond rhaid i chi roi manylion yr oddefeb mewn unrhyw ohebiaeth. Os ydych chi'n gwneud sylwadau llafar, naill ai'n bersonol neu dros y ffôn, rhaid i chi gyfeirio at yr oddefeb a chadarnhau hyn ar bapur cyn pen 14 diwrnod.

# 4. Cofrestru Buddiannau

## Rhoddion a lletygarwch

### Pwyntiau allweddol:

Rhaid i chi roi gwybod i'ch Clerc am unrhyw roddion neu letygarwch sydd werth mwy na'r swm a bennwyd gan eich Cyngor a gewch yng nghyswllt eich dyletswyddau swyddogol fel aelod, a ffynhonnell y rhodd neu'r lletygarwch.

Yn yr un modd â buddiannau eraill yn eich cofrestr buddiannau, gall fod gennych **fuddiant personol** mewn mater sy'n cael ei ystyried os yw'n debygol o effeithio ar unigolyn a roddodd rodd neu letygarwch i chi sydd wedi'i gofrestru. Os hynny yw'r achos, rhaid i chi ddatgan bodolaeth a natur y rhodd neu'r lletygarwch, y sawl a'i rhoddodd i chi, sut y mae'r busnes o dan sylw yn berthnasol i'r unigolyn hwnnw ac wedyn penderfynu a yw'r buddiant hwnnw hefyd yn **fuddiant sy'n rhagfarnu**. Mae hefyd yn arfer da darparu nodyn o unrhyw gynigion o roddion rydych wedi'u gwrthod.

### A yw'r rhodd neu'r lletygarwch yn gysylltiedig â'm dyletswyddau swyddogol fel aelod?

Dylech ofyn i chi'ch hun, a fyddwn i wedi cael y rhodd hwn pe na bawn i ar y Cyngor? Os nad ydych chi'n siŵr o'r cymhelliant y tu ôl i rodd neu letygarwch, rwyf yn argymell eich bod yn ei gofrestru neu'n siarad â'ch Clerc.

Nid oes angen i chi roi gwybod i'ch Clerc am unrhyw roddion a lletygarwch nad ydynt yn berthnasol i'ch rôl fel aelod, fel anrhegion Nadolig gan eich ffrindiau a'ch teulu, na rhoddion nad ydych chi'n eu derbyn. Fodd bynnag, dylech bob amser roi gwybod i'ch Clerc am unrhyw rodd neu letygarwch petai modd ei weld fel rhywbeth a roddwyd i chi oherwydd eich safle neu os yw eich Cyngor yn mynnu eich bod yn gwneud hynny.

### Beth os nad wyf yn gwybod beth yw gwerth rhodd neu letygarwch?

Yn gyffredinol, os nad ydych chi'n siŵr beth yw gwerth rhodd neu letygarwch, dylech roi gwybod i'ch Clerc amdanynt, fel mater o arfer da ac yn unol ag egwyddorion bod yn agored ac yn atebol mewn bywyd cyhoeddus.

Efallai y bydd yn rhaid i chi amcangyfrif gwerth rhodd neu letygarwch. Hefyd, os ydych chi wedi cael nifer o roddion bach o'r un ffynhonnell dros gyfnod byr sydd, at ei gilydd, yn cyrraedd y gwerth a bennwyd gan eich Cyngor, dylech gofrestru hynny.

Mae'r Cod hefyd yn cyfeirio at fudd neu fantais faterol. Y ffordd o fesur hyn yw pe byddai arsyllwr annibynnol gwybodus yn gallu dod i'r casgliad y gellid gweld eich bod ar eich ennill o ganlyniad.

# Atodiad 1

## Datganiad o fuddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu

**Cwestiynau i ofyn i chi'ch hun. Os nad ydych yn siŵr, holwch eich Clerc neu eich Swyddog Monitro.**

**Oes gennych chi fuddiant personol?**
Oes gennych chi neu rywun y mae gennych gysylltiad agos â nhw gyswllt â'r mater o dan sylw?

**Oes** → **Rhaid** i chi ddatgelu i'r cyfarfod fod gennych fuddiant a natur y buddiant hwnnw

**Nac oes** → Nid oes raid i chi ddatgan buddiant

**Oes** →

**Oes gennych chi fuddiant personol sydd hefyd yn fuddiant sy'n rhagfarnu?**
A fyddai'n rhesymol i **aelod o'r cyhoedd**, sy'n gwybod am y ffeithiau perthnasol, feddwl bod eich buddiant personol mor arwyddocaol ei fod yn debygol o liwio eich barn ynghylch budd y cyhoedd?

**Oes/Byddai** → A oes eithriad yn berthnasol?

**Nac oes/Na fyddai** → **Rhaid i chi ddatgelu eich buddiant personol ond cewch:**
- Aros yn y cyfarfod
- Siarad
- Pleidleisio

A oes eithriad yn berthnasol? **Oes** → **Rhaid i chi ddatgelu eich buddiant personol ond cewch:** (fel uchod)

A oes eithriad yn berthnasol? **Nac oes** → A oes gan aelodau'r cyhoedd hawl i annerch y cyfarfod neu a oes goddefeb wedi'i rhoi i chi?

**Oes** → Cewch annerch y cyfarfod **ond rhaid i chi adael yr ystafell cyn bod y gwaith o ystyried y cais yn cychwyn neu rhaid i chi weithredu'n unol â'ch goddefeb**

**Nac oes** → **Ni chewch annerch y cyfarfod a rhaid i chi adael yr ystafell cyn i'r eitem gael ei thrafod.**

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**1 Ffordd yr Hen Gae**
**Pencoed**
**CF35 5LJ**
**Ffôn: 01656 641150**
**Ffacs: 01656 641199**

**E-bost: holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk**
**Gwefan: www.ombwdsmon-cymru.org.uk**
**Trydar: @Ombwdsmon**

ATODIAD / ENCLOSURE
3

ATODIAD / ENCLOSURE 3

TO Town/Community Council

Dear [Clerk]

I am pleased to confirm that I have issued revised Guidance on the Code of Conduct for members. Since taking up my office I have become increasingly concerned about the number of low level complaints that I am receiving from community and town council members. In view of this, I have revised the two stage test that I use when deciding whether to investigate a complaint that the Code has been breached or to continue with an investigation to the stage of referring the matter to a standards committee or the Adjudication Panel for Wales, to include consideration of any public interest factors that may apply to a case. This is to ensure that I continue to investigate serious complaints to maintain public confidence in standards of public life. Further information about the revised test and the public interest factors that I may apply is included in Section 1 of the revised Guidance. Other changes include further guidance on the use of social media and political expression and a flowchart which has been designed to provide members with assistance and clarity on the issue of interests.

No hard copies of the Guidance will be produced. However, copies can be downloaded from my website at www.ombudsman-wales.org.uk There is a separate version available for town and community councillors. I would appreciate it if you could bring this to the attention of your members so that they can familiarise themselves with the changes that I have made. I hope that the Guidance will continue to be a useful resource to both you and the members when considering their obligations under the Code.

Yours sincerely

Nick Bennett
Ombudsman

ATODIAD / ENCLOSURE
4

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

WLGA • CLILC

# Cyfryngau cymdeithasol: Canllaw i Gynghorwyr

Awst 2013

# Cysylltu

## Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)

Prif ddibenion WLGA yw hybu safonau ac enw da byd llywodraeth leol a helpu cynghorau i lunio polisïau a blaenoriaethau fydd yn gwella gwasanaethau cyhoeddus a democratiaeth.

Mae'n cynrychioli'r 22 awdurdod lleol ac mae'r 3 gwasanaeth tân ac achub a'r 3 pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.


**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
Caerdydd
CF10 4LG

Ffôn: 029 2046 8600

**www.wlga.gov.uk**



Cyhoeddwyd: Awst 2013


Hawlfraint: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru


ISBN: 978-1-906423-99-5



*Mae arnom ddyled i'r swyddogion a'r aelodau sydd wedi cyfrannau at y canllaw hwn, yn arbennig yr aelodau a gymerodd ran yn hyfforddiant WLGA i aelodau am Gyfryngau Cymdeithasol, y rhwydwaith swyddogion cymorth aelodau, LLG a Swyddogion Monitro a SOCITIM. Hefyd i Kevin O'Keefe o EXCELA INTERIM MANAGEMENT & CONSULTANCY LTD **www.excela.co.uk** sydd wedi cyfrannu at y canllaw ac wedi cyflwyno'r rhaglen hyfforddiant.*


*Oherwydd datblygiadau cyflym yn y maes hwn bydd y canllaw hwn yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd. Croesawn awgrymiadau i'w cynnwys ac mae hyfforddiant pellach i aelodau ar gael oddi wrth Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cysylltwch â Sarah Titcombe, Ymgynghorydd Datblygu Sefydliadau a'u Staff – 029 2046 8638 sarah.titcombe@wlga.gov.uk.*

# Rhagair

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno'r canllaw defnyddiol hwn am gyfryngau cymdeithasol sy'n rhoi syniad clir i gynghorwyr o beth yw'r arfau hyn a sut allwn ni eu defnyddio. Mae rhai syniadau gwych i'n helpu i feddwl am sut rydym yn manteisio i'r eithaf ar y ffurfiau cyfathrebu effeithiol a rhad hyn.

Mae cyfryngau cymdeithasol wedi newid sut rydym yn gweithio yn Sir Fynwy. Mae gan bob un o'n gweithwyr a'n haelodau ganiatâd i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ar unrhyw adeg er mwyn manteisio i'r eithaf ar beth sydd gan sianeli fel Twitter a Facebook i'w cynnig. http://acedigitalcomms.wordpress.com/2013/05/29/unrestricted-staff-access-to-social-media-access-a-roundup/

Yn fyr, maent yn ffordd hawdd o siarad â'n trigolion, busnesau lleol a chyrff partner eraill ac o wrando arnyn nhw. Heb fynediad i'r dulliau hyn byddem yn gorff gwannach gan na fyddem yn clywed beth sy'n bwysig i bobl yn ein cymunedau, y pethau maent eisiau cymryd rhan ynddynt a'u barn nhw am eu cyngor.

Mae cyfryngau cymdeithasol wedi rhoi cyfle i ni fod yn greadigol a rhoi cynnig ar bethau newydd. Mae ein gofalwyr maeth yn Sir Fynwy yn defnyddio Yammer i aros mewn cysylltiad a dysgu oddi wrth ei gilydd.
http://monmouthshirecc.wordpress.com/2012/03/12/rewind-story-fostering-communication-using-yammer/

Defnyddiwn YouTube i ymgynghori am ein cyllideb.
http://digitalmon.wordpress.com/2013/01/13/youtubing-a-budget-consultation-and-how-a-great-blogger-helped-us-get-better/

Gwnaethom ni hyd yn oed recriwtio pennaeth presennol ein gwasanaethau plant gan ddefnyddio YouTube, Twitter a Linkedin.
http://acedigitalcomms.wordpress.com/2011/07/11/social-care-recruiting-using-social-media-how-monmouthshire-council-is-recruiting-a-head-of-childrens-services-using-youtube/

Rwyf innau'n defnyddio Twitter a'm blog i gysylltu â thrigolion, cynghorwyr a ffermwyr eraill a phobl sy'n rhannu fy niddordebau i. Rwy'n gweld gwerth mawr yn y ffurf hon o gyfathrebu – mae cyfryngau cymdeithasol erbyn hyn yn arf busnes dilys.
http://digitalmon.wordpress.com/2013/01/12/councillor-peter-fox-leader-of-the-council-talking-about-social-media/

Gobeithio y mwynhewch y canllaw addysgiadol iawn hwn.



**Y Cynghorydd Peter Fox**
Arweinydd Cyngor Sir Mynwy
Llefarydd WLGA dros TGCh a Chynhwysiant Digidol

## Cyflwyniad

Mae chwyldro'n digwydd yn y ffordd rydym yn cyfathrebu. Mae'r byd yn gweld y newid mwyaf erioed mewn sut mae gwybodaeth yn cael ei chreu a'i meddiannu, yn ogystal â chyflymder gallu ei rhannu. Mae hyn yn newid sut rydym yn byw, yn gweithio a hyd yn oed sut rydym yn siarad ac yn meddwl.

Canllaw yw hwn ar gyfer Cynghorwyr a hoffai ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fel arf i rannu gwybodaeth, agor trafodaethau newydd â phobl yn eu cymuned a'r tu hwnt, ac ennyn diddordeb eu hetholaeth mewn sgwrs ddwy ffordd gynhyrchiol.

Rydym yn byw mewn byd cyfathrebu agored, hygyrch a dynamig.  Bydd defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn helpu i sicrhau bod eich llais chi'n cael ei glywed.

## 1. Beth yw cyfryngau cymdeithasol?

Term hollgynhwysol yw cyfryngau cymdeithasol i gyfeirio at amrediad o ddulliau aml-gyfrwng ar-lein sy'n cael eu defnyddio i greu cynnwys a chyfathrebu dwyffordd.  Mae modd eu cyrchu drwy eich ffôn smart, cyfrifiadur, gliniadur, tabled neu'ch teledu smart. Mae pob cyfrif cyfryngau cymdeithasol yn rhad ac am ddim ac mae modd eu sefydlu'n gyflym ac yn rhwydd o dudalen Rhyngrwyd. Er y bydd y canllaw hwn yn canolbwyntio ar Facebook a Twitter, mae enghreifftiau defnyddiol o gyfryngau cymdeithasol yn cynnwys:

**Blogiau** sy'n debyg i ddyddlyfr ar-lein lle gallwch chi rannu gwybodaeth. Mae enghreifftiau'n cynnwys Wordpress, Blogger, Simplesite.  Dyma enghraifft o blog nodweddiadol aelod - http://hughevans.wordpress.com/

> **Awgrym gorau**:
> Rhannwch eich meddyliau a'ch gweithgareddau, a rhowch sylwadau am y materion sydd bwysicaf i chi.  Gallai cadw blog rheolaidd ei gwneud hi gymaint yn haws i lunio'ch adroddiad blynyddol.

Mae **meicro-blog** yn caniatáu i ddefnyddwyr rhannu darnau byrrach o wybodaeth. Mae ***Twitter*** yn enghraifft o feicro-blog.  Mae negeseuon byr rydych chi'n eu postio ar Twitter yn cael eu galw'n "Drydarau" – mae pob un yn gyfyngedig i 140 o gymeriadau (llythrennau, rhifau a gofodau). Nid yw trydarau'n ddull cyfathrebu preifat a gall unrhyw un sy'n eich "dilyn" eu gweld nhw. Mae gan Twitter gyfleuster negeseuo hefyd lle gallwch anfon negeseuon yn uniongyrchol at ddefnyddwyr eraill Twitter. Fodd bynnag, gall pob neges o'r fath rydych yn ei chyfeirio'n bersonol gael ei gweld gan eich holl ddilynwyr eraill hefyd.  Gallwch chi hyd yn oed anfon Trydarau defnyddwyr eraill Twitter ymlaen at eich dilynwyr eich hun, drwy ddefnyddio'r swyddogaeth Aildrydar.

Tweeting is a good way of promoting local events, live tweeting @council meetings and to give links to longer posts. #Jaynecowan

**Awgrym gorau**:
Dilynwch a mynnwch gael eich dilyn. Mae Twitter yn ffordd dda iawn o gael gwybod beth sy'n digwydd, a barn pobl am faterion lleol a byd-eang. Gwrandewch yn gyntaf ac yna ymunwch yn y sgwrs.

Mae **Rhwydweithiau Cymdeithasol** fel ***Facebook*** yn debyg i gynnal eich gwefan bach eich hun sy'n gallu cynnwys lluniau a thestun ac yn gallu darparu gwybodaeth a ffotograffau. Yn nodweddiadol mae'r safleoedd hyn yn eich galluogi i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am beth rydych chi'n ei wneud neu'n ei feddwl drwy ddiweddaru 'statws' , gan adael i chi siarad am bwy ydych chi, beth sy'n bwysig i chi, beth rydych chi wedi ei wneud a'ch cynlluniau. Gallwch chi wahodd pobl i fod yn 'ffrindiau' i chi a gosod lefelau mynediad gwahanol i'ch cyfrif, fel bod rhai pobl yn cael gweld yr holl wybodaeth amdanoch chi neu gallwch drefnu bod llai o fanylion ar gael i bobl eraill. Hefyd gallwch ddefnyddio Facebook i gyfathrebu â grwpiau neu unigolion. Os bydd pobl yn ymddiddori yn eich tudalen, eich sylwadau neu'ch cynigion gallan nhw eich "hoffi" chi, sy'n annog defnydd pellach, ac yn ffordd ddefnyddiol o gynnal pôl gwelltyn o'ch syniadau.

Mae ***Linked-IN*** yn cyfateb i Facebook ar lefel broffesiynol. Gallwch ddarparu gwybodaeth am hanes eich gyrfa a'ch sgiliau, a gall pobl rydych yn "gysylltiedig" â nhw eich cefnogi chi ar gyfer sgiliau penodol. Mae hwn yn safle defnyddiol i ddod o hyd i arbenigedd a mynnu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau busnes yn eich ward neu'ch ardal.

Mae ***Flikr, Vimeo, Instagram*** a ***You Tube*** yn enghreifftiau o blatfformau i rannu fideo a ffotograffau. Peidiwch anghofio ofyn am ganiatâd cyn tynnu lluniau i'w llwytho i'r safleoedd hyn, neu gopïo delweddau ohonynt. Cymhwysiad am negeseuon lluniau yw ***Snapchat*** ar gyfer ffotograffau, fideo, lluniadau a thestun.

Mae **Cymunedau Ymarfer** yn ffordd i bobl o'r un bryd ymuno â chymuned lle gallant rannu gwybodaeth a thrafod materion sy'n berthnasol i'r Gymuned er enghraifft Porth Gwybodaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol.

## 2. Pam Dylech Chi Ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol?

Bydd cyfryngau cymdeithasol yn caniatáu i chi gychwyn sgyrsiau newydd â'r bobl rydych chi'n eu cynrychioli, ac mae'r potensial i gynghorwyr sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn aruthrol. Bydd gan eich Cyngor gyfrifon swyddogol ar Twitter yn barod a bydd cyfrifon Facebook gan lawer hefyd. Yn ogystal mae'n bosibl bod Pwyllgorau Craffu yn

defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ymgymryd ag adolygiadau gwasanaeth.

Felly beth yw manteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gynghorwyr?

- Mae nifer cynyddol o bobl yn defnyddio Twitter a Facebook fel y dull cyfathrebu sydd orau ganddynt. Os oes gennych chi bresenoldeb ar y platfformau hyn mae gennych y potensial i sefydlu cyfathrebu dwyffordd â phob un ohonyn nhw.
- Mae'n ffordd ddefnyddiol o ddysgu beth mae pobl yn siarad amdano'n lleol, eu pryderon a'u diddordebau.
- Mae'n ddefnyddiol ar gyfer dysgu am y newyddion diweddaraf un, yr ymchwil neu'r cyhoeddiad diweddaraf neu gyhoeddiadau polisi diweddaraf pleidiau gwleidyddol.
- Mae'n ffordd dda o sicrhau bod etholwyr yn fwy ymwybodol o'r gwaith rydych chi'n ei wneud yn bersonol.
- Mae'n ffordd effeithiol o gyd-drefnu ymgyrchoedd er enghraifft caniatáu mynediad i'ch cyfrif Facebook i weithwyr ymgyrchu.
- Mae cyfryngau cymdeithasol yn eich galluogi i gael sgwrs ag amrediad o bobl na fyddech chi byth yn gallu cwrdd â nhw'n gorfforol ac nad ydyn nhw'n draddodiadol yn mynd i gwrdd â'u cynrychiolwyr lleol.
- Mae cyfryngau cymdeithasol yn caniatáu am gyfathrebu ar fyrder. Gallwch drosglwyddo gwybodaeth a derbyn safbwyntiau mewn munudau. Gallwch chi anfon ymlaen gwybodaeth oddi wrth bobl eraill yr un mor gyflym. Nid yw "Mynd yn Firaol" yn beth drwg o reidrwydd, gan gyfeirio at ledaeniad torfol darn o wybodaeth ledled y byd.
- Bydd y wasg leol ac weithiau cenedlaethol yn dilyn Cynghorwyr ar Twitter neu Facebook. Mae hyn yn golygu eu bod yn gwybod beth rydych chi'n siarad amdano y funud rydych chi'n siarad amdano.
- Mae cyfryngau cymdeithasol yn symudol. Byddan nhw gyda chi o amgylch eich cymuned, ar y trên, mewn siop goffi neu fore coffi neu hyd yn oed yn y gwely.
- Gallwch chi lwytho lluniau a fideos, gan ddangos er enghraifft eich rôl chi mewn digwyddiadau lleol, lluniau o ddarpar safleoedd datblygiad, adeiladau newydd, doluriau llygad lleol – mae llun yn mynegi mil o eiriau.
- Mae'n rhad ac am ddim, nid oes unrhyw dâl am gyfrif, mae'n debyg bod gennych chi'r offer mae ei angen yn barod. Y cyfan mae arnoch ei angen yw amser.
- Gallwch gael adborth ar unwaith am eich syniadau a'ch maniffesto i'ch galluogi i addasu'ch cynigion yn unol â'r farn leol.
- Yn anad dim, mae'n gallu bod yn llawer o hwyl!

## 3. Sut i Ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol yn effeithiol

- Dewiswch eich cyfrwng a chofrestrwch. Mae hyn yn syml iawn a bydd yn cymryd llai na phum munud i chi!
- Mae Facebook a Twitter yn fannau cychwyn da. Efallai yr hoffech chi ddechrau gyda chyfrif personol fel treial (yn hytrach na galw'ch hun yn "Cynghorydd Jones") ac arbrofi gyda'ch teulu a ffrindiau. Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall sut mae pobl yn dod o hyd i chi a phwy sydd â mynediad i'ch deunydd chi. Cofiwch:

    - Ar Facebook gallwch chi reoli pwy sydd â mynediad i wahanol rannau o'ch cyfrif. Chi sy'n cael rheoli beth mae'r byd yn ei weld a beth mae'ch "ffrindiau" chi'n ei weld.
    - Ar Twitter gall y byd i gyd weld popeth rydych chi'n ei Drydar. Mae hyd yn oed y negeseuon rydych chi'n eu Trydar yn uniongyrchol i bobl eraill yn gallu cael eu gweld gan unrhyw un oni bai eich bod wedi cloi'ch cyfrif i lawr i ddilynwyr.

- Pan fyddwch chi'n barod i sefydlu'ch cyfrif terfynol, ystyriwch beth rydych yn galw arnoch chi'ch un. Mae'r enw rydych yn ei roi i'ch hunan ar-lein yn bwysig gan ei fod yn galluogi pobl i ddod i hyd i chi. Mae rhagflaenu'ch cyfrif Twitter â 'Cynghorydd' yn gadael i bobl wybod yn union pwy ydych chi ac yn arwydd y bydd y Cod Ymddygiad yn gymwys.

- Efallai y byddwch chi am ystyried sefydlu cyfrif personol a chyfrif "proffesiynol" ar wahân - gallwch chi siarad am y bwyd anhygoel yn y bwyty rownd y gornel wrth eich ffrindiau a'ch dilynwyr yn eich cyfrif anffurfiol, ac am y cynlluniau am y ffordd osgoi newydd wrth eich ffrindiau a'ch dilynwyr yn eich cyfrif proffesiynol.  Fodd bynnag, mae llawer o gynghorwyr yn meddwl bod rhai o'u sylwadau personol am fwyd, llefydd maen nhw wedi ymweld â nhw, gemau pêl-droed neu'r teledu yn helpu i chwalu canfyddiadau am gynghorwyr ac yn profi eu bod yn normal fel pawb arall!

> *I use Twitter to speak with residents and engage more broadly. Also to twitter on about books, music, trains and ale Almost human*
>
> @LukeOHolland
> Cynghorydd Caerdydd

- Gwnewch hi'n hawdd i bobl ddod o hyd i chi ar-lein. Bydd llawer o bobl yn dechrau chwilio Yn ôl yr ardal rydych chi'n ei chynrychioli, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn sôn am eich lleoliad yn aml gan y bydd peiriannau chwilio yn codi hynny wedyn. Hefyd byddwch chi am wneud yn siŵr bod manylion eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar eich cardiau busnes, posteri a dalenni.

- Ar Twitter, cofrestrwch ar Tweety Hall a safleoedd eraill lle mae etholwyr yn gallu dod o hyd i'w cynghorwyr.

- Cynyddwch eich presenoldeb ar y we drwy gysylltu â phobl a safleoedd eraill, gadael sylwadau am bostiadau eraill ac annog pobl eraill i gysylltu â chi. Po fwyaf y cewch eich enwi, mwyaf i gyd y bydd pobl yn dod o hyd i chi.

- Dewiswch eich ffrindiau ar Facebook a phwy hoffech chi eu dilyn ar Twitter. Cadwch mewn cof fod pobl yn gwybod pwy sy'n eu dilyn ac yn aml byddant yn eich dilyn chi yn gyfnewid. Dewch o hyd i bob ar Twitter sydd â chysylltiadau â'ch cymuned, eich sir neu'ch rhanbarth drwy chwilio gan ddefnyddio'r symbol 'hashtag' (#) i ragflaenu'ch term chwilio er enghraifft #Reynoldston, #Gŵyr, #Abertawe, #De-orllewin Cymru, #Cymru.

- Byddwch yn ddisgybledig ynghylch trefnu bod amser ar gael i ysgrifennu cynnwys newydd ac i ateb i'ch "ffrindiau" a "dilynwyr". Trefnwch amser rheolaidd bob wythnos i ddiweddaru'ch statws Facebook a thrwy gydol y dydd i wirio Twitter.

- Penderfynwch beth rydych chi'n mynd i siarad amdano a sut. Gallai hyn fod yn
  - Ddiweddariadau wythnosol am eich gweithgareddau eich hun fel cynghorydd – peidiwch ag anghofio'ch lluniau! Mae hyn yn gweithio'n well ar Facebook gan y gallwch chi gynnwys mwy o fanylion. Cofiwch mai dim ond 140 o gymeriadau a gewch chi ar Twitter ac mae'n tueddu i fod yn fwy uniongyrchol ac amserol
  - Diweddariadau rheolaidd am bolisïau a chamau gan y cyngor sydd o ddiddordeb i'ch cymuned
  - Cysylltiadau ac aildrydarau am weithgareddau cenedlaethol perthnasol eraill
  - Materion yr hoffech chi gael adborth arnyn nhw
  - Rhybudd am ddigwyddiadau a chyfarfodydd cyhoeddus

**Cofiwch** mai cyfathrebu dwyffordd yw hanfod defnyddio cyfryngau cymdeithasol, mae'n dda i ddarparu gwybodaeth i'ch cymuned neu dynnu sylw at ddatganiadau i'r wasg, ond mae'n well fel dull o gael adborth defnyddiol. Fe gewch chi adborth a dylech chi ddisgwyl i rai pobl herio'ch syniadau neu gychwyn trafodaeth â chi ar-lein. Mae hyn yn rhan gynhenid o gyfryngau cymdeithasol.

## 4. Moesau ac arddull

- Cadwch eich cyfathrebu'n glir, yn gadarnhaol, yn gwrtais ac yn broffesiynol. Mae iaith blaen yn helpu. Mae llawer o bobl yn defnyddio talfyriadau ar Twitter – byddwch chi'n dysgu'r rhain ar hyd y ffordd!
- Osgowch fod yn eironig neu'n wawdlyd, gall hynny gael ei gamddehongli.
- Ar Facebook, bydd angen i chi fonitro ac, os oes angen, sensro'r cyfraniadau mae pobl eraill yn eu gwneud at eich safle; dilëwch nhw os nad ydynt yn cyd-fynd â'ch safonau gofynnol ymddygiad neu iaith. Bydd iaith ddifenwol a thramgwyddus yn cael ei phriodoli i'r cyhoeddwr yn ogystal ag i'r awdur gwreiddiol ac fe allai olygu atebolrwydd ariannol. Chi biau'r penderfyniad a ydych chi am ddileu postiadau sy'n anghytuno â'ch safbwynt gwleidyddol, ond os byddwch chi'ch eu tynnu mae'n bosibl y cewch chi'ch cyhuddo o sensro cyfraniadau ar seiliau gwleidyddol.
- Ar Twitter, gallwch chi flocio pobl sy'n dramgwyddus neu'n flinderus yn gyson. Ond cofiwch fod eu blocio ond yn eu hatal rhag ymwneud â chi'n uniongyrchol, bydd eu trydarau yn dal i fod yn gyhoeddus i bob un o'u dilynwyr nhw.
- Cadwch mewn cof y gallai sgorio pwyntiau gwleidyddol fod yn anniddorol i etholwyr a bod yn well ganddynt glywed gwybodaeth am beth rydych chi'n ei gyflawni.
- Os nad oes rhaid i chi ddweud dim…peidiwch â dweud dim. Er bod temtasiwn i adael i'ch dilynwyr wybod pa mor brysur ydych chi, byddan nhw'n diflasu cyn hir ar ddiweddariadau cyson am eich diwrnod heb rywfaint o wybodaeth berthnasol neu ddiddorol.

## 5. Cefnogaeth oddi wrth y Cyngor

Fel arfer mae Cynghorwyr yn derbyn yr offer TGCh mae arnynt eu hangen i wneud eu swydd. Mae'r Panel Tâl Annibynnol yn disgwyl i hyn gynnwys offer, cefnogaeth a hyfforddiant TGCh.

Mae'n rhesymol hefyd disgwyl bod gennych chi fynediad i safleoedd cyfryngau cymdeithasol i'ch galluogi i gyflawni'ch rôl fel cynghorydd yn fwy effeithiol. Nid oes arnoch chi angen i'r cyngor sefydlu cyfrif personol cyfryngau cymdeithasol i chi ond dylech fanteisio ar unrhyw hyfforddiant neu arweiniad sy'n cael ei roi i'ch helpu i'w ddefnyddio'n briodol.

Mae gan y mwyafrif o gynghorau bolisi Cyfryngau Cymdeithasol. Bydd yn rhaid i chi barchu hwn ac unrhyw brotocolau Cyfryngau Cymdeithasol sydd wedi eu cytuno wrth ddefnyddio'ch cyfrif "cynghorydd".

Mae'n werth cofio mai'r cyngor sy'n gyfrifol am unrhyw wybodaeth a ddarperir ar ei wefan a'i fod yn dod o dan gyfrifoldebau cyfreithiol. **Chi** sy'n bersonol gyfrifol am y deunydd rydych yn ei ddarlledu drwy gyfrwng eich cyfrifon

cyfryngau cymdeithasol neu wefannau eich hun - ond mae mwy am hyn yn nes ymlaen.

Bydd cyngor ar gael i chi oddi wrth nifer o swyddogion y cyngor. Mae'n debyg y bydd cyngor defnyddiol gan y Swyddog Monitro, y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, y Tîm Cyfathrebu a'r Rheolwr TGCh.

## 6. Cyfryngau Cymdeithasol a Chyfarfodydd Cyngor

Yn ddiweddar, yn enwedig gyda dyfodiad gweddarlledu, bu cynnydd mewn diddordeb yn nefnydd Twitter mewn cyfarfodydd Cyngor. Bydd angen i chi gael eich arwain gan gyfansoddiad eich cyngor, wrth reswm. Ac eithrio'r hyn sydd yn eich cyfansoddiad neu'ch polisi cyfryngau cymdeithasol, nid oes unrhyw reswm cyfreithiol pam na ddylech chi ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol o gyfarfodydd. Fodd bynnag, mae angen defnyddio ychydig o synnwyr cyffredin.

- Mae trydar am gynnydd cyfarfod a derbyn sylwadau oddi wrth y gymuned yn gallu bod yn ddefnyddiol o safbwynt tryloywder ac ymgysylltu OND mae'n bosibl y bydd defnydd eithafol ar Twitter yn rhoi'r argraff i bobl nad ydych chi'n canolbwyntio ar y buses wrth law neu hyd yn oed yn dibynnu ar arweiniad o'r tu allan i'r cyfarfod. Am y rheswm hwnnw, yn fwy na thebyg mae'n synhwyrol peidio â defnyddio Twitter yn ystod trafodaeth gynllunio neu drwyddedu.

Efallai y bydd cadeiryddion Pwyllgor yn dymuno penderfynu sut i ddelio â hyn yn eu cyfarfodydd nhw a dylech chi barchu'r rheolau a bennir yn eich cyfansoddiad.

- Cofiwch, mae'n bosibl na fydd angen i chi drydar am fanylion cyfarfod – mae rhai cynghorau yn cyflwyno trefniadau newydd i weddarlledu cyfarfodydd ac mae'n bosib bod ganddynt borthiannau Twitter "swyddogol" am sgyrsiau byw ar-lein i redeg ochr yn ochr â chyfarfodydd.

- Os yw'ch cyngor chi yn gweddarlledu'ch cyfarfodydd, dyma ffordd ddefnyddiol i'r cyhoedd weld beth sy'n digwydd o lygad y ffynnon a sicrhau bod unrhyw recordiadau fideo yn gywir. Gall ffilmio cyfarfodydd yn anffurfiol, p'un ai cynghorwyr neu'r cyhoedd sy'n gwneud hynny, beri anawsterau ac fe arfer trafodir hyn yn y Cyfansoddiad. Fe all dynnu sylw oddi wrth y trafodion ac os bydd fersiwn wedi ei olygu yn ymddangos ar You Tube fe allai greu argraff anghywir.

- Cofiwch na ddylech chi drydar neu gyfathrebu mewn unrhyw ffordd gynnwys busnes esempt neu gyfrinachol sy'n cael ei drafod gan awdurdodau lleol mewn sesiwn caeëdig, er enghraifft wrth wneud penodiadau ffurfiol.

## 7. Y Gymraeg

Gallwch chi ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn iaith eich dewis; nid oes rhaid i chi gyfieithu'ch trydarau neu gyfrifon Facebook personol.

Fodd bynnag efallai y bydd ffrydiau cyfryngau cymdeithasol Cynghorau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wahân neu'n ddwyieithog. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn teimlo nad oes unrhyw angen i ffrydiau cyfryngau cymdeithasol fod yn ddwyieithog gan y bydd y ddwy ffrwd yn cael eu cyrchu gan gymunedau gwahanol ac yn ddigon ar gyfer pob un.[1]

Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymwybodol o reolau'ch Cyngor am ddefnydd y Gymraeg a bennir yn eich Cynllun Iaith Gymraeg.

## 8. Rheolau euraid

Meddyliwch cyn trydar neu bostio ar Facebook. Peidiwch â dweud dim, postio safbwynt na barn na fyddech chi'n fodlon:

- Ei drafod wyneb i wyneb gyda'r sawl rydych chi'n siarad amdano/amdani.
- Ei ysgrifennu ar hysbyslen a'i gario i lawr eich stryd fawr a'i drafod a'i amddiffyn gydag unrhyw un sy'n ei weld.
- Iddo gael ei gofnodi mewn cyfarfod cyhoeddus – cofiwch, yn y bôn mae Twitter neu Facebook yn cofnodi popeth yn gyhoeddus i chi wrth i chi fynd yn eich blaen!

Cofiwch ar ôl i chi ddweud rhywbeth y gallai gael ei weld gan filiynau o bobl - ffrindiau, cefnogwyr, gwrthwynebwyr gwleidyddol a'r wasg ac y gallai gael ei aildrydar o amgylch y byd mewn munudau.

Cadwch eich negeseuon yn broffesiynol, yn gwrtais ac yn bositif.

Cofiwch geisio cadw trydarau a negeseuon testun ar wahân – mae llawer o bobl yn trydar sylwadau y byddent wedi ei hanfon mewn neges destun i rywun yn breifat o'r blaen; gallai hyn fod am gwrdd yn nes ymlaen (ydych chi eisiau i'ch holl ddilynwyr wybod am eich cynlluniau a thorri ar draws eich cinio!?) drwodd i jôcs personol a allai gael eu camddehongli.

Peidiwch â dilyn unigolyn oni bai eich bod yn ei adnabod neu mae gennych chi reswm da dros wneud. Byddai rhai pobl, fel etholwyr neu weithwyr y cyngor, efallai'n teimlo'n anghysurus petai eu cynghorydd lleol yn dilyn pob gair maen nhw'n ei ddweud.

Os gwnewch chi gamgymeriad, cyfaddefwch hynny. Mae camgymeriadau'n digwydd felly peidiwch â cheisio ei guddio achos bydd cofnod o beth rydych chi wedi ei ddweud bob tro.

Peidiwch ag ymuno â dadleuon annefnyddiol ar-lein; cofiwch y bydd eich holl ddilynwyr neu ffrindiau yn dilyn hyn ar-lein. Anwybyddwch bobl neu eu blocio

[1] http://www.participationcymru.org.uk/home/all-wales-public-service-organisations-internet-and-social-media-survey?diablo.lang=cym

nhw os ydyn nhw'n gwneud sylwadau blinderus yn gyson.
Peidiwch â thrydar neu bostio ar Facebook pan fyddwch chi "wedi blino". Y peth synhwyrol mae'n debyg yw troi eich ffôn i ffwrdd ar unrhyw adeg pan gredwch fod eich barn o bosibl yn ddiffygiol.

Cadwch mewn cof ei bod yn bosibl i'ch dilynwyr a'ch ffrindiau gael eu gweld, os byddwch chi'n dilyn neu'n "ffrindiau" ar Facebook gyda gweithwyr y cyngor, contractwyr sydd wedi eu caffael i ddarparu gwasanaethau i'r cyngor, cwmni neu aelod o'r cyhoedd sy'n gwneud cais cynllunio neu garfannau pwyso. Fe *allai* hyn gael ei ystyried fel cysylltiad personol agos gyda nhw ac felly'n fuddiant personol.

Yn yr un modd â'ch taflenni neu'ch newyddlenni eich hun, gofynnwch am ganiatâd bob tro cyn tynnu llun rydych chi'n bwriadu ei ddefnyddio. PEIDIWCH BYTH â thynnu lluniau o blant heb ganiatâd penodol eu rhiant ar sail dealltwriaeth o beth rydych chi'n bwriadu defnyddio'r llun amdano. Bydd gan eich cyngor bolisi ar dynnu lluniau o blant, cymerwch gyngor ar hyn cyn tynnu neu ddefnyddio lluniau.

Peidiwch â gadael i neb arall gael mynediad i'ch cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Amddiffynnwch eich cyfrineiriau yn enwedig os byddwch chi'n defnyddio cyfrifiadur cyhoeddus.

Yn debyg i e-bost, gallwch chi dderbyn sbam mewn cyfryngau cymdeithasol! Byddwch yn wyliadwrus am negeseuon uniongyrchol drwy gyfrwng Twitter, hyd yn oed oddi wrth bobl rydych chi'n eu hadnabod, sy'n dwyn negeseuon fel 'Helo, ydych chi wedi gweld y ffoto yma ohonoch chi ar Twitter?' Dilëwch y rhain cyn eu hagor, gan y gallai'r sbam gael ei anfon wedyn at yr holl bobl rydych chi'n ei dilyn…

## 9. Maglau Posibl a Sut i'w Hosgoi

**Amser ac Ymroddiad**

Mae'n gallu cymryd amser i gynnal eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Mae llawer o bobl yn mynd ati'n frwdfrydig ac yna'n gadael i'w cyfrifon sefyll heb eu defnyddio. Mae hyn yn beryglus gan y gallai ffrindiau a dilynwyr gredu nad ydych chi'n weithgar neu, yn waeth, nad ydych chi'n ymateb.

I osgoi hyn:

- Sefydlwch gyfrifon y gallwch chi eu rheoli yn unig, dewiswch naill ai Twitter neu Facebook os oes angen. Mae'n bosibl sefydlu cysylltiadau rhwng y ddau a fydd yn eich arbed rhag dyblygu gwybodaeth.
- Rhowch amser o'r neilltu'n rheolaidd i'w diweddaru a dewch yn gyfarwydd â bachu'r cyfle i gyfathrebu wrth fynd a dod.

**Y Gyfraith**

Mae cynghorwyr sy'n newydd i gyfryngau cymdeithasol yn tueddu i boeni am y goblygiadau cyfreithiol. Mae'n ystyriaeth bwysig, ac mae rhai cynghorwyr a gwleidyddion eraill wedi torri'r gyfraith, ond drwy ddefnydd gofalus a dilyn rhai rheolau sylfaenol byddwch chi'n iawn!

Mae'r arddull gyfathrebu sy'n cael ei defnyddio yn amgylchedd cyfryngau cymdeithasol yn tueddu i fod yn gyflym ac yn anffurfiol. Gall negeseuon ymddangos yn fympwyol ac yn fyrhoedlog.

Pryd bynnag y cyhoeddwch chi rywbeth ar gyfryngau cymdeithasol, mae'n dod yn gyhoeddiad, mewn gwirionedd rydych chi wedi gwneud darllediad. Gan ei fod bellach yn y parth cyhoeddus, mae'n dod o dan y **Cod Ymddygiad** ac amrywiol **Gyfreithiau.**

**Y Cod Ymddygiad**

Os byddwch chi'n ymddwyn ar Twitter neu Facebook fel y byddech chi ar y stryd neu yn eich taflenni, yna byddwch chi'n berffaith iawn.

Cofiwch, yn ôl y canllawiau oddi wrth yr Ombwdsmon, fod y Cod Ymddygiad yn gymwys i chi pryd bynnag rydych chi'n "Cyflawni busnes eich awdurdod, yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu yn eich rhinwedd swyddogol fel aelod neu gynrychiolydd eich awdurdod". Mae'r Cod yn gymwys hefyd os byddwch chi'n "ymddwyn mewn dull y gellid ei ystyried yn rhesymol fel dwyn anfri ar eich swydd neu'ch awdurdod"[2]. Os gallwch chi gael eich adnabod fel cynghorydd pan fyddwch chi'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol, naill ai drwy enw'ch cyfrif neu sut rydych yn disgrifio'ch hun neu drwy'r hyn rydych chi'n rhoi sylwadau arno a'r sylwadau eu hunain, mae gofynion y Cod Ymddygiad yn gymwys. Hefyd os dwedwch rywbeth y gellid ei ystyried fel dwyn anfri ar eich swydd neu'ch awdurdod, mae'r Cod yn gymwys hyd yn oed na nad ydych yn ôl pob golwg yn gweithredu yn eich rhinwedd swyddogol neu'n adnabod eich hun fel aelod. Cofiwch fod canllawiau'r Ombwdsmon yn dweud "Gallai beirniadu'ch awdurdod yn annheg neu'n anghywir mewn arena gyhoeddus gael ei ystyried fel dwyn anfri ar eich awdurdod".

Yn yr un modd â'r gofynion arnoch o ran ymddygiad mewn cyfarfodydd cyngor neu yn eich cymunedau, dylech:

- **Ddangos parch tuag at eraill** – peidiwch â defnyddio cyfryngau cymdeithasol i fod yn anfoesgar neu'n amharchus
- **Peidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol am bobl neu'r cyngor**
- **Peidio â bwlio neu ddychrynu eraill** - gallai sylwadau negyddol cyson am unigolion neu tuag atynt gael ei ddehongli fel bwlio neu ddychrynu

2 http://www.ombudsman-wales.org.uk/cy-GB/publications/Guidance-policies.aspx

- **Peidio â cheisio sicrhau budd i'ch hunan neu anfantais i bobl eraill**
- **Parchu cyfreithiau cydraddoldeb** – peidiwch â chyhoeddi dim a allai gael ei ystyried fel gwahaniaethu ar sail hil, rhyw, oedran, yn homoffobig neu'n wrth-fydd. Hyd yn oed fel jôc neu "â'ch tafod yn eich boch".

**Rhagosodiad**
Fel cynghorydd, rydych yn ymwybodol pan fyddwch chi'n gweithredu mewn modd lled-farnwrol, er enghraifft ar bwyllgor cynllunio neu drwyddedu, na ddylech chi benderfynu ar fater sydd i'w benderfynu'n ffurfiol cyn i chi glywed yr holl wybodaeth berthnasol. Gallwch chi ragdueddu tuag at safbwynt penodol ond heb fynd mor bell â rhagosod eich safbwynt. Mae'n bwysig cofio felly y gallai unrhyw beth rydych chi wedi ei ddweud am faterion penodol ar gyfryngau cymdeithasol gael ei ddefnyddio'n dystiolaeth eich bod wedi penderfynu ymlaen llaw cyn clywed yr holl wybodaeth berthnasol.

**Tramgwyddau Troseddol**
Peidiwch â brawychu! Mae'r rhain fel rheol yn gymwys i chi yn barod o ran eich ymddygiad fel cynghorydd, ond mae'n werth eu hystyried fel maen nhw'n berthnasol i gyfryngau cymdeithasol:

**Aflonyddu** – Mae'n dramgwydd troseddol parhau i gynnal ymgyrch yn erbyn rhywun lle mae hyn yn debygol o beri gofid, aflonyddwch, niwsans neu drallod.

**Diogelu Data –** Mae'n anghyfreithlon cyhoeddi data personol am unigolion oni bai eu bod wedi rhoi eu caniatâd i chi. Gallai hyn fod yn gymwys i'ch etholwyr neu ddefnyddwyr gwasanaeth. Fel cynghorydd rydych yn rheolwr data yn eich hawl eich hun ac felly'n bersonol gyfrifol am yr hyn rydych chi'n ei gyhoeddi.
**Annog -** Tramgwydd troseddol yw annog unrhyw weithred droseddol.

**Gwahaniaethu a throseddau gwaethygedig Hiliol (neu unrhyw Nodwedd warchodedig arall) -** Tramgwydd troseddol yw gwneud sylwadau gwahaniaethol am unrhyw un ar sail "Nodwedd Warchodedig" fel y'u diffinnir yn y Ddeddf Cydraddoldeb (fel ei hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol ac ati).

**Cyfathrebiadau Maleisus ac Anllad –** Tramgwydd troseddol yw anfon cyfathrebiadau maleisus neu anllad.

**Y Gyfraith Sifil**
Dyma lle mae pethau'n mynd yn fwy peryglus i <u>unrhyw un</u> sy'n defnyddio Twitter neu Facebook, p'un a ydyn nhw'n gynghorwyr, yn aelodau o'r cyhoedd neu'n enwogion…

**Difenwi -** Mae yn erbyn y gyfraith i wneud datganiad ffug am rywun sy'n niweidio ei enw da personol neu broffesiynol. Yn hollbwysig - hyd yn oed os byddwch chi ond yn aildrydar neu'n trosglwyddo gwybodaeth a gafodd ei phostio'n wreiddiol gan rywun arall, gallwch chi gael eich dal yr un mor gyfrifol â'r sylwebydd gwreiddiol. Gall hyn fod yn wir am gyhoeddi delweddau hefyd. Os cewch eich dyfarnu'n atebol i rywun arall, gallech chi gael eich gorchymyn i dalu symiau mawr o arian fel iawndal.

**"High Court: Sally Bercow's Lord McAlpine tweet was libel"**

http://www.bbc.co.uk/news/world-22652083

**Hawlfraint -** Mae perchnogaeth gyfreithiol cynnwys dogfennau, ffotograffau, fideos a cherddoriaeth yn nwylo'r person a'u creodd. Gallech chi fod yn torri hawlfraint os byddwch chi'n atgynhyrchu deunydd o'r fath heb ganiatâd y perchennog. Gofynnwch am ganiatâd ysgrifenedig bob tro cyn defnyddio deunydd rhywun arall.

**Sylwadau gwleidyddol ac ymgyrchu dros etholiad -** Cofiwch er ei bod yn dderbyniol gwneud pwyntiau gwleidyddol neu ganfasio pleidleisiau drwy'ch cyfrifon cyfryngau cymdeithasol eich hun ni fydd hyn yn cael ei ganiatáu os ydych chi'n gwneud hyn drwy gyfrwng offer cyfrifiadur a ddarperir gan y cyngor, yn bendant felly wrth nesáu at etholiadau. Mae gan y Comisiwn Etholiadol fwy o wybodaeth am yr elw ar wariant y mae angen i ymgeiswyr ei ddarparu ar ddeunyddiau hysbysebu neu ymgyrchu.

## 10. Gwybodaeth bellach, safleoedd diddorol a Ffynonellau Cymorth

Cadwch mewn cof fod gwybodaeth, safleoedd a therminoleg yn newid yn gyflym. Mae Facebook eisoes yn adrodd gostyngiad yn nifer ei ddefnyddwyr. Ond bydd y platfform cyfryngau cymdeithasol mawr nesaf ar ei ffordd cyn pen dim. Dyma rai enghreifftiau cyfredol o wybodaeth a safleoedd defnyddiol ond cadwch mewn cof y gallant fynd yn hen yn gyflym iawn.

Cofrestrwch ar Twitter yma
https://twitter.com/

Cofrestrwch ar Facebook yma
https://en-gb.facebook.com/

**Tweety Hall.** Platfform sy'n casglu ynghyd yr holl Gynghorwyr sydd â chyfrifon Twitter yn y Deyrnas Unedig er mwyn i'w postiadau gael eu darllen mewn un man a gall y cyhoedd ddod o hyd i'w cynghorydd lleol nhw yn rhwydd. I ymuno â nhw mae ond angen anfon Trydar atyn nhw.
http://tweetyhall.co.uk/

**Cynghorwyr yr 21ain ganrif**
http://socialmedia.21st.cc/
Arweiniad defnyddiol i aelodau am ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.

http://kindofdigital.com/
asiantaeth arloesi ar-lein sy'n helpu cyrff i ymgysylltu ar-lein â dinasyddion, cymunedau a rhanddeiliaid. Mae ganddi enghreifftiau defnyddiol o ganllawiau ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae **Porth Gwybodaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol** yn enghraifft o gymuned ymarfer. Sefydlwyd hwn yn benodol ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes llywodraeth leol ac mae ganddo fforymau ar-lein, llyfrgelloedd llawn deunyddiau a manylion digwyddiadau.
https://knowledgehub.local.gov.uk

**Cyfryngau cymdeithasol a Chymuned Cydweithredu ar-lein.** Ymunwch â chymuned hon y Porth Gwybodaeth i siarad â chynghorwyr a swyddogion eraill sy'n gweithio gyda chyfryngau cymdeithasol.

## 11. Geirfa

**Blog**
Term sydd wedi dod o Weblog h.y. dyddlyfr neu ddyddiadur ar y rhyngrwyd

**Blogosffer**
Yr holl flogiau ar y rhyngrwyd

**Cymuned Ymarfer**
Grŵp o bobl sy'n aelodau o 'glwb' ar-lein am fod ganddyn nhw rôl neu ddiddordeb mewn maes gwaith

**Neges Uniongyrchol**
Neges sy'n cael ei hanfon drwy Twitter at rywun sy'n eich dilyn chi neu rydych chi'n eu dilyn nhw

***Facebook***
Enghraifft o Rwydweithio cymdeithasol

***Flikr***
Safle rhannu ffotograffau

**Dilynwr**
Rhywun sydd wedi dewis eich dilyn chi ar Twitter

**Ffrind**
Rhywun rydych chi wedi caniatáu mynediad iddynt i'ch tudalen Facebook. Nid o reidrwydd yn ffrind go iawn

**Fforwm**
Man trafod rhithwir

**#Hashtag**
Mae hashtag neu # yn ffordd o ddynodi gair allweddol a all gael ei ddefnyddio'n derm chwilio ar Twitter

***Instagram***
Platfform ar gyfer rhannu ffotograffau a fideos

**Instant Messaging**
Sgwrs ag un person arall drwy er enghraifft Microsoft Live Messenger neu Yahoo Messenger. Sgwrs sydd, os nodwch eich bod ar gael i sgwrsio, yn fwy uniongyrchol nag e-bost ac yn haws ei deipio na neges destun

**Meicroblog**
Blog byr e.e. Twitter sy'n defnyddio uchafswm o 140 o gymeriadau

***Pinterest***
Pinfwrdd rhithwir ar gyfer creu a rhannu delweddau

***RebelMouse***
Gwasanaeth rhad ac am ddim sy'n cysylltu â'ch cyfrifon mewn gwasanaethau fel Facebook, Twitter ac Instagram. Mae'n integreiddio'ch holl drydarau cyfryngau cymdeithasol, postiadau a blogiau'n awtomatig mewn un dudalen, gan hybu'ch presenoldeb cyfryngau cymdeithasol heb fod rhaid i chi wneud dim ychwanegol gan ei fod yn 'rhedeg yn y cefndir'. Bydd yn eich arbed chi rhag gorfod trydar eich blogiau ac ati i fod yn amlycach mewn peiriannau chwilio.

**Aildrydar**
Anfon ymlaen trydar rydych wedi ei dderbyn ar Twitter

**Porthiannau RSS neu borthiannau Really Simple Syndication**
Negeseuon o wefannau sy'n dweud wrthych chi bod gwybodaeth newydd ar gael fel nad oes rhaid i chi wirio'r wefan yn gyson am ddiweddariadau

**Meincnodi Cymdeithasol**
Dull o arbed a rhannu pob un o'ch hoff safleoedd ar y we, er enghraifft ***Delicious***

**Rhwydweithio cymdeithasol**
Facebook ac yn y blaen

***Snapchat***
Cmhwysiad negeseuon llun ar gyfer ffotograffau, fideos, darluniadau a thestun

**Sbam** post sothach electronig

**Trendio**
Pobl neu sgyrsiau sy'n boblogaidd ar hyn o bryd, fel *yn trendio ar Twitter ar y funud...*

**Trol**
Rhywun sy'n amharu ar gymunedau neu drafodaethau ar-lein drwy bostio pethau annefnyddiol neu amherthnasol

**Trydar**
Neges sy'n cael ei hanfon ar Twitter

***Tweety Hall***
Man ymgynnull rhithwir ar gyfer cynghorwyr sydd â chyfrifon Twitter

***Twitter***
Enghraifft o feicroblogio

***Vimeo***
Platfform i rannu fideo a lluniau

**Wikis**
Erfyn sy'n caniatáu i unrhyw un ychwanegu at gynnwys gwefan neu ei olygu

***Wikipedia***
Gwyddoniadur ar-lein sy'n gweithio gan ddefnyddio'r dull hwn ac felly nad yw bob amser yn fanwl gywir

***YouTube***
Platfform ar gyfer rhannu fideos a ffotograffau

# 5.10 Protocol ar Cyfryngau Cymdeithasol

## 1. Cyflwyniad

### 1.1 Diffinio cyfryngau cymdeithasol

1.1.1. Term cyfunol yw cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir i ddisgrifio cyfryngau ar-lein sy'n cynnig ffyrdd hawdd i gyhoeddi cynnwys ar-lein a hefyd i hwyluso a chymryd rhan mewn sgyrsiau ar-lein, a all wahodd postio sylwadau neu gyfraniadau neu fel arall wahodd trafodaeth.

1.1.2. Gall cyfryngau cymdeithasol ymwneud â rhwydweithiau cymdeithasol (ee Facebook); rhwydweithiau proffesiynol (ee LinkedIn); safleoedd cynnwys cymunedau (ee Flickr ac Youtube); blogiau (ee drwy safleoedd fel Wordpress a Blogger); safleoedd meicroflogio (ee Twitter). Gellir cael mynediad i gyfryngau cymdeithasol drwy ddefnyddio amrywiaeth o offer digidol fel gliniaduron, ffonau deallus a llechen, y gellir eu defnyddio hefyd i ddal gwybodaeth glyweledol.

### 1.2. Cwmpas

1.2.1. Bwriadwyd y protocol hwn i nodi'n glir sut y dylai Aelodau Etholedig ryngweithio â chyfryngau cymdeithasol, fel Cynghorwyr Sir ac fel unigolion preifat. Mae'r protocol hefyd yn ymwneud â'r defnydd a wneir o gyfryngau cymdeithasol gan aelodau o'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfodydd y Cyngor, cyfarfodydd Pwyllgor Gwaith a phwyllgorau eraill. Cydnabyddir bod y ffaith nad oes datganiad terfynol ar y sefyllfa ynglŷn â'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau Etholedig a'r cyhoedd yn ystod cyfarfodydd wedi arwain at rywfaint o ansicrwydd ar ran Cadeiryddion o safbwynt cynnig ymateb derbyniol i faterion megis ffilmio cyfarfodydd gan y cyhoedd. Y bwriad, felly, yw y bydd y Protocol yn darparu cyfarwyddyd ynghylch y defnydd a ganiateir o gyfryngau cymdeithasol i Gadeiryddion yn ystod cyfarfodydd.

1.2.2. Nid yw'r Protocol yn ymwneud â Swyddogion y Cyngor - mae polisïau TGCh ar wahân yn berthnasol iddynt hwy.

1.2.3. Mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau Etholedig wedi'i gynnwys dan ran 2.1 y Protocol. Mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau Etholedig yn ystod cyfarfodydd yn cael ei drafod yn 2.1.5.

1.2.4. Mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan aelodau o'r cyhoedd yn ystod cyfarfodydd yn dod dan ran 2.2 y Protocol.

### 1.3. Cefndir

1.3.1. Gall cyfryngau cymdeithasol chwarae rhan bwysig yng ngweithrediad cymdeithas ddemocrataidd drwy gynnig cyfleoedd cadarnhaol i'r Cyngor a'i Aelodau Etholedig ymgysylltu gyda dinasyddion Ynys Môn. Er enghraifft, gall cyfryngau cymdeithasol fod yn ffordd effeithlon a chost effeithiol i'r Cyngor gadw mewn

cysylltiad â thrigolion a busnesau. Gall Aelodau Etholedig hefyd wneud defnydd effeithiol o gyfryngau cymdeithasol i ryngweithio ag etholwyr ac i gefnogi democratiaeth leol. Mae tystiolaeth y gall cyfryngau cymdeithasol, o'u defnyddio'n effeithiol, ymgysylltu â'r rhai na fyddent fel arall yn cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth leol neu yn rhyngweithio gyda'u Haelodau Etholedig.

1.3.2. Mae'n amlwg fod y defnydd o gyfryngau cymdeithasol hefyd yn cyflwyno risgiau a heriau penodol i'r Cyngor a'i Aelodau Etholedig. Yn benodol, gall y defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau Etholedig o bosibl arwain at dorri'r Côd Ymddygiad. Felly, mae'n bwysig bod Aelodau Etholedig yn cydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cyfryngau cymdeithasol a sicrhau nad ydynt yn eu defnyddio mewn ffordd sy'n torri'r Côd Ymddygiad.

1.3.3. Y bwriad yw y bydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn ystyried y Protocol wrth benderfynu ar honiadau o dorri'r Côd Ymddygiad yn cynnwys y defnydd o gyfryngau cymdeithasol.

**2. Cyfryngau Cymdeithasol a'r Cyngor**

2.1. Defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau Etholedig

2.1.1. Mae'n debygol y gall y defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau Etholedig gynnwys cymryd rhan mewn cyfryngau a noddir gan y Cyngor, megis Blog yr Arweinydd; defnydd a wneir mewn capasiti preifat, neu sy'n ymddangos yn breifat, drwy gyfrif preifat; cyfranogiad dienw gyda, neu gyfraniad i flogiau, fforymau neu safleoedd cyfryngau cymdeithasol eraill.

2.1.2. Mae Aelodau wedi eu hymrwymo i lynu wrth delerau ac amodau'r safleoedd cyfryngau cymdeithasol unigol. Yn ogystal, dylai Aelodau gydnabod y gallai eu defnydd o gyfryngau cymdeithasol ddod dan y Côd Ymddygiad, ac mae'n debygol y gallai unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r gyfraith a chytundebau defnyddwyr y safleoedd hyn dorri'r Côd Ymddygiad. Yn benodol, dylai Aelodau osgoi defnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn ffordd sy'n awgrymu rhagfarn a rhagbenderfyniad.

2.1.3. Yn ogystal â materion sydd wedi'u cynnwys yn y Côd Ymddygiad, rhaid atgoffa Aelodau y gall eu defnydd o gyfryngau cymdeithasol fod â goblygiadau dan y gyfraith gyffredinol, a all fod â chanlyniadau difrifol i Aelod Etholedig.

2.1.4. Awgrymir y gall yr anawsterau posibl sy'n deillio o'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gael eu hosgoi os yw'r wybodaeth a gyhoeddir gan Aelodau yn wrthrychol, yn gytbwys, yn llawn gwybodaeth ac yn gywir. Gall effeithiau cyhoeddi gwybodaeth ar-lein fod yn rhai hirbarhaol, gan fod mynediad i gynnwys a gyhoeddir ar-lein yn hollbresennol, ac i bob pwrpas wedi ei gyhoeddi am byth.


Awdur: Gwasanaethau Cyfreithiol, Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn
cyfraithpolisi@ynysmon.gov.uk

2.1.5. Ni ddylai Aelodau ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd. Mae'r cyfyngiad hwn yn cynnwys gwaharddiad ar wneud sylwadau ar y pryd ar unigolion neu faterion eraill a hefyd ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd.

2.1.6. Yn ogystal, dylai Aelodau geisio osgoi rhoi'r argraff i eraill nad ydynt yn rhoi sylw llawn i weithgareddau'r cyfarfod. Gellid gwneud hyn drwy sicrhau fod dyfeisiau symudol yn cael eu defnyddio'n ddarbodus ac yn ddiffwdan yn ystod cyfarfodydd.

2.1.7. Dylai Aelodau osgoi defnyddio dyfeisiau symudol i anfon neu i dderbyn gwybodaeth nad yw'n gysylltiedig â'r materion dan ystyriaeth yn y cyfarfod.

Dylai'r defnydd a wneir o ddyfeisiau symudol i anfon neu dderbyn negeseuon preifat neu anfon e-bost yn ystod cyfarfodydd fod yn rhesymol ac yn synhwyrol.

Dylai Cadeiryddion geryddu unrhyw Aelod y mae ei ddefnydd o ddyfeisiau symudol yn ystod cyfarfodydd yn cael ei ystyried yn ormodol.

2.1.8. Bydd y paragraffau canlynol o'r Côd Ymddygiad yn berthnasol i'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol ac ymddygiad arall ar-lein. Mae hawliau Aelodau dan Erthyglau 8 a 10 (Atodlen 1) Deddf Hawliau Dynol 1998 wedi cael eu hystyried.

2.1.8.1.Mae paragraff 5.4(a) "cyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd";

Dylai'r Aelodau sicrhau nad yw eu defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn torri egwyddorion cydraddoldeb y Cyngor. Bydd datganiadau gwahaniaethol hefyd yn debygol o fod yn anghyfreithlon

2.1.8.2.Paragraff 5.4 (b) "dangos parch ac ystyriaeth at eraill";

Dylai Aelodau fod yn ymwybodol nad yw sylwadau gwleidyddol a mynegi safbwyntiau a dadleuon gwleidyddol yn cael eu llesteirio gan y Côd Ymddygiad, ond ei bod yn debygol y gallai sylwadau personol a anelir at unigolyn gael eu gweld fel rhywbeth amharchus a allai olygu torri'r Côd.

Atgoffir yr Aelodau y gallai eu defnydd o gyfryngau cymdeithasol arwain at enllibio unigolyn arall. Mae hyn yn berthnasol hefyd os yw Aelod sydd â safle cyfryngau cymdeithasol personol yn caniatáu i unrhyw unigolyn gyhoeddi cynnwys enllibus arno.

2.1.8.3.Paragraff 5.4 (c ) "peidio ag ymddwyn fel bwli neu aflonyddu ar unrhyw berson"

Dylai Aelodau fod yn ofalus pan yn gwneud sylwadau personol am unigolion ac ni ddylid byth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i adolygu a thrafod perfformiad staff y

Cyngor. Ni fydd y Cyngor yn goddef unrhyw ddefnydd dienw o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau sy'n cael ei ystyried yn fwlio neu yn aflonyddu ar unrhyw berson.

Dylai Aelodau sy'n cynnal blog neu safle rhwydweithio (fel Twitter) fod yn ymwybodol y gallai sylwadau eraill ar y safleoedd hynny gael eu priodoli i'r Aelod drwy gysylltiad. Dylai Aelodau sicrhau bod sylwadau difenwol neu anweddus yn cael eu tynnu oddi ar eu safleoedd personol.

2.1.8.4.Paragraff 5.5 (a) "datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heb dderbyn caniatâd penodol person a awdurdodwyd i roi caniatâd o'r fath, neu oni bai fod y gyfraith yn dweud fod yn rhaid gwneud hynny"

Dylai Aelodau fod yn sicr bob amser nad yw gwybodaeth y maent yn ei thrafod neu'n ei datgelu ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn wybodaeth gyfrinachol a'i bod yn briodol i wneud hynny. Dylai Aelodau gofio fod y wybodaeth a roddir ar wefan, boed yn ddienw neu beidio, ac na ellid bod wedi ei chael ond gan Aelod, yn debygol o ddisgyn o dan y Côd.

Ni ddylai Aelodau fyth gyhoeddi data personol unigolion ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn groes i Ddeddf Diogelu Data 1998.

Dylai Aelodau osgoi torri hawlfraint drwy gyhoeddi delweddau neu destun ar safle cyfryngau cymdeithasol sydd yn eiddo deallusol rhywun arall.

2.1.8.5. Paragraff 10 (2)(c )(1) Diddordeb personol: "neu unrhyw berson y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef/hi"

Defnyddir termau amrywiol i ddiffinio cysylltiadau a chyfeillach ar amrywiol safleoedd cyfryngau cymdeithasol. Mae'r termau hyn yn cynnwys 'ffrindiau' (Facebook) a 'dilynwyr' (Twitter) . Dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol y gallai unrhyw berson y maent yn ei gynnwys fel cyswllt ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol gael eu hystyried at ddibenion y Côd Ymddygiad fel cyswllt personol agos. Dylai Aelodau fod yn ofalus nad yw eu defnydd o safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn rhoi'r argraff bod gwrthdaro o ran buddiannau. Byddai'n ddoeth i Aelodau, wrth greu eu cynnwys eu hunain ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol, geisio pwysleisio'r gwahaniaeth rhwng cynnwys busnes a thudalennau sy'n cynnwys deunydd personol.

2.1.8.6.Paragraff 12 (1) Diddordebau sy'n rhagfarnu: "… y byddai aelod o'r cyhoedd sydd â gwybodaeth am y ffeithiau perthnasol yn ystyried yn rhesymol eu bod mor arwyddocaol fel y byddant yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch budd y cyhoedd".

Dylai Aelodau fod yn ofalus nad yw eu defnydd o safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn rhoi'r argraff bod ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater.

2.1.9. Mae Aelodau Etholedig wedi eu hymrwymo i'r Côd Ymddygiad os ydynt yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gynnal busnes y Cyngor neu yn cynrycholi'r Cyngor. Fodd bynnag, gallai Aelod Etholedig fod yn agored i honiadau ei fod ef/hi wedi torri'r Côd Ymddygiad os yw'r defnydd a wneir o gyfryngau cymdeithasol yn amhriodol ac nad yw ef/hi yn cynnal busnes swyddogol, ond dim ond yn hawlio neu'n rhoi'r argraff ei fod ef/hi yn gweithredu yn swyddogol.

2.1.10. Gall defnydd dienw o'r cyfryngau cymdeithasol gan Aelodau hefyd arwain at dorri'r Côd lle gellir dangos bod Aelod wedi llwytho i fyny gynnwys y safle a'i fod yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd.

2.1.11. Er mwyn penderfynu a yw Aelod yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd, byddai angen ystyried cyd-destun defnydd Aelod o gyfryngau cymdeithasol, gan gymryd i ystyriaeth ffactorau megis:

Proffil cyhoeddus Aelod, a all arwain at dybiaeth resymol fod yr Aelod yn gweithredu fel Cynghorydd Sir;

Y gosodiadau preifatrwydd ar y safle cyfryngau cymdeithasol neu blog. Cyfrifoldeb yr Aelod yw sicrhau bod gosodiadau preifatrwydd priodol yn eu lle. Os gall etholwyr gael mynediad i sylwadau a wnaed gan yr Aelod, fe allant dybio'n rhesymol bod yr Aelod yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd.

Dylai Aelodau geisio galluogi defnyddwyr eraill y cyfryngau cymdeithasol i osgoi unrhyw gamddealltwriaeth dros statws swyddogol, neu fel arall, cyfraniadau'r Aelod.

2.1.12. Dylai Aelodau osgoi trafod busnes y Cyngor ar safle cyfryngau cymdeithasol personol, neu wneud sylwadau am eraill. Nid yw'n ddigonol i Aelodau wedyn hawlio fod unrhyw sylwadau y ceir anghydfod yn eu cylch wedi eu gwneud yn breifat.

2.2. Y cyhoedd yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd y Cyngor

2.2.1. Mae'r Cyngor yn cydnabod y newid diwylliannol tuag at ganiatáu'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol mewn bywyd cyhoeddus. Bydd y Cyngor felly yn caniatáu'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan y cyhoedd yn ystod ei gyfarfodydd ar yr amod nad yw'r defnydd yn tynnu sylw ac nad yw'n amharu ar y cyfarfod. Nid yw'r Protocol yn effeithio ar ddyletswyddau'r Cadeirydd i sicrhau a chynnal trefn dda'r cyfarfod busnes.

2.2.2. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ofyn i aelodau o'r cyhoedd roi offer digidol i ffwrdd os yw ei weithrediadau yn ymyrryd â gweithrediad offer sain-weledol neu systemau eraill y Cyngor.

2.2.3. Mae'r Cyngor yn goddef y defnydd o gyfryngau digidol gan y cyhoedd, megis ffonau deallus, i ffilmio ei gyfarfodydd, ar yr amod nad yw'r defnydd yn tynnu sylwl ac nad yw'n amharu ar y cyfarfod. Cyfrifoldeb unrhyw aelod o'r cyhoedd yw gwneud defnydd o gyfryngau cymdeithasol mewn ffordd a fydd yn cydymffurfio â'r gyfraith


Awdur: Gwasanaethau Cyfreithiol, Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn
cyfraithpolisi@ynysmon.gov.uk

2.2.4. Pan fydd cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu ffilmio gan y cyfryngau efallai y bydd hynny'n cael ei ystyried yn rhywbeth sy'n tynnu sylw mwy ac sy'n tarfu mwy ar y cyfarfod a hynny oherwydd natur yr offer digidiol a ddefnyddir. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod cais gan y cyfryngau i ffilmio cyfarfodydd, ond bydd yn caniatáu ffilmio cyn i unrhyw gyfarfod ddechrau drwy drefniant ymlaen llaw.

2.2.5. Ni ddylai offer digidol gynhyrchu unrhyw sŵn amlwg a allai darfu ar gyfarfodydd. Ni ddylai'r cyhoedd ateb galwadau ffôn yn ystod cyfarfodydd, gan fod hyn yn debygol o darfu ar y cyfarfod. Rhaid i Gadeiryddion roi cyngor i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu'r cyfarfodydd ynglŷn â'r angen i sicrhau bod eu hoffer digidol yn cael ei weithredu'n dawel.

# Rhan 6 Cynllun Lwfansau i Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn

## 6.1 Cyfraddau'r Lwfansau

6.1.1 Manylir ar y cyfraddau yn y Rhestr sydd ynghlwm wrth y cynllun hwn a bydd yn cael ei diweddaru'n flynyddol neu ei diwygio yn sgil newidiadau eraill.

6.1.2 Bydd raid i'r Cyngor llawn gymeradwyo unrhyw newidiadau eraill i'r Rhestr neu i'r cynllun hwn.

6.1.3 Y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) fydd yn talu'r lwfansau yn unol â darpariaethau'r cynllun hwn.

## 6.2 Cyflog Sylfaenol

6.2.1 Bydd y Cyflog Sylfaenol yn cael ei dalu yn fisol am y mis hwnnw i holl Aelodau'r Cyngor ac ni fydd raid i unrhyw Aelod gyflwyno cais.

6.2.2 Ni fydd Cyflog Sylfaenol yn cael ei dalu unwaith y bydd Aelod yn peidio â bod yn Gynghorydd am unrhyw reswm.

6.2.3 Pan fydd aelod wedi'i atal dros dro neu'n rhannol ei atal dros dro rhag cyflawni cyfrifoldebau neu ddyletswyddau'r aelod hwnnw fel aelod o'r awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 neu â rheoliadau a wneir o dan y Rhan honno, ni thelir y rhan o'r Cyflog Sylfaenol sy'n daladwy i'r aelod hwnnw mewn cysylltiad â'r cyfrifoldebau neu'r dyletswyddau y bydd yr aelod hwnnw wedi'i atal dros dro neu'n rhannol ei atal dros dro rhag eu cyflawni.

6.2.4 Bydd Adran y Dirprwy Brif Weithredwr yn ymdrin ag unrhyw newidiadau fydd yn cael effaith ar yr hawl i Gyflog Sylfaenol.

## 6.3 Lwfans Gofal

6.3.1 Bydd Lwfans Gofal yn cael ei dalu yn fisol am y mis hwnnw i Aelodau'r Cyngor

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **16 Medi 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2015** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Safonau am Newidiadau Deddfwriaethol** |
| **ADRODDIAD GAN;** | **Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball, lbxcs@ynysmon.gov.uk 01248 752586** |

**RHAGARWEINIAD**

Derbyniodd Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ("Deddf 2013") Gydsyniad Brenhinol ar 30 Gorffennaf 2013. Prif bwrpas y Ddeddf oedd diwygio cyfansoddiad a swyddogaeth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Fodd bynnag, cyflwynodd y Ddeddf hefyd ddarpariaethau eraill a oedd yn gysylltiedig gyda Llywodraeth Leol ac mae rhai o'r rheini'n berthnasol yn uniongyrchol i waith y Pwyllgor Safonau.

**NEWIDIADAU STATUDOL PERTHNASOL**

Mae Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Cychwyn Rhif 2) 2015 yn dod ag adrannau 55 i 58, 68 a 69 Deddf 2013 i rym a hynny o fis Mai 2015.

Y newidiadau perthnasol yw:-

**1. Cynghorau Cymuned – Cyhoeddi Gwybodaeth yn Electronig**

Rhaid i Cynghorau Cymuned yn awr gyhoeddi gwybodaeth benodol ar eu gwefannau. Mae'n cynnwys gwybodaeth ynghylch y clerc, yr aelodau, cofnodion cyfarfodydd ac unrhyw ddatganiadau cyfrifon sydd wedi eu harchwilio. Yn ogystal, rhaid i Gynghorau Cymuned gyhoeddi rhybuddion cyhoeddus yn electronig a sicrhau fod gwybodaeth benodol am eu cyfarfodydd a'u trafodaethau ar gael yn electronig.

Cyhoeddwyd Canllawiau Statudol i gynorthwyo Cynghorau Cymuned i gwrdd â'r rhwymedigaethau newydd ac mae copi o'r Canllawiau ynghlwm yn **Atodiad 1**.

**2. Cofrestr o Ddiddordebau'r Aelodau**

Ar hyn o bryd, yn unol ag Adran 81(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000, rhaid i Swyddog Monitro bob awdurdod perthnasol sefydlu a chynnal cofrestr o ddiddordebau aelodau.

Er mwyn amlinellu'r gwahaniaeth rhwng datganiadau mewn cyfarfodydd, gelwir hon weithiau'n "gofrestr sefydlog" neu'n "gyn-gofrestru".

Cyn gweithredu'r gofynion statudol newydd ym Mai 2015, nid oedd gan Cynghorau Cymuned gofrestr "sefydlog" oherwydd yn unol â geiriad y ddeddfwriaeth, swyddog monitro pob awdurdod oedd yn cadw cofrestr o'r fath. Gan fod Cynghorau Cymuned yn awdurdodau ar wahân ynddynt eu hunain ond ddim yn cyflogi swyddogion monitro, dehonglwyd hyn fel bod y gofyniad mewn perthynas â'r gofrestr sefydlog yn berthnasol i awdurdodau unedol yn unig.

Mae'r ddeddfwriaeth wedi cael ei diwygio erbyn hyn ac mae'n amlwg fod rhaid i Gynghorau Cymuned gael cofrestrau "sefydlog" o ddiddordebau ynghyd â chofrestr yn cynnwys diddordebau a ddatganwyd yn ystod cyfarfodydd. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn ei gwneud yn glir mai clercod Cynghorau Cymuned yw'r swyddogion perthnasol i gynnal y gofrestr.

Yn dilyn cychwyniad Adran 58 Deddf 2013, mae'r gofynion yn cael eu diwygio/eu hegluro fel a ganlyn:-

(i) Mae dyletswydd i sefydlu a chynnal cofrestr o ddiddordebau aelodau. Cyfrifoldeb y "swyddog priodol" yn y Cyngor Cymuned yw hwn, sef clerc y Cyngor.
(ii) O ran bod ar gael ar gyfer eu harchwilio'n gyhoeddus, rhaid cyhoeddi'r gofrestr o ddiddordebau'r aelodau yn electronig ac o'r herwydd dylai fod ar gael ar wefan pob Cyngor Cymuned (mae dyletswydd gyfreithiol yn awr ar bob Cyngor Cymuned i fod â gwefan).

**3. Pwyllgorau Safonau (Cyd Bwyllgorau)**

Mae Adran 68 Deddf 2013 yn diwygio'r ddyletswydd sydd ar yr awdurdodau perthnasol i sefydlu pwyllgor safonau, ac yn grymuso, ond nid yn gorfodi, dau neu ragor o aelodau i sefydlu pwyllgor safonau ar y cyd.

**4. Cyfeirio achosion ynghylch camymddwyn/ceisiadau am ganiatâd arbennig**

Mae Adran 69 Deddf 2013 yn rhoddi'r grym i awdurdodau lleol gyfeirio achosion ynghylch camymddwyn/ceisiadau am ganiatâd arbennig rhwng pwyllgorau safonau gwahanol awdurdodau.

**ARGYMHELLIAD**

Nodi'r newidiadau a restrir yn yr adroddiad ac ystyried yn benodol paragraff 2 ac a ddylai materion yn ymwneud â chydymffurfiaeth mewn perthynas â'r cyfrifoldeb newydd hwn ffurfio rhan o raglen waith y Pwyllgor Safonau nesaf ai peidio.

ATODIAD / ENCLOSURE 1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Canllawiau Statudol

# Mynediad i Wybodaeth am Gynghorau Cymuned a Thref

Mai 2015

ISBN digidol 978 1 4734 3399 1
© Hawlfraint y Goron 2015
WG25090

# CANLLAW LLYWODRAETH CYMRU

# GWYBODAETH AM GYNGHORAU TREF A CHYMUNED

## Statws a Chymhwyso

Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru. Fe'i cyhoeddir, yn rhannol o dan adran 55(1) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan adran 55(1) y Ddeddf mae'n ddyletswydd statudol ar Gynghorau Cymuned a Thref i ystyried y canllaw hwn.

Mae'r canllaw hefyd yn berthnasol i'r ddarpariaeth yn y Ddeddf sy'n ymwneud â hysbysiadau cyhoeddus, cyfarfodydd a thrafodion y cynghorau a chofrestrau o fuddiannau aelodau.

## Cefndir

1. Cafodd Deddf Llywodraeth Leol ( Democratiaeth ) (Cymru ) 2013, y cyfeirir ati fel "y Ddeddf" yn y canllaw hwn, Gydsyniad Brenhinol ar 30 Gorffennaf 2013. Prif bwrpas y Ddeddf oedd diwygio cyfansoddiad a swyddogaethau'r hyn a elwir bellach yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Fodd bynnag, cyflwynodd y Ddeddf amrywiaeth o ddarpariaethau eraill sy'n gysylltiedig â llywodraeth leol.

2. Mae adrannau 55 i 58 o'r Ddeddf yn ymwneud â mynediad at wybodaeth, ac yn fwyaf penodol, fynediad at wybodaeth am Gynghorau Cymuned. (At ddibenion y canllaw hwn, mae unrhyw gyfeiriad at Gyngor neu Gynghorau Cymuned yn cynnwys unrhyw Gyngor Cymuned, Tref neu Ddinas sy'n gwasanaethu cymuned neu gymuned wedi'i grwpio ac a gafodd ei sefydlu yn unol â Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ( "Deddf 1972").

3. I grynhoi, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Cymuned gael gwefannau; i gyhoeddi hysbysiadau a phapurau'n electronig; ac i gyhoeddi eu cofrestr o fuddiannau'r aelodau yn electronig (y rhai a gedwir o dan adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ).

## Gwefannau Cynghorau Cymuned – Adran 55

4. Mae Adran 55 o Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Cymuned gyhoeddi gwybodaeth yn electronig am sut i gysylltu â hwy ac, os yw'n wahanol, sut i gysylltu â'r clerc. Mae'r wybodaeth a ddylai fod

ar gael yn electronig yn cynnwys rhif ffôn, cyfeiriad post a chyfeiriad e-bost.

5. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i'r cyngor gyhoeddi'n electronig wybodaeth am bob un o'i aelodau, gan gynnwys rhestr o aelodau'r cyngor, enw pob aelod, manylion am sut i gysylltu â hwy, eu hymlyniad gwleidyddol (os o gwbl) ac unrhyw swydd a ddelir ganddynt neu bwyllgor y maent yn perthyn iddo o fewn y cyngor. Os yw'r gymuned dan sylw wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol, rhaid dangos y ward y mae pob aelod yn ei chynrychioli.

6. Rhaid i'r Cyngor Cymuned hefyd gyhoeddi cofnodion electronig o'i gyfarfodydd ac, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, ddogfennau y cyfeirir atynt yn y cyfarfodydd hynny. Mae'n rhaid iddynt hefyd gyhoeddi eu cyfrifon archwiliedig blynyddol yn electronig. Yn y ddau achos hyn, mae'n ofynnol i gynghorau gyhoeddi deunydd a gynhyrchwyd ar ôl y dyddiad pan ddaeth adran 55 i rym yn unig.

Nid yw'n ofynnol i Gynghorau Cymuned gyhoeddi unrhyw wybodaeth y maent yn cael eu hatal rhag ei datgelu gan unrhyw ddeddfwriaeth arall.

7. Wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan Adran 55, mae'n rhaid i Gynghorau Cymuned roi sylw i'r canllaw hwn.

**Canllaw ynglyn Gwefannau Cynghorau Cymuned**

8. Penderfyniad i bob Cyngor Cymuned unigol yw a fyddant yn gweithredu eu gwefan annibynnol eu hunain, neu a fyddant yn penderfynu cysylltu â Chynghorau Cymuned eraill yn eu hardal, neu â'r prif gyngor, neu ag unrhyw gorff arall sy'n hapus i gynnal eu safle. Fodd bynnag, mae'n ofynnol bod y gwefannau'n cael eu diweddaru'n rheolaidd a bod y cyhoedd yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth a ddisgrifir uchod.

9. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella cysylltiadau'r cyhoedd â llywodraeth leol yn gyffredinol a Chynghorau Cymuned yn benodol. Rydym yn teimlo ei bod yn angenrheidiol bod modd cysylltu'n electronig â phob awdurdod lleol a'u bod wedi cyhoeddi gwybodaeth ar y we. Byddai trigolion lleol yn disgwyl cael y cyfleuster hwn yn yr oes hon.

10. Mae gan y rhan fwyaf o'r Cynghorau Cymuned yng Nghymru bresenoldeb ar-lein ac maent yn cyhoeddi gwybodaeth yn electronig eisoes. Mae Cynghorau Cymuned yn cael eu hannog i ofyn am gymorth

gan Un Llais Cymru, eu Prif Gyngor neu ffynonellau dibynadwy eraill os oes angen er mwyn datblygu eu presenoldeb ar y we.

11. O dan adran 55, mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi'n electronig ei rif ffôn, ei gyfeiriad post ac e-bost ar y wefan. Mae'n rhaid cael yr wybodaeth hefyd ar gyfer clerc y Cyngor os yw'n wahanol i fanylion cysylltu â'r Cyngor. Byddai hefyd o fantais cael cyfeiriad e-bost cyffredinol at ddefnydd aelodau ac o bosibl Cadeirydd y cyngor. Mewn rhai achosion, bydd gan y Cyngor Cymuned ei swyddfeydd ei hun, neu bydd yn rhannu swyddfeydd, a byddai'n briodol cael rhif ffôn, cyfeiriad post ac e-bost y rhain hefyd. Ond bydd disgwyl i'r cynghorau gael trefniadau yn eu lle i ddarllen ac ymateb i negeseuon yn rheolaidd.

12. Nid yw'n orfodol i aelodau unigol gael cyfeiriadau e-bost. Mewn Prif Gyngor byddai hyn yn ddisgwyliedig oherwydd gall y Cyngor ei hun fel arfer roi cyfeiriadau e-bost ar wefan y Cyngor. Fodd bynnag, mae'n rhaid rhestru enwau'r aelodau a rhaid bod manylion ar-lein am sut i gysylltu â hwy. Bydd rhai cynghorau'n dymuno rhoi ffotograffau o bob aelod ar eu gwefan ond mae hyn yn benderfyniad iddynt hwy.

13. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi ymlyniad gwleidyddol aelodau'r cynghorau. Mae rhai Cynghorau Cymuned yn dewis peidio â gwneud hynny ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae hawl gan y cyhoedd i wybod beth yw argyhoeddiad gwleidyddol y rhai sydd mewn swydd etholedig, neu a ydynt yn annibynnol o unrhyw grŵp. Mae'n annerbyniol i aelod gelu ei ymlyniad gwleidyddol.

14. Os yw'r Cyngor Cymuned wedi'i rannu'n wardiau cymunedol, rhaid cyhoeddi'r ward y mae'r aelod yn ei chynrychioli. Os yw'n dal swydd o ryw fath yn y cyngor neu os yw'n perthyn i un o bwyllgorau'r cyngor, rhaid i hynny gael ei gyhoeddi ar y wefan.

15. Dylai aelodau cyfetholedig gael eu cofnodi er budd tryloywder i'w gwahaniaethu oddi wrth aelodau etholedig.

16. Mae paragraffau 4 i 6 uchod yn disgrifio'r dogfennau sydd angen eu rhoi ar y wefan. Dylai Cynghorau ddatblygu gweithdrefnau ar gyfer cadw eu gwefan mewn trefn, gan gadw archif o ddogfennau'r gorffennol am gyfnod rhesymol, ond bod modd cael gafael arnynt yn hawdd o'r dudalen flaen.

17.Os oes gan y Cyngor Gynllun Iaith Gymraeg a'i arfer o dan y Cynllun Iaith Gymraeg yw i gynhyrchu deunydd yn ddwyieithog, yna mae hynny'n berthnasol yr un fath i ddeunydd sy'n cael ei gynhyrchu yn electronig.

18.Dylai darpariaethau y Ddeddf cael ei hystyried yn amlinellu'r gofynion sylfaenol. Bydd llawer o gynghorau yn awyddus i roi llawer mwy o wybodaeth na hyn ar eu tudalennau gwe ac yn cael eu hannog i wneud hynny. Bydd angen i gynghorau roi sylw i'r Côd Ymarfer a Argymhellir ar gyfer Cyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol wrth ystyried pa mor briodol yw hyn y maent yn dymuno eu cyhoeddi.

http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/publicationsevents/publications/local-authority-publicity-wales/?lang=cy

19. Byddem yn disgwyl Cynghorau Cymuned i ystyried anghenion cymunedol gan gynnwys iaith, cyfathrebu a hygyrchedd. Mae gwefan Diverse Cymru yn rhoi arweiniad pellach.
http://www.diversecymru.org.uk

20. Dylai pob Cynghorau Cymuned a Thref gofrestru gyda'r wefan ganlynol,os hoffech Band Eang uwch gyflym gael eu hystyried yn eich cymuned leol.

http://btsf-wales-uat.lbi.co.uk/home?lang=_alt

21.O dan ddeddfwriaeth bresennol mae'n ofynnol i Gynghorau Cymuned osod unrhyw hysbysiadau cyhoeddus mewn un neu ragor o fannau amlwg yn eu hardal, ac mewn unrhyw fan arall sy'n ymddangos yn ddymunol ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhybudd (adran 232 o Ddeddf 1972). Mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad ychwanegol ar Gynghorau Cymuned i gyhoeddi unrhyw hysbysiad o'r fath yn electronig.

**Gwybodaeth am gyfarfodydd a thrafodion**

22. O dan ddeddfwriaeth mewn bodolaeth, mae'n ofynnol i Gynghorau Cymuned i bostio unrhyw hysbysiadau cyhoeddus mewn un neu fwy amlwg le yn eu hardal, ac yn unrhyw le arall sy'n ymddangos yn ddymunol ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhybudd (adran 232 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972). Mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad ychwanegol ar Gynghorau Cymuned i gyhoeddi unrhyw hysbysiad o'r fath yn electronig.

23.Mae deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes yn gwneud yn ofynnol i Gynghorau Cymuned i roi rhybudd o gyfarfodydd y Cyngor sydd ar ddod dri diwrnod clir cyn y cyfarfod cael ei gynnal drwy arddangos hysbysiad mewn lle amlwg yn y gymuned. Mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad ychwanegol ar gyfer hysbysiadau o'r fath i gael ei gyhoeddi yn electronig. Rhaid gwneud hyn dri diwrnod clir cyn y cyfarfod. Mae gofyniad i gyhoeddi yn electronig, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â'r busnes i'w drafod yn y cyfarfod

hefyd. Nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys pan fo'r dogfennau yn ymwneud â busnes sydd, ym marn y Cyngor, yn debygol i'w drafod yn breifat neu lle byddai datgelu dogfennau o'r fath yn groes i unrhyw ddeddfwriaeth arall.

24.O dan Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mae'n bosibl i gyfarfod cymunedol cael ei alw ar unrhyw adeg gan grŵp o etholwyr llywodraeth leol cyfanswm o 10% o'r etholwyr llywodraeth leol ar gyfer y gymuned, neu 50 o'r etholwyr (os yw 10% yn fwy na 50 o etholwyr ). Rhaid i'r rhai sy'n galw'r cyfarfod rhoi rhybudd i Gyngor Cymuned neu, os nad oes Cyngor Cymuned wedi'i sefydlu yn yr ardal, rhaid rhoi rhybudd i'r Prif Gyngor. O dan y darpariaethau newydd, gellir rhoi rhybudd i'r Cyngor Cymuned naill ai'n ysgrifenedig neu'n electronig. Lle mae'n cael ei roi ar ffurf electronig, rhaid i'r hysbysiad gydymffurfio â'r gofynion technegol a osodwyd gan y Prif Gyngor.

25. Mae'n rhaid i Gynghorau Cymuned a Prif Gynghorau ddarparu cyfleusterau ar gyfer hysbysiadau sydd i'w rhoi'n electronig a rhaid cyhoeddi hysbysiad cyhoeddus o'r cyfarfod cymunedol yn electronig yn ogystal â thrwy gyfryngau traddodiadol.

26.Yn olaf, mae'r Ddeddf yn cynnwys gofynion newydd sy'n ymwneud â chofrestru buddiannau aelodau. Adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn gofyn am Gyngor Cymuned (yn ogystal ag awdurdodau eraill) i gadw a chyhoeddi cofrestr o fuddiannau ariannol ac eraill aelodau fel a bennir yn y cod ymddygiad enghreifftiol (a ragnodir gan Orchymyn o dan adran 50 o'r Deddf 2000 *). Cyn cychwyn adran 58 o'r Ddeddf, mae'r gofrestr sydd ei angen i fod ar gael i'w harchwilio yn swyddfeydd y Cyngor ar bob adeg resymol. Mae Adran 58 o'r Ddeddf yn mynnu bod y gofrestr yn cael ei gyhoeddi ar ffurf electronig hefyd. Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am sefydlu a chynnal cofrestr o fuddiannau gan swyddog monitro'r prif awdurdod i'r 'swyddog priodol' o bob Cyngor Cymuned. Y 'swyddog priodol' yw'r aelod o staff y Cyngor a ddynodwyd gan y Cyngor i'r diben hwn.

* Ar hyn o bryd, 'Y Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Côd Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008'

Status: ✅ Law In Force

# Local Government Act 2000 c. 22

## Part III CONDUCT OF LOCAL GOVERNMENT MEMBERS AND EMPLOYEES

## Chapter V SUPPLEMENTARY

## Disclosure and registration of members' interests etc.

This version in force from: **May 1, 2015** to **present**

(version 6 of 6)

### 81.— Disclosure and registration of members' interests etc.

(1) The monitoring officer of each relevant authority must establish and maintain a register of interests of the members and co-opted members of the authority.

(2) The mandatory provisions of the model code applicable to each relevant authority ("the mandatory provisions") must require the members and co-opted members of each authority to register in that authority's register maintained under subsection (1) such financial and other interests as are specified in the mandatory provisions.

(3) The mandatory provisions must also–

(a) require any member or co-opted member of a relevant authority who has an interest specified in the mandatory provisions under subsection (2) to disclose that interest before taking part in any business of the authority relating to that interest,

(b) make provision for preventing or restricting the participation of a member or co-opted member of a relevant authority in any business of the authority to which an interest disclosed under paragraph (a) relates.

(4) Any participation by a member or co-opted member of a relevant authority in any business which is prohibited by the mandatory provisions is not a failure to comply with the authority's code of conduct if the member or co-opted member has acted in accordance with a dispensation from the prohibition granted by the authority's standards committee [, or by the standards committee of another relevant authority,] [1] in accordance with regulations made under subsection (5).

(5) The [Welsh Ministers] [2] may prescribe in regulations the [—] [3]

[

(a) circumstances in which standards committees may grant dispensations under subsection (4),

(b) procedure to be followed for the granting of dispensations.

] [3]

(6) A relevant authority must ensure that [—] [4]

[

(a) copies of the register for the time being maintained by their monitoring officer under this section are available at an office of the authority for inspection by members of the public at all reasonable hours,

(b) the register mentioned in paragraph (a) is published electronically.

] [4]

(7) As soon as practicable after the establishment by their monitoring officer of a register under this section, a relevant authority must–

(a) publish in one or more newspapers circulating in their area a notice which–

(i) states that copies of the register are available at an office of the authority for inspection by members of the public at all reasonable hours, and

(ii) specifies the address of that office, [ and] [5][...] [6]

[(iii) states that the register is available to be viewed electronically, and

(iv) specifies how to access the electronic version,

] [7]

[...] [5]

[

(c) [...] [2] inform the Public Services Ombudsman for Wales that copies of the register are so available.

] [6]

[(7A) For the purposes of this section—

(a) section 83(13) does not apply, and

(b) in relation to a relevant authority which is a community council, the references in this section to a monitoring officer are to be read as references to the proper officer of that council (within the meaning of section 270(3) of the Local Government Act 1972).

] [8]

[...] [2]

---

## Notes

1. Words inserted by Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 anaw. 4 Pt 5 s.69(3)(a) (May 1, 2015)
2. Amended by Localism Act 2011 c. 20 Sch.4(1) para.48 (July 1, 2012: amendment has effect as SI 2012/1463 subject to transitional, transitory and savings provisions specified in SI 2012/1463 art.7(3) and (4))
3. Existing s.81(5) renumbered as s.81(5)(a) and s.81(5)(b) inserted by Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 anaw. 4 Pt 5 s.69(3)(b) (May 1, 2015)
4. Existing s.81(6) renumbered as s.81(6)(a) and s.81(6)(b) inserted by Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 anaw. 4 Pt 5 s.58(2) (May 1, 2015)
5. Repealed by Localism Act 2011 c. 20 Sch.25(5) para.1 (January 31, 2012: repeal has effect as SI 2012/57 subject to transitional and savings provisions specified in SI 2012/57 arts 6 and 8)
6. Added by Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005 c. 10 Sch.4 para.22(b) (April 1, 2006)
7. Added by Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 anaw. 4 Pt 5 s.58(3) (May 1, 2015)

8. Added by Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 anaw. 4 Pt 5 s.58(4) (May 1, 2015)

## Modifications

| | |
|---|---|
| Pt III | Modified in relation to the shadow authority by Bedfordshire (Structural Changes) Order 2008/907, Pt 5 art. 16(8) |
| | Modified in relation to each shadow authority by Cheshire (Structural Changes) Order 2008/634, Pt 3 art. 7(5) |
| | Modified in relation to a Welsh Part 3 panel and the members of such a panel by Police and Crime Panels (Application of Local Authority Enactments) Regulations 2012/2734, reg. 6, reg. 5, Sch. 1(3) para. 33 |
| | Modified in relation to any allegation that a member or co-opted member of the London Assembly has failed, or may have failed, to comply with that authority's code of conduct by Police Reform and Social Responsibility Act 2011 (Commencement No. 3 and Transitional Provisions) Order 2011/3019, art. 5(2) |
| | Modified in relation to any allegation that a member or co-opted is not a member of the London Assembly has failed, or may have failed, to comply with that authority's code of conduct by Police Reform and Social Responsibility Act 2011 (Commencement No. 3 and Transitional Provisions) Order 2011/3019, art. 5(3) |
| | Modified in relation to references to the Local Commissioner in Wales by Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005 (Transitional Provisions and Consequential Amendments) Order 2006/362, art. 4(5) |

Crown Copyright material is reproduced with the permission of the Controller of HMSO and the Queen’s Printer for Scotland

**Subject:** Local government

**Keywords:** Disclosure; Members; Monitoring officers; Registration

Westlaw.UK

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **16 Medi 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Taflenni Gwybodaeth a gynhyrchwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Er gwybodaeth** |
| **ADRODDIAD GAN;** | **Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball, lbxcs@ynysmon.gov.uk<br>01248 752586** |

## 1. RHAGARWEINIAD

Cafodd rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) ei chreu ar 1 Ebrill 2006. Prif bwrpas y rôl yw:

1. Ystyried cwynion ynghylch gwasanaethau a ddarperir gan gyrff cyhoeddus.
2. I gywiro cwynion gwasanaeth lle mae hynny'n bosibl
3. Cydnabod a rhannu arferion da a gwella safonau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru
4. Datblygu hyder mewn llywodraeth leol yng Nghymru drwy hyrwyddo safonau uchel mewn bywyd cyhoeddus
5. Ystyried cwynion fod aelodau awdurdodau lleol wedi torri'r côd ymddygiad

O ran y ddau bwynt olaf, mae yr Ombwdsmon yn ddiweddar wedi penodi Swyddog newydd sy'n Arwain ar Gwynion mewn perthynas â'r Côd Ymddygiad ac mae'r swyddog wedi datblygu dau o daflenni Ffeithiau newydd a ysgrifennwyd ar gyfer Aelodau sy'n destun ymchwiliad dan y côd ymddygiad.

Mae'r Taflenni Ffeithiau ynghlwm yn **ATODIADAU 1 a 2** yr adroddiad hwn. Mae ynddynt ganllawiau defnyddiol mewn perthynas â'r prosesau a ddilynir ac yn y ddwy daflen, cynghorir aelodau'n gryf i beidio â thrafod neu rannu gwybodaeth gydag unrhyw un, ac eithrio'r sawl sy'n rhoddi cyngor cyfreithiol neu gyngor arall iddynt, a hynny er mwyn osgoi rhagfarnu ymchwiliadau o'r fath.

**2. TAFLEN FFEITHIAU AR GYFER AELODAU AWDURDODAU LLEOL: Beth rydym ni'n ei wneud ar ôl cael cwyn am eich ymddygiad**

Caiff unrhyw gwynion newydd eu hystyried gan y Tîm Cyngor Cwynion a rhoddir prawf dau gam ar bob cwyn. Cynhelir y prawf cyntaf i weld a oes tystiolaeth uniongyrchol fod y côd wedi'i dorri ac yna ystyrir a oes angen, er budd cyhoeddus, cyfeirio'r gŵyn i bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru ai peidio. Y nod yw hysbysu'r aelod o'r penderfyniad ynghylch a fyddir yn cynnal ymchwiliad ai peidio o fewn 4 wythnos o dderbyn y gŵyn.

Os gwneir penderfyniad i gynnal ymchwiliad, yna amlinellir y broses a cheir trafodaeth wedyn ar ganlyniadau posibl yr ymchwiliad.

**3. CWYNION MEWN PERTHYNAS Â'R CÔD YMDDYGIAD: Taflen ffeithiau i aelodau sy'n cael eu cyfweld**

Yn dilyn o eitem 2 uchod, mae'r Daflen Ffeithiau hon yn darparu gwybodaeth am y broses gyfweld, h.y. natur a ffurf y cyfweliad, yr hyn y byddai aelod ei angen ar gyfer cyfweliad o'r fath, ac yn cadarnhau'r trefniadau o ran cofnodi a chytuno ar y cyfweliad.

**4. ARGYMHELLIAD**

Bod yr holl aelodau'n derbyn cyfathrebiad yn dwyn sylw at gyngor yr Ombwdsmon fel sydd ynghlwm yn **ATODIAD 3**.

ATODIAD / ENCLOSURE
1

# Cwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad: Taflen ffeithiau i aelodau sy'n cael eu cyfweld

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae'r daflen ffeithiau hon yn esbonio sut bydd staff yr Ombwdsmon yn gweithredu wrth gynnal cyfweliadau ag aelodau etholedig sy'n destun ymchwiliad dan weithdrefn Gwyno'r Cod Ymddygiad.

## Natur a ffurf y cyfweliad

Cynhelir cyfweliadau wyneb yn wyneb fel arfer, ond mewn amgylchiadau eithriadol efallai y gofynnir i chi ddarparu atebion ysgrifenedig i gyfres o gwestiynau ysgrifenedig.

Bydd y Ymchwiliwr yn gwneud recordiad digidol o'r cyfweliad i wneud yn siŵr bod eich tystiolaeth yn cael ei chofnodi'n gywir. Dylech fod yn barod i ateb unrhyw gwestiwn a ofynnir i chi. Cewch gyfle hefyd i roi sylwadau sy'n berthnasol i'r ymchwiliad yn eich barn chi, ac y dylai'r Ombwdsmon eu hystyried wrth gyrraedd ei benderfyniad ynghylch y gŵyn.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech nodi unrhyw bryder sydd gennych, neu nodi unrhyw dyst rydych yn teimlo y dylid cysylltu ag ef neu hi yn ystod yr ymchwiliad, er mwyn i'r rhain gael eu datrys yn brydlon. Efallai y bydd methu â chydymffurfio ag unrhyw gais a wneir gan y Ymchwiliwr i ddod i gyfweliad mewn cysylltiad ag ymchwiliad yn cael ei ystyried fel torri'r Cod.

Mae'r Ombwdsmon yn gwerthfawrogi y gallai cyfweliadau achosi pryder weithiau. Gan hynny, mae croeso i chi gael rhywun gyda chi pan fyddwch yn gweld y swyddog ymchwilio. Mae croeso i chi ddod â chynrychiolydd cyfreithiol gyda chi neu rywun arall i'ch cefnogi os ydych yn dymuno gwneud hynny. Os ydych yn dymuno cael rhywun yn bresennol yn y cyfweliad i'ch cefnogi chi, rhowch wybod mewn da bryd i'r Ymchwiliwr pwy fydd yr un ddaw gyda chi. Ni ddylai'r unigolyn hwn fod yn rhywun sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad; yr unig reswm y mae ef neu hi yno yw bod yn gefn i chi ac nid i ateb cwestiynau drosoch. Caiff cyfweliadau eu cofnodi bob amser.

## Beth fydd ei angen arnoch ar gyfer y cyfweliad

Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall pwrpas y cyfweliad. Dylech fod wedi cael manylion am y gŵyn sy'n nodi'r hyn y mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio iddo, ynghyd â chopi o'r dystiolaeth berthnasol a gasglwyd. Os oes gennych chi bapurau – fel llythyrau neu ddyddiaduron neu'r ffeil ffurfiol y mae'r gŵyn yn ymwneud â hi – a allai, yn eich barn chi, fod yn berthnasol i'r cyfweliad, ewch â nhw gyda chi. Os oes gennych nodiadau a wnaethoch pan ddigwyddodd y materion sy'n destun ymchwiliad, fe allai'r rhain helpu'r Ymchwiliwr.

Yn ogystal â dogfennau perthnasol, dylech wneud yn siŵr bod unrhyw eitem arall y gallai fod ei hangen arnoch chi yn ystod y cyfweliad gennych, er enghraifft sbectol ddarllen, cymhorthion clyw neu feddyginiaeth (mewnanadlyddion ac ati). Oni bai eu bod yn gwbl angenrheidiol, dylech hefyd wneud yn siŵr bod unrhyw ffôn symudol neu ddyfais dabled wedi ei diffodd drwy gydol y cyfweliad a bod eich cydweithwyr yn ymwybodol na ddylen nhw darfu arnoch chi.

Rhowch wybod i'r Ymchwiliwr cyn y cyfweliad am ofynion arbennig sydd gennych, gan gynnwys gofynion sy'n codi o unrhyw rai o'r nodweddion gwarchodedig a ddiffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (fel y'i diwygiwyd) e.e. unrhyw anabledd neu ystyriaethau crefyddol. Cewch gyfle hefyd i gynnal eich cyfweliad yn Gymraeg os hoffech wneud hynny.

Er y bydd gan y Ymchwiliwr amserlen ac y bydd yn ceisio cadw at yr amserlen honno, weithiau gall cyfweliadau gymryd mwy o amser. Gan hynny, dylech sicrhau eich bod yn ystyried hyn wrth gynllunio unrhyw beth yn syth ar ôl yr amser a bennwyd ar gyfer gorffen y cyfweliad.

## Materion i'w cadw mewn cof

Yn ogystal, efallai y bydd y Ymchwiliwr yn ysgrifennu nodiadau yn y cyfweliad ac yn gofyn i chi lofnodi'r rhain a nodi'r dyddiad arnyn nhw ar ddiwedd y cyfweliad. Ar ddiwedd y cyfweliad, bydd y recordydd digidol yn cynhyrchu dau gryno ddisg. Bydd un ddisg yn cael ei selio at ddibenion tystiolaeth a bydd y llall yn cael ei defnyddio gan yr ymchwilydd fel fersiwn weithredol o'r recordiad. Gofynnir i chi lofnodi'r fersiwn a seliwyd fel cadarnhad o'r cyfweliad a dylech gael hysbysiad yn esbonio sut gallwch chi wneud cais am gopi o'r ddisg.

Cyn gynted ag y bydd yn rhesymol bosib ar ôl y cyfweliad, bydd y swyddog ymchwilio yn anfon cofnod wedi'i deipio o'r cyfweliad atoch chi. Caiff y cofnod hwn ei ddefnyddio fel sail eich tystiolaeth.

Dylech gadw mewn cof ei bod yn bosib y bydd yr holl sylwadau a wneir yn ystod y cyfweliad yn cael eu hatodi wrth unrhyw adroddiad ar yr ymchwiliad y gallai'r Ombwdsmon ei gyfeirio at sylw Pwyllgor Safonau'r Awdurdod, neu at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cadw unrhyw wybodaeth a ddarperir i chi cyn neu yn ystod eich cyfweliad yn gwbl gyfrinachol.

Ni ddylid datgelu manylion ynghylch ymchwiliad i neb heblaw am gynghorwr cyfreithiol neu ymgynghorydd arall. Os datgelir yr wybodaeth i unigolion eraill, gallai hynny gael ei ystyried yn achos o dorri amodau paragraffau 5(a) a 7(a) y Cod. Yn ychwanegol, ni ddylech drafod y dystiolaeth rydych chi'n bwriadu ei rhoi mewn cyfweliad neu ei chynnwys mewn unrhyw ddatganiad tyst ag unrhyw un a allai fod yn rhan o'r ymchwiliad, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gan y gellir ystyried cyswllt o'r fath fel torri amodau'r Cod yn yr un modd.

**Os ydych yn dymuno mwy o wybodaeth ynglŷn â'r broses yma, cysylltwch â ni:**

- **ffoniwch** 0300 790 0203;
- **e-bostiwch** holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ewch i'r wefan** www.ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **dilynwch ni ar Twitter:** @Ombwdsmon;
- **ysgrifennwch at:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ

ATODIAD / ENCLOSURE 2

# Taflen ffeithiau i Aelodau Awdurdodau Lleol: Beth fyddwn ni'n ei wneud pan gawn ni gŵyn am eich ymddygiad

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae'r daflen ffeithiau hon yn egluro beth sy'n digwydd pan fydd yr Ombwdsmon yn cael cwyn am ymddygiad aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru. Nid yw'n ymdrin â holl fanylion ein gweithdrefnau, sydd ar gael yma: www.ombwdsmon-cymru.org.uk

## Cwynion newydd

Caiff pob cwyn newydd ei hystyried gan Dîm Cyngor ar Gwynion yr Ombwdsmon, a fydd yn cydnabod fod y gŵyn wedi cyrraedd ac yn rhoi gwybod i chi ac i Swyddog Monitro eich awdurdod a/neu Glerc eich Cyngor Cymuned (fel bo'n briodol) am ei bodolaeth. Bydd copi o'r gŵyn yn cael ei darparu hefyd.

Does dim rhaid i chi ymateb i'r llythyr hwn os nad ydych yn dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, os ydych o'r farn y dylai'r Ombwdsmon ystyried gwybodaeth benodol pan fydd yn ystyried y mater hwn am y tro cyntaf, cofiwch roi gwybod i ni. Os byddwch yn penderfynu ymateb neu ddarparu unrhyw wybodaeth, dylech gofio y gall eich sylwadau gael eu datgelu i'r achwynydd hefyd, neu eu defnyddio mewn unrhyw achos dilynol.

Bydd pob cwyn, ac unrhyw wybodaeth ategol, yn cael ei harchwilio drwy brawf dau gam. Yn y cam cyntaf, fe fyddwn ni'n ystyried a oes tystiolaeth uniongyrchol bod y Cod Ymddygiad wedi'i dorri. Yn yr ail gam, byddwn yn ystyried a oes angen ymchwilio neu gyfeirio achos at bwyllgor safonau neu at Banel Dyfarnu Cymru er budd y cyhoedd. Mae hyn yn golygu ystyried sawl ffactor sy'n ymwneud â budd y cyhoedd, fel; a ydych wedi mynd ati'n fwriadol i geisio cael budd personol i chi eich hun neu i rywun arall, wedi camddefnyddio sefyllfa o ymddiriedaeth, a oes angen ymchwilio er mwyn sicrhau y bydd y cyhoedd yn dal yn gallu ymddiried mewn aelodau etholedig, neu a yw ymchwiliad yn ymateb cymesur dan yr amgylchiadau. Fe wnawn ni geisio rhoi gwybod i chi o fewn pedair wythnos a yw'r Ombwdsmon yn bwriadu ymchwilio i'r gŵyn hon ai peidio.

## Os na allwn dderbyn y gŵyn

Cewch gopi ysgrifenedig o'r esboniad os nad yw cwyn yn cwrdd â gofynion y prawf dau gam.

## Os penderfynwn ymchwilio i'r gŵyn

Os penderfynwn ymchwilio i'r gwyn caiff yr ymchwiliad ei gynnal gan un o ymchwilwyr yr Ombwdsmon. Byddwn bob amser yn ysgrifennu atoch chi ac at y rhai sy'n gysylltiedig â'r gŵyn i gadarnhau ein penderfyniad i ymchwilio, ac nid oes angen i chi ymateb os nad ydych yn dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol pe gallech nodi unrhyw bryder sydd gennych yn ystod yr ymchwiliad er mwyn i'r rhain gael eu datrys yn brydlon.

Fel arfer, cynhelir ymchwiliadau yn breifat. Mae'n bosibl y bydd datgelu manylion yn ymwneud ag ymchwiliad yn arwain at dorri'r Cod Ymddygiad. Gan hynny, fe'ch cynghorir chi i beidio â thrafod y gŵyn â neb (gan gynnwys tystion posibl) ar wahân i'ch cynghorwr cyfreithiol neu ymgynghorwr arall er mwyn osgoi unrhyw ragfarn ynghylch yr ymchwiliad.

Os oes tystion rydych yn meddwl y dylid cysylltu â nhw, dylech roi gwybod i'r Ymchwiliwr cyn gynted â phosibl.

Os daw cais (sy'n cyfeirio atoch wrth eich enw) gan y cyfryngau neu drydydd parti am wybodaeth yn ymwneud ag ymchwiliad, yr unig fanylion y byddwn yn eu cadarnhau yw bod ymchwiliad yn cael ei gynnal.

Bydd y Ymchwiliwr fel arfer yn ceisio cael gafael ar ragor o ddogfennaeth berthnasol a thystiolaeth gan dystion. Mae pob ymchwiliad yn amrywio, ac er y bydd angen cyfweld y rhai sy'n gysylltiedig o bosib, efallai y bydd rhai achosion yn dod i ben drwy archwilio dogfennau yn unig. Anelwn at gwblhau pob ymchwiliad o fewn 12 mis ond cwblheir y rhan fwyaf ynghynt na hynny. Os ystyriwn am ba bynnag reswm ei bod yn angenrheidiol rhoi’r gorau i’n hymchwiliad, byddwn yn ysgrifennu atoch i esbonio’r penderfyniad hwn.

Ar ôl cwblhau pob ymholiad rhesymol, bydd y swyddog ymchwilio yn adolygu’r dystiolaeth a gasglwyd ac yn penderfynu a yw'r dystiolaeth yn ategu achos o dorri'r Cod. Os felly, bydd copïau o'r dystiolaeth berthnasol a gasglwyd yn cael eu hanfon atoch, ynghyd â gwahoddiad i ddod i gyfweliad. Caiff cyfweliadau eu recordio ac fe gawn nhw eu cynnal wyneb yn wyneb fel arfer, ond mewn amgylchiadau eithriadol efallai y gofynnir i chi ateb cyfres o gwestiynau ysgrifenedig. Gellir canfod gwybodaeth fanwl am y broses ymchwilio yn ein taflen ffeithiau 'Taflen Ffeithiau i Aelodau sy'n cael eu cyfweld'.

Yn y cyfweliad, fe ddylech chi fod yn barod i ateb unrhyw gwestiwn a ofynnir i chi. Cewch gyfle hefyd i roi sylwadau sy’n berthnasol i’r ymchwiliad yn eich barn chi. Mae croeso i chi ddod â chynrychiolydd cyfreithiol gyda chi neu rywun arall i’ch cefnogi os ydych yn dymuno gwneud hynny, cyn belled â'u bod yn annibynnol ar destun yr ymchwiliad. Efallai y bydd methu â chydymffurfio ag unrhyw gais a wneir gan y Ymchwiliwr mewn cysylltiad ag ymchwiliad yn cael ei ystyried fel torri'r Cod i aelodau etholedig.

Pan fydd gennym yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom, byddwn yn ysgrifennu adroddiad neu lythyr yn nodi’r dystiolaeth a ystyriwyd gennym ynghyd â'n casgliadau.

## Canlyniadau'r ymchwiliad

Os byddwn yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y Cod Ymddygiad wedi cael ei dorri, byddwn yn cau'r ymchwiliad ac yn rhoi rhesymau ysgrifenedig dros y penderfyniad hwn i holl bartïon y gŵyn.

Os awgrymir ar ôl adolygu'r dystiolaeth bod y Cod wedi cael ei dorri; gall yr Ombwdsmon benderfynu mewn rhai amgylchiadau nad yw camau pellach yn briodol. Unwaith eto, bydd rhesymau ysgrifenedig dros y penderfyniad hwn yn cael eu hanfon at bob parti.

Os bydd yr Ombwdsmon yn canfod bod modd cyfiawnhau'r gŵyn, ac y byddai'n fuddiol cyfeirio'r gŵyn er budd y cyhoedd, gall ei chyfeirio naill ai at Bwyllgor Safonau'r awdurdod perthnasol, neu at dribiwnlys a gaiff ei gynnull gan Banel Dyfarnu Cymru i wneud penderfyniad ar y materion. Fodd bynnag, cewch gyfle i roi sylwadau ar fersiwn ddrafft o'r adroddiad o fewn amserlen benodol. Bydd unrhyw sylw a wneir yn cael ystyriaeth ddyledus cyn i'r adroddiad gael ei gwblhau, ac mae'n bosibl y caiff ei ymgorffori yn yr adroddiad terfynol.

Bydd copi o adroddiad terfynol yr Ombwdsmon yn cael ei anfon atoch. Bydd y sawl a wnaeth y gŵyn yn cael gwybod am gasgliadau'r Ombwdsmon, a bydd crynodeb o’r adroddiad yn cael ei ddarparu er gwybodaeth. Ni fydd yr adroddiad terfynol yn cael ei ddatgelu gan yr Ombwdsmon nes gwneir penderfyniad ar y materion gan y Pwyllgor Safonau neu'r tribiwnlys.

## Os na fydd y sawl a gwynodd yn fodlon ar ein penderfyniad i beidio ag ymchwilio i gŵyn

Lle byddwn wedi cyhoeddi penderfyniad i beidio ag ymchwilio i gŵyn yn eich erbyn dewis cau’r ymchwiliad, neu penderfynu nad yw camau pellach yn briodol, bydd ein tasg wedi dod i ben i bob pwrpas a chaiff y ffeil ei chau. Ni fyddwn yn ailagor achos dim ond os bydd y sawl a wnaeth y gŵyn yn anghytuno â’n penderfyniad.  Fodd bynnag, dylech fod yn ymwybodol y gall y sawl a gwynodd ofyn (o fewn ugain diwrnod gwaith) i ni adolygu'r gŵyn.  Os cawn gais i adolygu cwyn, fe wnawn ni roi gwybod i chi a rhoi copi i chi o unrhyw gais a gawn.

**Os ydych yn dymuno mwy o wybodaeth ynglŷn â’r broses yma, cysylltwch â ni:**

- **ffoniwch** 0300 790 0203;
- **e-bostiwch** holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ewch i’r wefan** www.ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **dilynwch ni ar Twitter:** @Ombwdsmon;
- **ysgrifennwch at:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ

ATODIAD / ENCLOSURE 3

Annwyl Aelod

Yng: Taflenni Gwybodaeth gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Gweler ynghlwm os gwelwch yn dda ddwy Daflen Wybodaeth sydd wedi cael eu cynhyrchu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â chwynion a wneir yn erbyn aelodau etholedig mewn perthynas â'r Côd Ymddygiad.

Mae'r Taflenni Gwybodaeth yn hunan-eglurhaol ac yn rhoi canllawiau ar y prosesau i'w dilyn pan dderbynnir cwyn – "**Beth fyddwn ni'n ei wneud pan gawn no gwyn am eich ymddygiad**" ynghyd â chanllawiau ar gyfer y broses gyfweld ffurfiol - **"Talen ffeithiai i aelodau sy'n cael eu cyfweld".**

Yn y ddwy Daflen Wybodaeth, cynghorir yr aelodau'n gryf i beidio â thrafod neu rannu gwybodaeth gydag unrhyw un ac eithrio'r rheiny sy'n darparu cyngor cyfreithiol neu gyngor arall iddynt er mwyn osgoi rhagfarnu unrhyw ymchwiliad sy'n mynd rhagddo.

Mae'r ddwy Daflen Wybodaeth ar gael ar wefan yr Ombwdsmon.

http://www.ombudsman-wales.org.uk/~/media/Files/Factsheets_cy/Welsh%20%20Factsheet%20for%20Local%20Authority%20Members%20%20What%20we%20do%20when%20we%20get%20a%20complaint%20about%20your%20conduct%20W%20%20Version%2010%20July%202015.ashx

http://www.ombudsman-wales.org.uk/~/media/Files/Factsheets_cy/Welsh%20%20%20Code%20of%20Conduct%20complaints%20%20Factsheet%20for%20member%20interviewees%20%20Version%2010%20July%202015.ashx

---

Dear Member,

Re: Factsheets from the Public Services Ombudsman for Wales (O)

Please see attached two Factsheets which have been produced by the Ombudsman in relation to code of conduct complaints against elected members.

The Factsheets are self- explanatory and provide guidance as to the processes followed when a complaint is received – **"What we do when we get a complaint about your conduct"** and also guidance about the formal interview process – **" Factsheet for member interviewees".**

Both Factsheets note that members are strongly advised against discussing or sharing information with anyone other than those providing legal or other advice to them in order to avoid prejudicing any ongoing investigations.

Both Factsheets are also available from the O's website -

http://www.ombudsman-wales.org.uk/~/media/Files/Factsheets_en/Factsheet%20for%20Local%20Authority%20Members%20%20What%20we%20do%20when%20we%20get%20a%20complaint%20about%20your%20conduct%20%20Version%2010%20July%202015.ashx

http://www.ombudsman-wales.org.uk/~/media/Files/Factsheets_en/Code%20of%20Conduct%20complaints%20%20Factsheet%20for%20member%20interviewees%20%20Version%2010%20July%202015.ashx

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD:** | **16 Medi 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Canllawiau Lleol Drafft ar y Côd Ymddygiad i Swyddogion** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Ymgynghori** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball, lbxcs@ynysmon.gov.uk 01248 752586** |

## 1. CEFNDIR

Mae'r côd ymddygiad statudol ar gyfer swyddogion y Cyngor ynghlwm fel **ATODIAD 1** ac mae'r côd yn Rhan 5 y Cyfansoddiad sydd ar gael yn http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cyfansoddiad/cyfansoddiad-rhan-5-codau-a-phrotocolau/ .

Mae'r côd yn berthnasol yn awtomatig i swyddogion pan fyddant yn dechrau gweithio i'r cyngor ac mae'n rhan o'r broses gynefino ar gyfer gweithwyr newydd.

## 2. CYD-DESTUN

Mae'r côd ymddygiad ar gyfer swyddogion yn fwy generig ac yn llai penodol na'r côd ymddygiad ar gyfer aelodau ac nid yw'n gwahanu diddordebau personol a rhai sy'n rhagfarnu er bod yr un cysyniad yn bresennol, h.y. lle gellir tybio yn rhesymol y gallai diddordeb personol gael effaith sylweddol ar wrthrychedd swyddogion, yna disgwylir iddynt beidio â chymryd rhan ac i drefniadau eraill gael eu gwneud.

Oherwydd natur generig y côd i swyddogion, mae swyddogion cyfreithiol yn cael ceisiadau'n aml i gynghori rheolwyr ynglŷn â'r modd y mae'r côd yn berthnasol mewn amgylchiadau penodol. Felly, er mwyn ategu'r côd a rhoddi cyfeiriad pellach, awgrymir bod y Cyngor yn cyhoeddi dogfen benodol ac ynddi ganllawiau mewn perthynas â'r côd i swyddogion. Mae drafft cyntaf y ddogfen hon ynghlwm yma fel **ATODIAD 1**.

## 3. ARGYMHELLIAD

Fel rhan o'r broses ymgynghori, gofynnir i'r pwyllgor safonau ystyried y Canllawiau drafft a gwneud unrhyw argymhellion ar gyfer newidiadau neu welliannau iddynt.

ATODIAD / ENCLOSURE
1

17. Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi gael unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais faterol, sy'n fwy na gwerth a bennir mewn penderfyniad gan eich awdurdod, ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod yn nodi bodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu'r fantais faterol honno.

## Côd Ymddygiad Gweithwyr

## 5.2 Côd Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Cymwys Awdurdodau Perthnasol Yng Nghymru

### Y Côd

### Egwyddorion Cyffredinol

5.2.1 Mae gan y cyhoedd hawl i ddisgwyl y safonau ymddygiad uchaf gan bob gweithiwr cymwys yn yr awdurdodau perthnasol. Rôl gweithwyr o'r fath yw gwasanaethu'r awdurdod sy'n eu cyflogi wrth iddo roi cyngor, rhoi ei bolisïau ar waith a chyflwyno gwasanaethau i'r gymuned leol. Wrth gyflawni eu dyletswyddau, rhaid iddynt weithredu yn union, yn onest, yn ddiduedd ac yn wrthrychol.

### Atebolrwydd

5.2.2 Mae gweithwyr cymwys yr awdurdodau perthnasol yn gweithio i'r awdurdod sy'n eu cyflogi ac yn gwasanaethu'r cyfan o'r awdurdod hwnnw. Maent yn atebol i'r awdurdod hwnnw ac mae arnynt ddyletswydd tuag ato. Rhaid iddynt weithredu yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Côd hwn, gan gydnabod dyletswydd holl weithwyr y sector cyhoeddus i gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yn rhesymol ac yn unol â'r gyfraith.

### Amhleidioldeb Gwleidyddol

5.2.3 Rhaid i weithwyr cymwys yr awdurdodau perthnasol, p'un a ydynt o dan gyfyngiad gwleidyddol neu beidio, ddilyn holl bolisïau'r awdurdod sydd wedi'u mynegi'n gyfreithlon a rhaid iddynt beidio â chaniatáu i'w barn bersonol neu wleidyddol hwy eu hunain ymyrryd â'u gwaith. Os yw'r gweithwyr cymwys o dan gyfyngiad gwleidyddol (oherwydd y swydd sydd ganddynt, natur y gwaith a wnânt, neu'r cyflog a delir iddynt), rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu gweithgareddau gwleidyddol.

### Cysylltiadau ag aelodau, y cyhoedd a gweithwyr eraill

5.2.4 Mae cyd-barch rhwng gweithwyr cymwys ac Aelodau yn hanfodol ar gyfer llywodraeth leol dda, a dylai'r cyswllt gwaith gael ei gadw ar sail broffesiynol.

5.2.5 Dylai gweithwyr cymwys yr awdurdodau perthnasol ymdrin â'r cyhoedd, Aelodau a gweithwyr eraill gyda chydymdeimlad, yn effeithlon ac yn ddiduedd.

**Cydraddoldeb**

5.2.6 Rhaid i weithwyr cymwys yr awdurdodau perthnasol gydymffurfio â pholisïau sy'n ymwneud â materion cydraddoldeb, fel y cytuna'r awdurdod arnynt, yn ychwanegol at ofynion y gyfraith.

**Stiwardiaeth**

5.2.7 Rhaid i weithwyr cymwys yr awdurdodau perthnasol sicrhau eu bod yn defnyddio'r cronfeydd cyhoeddus a ymddiriedir iddynt mewn modd cyfrifol a chyfreithlon, a rhaid iddynt beidio â defnyddio eiddo, cerbydau na chyfleusterau eraill yr awdurdod at ddibenion personol oni bai eu bod wedi'u hawdurdodi i wneud hynny.

**Diddordebau Personol**

5.2.8 Er mai mater iddynt hwy yn unig yw bywyd preifat gweithwyr cymwys, rhaid iddynt beidio â chaniatáu i'w diddordebau preifat wrthdaro â'u dyletswydd gyhoeddus. Rhaid iddynt beidio â chamddefnyddio'u safle swyddogol na gwybodaeth a sicrheir yng nghwrs eu cyflogaeth i hybu eu diddordebau preifat, na diddordebau pobl eraill. Yn benodol, rhaid iddynt gydymffurfio â'r canlynol:

5.2.8.1 unrhyw reolau sydd gan eu hawdurdod perthnasol bod rhaid i weithwyr gofrestru a datgan diddordebau ariannol a diddordebau anariannol,

5.2.8.2 unrhyw reolau sydd gan eu hawdurdod perthnasol bod rhaid i weithwyr ddatgan lletygarwch neu roddion a gynigiodd neu a roes unrhyw berson neu gorff sy'n gwneud busnes neu'n ceisio gwneud busnes gyda'r awdurdod iddynt, neu sy'n manteisio neu'n ceisio manteisio mewn modd arall o gael perthynas â'r awdurdod. Rhaid i weithwyr cymwys beidio â derbyn buddion trydydd parti oni bai bod eu hawdurdod perthnasol wedi'u hawdurdodi i wneud hynny.

**Rhannu pryderon**

5.2.9 Os digwydd bod gweithiwr cymwys yn dod i wybod am weithgareddau y mae'n credu eu bod yn anghyfreithlon, yn amhriodol, yn anfoesegol neu fel arall yn anghyson â'r Côd hwn, dylai'r gweithiwr roi gwybod am y mater, gan weithredu yn unol â'i hawliau dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, ac â gweithdrefn yr awdurdod perthnasol ar gyfer rhoi gwybod yn gyfrinachol, neu unrhyw Weithdrefn arall sydd wedi'i chynllunio i'r diben hwn.

**Ymdrin â Gwybodaeth**

5.2.10 Yr arfer yn yr awdurdodau perthnasol fydd bod yn agored wrth ledaenu gwybodaeth ac wrth wneud penderfyniadau. Er hynny, fe all gwybodaeth benodol fod yn gyfrinachol neu'n sensitif ac felly yn amhriodol ar gyfer cynulleidfa ehangach. Os oes angen bod yn gyfrinachol er mwyn diogelu preifatrwydd neu hawliau unigolion neu gyrff, ni ddylid rhyddhau gwybodaeth i unrhyw un heblaw aelod, gweithiwr i'r awdurdod perthnasol neu berson arall y mae ganddynt hawl i'w chael neu y mae angen iddynt gael ei gweld er mwyn cyflawni eu swyddogaethau'n iawn. Ni ellir cymryd bod dim yn y Côd hwn yn drech na'r dyletswyddau yn y statudau neu'r gyfraith gyffredin i gadw gwybodaeth benodol yn gyfrinachol, neu i ddatgelu gwybodaeth benodol.

**Penodi Staff**

5.2.11 Rhaid i weithwyr cymwys yr awdurdodau perthnasol sy'n ymwneud â recriwtio a phenodi staff sicrhau bod penodiadau'n cael eu gwneud ar sail rhagoriaeth. Er mwyn osgoi unrhyw gyhuddiad posibl o ragfarn, rhaid i weithwyr o'r fath beidio ag ymwneud ag unrhyw benodiad, nac unrhyw benderfyniadau eraill sy'n ymwneud â disgyblu, dyrchafu neu dâl ac amodau unrhyw weithiwr arall, neu ddarpar weithiwr, y maent yn perthyn iddynt, neu y mae ganddynt berthynas bersonol agos â hwy y tu allan i'r gwaith.

**Ymchwiliadau gan Swyddogion Monitro**

5.2.12 Pan fydd swyddog monitro'n cynnal ymchwiliad yn unol â rheoliadau a wneir dan adran 73(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000, rhaid i weithiwr cymwys gydymffurfio ag unrhyw ofynion a wneir gan y swyddog monitro hwnnw mewn cysylltiad ag ymchwiliad o'r fath.

## 5.3.1 Protocol ar gyfer y berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion

**MYNEGAI**

**5.3.1.1 Rhagarweiniad**
**5.3.1.2 Cofnodion**
**5.3.1.3 Rôl yr Aelodau**
**5.3.1.4 Rôl Swyddogion**
**5.3.1.5 Y berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion: Cyffredinol**
**5.3.1.6 Y Cyngor fel Cyflogwr**
**5.3.1.7 Y Cadeirydd a Swyddogion**
**5.3.1.8 Aelodau'r Pwyllgor Gwaith a Swyddogion**
**5.3.1.9 Aelodau'r Pwyllgorau Sgriwtini a Swyddogion**
**5.3.1.10 Aelodau Pwyllgorau neu Is-Bwyllgorau eraill a Swyddogion**
**5.3.1.11 Grwpiau Gwleidyddol a Swyddogion**
**5.3.1.12 Aelodau Lleol a Swyddogion**
**5.3.1.13 Y Berthynas gyda'r Cyfryngau**

ATODIAD / ENCLOSURE 2

## Canllawiau Lleol Drafft ar y Côd Ymddygiad i Swyddogion

Mae Adran 5.2 ein Cyfansoddiad yn cynnwys Côd Ymddygiad i Swyddogion http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cyfansoddiad/cyfansoddiad-rhan-5-codau-a-phrotocolau/cyfansoddiad-52-swyddogion-cod-ymddygiad/.

Yn y Canllawiau hyn, rhoddir cyngor ar elfennau allweddol y Côd, gan ganolbwyntio ar ymddygiad, datganiadau o ddiddordeb a rhoddion a lletygarwch.

### 1. EGWYDDORION CYFFREDINOL

Mae'r Cyngor Sir yn ymrwymo i'r egwyddorion statudol mewn perthynas ag ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus ac yn eu cymeradwyo fel yr egwyddorion sylfaenol a ddylai roddi arweiniad i bob Aelod a Swyddog o ran eu hymddygiad.

Yn ôl yr egwyddorion statudol, rhaid i bob un ohonom gyflawni ein dyletswyddau gyda sylw dyledus i:-

1. Anhunanoldeb
2. Gonestrwydd
3. Uniondeb a phriodoldeb
4. Cyfreithlondeb
5. Stiwardiaeth
6. Gwrthrychedd
7. Cydraddoldeb a Pharch
8. Bod yn agored
9. Atebolrwydd
10. Arweinyddiaeth

### 2. Y SAFONAU A DDISGWYLIR

- Mae'n ddyletswydd arnom i lynu wrth y gyfraith ac ymddwyn bob amser yn unol â'r ymddiriedaeth gyhoeddus a roddwyd ynom ac mewn modd sy'n cynnal hyder y cyhoedd yn y Cyngor.

- Mae dyletswydd gyffredinol arnom i weithredu er budd y Cyngor yn ei gyfanrwydd a'r gymuned leol.

- Ynghyd ag osgoi amhriodoldeb gwirioneddol, dylem osgoi ymddangos fel petaem yn ymddwyn yn amhriodol.



DRAFT

Lle mae gennym ddiddordebau preifat sy'n gwrthdaro â'n dyletswydd gyhoeddus, rhaid i ni ddatrys y gwrthdaro hwn o blaid y budd cyhoeddus.

- Dylem wneud datganiadau o ddiddordeb ariannol neu anariannol pryd bynnag y byddai posib i'n datganiadau personol wrthdaro â'r budd cyhoeddus. Dylid cyflwyno datganiadau o fath i'n rheolwr/goruchwyliwr ar y ffurflen "Hysbysiad o Ddiddordeb Personol" sydd ynghlwm yn **ATODIAD 1**.

Ni ddylem wneud, neu bod yn gysylltiedig ag, unrhyw benderfyniadau swyddogol neu broffesiynol ynghylch materion y mae gennym ddiddordeb personol ynddynt a dylem ddatgan unrhyw ddiddordebau personol sydd gennym mewn perthynas â materion a drafodir mewn cyfarfodydd ar y "Ffurflen i Ddatgan a Chofrestru Diddordeb Personol – Gweithiwr" sydd ynghlwm yn **ATODIAD 2**.

- Dylem barchu rôl ein Haelodau Etholedig a'u trin gyda chwrteisi. Mae'r Cyngor hwn wedi mabwysiadu Protocol i reoli'r berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion a dylem lynu wrth ei ddarpariaethau. Mae ar gael yn: (http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cyfansoddiad/cyfansoddiad-rhan-5-codau-a-phrotocolau/cyfansoddiad-531-protocol-ar-gyfer-y-berthynas-rhwng-aelodau-a-swyddogion/)

- Wrth wneud penodiadau, dyfarnu contractau neu gynnal unrhyw fusnes arall, dylem sicrhau bod ein penderfyniadau yn cael eu gwneud yn ôl teilyngdod yn unig a sicrhau ein bod yn cadw trywydd archwilio cyfatebol, sydd wedi'i ddogfennu.

Dylem sicrhau fod deunydd cyfrinachol, gan gynnwys deunydd ynghylch unigolion, yn cael ei drin yn unol â'r safonau disgwyliedig a nodir ym Mholisi Diogelu Data'r Cyngor

(http://monitor.ynysmon.gov.uk/adnodd-corfforaethol/llywodraethu-gwybodaeth-diogelu-data/polisi-diogelu-data-polisiau-diogelu-gwybodaeth-a-dogfennau-perthnasol/ I

## 3. DATGAN DIDDORDEB – POB SWYDDOG

**SYLWER OS GWELWCH YN DDA**: Nid oes ond angen i chi ddatgan diddordebau personol sy'n gwrthdaro, neu a all wrthdaro, gyda'ch dyletswyddau i'r Cyngor. Os ydych yn ansicr o gwbl, dylech ddatgan eich diddordeb gan ddefnyddio'r ffurflen berthnasol a thrafod y mater hwn gyda'ch rheolydd.

Yn ychwanegol at hyn, wrth gyflawni ein cyfrifoldebau fel Swyddogion y Cyngor, dylem ddatgan ar unwaith unrhyw ddiddordebau ariannol neu bersonol perthnasol i'n rheolwyr llinell, lle bynnag y byddai methiant i wneud hynny'n tanseilio hyder y cyhoedd yn ein gweithgareddau (e.e. mewn cyfarfodydd / cyfathrebiadau eraill pan mae'r diddordeb yn berthnasol). Dylai rheolwyr llinell wneud trefniadau eraill yn yr amgylchiadau hyn, h.y. ni ddylem gymryd rhan neu ddylanwadau ar unrhyw fater sy'n golygu y gallem ni (neu ein teuluoedd/cyfeillion) elwa arnynt neu golli allan o'u herwydd. Mae hyn yn berthnasol i bob Swyddog ar bob lefel. Efallai y bydd rhaid hefyd llenwi un o'r ffurflenni yn **ATODIADAU 1 a 2** a gall rheolwyr llinell gynghori pa un all fod yn briodol.

Gall ddiddordebau neu ymwneud a allai wrthdaro gyda diddordebau'r Cyngor fod yn rhai ariannol ac / neu anariannol, er enghraifft:

- Partneriaeth mewn busnes
- Gwaith a wneir i unrhyw berson neu sefydliad ac eithrio fel un sy'n gweithio i'r Cyngor
- Gwasanaethau fel aelod o grŵp, pwyllgor neu fwrdd y gall ei waith wrthdaro gyda'r Cyngor
- Ceisiadau a gyflwynwyd gan berthnasau neu gyfeillion ar gyfer eu hystyried gan y Cyngor, e.e. tendro am waith
- Llywodraethwr Ysgol, neu glerc cyngor sydd yn awdurdodaeth yr Awdurdod.

Os oes gennych ddiddordeb personol mewn unrhyw fater sy'n codi mewn unrhyw gyfarfod yr ydych yn adrodd iddo neu'n cynghori (neu y gallwch gael cais i'w gynghori neu y gallwch fel arall ddylanwadu arno) unrhyw Gynghorydd(Gynghorwyr) yn y Cyngor, neu unrhyw drydydd parti, rhaid i chi ddatgan y diddordeb a pheidio â chymryd rhan yn y drafodaeth neu'r penderfyniad ar y mater. Bydd unrhyw ddatganiad a wneir mewn cyfarfod swyddogol yn cael ei gofnodi yn y cofnodion. Os yn briodol, dylid gwneud trefniadau i weithiwr arall fynychu ac adrodd /cynghori ar y mater. Un enghraifft fyddai cymryd rhan mewn cyfarfod mewn perthynas ag ysgol y mae eich mab/merch/ŵyr/wyres yn ei mynychu.

Os oes gennych ddiddordeb personol a allai wrthdaro gyda diddordebau'r Cyngor, yna ni chewch ond aros yn y cyfarfod a chymryd rhan yn y trafodaethau os yw'r person sy'n llywyddu yn y cyfarfod (ac ar ôl cael cyngor gan y Swyddog Monitro) yn fodlon y byddai i chi wneud hynny er budd y Cyngor neu'r bobl leol.

## 4. <u>RHODDION A LLETYGARWCH</u>

- Rhaid i ni ystyried y sefyllfa'n ofalus cyn derbyn unrhyw rodd bersonol neu gynigion o letygarwch. Yr egwyddor yw bod rhaid i ni osgoi rhoddi ein hunain mewn sefyllfa lle gallai derbyn rhodd neu letygarwch o'r fath gael ei ystyried fel rhywbeth a allai ddylanwadu ar ein penderfyniadau neu'n barn wrth ddyfarnu contractau, gwneud penodiadau, penderfynu ar geisiadau cynllunio ac ati.
- Mae gan y Cyngor Gofrestr ar gyfer cofnodi derbyn rhoddion neu letygarwch a rhaid i ni gofrestru rhoddion, a gwahoddiadau a dderbynnir, yn y Gofrestr honno; a gedwir gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Dylid hefyd gofrestru unrhyw gynigion o roddion a lletygarwch a allai, yn nhŷb eraill, ddylanwadu arnoch/ar eich grym i wneud penderfyniadau neu ar y farn a ffurfir gennych, pe baech chi wedi eu derbyn.
- Dylem wrthod unrhyw roddion personol a chynigion o letygarwch os ydym yn meddwl y gallai hynny niweidio hyder y cyhoedd ynom ni neu'r Cyngor.
- Efallai y byddwn yn derbyn eitemau ewyllys da pan yn mynychu cynadleddau neu ar ymweliadau dinesig. Efallai y byddwn o bryd i'w gilydd yn derbyn dyddiaduron,

pinnau ysgrifennu, calendrau ac ati. Nid oes angen cofrestru'r rhain. Dylid cofrestru unrhyw beth sy'n werth mwy na £10 neu y gellir yn rhesymol amcangyfrif ei fod yn werth mwy na hynny. Rydym yn cynghori hefyd y dylid, fel arfer dda, gofnodi unrhyw roddion/lletygarwch a dderbyniwyd sy'n werth llai na £10 gyda'ch rheolwr llinell.

- Gellir diffinio lletygarwch fel unrhyw beth ac eithrio'r cynnig o ddiodydd di-alcohol a lluniaeth ysgafn. Ni ddylem ond derbyn lletygarwch os oes angen gwirioneddol i'r Cyngor gael ei gynrychioli mewn achlysur neu ddigwyddiad. Po fwyaf "moethus" yw'r lletygarwch, pwysica'n y byd yw i ni fod yn ofalus.

- Wrth dderbyn lletygarwch, dylai Aelodau a Swyddogion fod yn arbennig o sensitif o ran yr amseriad mewn perthynas â phenderfyniadau y bydd y Cyngor o bosib yn eu gwneud ac a allai gael effaith fuddiol neu andwyol ar y sawl sy'n darparu'r lletygarwch.

- Lle mae angen mynd ar ymweliadau i archwilio offer, neu ymweliadau sy'n gysylltiedig â dyfarnu unrhyw gontract, dylai Aelodau a Swyddogion sicrhau fod y Cyngor yn talu costau unrhyw ymweliadau er mwyn osgoi rhagfarnu uniondeb unrhyw benderfyniadau a wneir wedyn i brynu.

- Ni ddylai Aelodau a Swyddogion ddefnyddio gwasanaethau contractwyr a gyflogir gan y Cyngor iddynt eu hunain ar gyfer prynu deunyddiau, llafur neu offer am bris cost, masnachol neu ostyngol.

- Mae lletygarwch a geir drwy fynychu cynadleddau a chyrsiau perthnasol yn dderbyniol lle mae'n amlwg bod y lletygarwch yn gorfforaethol yn hytrach na phersonol a lle nad yw lletygarwch o'r fath yn cael effaith ar unrhyw benderfyniadau o ran prynu.

- Dylid cael caniatâd ymlaen llaw gan reolwyr llinell i dderbyn lletygarwch a'i gofnodi yn y Gofrestr a gedwir gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

## 5. RHESTR WIRIO (RHODDION A LLETYGARWCH)

Dylai'r rhestr wirio isod o gwestiynau eich helpu i benderfynu a ddylid derbyn neu wrthod yn gwrtais unrhyw rodd neu gynnig o letygarwch:-

- A yw'r person sy'n cynnig y rhodd, neu'r digwyddiad, yn arwyddocaol yn y gymuned neu'r ardal? Os ydyw, a yw gwrthod yn debygol o bechu?

- A oes disgwyl i chi fynychu oherwydd eich statws yn y gymuned neu'r ardal?

- A fydd eraill o statws tebyg yn y gymuned neu mewn cymunedau eraill yn mynychu?

- Beth yn eich barn chi, yw'r cymhelliant y tu ôl i'r gwahoddiad?

- A fyddai i chi dderbyn y gwahoddiad yn amhriodol mewn unrhyw fodd neu'n eich rhoddi dan bwysau mewn perthynas ag unrhyw fater cyfredol neu fater yn y dyfodol y bydd y Cyngor yn ymwneud ag ef?



DRAFT

- A fyddai modd i chi gyfiawnhau'r penderfyniad i'r Cyngor, y wasg a'r cyhoedd?
- A yw graddau'r lletygarwch neu natur y rhodd yn rhesymol ac yn dderbyniol?
- A ydyw'n debygol y bydd disgwyl i chi ymateb i'r lletygarwch ac os bydd, ym mha fodd?
- A ydych chi'n gyfforddus ynglŷn â'ch penderfyniad?

## 6. LLYGREDD

1. Rhaid i chi fod yn ymwybodol ei bod yn drosedd dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 i dderbyn neu roddi unrhyw rodd, fenthyciad neu wobr neu fantais yn eich capasiti swyddogol "am wneud, neu beidio â gwneud rhywbeth" neu am "ffafrio neu anffafrio" unrhyw berson. Os gwneir honiad yn eich herbyn, bydd rhaid i chi ddangos na chafwyd unrhyw wobrwyon o'r fath drwy ddulliau llwgr.

2. Er eich diogelwch eich hun, os bydd rhywun yn cysylltu gyda chi mewn modd a ymddengys i chi neu a allai ymddangos i drydydd parti fel petai'n anelu at dderbyn rhyw fath o driniaeth ffafriol, neu mewn amgylchiadau amheus mewn perthynas â chontract, yna rhaid i chi roi gwybod i'ch rheolwr llinell.

## 7. PERTHYNAS GYDA CHONTRACTWYR

- Rhaid rhoi gwybod i'ch rheolwr llinell am bob perthynas fusnes sy'n berthnasol i'r gwaith rydych yn ei wneud.

- Rhaid dyfarnu archebion a chontractau yn ôl teilyngdod, trwy gystadleuaeth deg, yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor.

  http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cyfansoddiad/cyfansoddiad/rhan-4-rheolau-gweithdrefn/cyfansoddiad-49-rheolau-gweithdrefn-contract/

  http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cyfansoddiad/cyfansoddiad/rhan-4-rheolau-gweithdrefn/cyfansoddiad-48-rheolau-gweithdrefn-ariannol/

- Ni ddylid dangos unrhyw ffafriaeth arbennig tuag at fusnesau sy'n cael eu rhedeg, er enghraifft, gan ffrindiau, partneriaid neu berthnasau. Ni ddylid rhagfarnu yn erbyn unrhyw ran o'r gymuned leol.

- Dylai swyddogion sy'n ymwneud â'r broses dendro ac/neu ddelio gyda chontractwyr fod yn glir ynghylch y gwahaniad rhwng rôl cleient a chontractwr yn y Cyngor. Rhaid i Swyddogion sydd â chyfrifoldeb cleient a chontractwr fod yn ymwybodol o'r angen i fod yn atebol ac yn agored.

- Rhaid i Swyddogion mewn unedau contractwr neu gleient fod yn deg ac yn ddiduedd wrth ddelio gydag unrhyw gwsmeriaid, cyflenwyr, contractwyr ac isgontractwyr.



DRAFT

- NI ddylai Swyddogion sy'n cael gwybodaeth gyfrinachol ar dendrau neu gostau contractwyr mewnol neu allanol ddatgelu'r wybodaeth honno i unrhyw barti neu sefydliad heb awdurdod.

- Dylai Swyddogion sy'n ystyried prynu allan fel rheolwyr, cyn gynted ag y byddant wedi llunio bwriad pendant, roi gwybod i'r rheolydd llinell perthnasol a thynnu'n ôl o'r broses dyfarnu contractau.

- Dylai Swyddogion sicrhau nad ydynt yn dangos unrhyw ffafriaeth arbennig tuag at Swyddogion cyfredol neu Swyddogion sydd wedi gadael yn ddiweddar na'u partneriaid, perthnasau agos neu gydnabod o ran dyfarnu contractau i fusnesau y maent yn eu rhedeg neu eu cyflogi mewn capasiti lefel uwch neu lefel reoli.

- Yn unol ag Adran 117 Deddf Llywodraeth Leol 1972, rhaid i chi wneud datganiad ffurfiol am gontractau neu gontractau personol gyda'r Cyngor y mae gennych ddiddordeb ariannol ynddynt. Rhaid cofrestru datganiadau o'r fath ar y Ffurflen Hysbysiad o Diddordeb Personol (**ATODIAD 1**).

## 8. TORRI'R CÔD

Gellir delio gydag achosion o dorri'r Côd Swyddogion dan Weithdrefn Ddisgyblu'r Cyngor http://monitor.ynysmon.gov.uk/yn-y-gwaith/ymddygiad-yn-y-gwaith/trefn-ddisgyblu/ .

DRAFT

ATODIAD / ENCLOSURE 1

Hysbysiad o Fuddiant Personol / Notification of Personal Interest/ANNEX 1

**Noder os gwelwch yn dda: Nid oes ond angen i chi ddatgelu diddordeb personol os yw'n gwrthdaro gyda'ch dyletswyddau yn y Cyngor neu os gall wrthdaro â nhw. Os nad ydych yn sicr, dylech ddatgelu eich diddordeb trwy ddefnyddio'r ffurflen hon neu drafod y mater gyda'ch rheolydd llinell.**

**Please note- you need only disclose a personal interest which conflicts, or may conflict, with your duties in the Council. If you are at all unsure, you should disclose your interest using this form and discuss with your line manager.**

| | |
|---|---|
| Enw y Gweithiwr/<br>Employee Name | |
| Swydd/<br>Job Title | |
| Gwasanaeth/<br>Service | |
| Manylion y fuddiant personol/<br>Details of the personal interest | |
| **PERTHYNAS / RELATIONSHIP**<br><br>(i) Perthynas gyda unrhyw Aelodau, Contractwyr, y Cyhoedd a Gweithwyr eraill:/<br><br>Relationship with Member/s, Contractor/s, the Public and other employees (where applicable): | Cynghorydd/ ◯<br>Councillor<br><br>Contractwr/ ◯<br>Contractor<br><br>Gweithiwr/ ◯<br>Employee<br><br>Arall/ ◯<br>Other |

| | |
|---|---|
| (ii) Enw / Name<br><br>(iii) Swyddogaeth / Position<br><br>(iv) Natur fy mherthynas gyda'r unigolyn/<br>Nature of my relationship to the named person<br><br>(v) Effaith a gall ei gael ar fy swyddogaeth/<br>Potential impact on my post | |
| **AELODAETH / MEMBERSHIP**<br>(i) Aelodaeth o gyfluniant, busnes, partneriaeth, corf proffesiynol neu gymdeithas gyfrinachol megis; corff llywodraethol ysgol, rôl mewn cyfluniant gwirfoddol, cysylltiad â busnes teuluol. /<br><br>Membership of an organisation, business, partnership, professional body or society e.g. school governing body, voluntary organisation role, involvement in a family business. (ii)<br><br>(ii) Disgrifiad o fy muddiant / Description of my interest<br><br>(iii) Enw a lleoliad y cyfluniant o dan sylw (os yn gymwysiadol) /<br>Name and location of organisation concerned (if applicable): | |

| | |
|---|---|
| (iv) Dyddiad cychwyn / Starting date:<br><br>(v) Budd ariannol / ymhlygiad / Financial benefit /other implication<br><br>(vi) Manylion y camau a ellir eu cymryd i warchod buddiant y Cyngor / Details of steps that could be taken to protect the Council's interests | |
| **Buddiant mewn tir o fewn y Sir**<br><br>Cyfeiriad neu ddisgrifiad o dir neu eiddo yr ydych gyda buddiant ynddo, natur y buddiant a defnydd y tir. Nodwch:<br><br>(i) Dylid datgan buddiant fel lesddaliwr am brydles o 12 mis neu fwy;<br><br>(ii) Dylid datgan buddiant fel deiliad opsiwn neu ddarpar brynwr;<br><br>(iii) Dylid datgan os ydych chi eich hun yn ceisio cadarnhau caniatâd cynllunio neu unrhyw ganiatâd neu benderfyniad gan y Cyngor;<br><br>(iv) Ni does angen datgan buddion tir nag eiddo tu allan y Sir.<br><br>(v) Nid oes angen i chi ddatgan budd mewn tir neu eiddo oni bai bod hynny'n debygol o wrthdaro gyda'ch rôl fel gweithiwr, e.e. eich bod yn bwriadu cyflwyno cais cynllunio / ymgeisio am gymorth grant ac ati. | |

| | |
|---|---|
| **Interest in land within the County**<br><br>Address or description of land or property in which you have an interest, the nature of the interest and the use to which the land is put. Please note:<br><br>(i) Interests as a leaseholder for a lease of 12 months or more should be declared;<br><br>(ii) Interest as an option holder or prospective purchaser should be declared;<br><br>(iii) Interests by which you are directly concerned in seeking planning permission or some other consent or decision of the Council should be declared;<br><br>(iv) You need not declare interest in land or property outside the County.<br><br>(v) You need not declare an interest in land or property unless there is a likely conflict with your role as an employee eg you intend to lodge a planning application / apply for grant funding etc | |
| **Gwybodaeth ychwanegol / Unrhyw ddatgeliad arall**<br><br>Rhowch unrhyw wybodaeth arall y dylech ei ddatgelu am eich buddiannau busnes, cyllid neu bersonol. | |

| | |
|---|---|
| **Further information / Any other declaration**<br><br>Please give any further information you may wish to record about your business, financial or personal interests. | |

**Hysbysu newidiadau**
Rwyf yn ymgymryd i hysbysu'r Cyngor o unrhyw newidiadau a all ddigwydd o fewn 28 diwrnod o'r newid, gan gyflwyno ffurflen newydd i fy rheolwr llinell.

**Notification of Changes**
I undertake to notify the Council in writing of any changes which may occur within 28 days from the date of the change, by submitting a new form to my line manager.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod/ Signature | | Dyddiad/ Date | |

ATODIAD / ENCLOSURE 2

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**
**FFURFLEN DATGAN A CHOFRESTRU BUDDIANT A DIDDORDEB PERSONOL-GWEITHIWR**

Enw'r Gweithiwr:

Os yn berthnasol:-

Cyfarfod

Dyddiad:

Amser y Datganiad:

Eitem (rhif ac enw):

☐ Gadewais y cyfarfod pan drafodwyd yr eitem *(ticiwch y blwch)*

**DATGANAF DRWY HYN** fod gennyf fuddiant neu diddordeb personol dan Gôd Ymddygiad ar gyfer Gweithiwyr Cymwys Awdurdodau Perthnasol yng Nghymru o dan Deddf Llywodraeth Leol 2000.

Manylion y Buddiant neu'r Diddordeb Personol:

..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................

Arwyddwyd ......................................... Dyddiad .................................

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO – "O" –YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATED**

**PWYLLGOR SAFONAU – 16.09.2015 – STANDARDS COMMITTEE**



| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| 1. Cynghorydd Sir / County Councillor | Prif Weithredwr / Chief Executive | (i ) 017339<br>(i ) 201304118 | 29.10.13 | 11.09.14 – Aeth y mater i wrandawiad llawn o'r pwyllgor safonau ar 19.12.2015. Cyflwynodd y Cynghorydd apêl i Banel Dyfranu Cymru yn erbyn y penderfyniad ac rydym yn disgwyl canlyniad yr apêl /<br>11.09.14 – The matter went to a full hearing of the standards committee on the 19.12.2015. The Councillor raised an appeal against the decision with the Adjudication Panel for Wales and we await outcome of the appeal |
| 2. Cynghorydd Sir / County Councillor | Aelod o'r cyhoedd / Member of public | (i) 17724<br>(ii) 5941 /201400183 & 201400184 | 08.04.2014 | 16.02.15 – Mae'r Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ymchwilio / The Ombudsman has decided not to investigate |
| 3. Cynghorydd Sir / County Councillor | Aelod o'r cyhoedd / Member of public | (i ) 17726<br>(ii) 5941/ 201400813 | 08.04.2014 | 116.02.15 – Mae'r Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ymchwilio / The Ombudsman has decided not to investigate |
| 4. Cynghorydd Sir / County Councillor | Deputy Chief Executive/<br>Dirprwy Prif Weithredwr | (i ) 18079<br>(ii) 201405333 | 11.11.2014 | 17.02.2015 – Mae'r Ombwdsmon wedi penderfynu ymchwililo ond ar 27.07.2015 |

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | daeth cadarnhad fod yr ymchwiliad ddim yn mynd ymlaen bellach /<br>17.02.2015 - The Ombudsman has decided to investigate but on 27.07.2015 confirmation received that the investigation has been discontinued |
| 5. Cynghorydd Sir / County Councillor | Aelod o'r cyhoedd / Member of public | (i )18780<br>(ii) 201502637 | 10.08.15 | 19.08.2015 – Mae'r Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ymchwilio / The Ombudsman has decided not to investigate |

**CWYNION I AC YMHOLIADAU GAN YR OMBWDSMON – "O" -YNGLŶN Â CHYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF**

**COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS**
**Diweddariad - Update**

**Pwyllgor Safonau- 16 Medi 2015/ Standards Committee 16 September 2015**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Tref Caergybi / Holyhead Town Council | Aelod o'r cyhoedd / Member of the public | (i) CC-018538-LB<br>(ii) 4036/201500266 | 20.04.2015 | 8/5/2015 Ddim yn ymchwilio i'r gŵyn / Not investigating complaint |
| Cyngor Tref Caergybi / Holyhead Town Council | Aelod o'r cyhoedd / Member of the public | (i) CC-018538-LB<br>(ii) 4036/201500476 | 20.04.2015 | 8/5/2015 Ddim yn ymchwilio i'r gŵyn / Not investigating complaint |
| Cyngor Tref Llangefni / Llangefni Town Council | Aelod o'r cyhoedd / Member of the public | (i) CC-018520<br>(ii) 8812/201500874 | 15/5/2015 | 12/6/2015 Ddim yn ymchwilio i'r gŵyn / Not investigating complaint |

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL** | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD:** | **16 Medi 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adolygiad Blynyddol o'r Cofrestrau** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Ar gais y pwyllgor, trafod y broses ddiwygiedig** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball, lbxcs@ynysmon.gov.uk<br>01248 2586** |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Mae'r adolygiad blynyddol o'r cofrestrau yn ymddangos bob blwyddyn ar raglen waith y pwyllgor safonau.

Mae'r broses adolygu fel arfer yn dechrau ddiwedd mis Ionawr, a bydd y nesaf yn digwydd ym mis Ionawr 2016, a chaiff adroddiad ar y canfyddiadau ei gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ym mis Mawrth.

Gan fod gennym 30 o gynghorwyr, y trefniant arferol yw i aelodau annibynnol y pwyllgor safonau adolygu cofrestrau chwech o gynghorwyr o blith y 30, gan eu dewis ar hap.

Y cofrestrau yw:-

- Y gofrestr "sefydlog" h.y. diddordebau sy'n cael eu cofrestru ymlaen llaw. Mae'r ddogfen hon i'w gweld yn **http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cynghorwyr/cynghorwyr-ac-aelodau-cyfetholedig-syn-pleidleisio-datganiadau-diddordeb**.

- Datganiadau mewn Cyfarfodydd. Mae'r ddogfen hon ynghlwm yn **ATODIAD 1**

- Rhoddion a Lletygarwch. Mae'r ddogfen hon ynghlwm yn **ATODIAD 2**

Mae'r tair cofrestr ar gael, yn gryno, ar-lein.

Cyn yr adolygiad mwyaf diweddar, ym mis Ionawr 2015, câi'r broses ei gwneud fel ymarfer "wrth ddesg" yn unig a byddai aelodau'r pwyllgor safonau yn rhoi ystyriaeth i nodyn cyngor cyffredinol **ATODIAD 3** a byddai aelodau etholedig yn derbyn rhybudd ymlaen llaw am yr adolygiad. Anfonwyd y llythyr olaf o'r fath at yr aelodau ar 3 Ionawr 2014. **ATODIAD 4**

## 2. CYD-DESTUN

O gwmpas mis Ionawr 2015, fe wnaeth aelodau annibynnol y pwyllgor safonau gwblhau'r adolygiad hwn, ac mae crynodeb o'r canfyddiadau i'w weld ym mharagraff 6 cofnodion cyfarfod y pwyllgor safonau a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2015 (eitem 2 ar y rhaglen hon).

Rhoddodd aelodau'r pwyllgor safonau gyfarwyddyd i'r swyddogion gyflwyno cyngor cyffredinol i'r aelodau, sydd yn **ATODIAD 5**. Cyfeirir yr aelodau at baragraff olaf ond un y cyngor hwn yn benodol sy'n cynnwys, am y tro cyntaf, elfen o ryngweithio uniongyrchol rhwng aelodau etholedig ac aelodau annibynnol y pwyllgor safonau wrth gyflwyno proses o drafodaeth gydag aelodau mewn perthynas ag unrhyw faterion sy'n deillio o'r adolygiad hwn.

Fel y nodwyd, mae'r adolygiad nesaf i fod i ddigwydd yn fuan yn 2016, ond mae'r pwyllgor wedi gofyn am gyfle i drafod y fethodoleg ddiwygiedig, eu hatgofion a'u profiadau o gynnal yr adolygiad a p'un a ellid gwella'r broses cyn cynnal yr adolygiad nesaf ai peidio. Ystyrir bod hwn yn gyfle i ddwyn y ddysg a'r profiad ynghyd gyda'r bwriad o wella'r broses.

## 3. TGCh

Mae un argymhelliad o gofnodion y cyfarfod ar 11 Mawrth 2015 yn ymwneud â chanlyniad ymchwiliadau mewn perthynas â materion TGCh. Trafodwyd y mater hwn yn y pwyllgor safonau ar 11 Mawrth 2015, yng nghyfarfod yr arweinyddion grwpiau ar 23 Ebrill 2015 ac yng nghyfarfod y tîm arweinyddiaeth strategol (h.y. tîm y prif swyddogion) ar 27 Ebrill 2015 ac wedi hynny trafodwyd y canlyniadau gyda'r Prif Weithredwr a'r Rheolwr Gwasanaethau Ar-lein ar 28 Mai 2015.

Mae'r darn perthnasol o gofnodion y cyfarfod ar 28 Mai 2015 ynghlwm, yn **ATODIAD 6**, ac mae'n cadarnhau'r sefyllfa bresennol.

## 4. ARGYMHELLIAD

Trafod y broses yr ymgymerwyd â hi i adolygu'r cofrestrau a phenderfynu a oes modd gwneud unrhyw welliannau pan fydd y broses yn cael ei chynnal eto yn 2016.

Gan ystyried Atodiad CH yma, a yw'r pwyllgor safonau o'r farn y dylai yn 2016/17 hefyd gynnal adolygiad sampl o gydymffurfiaeth ymysg cynghorau tref a chymuned? Sut a pha bryd fyddai'r pwyllgor safonau yn cynnal yr adolygiad hwn a pha wybodaeth a ddylid ei chasglu ymlaen llaw?

ATODIAD / ENCLOSURE
1

DATGANIADAU 0 DDIDDORDEB GAN AELODAU MEWN CYFARFODYDD

| |
|---|
| Enw'r Aelod: |
| Enw'r Cyfarfod: |
| Dyddiad y Cyfarfod: |
| Eitem ar y Rhaglen (rhif a theitl): |

Rhaid i Aelodau lenwi blychau 1, 2, 3 a 4 isod.

1. Natur y diddordeb personol yw:

2. Busnes y Cyngor y mae'r diddordeb personol yn ymwneud ag ef yw:

3. Rhaid i'r Aelodau roi tic mewn un blwch

D Nid yw'r diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu* ac fe gymerais ran yn yr eitem NEU

D Mae'r diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu* a gadewais y cyfarfod pan oedd yr eitem yn cael ei thrafod NEU

D Mae'r diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu* ond rwyf wedi cael caniatad arbennig.

*Diddordeb sy'n rhagfarnu yw diddordeb personol sydd mor sylweddol fel y byddai aelod gwybodus o'r cyhoedd yn credu'n rhesymol na fyddai'r Aelod yn gallu gweithredu ar y mater er budd y cyhoedd.

4. Yn fy marn i, mae fy niddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu NEU sydd ddim yn rhagfarnu oherwydd:

Llofnod...................................... . Dyddiad Llofnodi.......................... .

DYLID RHOI'R FFURFLEN HON AR QL EI CHWBLHAU I AELOD O STAFF Y GWASANAETHAU PWYLLGOR YN YSTOD, NEU'N UNION AR CL, Y CYFARFOD.

ATODIAD / ENCLOSURE 2

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

# DATGANIAD GAN AELODAU AC AELODAU CYFETHOLEDIG EU BOD WEDI DERBYN RHODD AC/NEU LETYGARWCH

Darllenwch y Canllawiau isod a nodir yn y Protocol ar Roddion a Lletygarwch yn 5.9 yng Nghyfansoddiad y Cyngor os gwelwch yn dda ac yna cwblhewch y manylion isod:

| | |
|---|---|
| Enw'r Aelod/Aelod Cyfetholedig | |
| Enw'r Rhoddwr/Darparwr | |
| Disgrifiad o'r rhodd neu'r lletygarwch | |
| Gwerth/amcangyfrif o werth y rhodd/lletygarwch | |
| Pryd a lle derbyniwyd y rhodd/lletygarwch | |
| Oedd unrhyw amgylchiadau arbennig sy'n cyfiawnhau derbyn y rhodd neu'r lletygarwch hwn? | |
| A oes gennych unrhyw gyswllt gyda'r person neu'r sefydliad sy'n rhoi'r rhodd neu'r lletygarwch un ai yn eich swyddogaeth fel cynghorydd neu fel arall? Rhowch fanylion os gwelwch yn dda | |
| Manylion am unrhyw gontract y mae gan y Rhoddwr/Darparwr diddordeb i'w sicrhau | |
| Sylwadau ychwanegol (os o gwbl) | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

ATODIAD / ENCLOSURE
3

**ADOLYGIAD O'R COFRESTRAU – NODYN O GYNGOR CYFFREDINOL (HYDREF 2013)**

Mae'r dogfennau adolygu yn cynnwys y canlynol:-

1. **<u>Y Gofrestr Sefydlog</u> – Mae hwn yn ymddangos ar wefan y Cyngor - "Cynghorwyr ac aelodau chyfetholedig sy'n pleidleisio – datganiadau diddordeb"**

   **[http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cynghorwyr/cynghorwyr-ac-aelodau-cyfetholedig-syn-pleidleisio-datganiadau-diddordeb?redirect=false](http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cynghorwyr/cynghorwyr-ac-aelodau-cyfetholedig-syn-pleidleisio-datganiadau-diddordeb?redirect=false)**

   Mae hwn yn cael ei gwblhau o fewn 28 diwrnod o etholiad ac wedyn yn cael ei ddiweddaru yn ôl yr angen pan mae newidiadau yn digwydd. Anfonir llythyr blynyddol i'r holl Aelodau i'w hatgoffa o'r anghenion yn y Côd Ymddygiad sy'n disgwyl i Aelodau ddiweddaru eu cofrestr o fewn 28 diwrnod o unrhyw newid o bwys i'w diddordebau perthnasol. Mae'r cofnodion yn y Gofrestr hon ar gael i archwiliad cyhoeddus ond nid ydynt yn rhyngweithiol h.y. ond Aelodau yn unig gall ddiweddaru'r copi caled. Ydych yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol iddynt fod yn rhyngweithiol?

   Y ffurflen a ddefnyddir ydi'r ffurflen statudol safonol sydd yn ofynnol o dan y Côd Ymddygiad ac felly nid yw addasiad yn bosib.

   Mae'r ffurflenni hyn yn cael ei gwirio, pan dderbynnir hwy yn y Cyngor, am lofnod clir, dyddiad, gwagleoedd yn y ffurflenni (nad ydynt yn cael eu caniatáu) ac eglurder y cynnwys. Mae'r fersiynau ar-lein wedi eu teipio. Dylech eu gwirio am y manylion uchod.

   Dylai'r ffurflenni nad ydynt wedi cael eu diweddaru ers yr etholiad diwethaf (Mai 2008) hefyd gael eu hamlygu.

   Dylech roi sylw i'r cynghorion a roddwyd o'r blaen gan y Pwyllgor Safonau. Mae'r rhain wedi cael eu cynnwys yn Atodiad 1 hefo'r Adroddiad.

   Un pryder ydi'r anghysondeb rhwng aelodaeth o gyrff allanol sydd wedi cael eu cofnodi gan y Cyngor i gymharu hefo datganiadau o aelodaeth o gyrff allanol sydd wedi cael eu gwneud gan yr Aelodau. Mae rhestr gyfredol y Cyngor o gyrff allanol yn cynnwys rhestr o Lywodraethwyr Ysgol yn Atodiad 3.

   Roedd achosion lle 'roedd yn ymddangos bod ffurflenni wedi eu cwblhau cyn i aelodau gael eu penodi i wasanaethu ar gyrff allanol ond nid oeddent yn cael eu diweddaru wedyn ar ôl i'r penodiad gael ei wneud. Atgoffwyd yr Aelodau bod angen iddynt ddiweddaru eu cofnod yn y gofrestr sefydlog cyn pen 28 diwrnod pryd bynnag y cânt eu penodi i wasanaethu ar gorff allanol neu pan fônt yn darfod bod yn aelod o gorff allanol

2. **<u>Cofrestr o Ddatganiadau o Ddiddordebau mewn Cyfarfodydd</u>**

Ar wahân i'r cynghorion blaenorol a gynigwyd gan y Pwyllgor Safonau a gyfeirir atynt ym mharagraff 1 uchod (Atodiad 1) hwyrach eich bod yn dymuno i ddatgan barn os ydyw'r wybodaeth yn cael ei rhoi yn y ffurflenni hyn wedi gwella o ganlyniad i'r ffurflenni hyn gael eu hadolygu gan y Pwyllgor Safonau.

Ydi'ch adolygiad yn dangos os yw Aelodau yn cael anhawster gyda'r ffurflenni newydd a'i pheidio? Os ydynt, a ydych eisiau rhoi cyngor pellach?

Mae hefyd wedi dod yn amlwg nid yw aelodau bob amser yn rhoi disgrifiad digon eglur o'r tiroedd y maent yn eu dal. Atgoffwyd Aelodau o'r angen i roi disgrifiad llawn a chywir o ddaliadau tir ac eiddo, ac mae'r un egwyddor yn wir am adeiladau hefyd.

Oes yna arwydd bod yr Aelodau yn dal i ddatgan diddordebau nad ydynt yn berthnasol?

Wrth ddadansoddi'r datganiadau o ddiddordeb a wnaed mewn cyfarfodydd fe ddarganfuwyd bod ffurflenni wedi eu cwblhau'n frysiog ac roeddent weithiau yn eithaf anodd ei darllen ac roedd teimlad y dylai'r Aelodau wneud mwy o ymdrech i'w cwblhau mewn ffordd a fydd yn gwneud synnwyr i'r sawl sy'n eu darllen( h.y. aelodau o'r cyhoedd nad oes ganddynt wybodaeth neu arbenigedd penodol mewn perthynas â'r cod). Yn gyffredinol ac fel mater o egwyddor, dylai'r ffurflenni hyn "sefyll ar eu pennau eu hunain" i'r cyhoedd ddeall beth yw'r diddordeb a sut mae'n ymwneud â'r eitem dan sylw yn y rhaglen a'r cysylltiad gyda'r eitem honno, p'un ai yw'n ddiddordeb personol neu'n diddordeb personol a rhagfarnus y bu angen i'r aelod adael y cyfarfod o'i herwydd.

Daeth i'r amlwg hefyd bod rhai aelodau'n bod yn fwy gofalus nag sydd raid o ran datgan diddordebau mewn cyfarfodydd, yn arbennig felly mewn perthynas ag aelodau o'r teulu a gyflogir gan y Cyngor, lle 'roedd yn ymddangos nad oedd unrhyw eitem ar y rhaglen yr oedd y diddordeb hwnnw'n ymwneud â hi. Roedd hyn yn creu argraff nad yw rhai aelodau efallai yn meddwl digon ynghylch eu cyfrifoldebau i ddatgan diddordebau a'u bod efallai wedi dod i'r casgliad anghywir bod datganiadau cyffredinol a hollgynhwysol o'r fath yn rhoi iddynt rhyw fath o ddiogelwch.

A ydynt yn cyflwyno ddigon o wybodaeth ynglyn â diddordeb a sut mae'n berthnasol i'r eitem ar y Rhaglen? Os ydych yn dymuno edrych ar y mater yn ddyfnach mae'r Rhaglenni, Adroddiadau a Chofnodion ar gael ar wefan y Cyngor. Byddem yn hapus i gyflwyno copïau caled os oes angen.

Oes yna arwydd bod Aelodau yn ymdrechu gyda'r gwahaniaeth rhwng datgan buddiannau personol (sy'n caniatáu iddynt aros mewn cyfarfod) a datgan buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu (sydd yn gofyn iddynt adael cyfarfod)?

roedd rhai o'r ffurflenni yn dangos diffyg dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng y ddau fath o ddiddordeb. Newidiwyd y ffurflen a ddefnyddir ar gyfer datgan diddordeb mewn cyfarfodydd i geisio gwneud y broses yn haws i'r Aelodau.

Oes yna newidiadau rydych eisiau eu hargymell i'r ffurflen er mwyn cynorthwyo'r Aelodau i wella eglurder a thryloywder er mwyn y cyhoedd?

A fyddai'n ddefnyddiol i'r ffurflenni hyn ymddangos ar-lein? Maen amlwg nad ydynt yn gorfod bod yn rhyngweithiol oherwydd maent yn cael eu cwblhau yn ystod cyfarfod.
(Tynnir sylw y Pwyllgor i Adroddiad y Rheolwr We Corfforaethol a Gwybodaeth yn eitem 4 o'r Rhaglen).

Yn ystod y dadansoddiad blaenorol darganfuwyd rhai enghreifftiau o aelodau yn datgan diddordebau mewn cyfarfodydd ond wedyn ddim yn cwblhau'r ffurflen sy'n gofnod o ddatganiadau o ddiddordeb a wnaed mewn cyfarfodydd. Atgoffwyd yr aelodau bod raid cwblhau'r ffurflenni hyn a'u cyflwyno i'r Clerc Pwyllgor perthnasol cyn diwedd y cyfarfod y datganwyd y diddordeb ynddo.

3. **Cofrestr o Rhoddion a Lletygarwch – mae hwn yn ymddangos ar-lein gyda'r linc "Cynghorwyr"**

http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cynghorwyr/

Mae'r Cofrestr hwn hefyd yn agored i archwiliad cyhoeddus ond mae'r ffurflenni yn gorfod cael eu cwblhau mewn copi caled. Hwyrach y byddech eisiau gwneud argymhelliad bod y cyfleustra hwn ar gael?
(Tynnir sylw y Pwyllgor i Adroddiad y Rheolwr We Corfforaethol a Gwybodaeth yn eitem 4 o'r Rhaglen).

Mae Datganiadau yn gorfod cael eu gwneud o fewn 28 diwrnod o dderbyn unrhyw rodd neu letygarwch sydd yn uwch na'r cyfyngiad o £20.

Eto, mae'r Pwyllgor Safonau wedi gwella'r ffurflen gofrestru (oedd wedi cael ei chyflwyno hefo'r Protocol Rhoddion a Lletygarwch, 5.9 yn y Cyfansoddiad sydd ar hyn o bryd ar dudalen 260).

Gofynnir i chi adolygu y cofrestriadau i weld os ydynt yn cydymffurfio gyda'r Protocol. Oes digon o wybodaeth yn cael ei gyflwyno? Ydi'r cofrestriadau yn amserol? Ydych yn meddwl bod y ffurflen yn rhoi digon o eglurder a thryloywder? Ellwch chi gynnig unrhyw welliannau pellach neu gyngor sydd angen ei gyflwyno i Aelodau?

Hwyrach bod pryder yn y ffaith bod mor ychydig (12 yw'r cyfan gwbl o 12 mis) o gofrestriadau wedi cael eu gwneud, yn arbennig ynglyn a lletygarwch. Hwyrach y byddwch eisiau gofyn i'r Swyddog Monitro ymgymryd ag ymholiadau pellach neu i gyflwyno nodyn i atgoffa Aelodau ynglyn â'u cyfrifoldebau.

ATODIAD / ENCLOSURE
4

**ADRAN Y DIRPRWY PRIF WEITHREDWRAIG**
**DEPARTMENT OF THE DEPUTY CHIEF EXECUTIVE**

**LYNN BALL LL.B., (Hons.)Cyfreithiwr/Solicitor**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (BUSNES Y CYNGOR) / SWYDDOG MONITRO**
**HEAD OF FUNCTION (COUNCIL BUSINESS) / MONITORING OFFICER**

CYNGOR SIR YNYS MON /
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir / Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn / Anglesey
LL77 7TW

DX: 701771 – LLANGEFNI

ffôn / tel: (01248) 752563
ffacs / fax: (01248) 752132
E-Bost – E-mail: APXCE@anglesey.gov.uk

Ein Cyf – Our Ref. AP/EC/CC-015794-LB
Eich Cyf – Your Ref.

Cynghorwyr a Aelodau Cyfetholedig

Councillors and Co-opted Members

03/01/2014

Annwyl Gynghorydd/Aelod Cyfetholedig

**ADOLYGIAD O'R COFRESTRAU DATGAN DIDDORDEB GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ysgrifennaf i'ch atgoffa y bydd y Pwyllgor Safonau yn cynnal ei adolygiad blynyddol o'r Cofrestrau sy'n cael eu cadw gan y Cyngor ynglŷn â datganiadau o ddiddordeb gan Gynghorwyr / Aelodau Cyfetholedig.

Y flwyddyn hon bydd y Pwyllgor Safonau hefyd yn adolygu cofnod hyfforddi pob Cynghorydd ac Aelod Cyfetholedig. Nodwch os gwelwch yn dda na chynhelir adolygiad o'r adolygiadau datblygu personol sydd yn gyfrinachol.

Ymhellach, ni fydd y Pwyllgor Safonau yn adrodd ar ganlyniadau unigol yr archwiliad ond bydd yn cynhyrchu canlyniadau ystadegol ar gyfer adrodd arnynt i gyfarfod o'r Pwyllgor Safonau yn y dyfodol.

Cyn i'r adolygiadau gael eu cynnal, yn ystod Chwefror 2014, bydd cyfle i

Dear Councillor/Co-opted Member

**REVIEW OF REGISTERS OF DECLARATION OF INTEREST BY THE STANDARDS COMMITTEE**

I write to remind you that the Standards Committee will be carrying out its annual review of the Registers in respect of declarations of interest by Councillors / Co-opted Members which are held by the Council.

This year the Standards Committee will also be reviewing each Councillor and Co-opted Member's training record. Please note that a review will not be undertaken of any personal development reviews which are confidential.

Further, the Standards Committee will not report on individual results of the audit but will produce generic statistical results to be reported to a future standards committee meeting.

Before the reviews take place, during February 2014, an opportunity is given to

Gynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig edrych ar eu manylion yn y Cofrestrau a'u siecio er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gyflawn, yn gywir ac yn gyfredol.

**1. Y Gofrestr Sefydlog**
Byddwch yn gwerthfawrogi bod yn rhaid rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i'r gofrestr sefydlog o fewn 28 diwrnod i'r newid fod wedi digwydd.

Mae'r cofnodion yn y "Gofrestr Sefydlog" ar-lein a gellir eu gweld trwy ddilyn y cyswllt canlynol :-
http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cynghorwyr/cynghorwyr-ac-aelodau-cyfetholedig-syn-pleidleisio-datganiadau-diddordeb?redirect=false
Gellir hefyd eu cwblhau ar lein.

**2.Datgan Diddordebau mewn Cyfarfodydd**

Dylid cwblhau datganiad a wneir mewn cyfarfod yn ystod y cyfarfod neu wedi i'r cyfarfod ddod i ben. Ni fedrir eu llenwi ar-lein ond gellir gweld y gofrestr ar-lein drwy'r ddolen isod:-

http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/councillors-democracy-and-elections/councillors/councillors-and-voting-co-opted-members-declarations-of-interest/

**3. Datganiad o Roddion a Lletygarwch**

Dylid cwblhau'r rhain o fewn 28 diwrnod o'u derbyn. Yn unol â'r ohebiaeth flaenorol a anfonwyd atoch, mae'n bosibl cwblhau'r rhain ar-lein. I adolygu'r ffurflenni hyn, cysylltwch os gwelwch yn dda â'r Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor sy'n cadw cofrestr ysgrifenedig.

Er mwyn eich cynorthwyo i ddiweddaru eich cofrestrau,, amgaeaf gyda hwn gopi o ddogfen o'r enw "Casgliadau o Archwiliadau Blaenorol o Gofrestrau" sydd

Councillors and Co-opted Members to look at their details in the Registers and to check them for completeness, accuracy and to confirm that they remain current.

**1. The Standing register**
You will appreciate that, in relation to the standing register, any changes must be notified within 28 days of the change having occurred.

The entries in the "Standing Register" are online and can be accessed by the following link :-
http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/councillors-democracy-and-elections/councillors/councillors-and-voting-co-opted-members-declarations-of-interest/

These can also be completed on-line.

**2. Declaration of Interests at Meetings**

Declarations at meetings should be completed during the meeting or immediately after the end of the meeting. These cannot be completed on-line but the register can also be accessed on-line by the following link:-

http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/councillors-democracy-and-elections/councillors/councillors-and-voting-co-opted-members-declarations-of-interest/

**3. Declarations of Gifts and Hospitality**

These should be completed within 28 days of receipt. As per previous correspondence sent, it is possible to complete these on-line. To review these forms please contact the Committee Services Manager who maintains a written register.

In order to assist you with updating your registers, I enclose herewith a copy of a document entitled "Findings of Previous Audits of Registers" which sets out typical generic

yn nodi materion cyffredinol nodweddiadol a gododd o’r archwiliad diwethaf y byddwch efallai’n dymuno eu hystyried wrth ddiweddaru’r gofrestr.

issues that arose from the last audit which you may want to consider when updating the register.

Ar gais y Pwyllgor Safonau, gofynnwyd i mi eich sicrhau mai’r pwrpas y tu ôl i’r ymarfer hwn yw helpu’r Pwyllgor Safonau i wneud argymhellion cyffredinol i'r Cyngor a fydd efallai’n cynnwys ysgrifennu atoch yn unigol os oes dygwyd sylw at faterion penodol sy’n ymwneud â’ch datganiad chi.

At the request of the Standards Committee I have been asked to assure you that the purpose behind this exercise is to assist the Standards Committee to make general recommendations to the council which may also include writing to you individually if there are any particular issues highlighted in relation to your declarations.

Pe bai unrhyw ymholiadau’n codi yn ystod yr archwiliad, efallai y bydd yr aelodau cyfetholedig o’r Pwyllgor Safonau’n cysylltu â chi’n uniongyrchol i ofyn am eglurhad/gwybodaeth bellach yn ystod yr archwiliad. Efallai y gwneir hyn dros y ffôn neu drwy e-bost a byddwn yn hynod ddiolchgar petaech yn ymateb i’w hymholiadau o fewn amser rhesymol fel y gellir cwblhau’r archwiliad.

If any queries arise during the audit, the individual co-opted members of the Standards Committee may then contact you directly to ask for further clarification/information during the course of the audit. This may be done by telephone or email and we would be most grateful if you could respond to their queries within a reasonable timescale to enable the audit to be completed.

Mae’r Pwyllgor Safonau wedi gofyn i mi ddiolch i chi ymlaen llaw am eich cydweithrediad. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch gyda mi drwy e-bost neu dros y ffôn os gwelwch yn dda.

The Standards Committee has asked me to extend their thanks to you in anticipation for your co-operation. If you have any queries please contact me by email or telephone.

Rwyf allan o’r swyddfa yr wythnos sydd yn dechrau ar y 6ed o Ionawr ond fydd y swyddog monitor Lynn Ball yn medru eich helpu yn fy absenoldeb.

I am out of the office on the week commencing the 6th January 2013 but the monitoring officer Lynn Ball will be able to assist you in my absence.

Yn gywir / Yours sincerely

Awena Parry
Cyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol)
Solicitor Corporate Governance)

ATODIAD / ENCLOSURE
5

**Medwen Jones**

**From:** Dafydd Humphreys
**Sent:** 13 April 2015 13:33
**To:** Aelodau GW6
**Cc:** Michael Wilson
**Subject:** Y Tair Cofrestr o Ddiddordebau Aelodau / The Three Registers of Members' Interests

Annwyl Gynghorydd,

Fel y gwyddoch mae'r Pwyllgor Safonau yn cynnal adolygiad blynyddol o'r tair Cofrestr o Ddiddordebau Aelodau. Mae'r Pwyllgor Safonau yn credu mai ei swyddogaeth yw cynorthwyo Cynghorwyr i gydymffurfio â'u dyletswyddau yn hytrach 'na chwilio am gamgymeriadau, ac rydym yn gobeithio bydd argymhellion yr adolygiad yn ddefnyddiol i chi.

Diolch am eich cymorth a'ch cefnogaeth gyda'r adolygiad, ac am ddiweddaru eich ffurflenni pan yn angenrheidiol cyn i'r adolygiad gael ei gynnal.

Yn dilyn yr adolygiad eleni, mae'r pwyllgor yn gofyn i chi roi sylw dyledus i'r casgliadau cyffredinol sydd fel a ganlyn:-

**Y Gofrestr Sefydlog**

1. Rydym yn atgoffa Aelodau yn benodol i sicrhau bod eu cyfeiriadau a'u daliadau tir wedi eu disgrifio yn glir yn rhan 1.6 o'r gofrestr. Os nad oes gan Aelod ddiddordeb mewn tir yna dylai nodi 'Dim' neu 'Dim diddordeb' ar y gofrestr.

2. Mae'n bwysig hefyd i Aelodau ddatgelu eu haelodaeth o gyrff cyhoeddus eraill, elusennau a chymdeithasau. Dylai Aelodau nodi enw a chyfeiriad llawn y cyrff/elusennau y maent yn aelodau ohonynt.

3. Mae yna hefyd anghysondebau o ran aelodaeth o gyrff allanol, fel y cofnodwyd gan y Cyngor, a'r rheini a ddatganwyd; nid ydynt yn cael eu datgan yn y ffurflenni bob amser er eu bod yn cael eu rhestru ar "dudalen flaen" pob Cynghorydd. Gellir gweld enghraifft o "dudalen flaen" Cynghorydd ar y ddolen a ganlyn:- http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=650&LLL=1

4. Pan fo Aelodau yn datgan diddordeb busnes nid ydynt yn rhoi digon o wybodaeth ynglŷn â natur y diddordeb busnes.

**Datgan diddordebau mewn cyfarfodydd**

1. Mae yna lawer o enghreifftiau o Aelodau yn ticio'r blwch i ddweud fod ganddynt ddiddordeb ond nid ydynt yn rhoi manylion am y diddordeb. Mae angen rhoi manylion am beth yw'r diddordeb a hefyd a yw'r diddordeb yn un personol neu'n un sydd yn rhagfarnus neu'r ddau.

2. Nid yw Aelodau yn rhoi digon o wybodaeth am natur y diddordeb a sut mae'n ymwneud â'r eitemau ar y rhaglen. Mae angen bod yn fwy eglur yn hyn o beth;

3. Mae yna ddatganiadau diddordeb anghyson yn cael eu gwneud mewn gwahanol gyfarfodydd gan yr un Aelod ynghylch yr un mater. Mae Aelodau weithiau yn pleidleisio mewn rhai cyfarfodydd

ac ymatal mewn rhai eraill pan mae'r un mater yn cael ei drafod. Mae hyn yn awgrymu diffyg dealltwriaeth. Os nad yw Aelod yn sicr a oes yna ddiddordeb sydd angen ei ddatgelu, dylai'r Aelod ofyn am gyngor.

4. O bryd i'w gilydd, mae Aelodau yn datgan diddordeb mewn cyfarfodydd ar lafar, ond ddim yn cwblhau'r gwaith papur. Bydd angen cwblhau'r ffurflen ar gyfer datgan diddordeb mewn cyfarfod bob tro lle mae diddordeb fel hyn yn cael ei ddatgan ar lafar, gan nid yw yn ddigon i ddatgan diddordeb ar lafar yn unig.

5. Mae rhai datganiadau'n parhau i gael eu gwneud heb fod raid, er enghraifft, datganwyd diddordeb gan un Aelod pan nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

**Cofrestr o roddion a lletygarwch**

Ychydig iawn o ddatganiadau sydd yn cael eu gwneud ynghylch rhoddion a lletygarwch a gwahoddir Aelodau i ailymgyfarwyddo gyda'r Protocol ar gyfer Rhoddion a Lletygarwch:- http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cyfansoddiad/cyfansoddiad-rhan-5-codau-a-phrotocolau/cyfansoddiad-59-protocol-ar-roddion-a-lletygarwch?redirect=false

**Hyfforddiant**

Mae'r Pwyllgor Safonau wedi nodi bod sawl Aelod wedi methu â dod i ddigon o sesiynau hyfforddiant eleni.

Mae'r casgliadau yma yn gosod allan y canlyniadau cyffredinol o'r adolygiad, ond mi fydd aelodau o'r Pwyllgor Safonau yn cysylltu gydag ambell Aelod Etholedig yn uniongyrchol lle bydd angen, er mwyn sicrhau fod yr Aelodau yna yn diweddaru eu datganiadau lle teimlwyd fod problem wedi codi yn ystod yr adolygiad. Os gwelwch yn dda a fuasech felly yn barod i drafod eich cofrestr gyda'r Pwyllgor Safonau rhag ofn bod un ohonynt yn cysylltu gyda chi.

Mae'r pwyllgor yn gwerthfawrogi eich bod i gyd yn brysur iawn ac yn ymwybodol mai dim ond un o nifer o'r tasgau y mae'n rhaid i chi roi sylw iddynt yw hon. Fodd bynnag, rydym yn gobeithio fod yr argymhellion uchod o gymorth i arbed amser i Aelodau oherwydd fod gwella safon y ffurflenni, gyda gobaith, yn osgoi cyflwyno cwynion di sail sy'n draul ar amser.

*************************************************************************

Dear Councillor,

As you know, the Standards Committee conducts an annual review of the three Registers of Members' Interests. The Standards Committee believe their role is to assist councillors to comply with their duties, not to look for errors, and we hope that you will find the recommendations from the review helpful.

Thank you for your support and assistance with the review, and for updating your forms where necessary prior to the review being conducted.

Following this year's review, the Committee asks that you have due regard to its general findings, which are as follows:-

**The Standing Register**

1. We would remind Members specifically to ensure that their addresses and land holdings are clearly described in section 1.6 of the register. If a Member has no interest in land they should enter 'None' or 'No Interest' on the register.

2. It is also important that Members disclose their membership of other public bodies, charities and associations. Members should provide the full name and address of organisations/charities of which they are members.

3. There are also inconsistencies in terms of membership of external organisations between those listed by the Council and those declared by individual members; they are not always recorded on the forms although they are listed on every Councillor's "front page". An example of a Councillor's "front page" can be found via the following link:-
http://democracy.anglesey.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=650&LLL=0

4. Where members are declaring a business interest they're not providing enough information on what the business interest is.

**Declaration of interests in meetings**

1. There are many examples of Members ticking the box to declare an interest but not providing details of that interest. Details are required of the nature of the interest and whether that interest is a personal or a prejudicial interest or both.

2. Members do not provide sufficient information regarding the nature of the interest and how it relates to the items on the agenda. Greater clarity is required in this respect.

3. Inconsistent declarations of interest are made in various meetings by the same Member on the same matter. Members occasionally vote in some meetings and abstain in others when the same matter is being discussed. This suggests a lack of understanding. If Members are unsure as to whether they have a declarable interest they should seek advice.

4. Members occasionally declare an interest orally at meetings but do not complete the paperwork. The form needs to be completed for declarations of interest at every meeting where such an interest is declared orally, as oral declarations of interest alone are not sufficient.

5. Some interests are continuing to be declared unnecessarily, for example, one Member declared an interest when he was not present at the meeting.

**Register of Gifts and Hospitality**

Few declarations are made with regard to gifts and hospitality and members are invited to re-familiarise themselves with the Protocol of Gifts and Hospitality:-
http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/councillors-democracy-and-elections/constitution/constitution-part-5-codes-and-protocols/constitution-59-protocol-on-gifts-and-hospitality/

**Training**

The Standards Committee has observed that several members have failed to attend sufficient training this year.

These findings set out the general conclusions of the review but Members of the Standards Committee will be contacting some elected Members direct, if needed, in order to ensure that they update their declarations where it is felt that a problem has arisen during the review. Would you therefore please be ready to discuss your register with the Standards Committee in case one of them contacts you.

The Committee appreciates that you are all very busy and is aware that this task is only one of a number that you have to address. However, we hope that the above recommendations will assist in saving time for Members as improving the standard of the forms will hopefully avoid groundless and time consuming complaints.

Yn Gywir / Regards

Mike Wilson

Cadeirydd y Pwyllgor Safonau /Chair of the Standards Committee,
Cyngor Sir Ynys Môn / The Isle of Anglesey County Council
Document: CC-017471-AP/257200

ATODIAD / ENCLOSURE 6

# Attendance Note

For Legal Services Manager

| | |
|---|---|
| Matter reference: | CC-017471-AP |
| Matter name: | Standards Committee / Pwyllgor Safonau |
| Attended by: | Lynn Ball |
| Attendance with: | Dr Gwynne Jones<br>Pegi Allsop |
| Attendance on: | 28 May 2015 |
| Recorded on: | 28 May 2015 |
| Subject: | Standards Committee/ Group Leaders' meeting 23 April 2015 and SLT 27th April 2015 |

---

Issues discussed:-

- "Registers of Interest and the differences in Welsh and English versions"
  - Discrepancies in the standing register have been removed.
  - The technical glitch has now been resolved.
  - The only remaining difficulty, which Members are aware of from their training, is that when they fill in or update the standing register it will only complete on the English side of the form even when the Member input is in Welsh.
  - This could be remedied, but at an estimated cost of around £10k. It was agreed that it was not worth it and that it has not created a problem for Members or any complaints from Members. If the form is filled in in one language only then the input will be passed to the Translation Service before it is uploaded. There is no problem now with the front facing elements of the register.

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

LB

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD:** | **16 Medi 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Hyfforddiant i Gynghorwyr Tref** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cytuno ar gynnwys yr hyfforddiant** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball, lbxcs@ynysmon.gov.uk<br>01248 752586** |

## 1. RHAGARWEINIAD

Fel rhan o'i raglen waith ar gyfer 2015/16 penderfynodd y pwyllgor safonau ganolbwyntio ei ymdrechion hyfforddiant ar gynghorau tref. Gweler copi o'r rhaglen waith gyfredol yn **ATODIAD 1.**

## 2. CYD-DESTUN

Mae'r dyddiadau hyfforddi y cytunwyd arnynt hyd yma wedi eu rhestru yn **ATODIAD 2.**

Mae'r sleidiau hyffordiant drafft ynghlwm yn **ATODIAD 3.**

## 3. ARGYMHELLION

Bod y Pwyllgor Safonau yn:-

- Cadarnhau/diwygio cynnwys y sleidiau;
- Nodi unrhyw faterion penodol i'w codi gyda'r cynghorau tref;
- Cadarnhau pa aelod/aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Safonau fydd yn mynychu'r sesiynau hyfforddi gyda'r Swydog Monitro.

ATODIAD / ENCLOSURE 1

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU – MAI 2015 I EBRILL 2016

| | | AMSERLEN | ADNODDAU | STATWS AR DDIWEDD Y FLWYDDYN |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Cynnal gwrandawiadau i achosion honedig o dorri'r Côd Ymddygiad i Aelodau yn dilyn eu cyfeirio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) | • Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | |
| 2. | Cynnal gwrandawiadau i geisiadau am ganiatâd arbennig gan Gynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref/Cymuned | • Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | |
| 3. | Cyflawni swyddogaeth ymgynghorol mewn perthynas â materion sy'n codi dan Brotocol Datrysiad Lleol y Cyngor neu unrhyw gynllun olynol os bydd model cenedlaethol yn cael ei ddatblygu. | • Fel a phryd y derbynnir cais | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | |
| 4. | Goruchwylio hyfforddiant a datblygiad ar y Côd Ymddygiad i Aelodau yn unol â pharagraff 2.6 y Côd; yn arbennig Cynghorau Tref | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | |
| 5. | Goruchwylio'r ddwy Gofrestr o Ddiddordebau'r Aelodau drwy eu hadolygu bob blwyddyn gan roi | • Erbyn diwedd Ebrill 2016 | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | cyngor a chyfarwyddyd wedyn os yw hynny'n briodol. | | | |
| 6. | Goruchwylio'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch drwy ei hadolygu bob blwyddyn gan roi cyngor a chyfarwyddyd wedyn os yw hynny'n briodol. | • Erbyn diwedd Ebrill 2016 | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | |
| 7. | Cyflawni rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad sy'n berthnasol i rôl y Pwyllgor Safonau yn enwedig lle gallai newidiadau arfaethedig o'r fath ragfarnu mewn modd anghymesur, hawliau neu ddiddordebau unrhyw grŵp lleiafrifol. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | |
| 8. | Cyflawni rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol/polisi arfaethedig sy'n berthnasol i faes cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | |
| 9. | Gwneud unrhyw argymhellion i'r Cyngor ar gyfer gwella'r meysydd gwaith hynny sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Safonau. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | |
| 10. | Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor yn amlinellu gwaith y pwyllgor yn ystod y flwyddyn flaenorol. | • Mai 2016 | • Cadeirydd | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 11. | Sicrhau fod gwybodaeth a sgiliau'r Pwyllgor Safonau'n cael eu datblygu a'u diweddaru drwy:<br><br>- adolygu'n rheolaidd achosion y penderfynwyd arnynt gan<br>  ○ awdurdodau perthnasol eraill<br>  ○ Panel Dyfarnu Cymru<br>- cymryd rhan a gwneud cyfraniad yn Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru<br>- cymryd rhan a gwneud cyfraniad yng Nghynhadledd Pwyllgorau Safonau Cymru Gyfan<br>- i'w adolygu dan gynllun adolygu perfformiad yn debyg i hwnnw a ddefnyddir gan yr aelodau etholedig | • Fel a phryd y bydd angen yn amodol ar gapasiti | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | |
| 12. | Monitro cynnydd o ran cwynion am Aelodau a gafodd eu cyflwyno i OGCC a dadansoddi'n flynyddol y wybodaeth ynglŷn â'r cwynion sy'n berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn er mwyn nodi unrhyw dueddiadau neu faterion sy'n peri pryder neu sy'n dangos fod angen hyfforddiant. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | |
| 13. | Cynnal cyswllt gydag Arweinyddion Grwpiau drwy gyfrwng cyfarfodydd anffurfiol rheolaidd er mwyn trafod materion sydd o bryder/diddordeb | • Fel a phryd y bydd angen | • Y Cadeirydd | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | cyffredin. | | | |
| 14. | Adroddiad ar ddangosyddion perfformiad chwarterol<br><br>1. Y berthynas rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol<br>2. Effeithiolrwydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor<br>3. Safonau ymddygiad Aelodau | • Yn chwarterol | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | |

ATODIAD / ENCLOSURE 2

**SESIYNAU HYFFORDDIANT AR Y CÔD YMDDYGIAD AR GYFER CYNGHORAU TREF**

| **Cyngor Tref** | **Manylion Cyswllt** | **Dyddiad y sesiwn hyfforddi (Mewn print tywyll os yw wedi ei gadarnhau)** |
|---|---|---|
| Caergybi | Cliff Everett 01407 764608 | **Dydd Llun 9 Tachwedd 2015 am 6.30pm** |
| Porthaethwy | Meinir Davies – 01248 716959 | Cynigiwyd 23.11.15 am 6.30pm – dim wedi clywed dim ar 3.9.15 |
| Biwmares | Anfonwyd e-bost i beaumaristowncouncil@tiscali.co.uk ar 25.8.15 | Rhagfyr 2015? |
| Amlwch | Anfonwyd e-bost i<br>marilynhughes@amlwchcf.org<br>ar 25.8.15 | Ionawr 2016? |
| Llangefni | Janice Davies 01248 723332 | **6.30pm ar Ddydd Llun 1 Chwefror 2016** |

276501

ATODIAD / ENCLOSURE
3

# Côd Ymddygiad
# Code of Conduct

Cynghorau Cymuned

Ynys Môn

Community Councils

Anglesey

2015/16

# Cyflwyniad

- Sesiwn gan:-
  - Aelod Annibynnol y Pwyllgor Safonau
  - Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) Swyddog Monitro
- Iaith/cyfieithiad
- Taflenni
- Amseriad
- Rhaglen
  - Cyflwyniad gan (Aelod Annibynnol y Pwyllgor Safonau)

# Introduction

- Session by:-
  - Independent Member of the Standards Committee
  - Lynn Ball, Head of Function (Council Business)/Monitoring Officer
- Language/translation
- Handouts
- Timing
- Agenda
  - Introduction from (Independent Member of the Standards Committee)

# Cyflwyniad

- Y Côd
  - Yn gyffredinol
  - Ymddygiad
    - Pethau y dylech eu gwneud
    - Pethau na ddylech eu gwneud
  - Diddordebau
- Plismona'r Côd
- Gwybodaeth ynghylch cysylltiadau ac adnoddau
- Crynodeb allweddol

# Introduction

- The Code
  - Generally
  - Conduct
    - Do's
    - Don'ts
  - Interests
- Policing the Code
- Contact information and resources
- Key summary

# Cefndir

# Background

- Cynrychiolwyr Cymunedol
- Dyletswydd statudol i weithredu'n foesegol
- Côd Ymddygiad Mandadol
- Canlyniadau torri'r Côd
  - cosb bersonol
  - colli enw da
  - her gyfreithiol

- Community Representatives
- Statutory duty to act ethically
- Mandatory Code of Conduct
- Consequences of breaching the Code
  - personal sanction
  - loss of reputation
  - legal challenge

# Y Côd – yn Gyffredinol

1. **Pa bryd mae'r Côd yn berthnasol**

- **Ar fusnes y Cyngor**
  - Y tu mewn i'r Cyngor
  - Y tu allan i'r Cyngor
  - Ffurfiol ac anffurfiol

- **"Bob amser ac mewn unrhyw swyddogaeth"**
  - Defnydd amhriodol o'r swydd

  - **<u>Dwyn anfri</u>** – rhaid bod cysylltiad, e.e.

# The Code - Generally

1. **When does the Code apply?**

- **On Council business**
  - Inside the Council
  - Outside the Council
  - Formal and Informal

- **"At all times and in any capacity"**
  - Improper use of position

  - **<u>Disrepute</u>** – must be a link e.g.

# Y Côd – Ymddygiad (1)

Yr hyn y mae'n rhaid i Gynghorwyr ei wneud

- Hyrwyddo cydraddoldeb
- **Trin eraill â pharch**
- Darparu mynediad i wybodaeth
- Gwneud penderfyniadau gwrthrychol
- Rhoi sylw dyledus i gyngor Swyddogion
- Glynu wrth unrhyw reolau ynghylch costau
- Rhoi gwybod am unrhyw achosion o dorri'r Côd neu ymddygiad troseddol gan Gynghorydd arall
- Cydweithredu gydag ymchwiliadau

# The Code – Behaviours (1)

**What Councillors must do**

- Promote equality
- **Treat others with respect**
- Provide access to information
- Make decisions objectively
- Have due regard to advice of Officers
- Abide by any rules on expenses
- Report any breaches of the Code or criminal behaviour by another Councillor
- Cooperate with investigations

# Y Côd – Ymddygiad (2)

## Yr hyn y mae'n rhaid i Gynghorwyr beidio â'i wneud

- Derbyn rhoddion/lletygarwch answyddogol
- Datgelu gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol
- Defnyddio adnoddau'r Cyngor mewn modd amhriodol
- Gwneud cwynion blinderus neu faleisus
- Ceisio cael mantais
- Dwyn anfri ar y Cyngor

# The Code – Behaviours (2)

## What Councillors must not do

- Accept unofficial gifts/hospitality
- Disclose information given in confidence
- Use Council resources improperly
- Make vexatious or malicious complaints
- Seek to gain an advantage
- Bring the Council into disrepute

# Diddordebau Personol (1) – Yn Gyffredinol

# Personal Interests (1) Generally

- Rhaid i'r cyhoedd fod yn hyderus fod y penderfyniadau er budd gorau iddynt
- Diddordeb proffesiynol neu bersonol y tu allan i'ch swyddogaeth a all wrthdaro gyda'ch dyletswydd fel Cynghorydd o ran gwasanaethu'r gymuned
- Os oes gan Gynghorydd ddiddordeb yna rhaid iddo/iddi ei ddatgan ac **efallai** y bydd raid iddynt adael yr ystafell

- The public must have confidence that decisions are in their best interests
- A professional or personal interest outside your role which may conflict with your duty as a Councillor in serving the community
- If a Councillor has an interest they must declare it and **may** have to leave the room

# Diddordebau Personol (2) – Yn Gyffredinol … parhad

# Personal Interests (2) Generally … cont



Mae diddordeb personol yn bodoli os yw'r eitem dan drafodaeth **yn ymwneud â neu yn debygol o gael effaith** ar un neu ragor o'r categorïau a restrir yn y Côd

A personal interest exists if the item under discussion **relates to or is likely to affect** one or more of the categories listed in the Code

Cael effaith arnoch (neu gydnabod agos personol) i raddau helaethach na mwyafrif eich hetholwyr

Must affect you (or your close personal associate) to a greater extent than the majority of your electorate

# Diddordebau Personol (3) - Cydnabod Agos Personol

## Pwy sy'n 'Gydnabod Agos Personol'

- Cyfeillion agos
- Cydweithwyr gyda chysylltiadau cryf
- Cydnabod Busnes
- Perthnasau agos
- Rhywun y bu mewn anghydfod â chi

- Ond nid pobl y daw ar eu traws yn achlysurol, perthnasau pell neu bobl y daeth i gysylltiad â chi drwy'r gwaith

# Personal Interests (3) - Close Personal Associate

## Who is 'a Close Personal Associate'

- Close friends
- Colleagues with strong connections
- Business associates
- Close relatives
- Or someone with whom you have been in dispute

- But not casual acquaintances, distant relatives or people you come into contact with through work

# Diddordebau Personol (4) – Categorïau

- Swydd neu fusnes
- Cyflogwr neu fusnes yr ydych yn bartner/cyfarwyddwr ynddo
- Rhywun sydd wedi cyfrannu at eich costau etholiad neu dreuliau aelodau
- Unrhyw gwmni y mae ganddoch gyfranddaliadau o dros £25k ynddo, neu ragor nag 1% o gyfanswm gwerth y cyfranddaliadau ac sydd ag eiddo neu dir yn eich ardal

# Personal Interests (4) - Categories

- Job or business
- Employer or a business in which you are a partner/director
- Someone who has contributed to your election costs or member expenses
- Any company where you have shares over £25k, or more than 1% of the total share value, and which has premises or land in your area

# Diddordebau Personol (4) – Categorïau … Parhad

- Unrhyw gontract y mae eich Cyngor yn ei wneud gyda busnes yr ydych yn bartner, yn gyfarwyddwr sy'n derbyn tâl neu â chyfranddaliadau ynddo
- Unrhyw dir y mae ganddoch fudd ynddo yn ardal eich Cyngor
- Unrhyw dir sy'n cael ei osod gan eich Cyngor i fusnes yr ydych yn bartner, yn gyfarwyddwr sy'n derbyn tâl neu â chyfranddaliadau ynddo
- Unrhyw dir yn ardal eich Cyngor y mae ganddoch drwydded i'w ddefnyddio am o leiaf 28 diwrnod
- Unrhyw gorff yr ydych wedi cael eich ethol, ei benodi neu ei enwebu iddo gan eich Cyngor

# Personal Interests (4) - Categories… Cont

- Any contract that your Council makes with a business in which you are a partner, paid director or hold shares
- Any land in which you have an interest in your Council's area
- Any land let by your Council to a business in which you are a partner, paid director or share holder
- Any land in your Council's area in which you have a licence to occupy for at least 28 days
- Any body to which you have been elected, appointed or nominated by your Council

# Diddordebau Personol (4) – Categorïau … Parhad

# Personal Interests (4) - Categories … Cont

- Unrhyw awdurdod neu gorff cyhoeddus sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus, elusen, corff sy'n llunio barn gyhoeddus neu bolisi, undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol, clwb neu gymdeithas breifat yn ardal eich Cyngor yr ydych yn aelod ohono neu â swyddogaeth reoli
- Diddordebau Lles / Ariannol

- Any public authority or body exercising functions of a public nature, charity, body forming public opinion or policy, trade union or professional association, private club or society in your Council's area of which you are a member or in a management position
- Wellbeing / financial interests

# Diddordebau Personol (5) - Datganiadau

# Personal Interests (5) - Declarations

## Beth ddyliwch wneud os oes ganddoch Ddiddordeb Personol?

- Datgan y diddordeb ar lafar ym mhob cyfarfod perthnasol
- Datgan y diddordeb wrth wneud sylwadau ysgrifenedig neu lafar y tu allan i gyfarfod
- Llenwi ffurflen datgan diddordeb
- OND mae ganddoch hawl i gymryd rhan mewn trafodaeth a phleidleisio oni bai bod y diddordeb <u>yn un sy'n rhagfarnu</u>

## What Do You Do If You Have a Personal Interest?

- Declare it verbally at all relevant meetings
- Declare it when making written or verbal representations outside a meeting
- Complete a declaration of interest form
- BUT you are entitled to take part in discussions and vote unless it is a <u>prejudicial interest</u>

# Diddordebau sy'n Rhagfarnu (1) – Yn Gyffredinol

Unrhyw ddiddordebau personol a fyddai, yn nhŷb aelodau o'r cyhoedd, yn debygol o gael dylanwad ar eich gallu i fod yn wrthrychol, er enghraifft:

- Mae eich merch yn byw drws nesa i safle lle bwriedir codi tai newydd
- Mae eich mab yn mynychu ysgol leol y bwriedir ei chau

# Prejudicial Interests (1) Generally

Are personal interests which a member of the public would regard as likely to influence your ability to be objective, for example:

- Your daughter lives next to a proposed site for a new housing development
- Your son attends a local school which is due for closure

# Diddordebau sy'n Rhagfarnu (2) - Datgan a Gadael y Cyfarfod

### Beth ddyliwch wneud os oes ganddoch Ddiddordeb sy'n Rhagfarnu?

- Datgan y diddordeb a gadael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth
- Rhaid iddynt beidio â cheisio dylanwadu ar y penderfyniad
- Rhaid iddynt beidio â gwneud unrhyw sylwadau ysgrifenedig neu lafar

### ONI BAI

- Fod y Pwyllgor Safonau wedi rhoi caniatâd arbennig
- Fod gan y cyhoedd hawl i siarad (ond rhaid i chi adael ar ôl siarad)

# Prejudicial Interests (2) – Declaration and Withdrawal

### What Do You Do If You Have a Prejudicial Interest?

- Declare the interest and leave the meeting during the discussion
- Must not try to influence the decision
- Must not make written or verbal representations

### UNLESS

- The Standards Committee has granted a dispensation
- The public have a right to speak(but you must leave after having spoken)

# Diddordebau sy'n Rhagfarnu (2)

## Caniatâd Arbennig

- Sicrhau cydbwysedd rhwng cyfranogiad democrataidd a hyder cyhoeddus
- Yn mynd y tu draw i ddiddordebau personol
- Rhesymau statudol cyfyngedig

  - dros hanner y Cynghorwyr yn rhannu diddordeb

  - hyder y cyhoedd

  - cyfran sylweddol o'r cyhoedd

  - cyfiawnhad oherwydd rôl/arbenigedd

  - sefydliad gwirfddol

  - o ddiddordeb i'r ardal
- Cais ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro
- Panel y Pwyllgor Safonau
- Mynychu gwrandawiad cyhoeddus
- Efallai y bydd cyfyngiadau
- Rheidrwydd i ddatgelu



# Prejudicial Interests (2)

## Dispensations

- Balance democratic participation with public confidence
- Overreaches prejudicial interest
- Limited statutory grounds:
  - half + Councillors share interest
  - public confidence
  - significant proportion of the public
  - justified by role/expertise
  - voluntary organisation
  - interest of locality
- Written application to the Monitoring Officer
- Standards Committee Panel
- Attendance at public hearing
- May be limitations
- Disclosure requirement

# Diddordebau – Crynodeb   Interests - Summary

- Diddordeb Personol

  - datgan a chymryd rhan yn y drafodaeth

  - tor-amod technegol

- Diddordeb Personol ac un sy'n Rhagfarnu

  - datgan a gadael y cyfarfod

  - risg ddifrifol

- Cyflwyno cais am ganiatâd arbennig?

- Edrych ymlaen a chyflwyno cais am ganiatâd arbennig

- Personal interest
  - declare and participate
  - technical breach

- Personal and prejudicial interest
  - declare and withdraw
  - serious risk

- Apply for a dispensation?

- Look ahead and apply for a dispensation

# Plismona'r Côd (1)

**SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU**

1. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

2. Panel Dyfranu Cymru

3. Pwyllgor Safonau

# Policing the Code (1)

**ROLES AND RESPONSIBILITIES**

1. Public Services Ombudsman for Wales

2. Adjudication Panel for Wales

3. Standards Committee

# Plismona'r Côd (2) parhad … Policing the Code (2) cont …

1. **<u>Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru</u>**

- rôl ddeublyg
- "yr hidliad cyntaf" dan y Côd
- prawf trothwy dau gam
- ymchwiliadol / erlyniadol
- dim camau pellach neu
- cyfeirio i'r Pwyllgor Safonau neu
- cyfeirio i Banel Dyfarnu Cymru

1. **<u>Public Services Ombudsman for Wales</u>**

– dual role
– "first sift" under the Code
– two stage threshold test
– investigative/prosecutorial
– no further action or
– refer to Standards Committee or
– refer to Adjudication Panel for Wales

# Plismona'r Côd (2) parhad … Policing the Code (2) cont …



**2. Panel Dyfarnu Cymru**

- "Pwyllgor Safonau" cenedlaethol
- Statws tribiwnlys / 3 aelod / cyfreithiwr / bargyfreithiwr yn cadeirio
- Yn derbyn:
- cyfeiriadau gan yr Ombwdsmon
- apeliadau yn erbyn Pwyllgorau Safonau
- Gwrandawiadau
- yn gyhoeddus os oes her
- gwrthwynebol
- cynrychiolaeth gyfreithiol
- "ar y papurau", os cosb yn unig
- Cosbau sydd ar gael
- dim camau pellach
- cerydd
- atal am hyd at 1 flwyddyn
- Gwahardd am hyd at 5 mlynedd

**2. Adjudication Panel for Wales**

- national "Standards Committee"
- tribunal status / 3 members / chaired by solicitor / barrister
- receives:
  - referrals from the Ombudsman
  - appeals against Standards Committees
- hearings
  - in public, if contested
  - adversarial
  - legal representation
  - "on the papers", if sanction only
- sanctions available
  - no further action
  - censure
  - suspension up to 1 year
  - disqualification up to 5 years

# Plismona'r Côd (2) parhad

**<u>3. Pwyllgor Safonau</u>**

- 9 Aelod
  - 5 wedi eu cyfethol
  - 2 gynghorydd sir
  - 2 gynghorydd cymuned
- dyletswyddau statudol
  - **cyfeiriadau gan yr Ombwdsmon**
    - gwrandawiadau rhagarweiniol
    - gwrandawiadau llawn
    - yn gyhoeddus
    - gall y partïon gael cynrychiolaeth gyfreithiol
    - apêl i'r Panel Dyfarnu
    - atal am gyfnod hyd at 6 mis
- cyfrifoldebau eraill
  - gweler yr adroddiad i'r Cyngor 8/5/2014 http://democracy.anglesey.gov.uk/documents/s500000757/Adroddiad%20Blynyddol%20y%20Pwyllgor%20Safonau%202013-14.pdf?LLL=0
  - caniatâd arbennig
  - hyfforddiant a datblygiad
  - adolygu cofrestrau (gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned)

# Policing the Code (2) cont..

**3. <u>Standards Committee</u>**

- 9 Members
  - 5 co-opted
  - 2 county councillors
  - 2 community councillors
- statutory duties
  - **referral from Ombudsman**
    - preliminary hearings
    - full hearings
    - in public
    - parties may be legally represented
    - appeal to Adjudication Panel
    - maximum 6 months suspension
- other responsibilities
  - see report to Council 8/5/2014 http://democracy.anglesey.gov.uk/documents/s500000757/Adroddiad%20Blynyddol%20y%20Pwyllgor%20Safonau%202013-14.pdf?LLL=0
  - dispensations
  - training and development
  - review registers (including Town and Community Councils)

## Gwybodaeth Gyswllt ac Adnoddau (1)

- Os oes gennych unrhyw amheuaeth, gofynnwch i'r Swyddog Monitro

  – Lynn Ball – Swyddog Monitro
    rhif ffôn 01248 752586 / ebost:
    lbxcs@ynysmon.gov.uk

  – Robyn Jones – Dirprwy Swyddog Monitro
    rhif ffôn: 01248 752134 / ebost:
    rwjcs@ynysmon.gov.uk

  – Awena Walkden – Cyfreithwraig (Llywodraethu Corfforaethol)
    rhif ffôn: 01248 752563 / ebost:
    awpce@ynysmon.gov.uk

  – Mike Wilson, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau
    rhif ffôn: 01248 752586 / ebost:
    lbxcs@ynysmon.gov.uk



## Contact Information and Resources (1)

- If in doubt ask the Monitoring Officer

  – Lynn Ball – Monitoring Officer
    tel:01248 752586 / email:
    lbxcs@anglesey.gov.uk

  – Robyn Jones – Deputy Monitoring Officer
    tel: 01248 752134 / email:
    rwjcs@anglesey.gov.uk

  – Awena Walkden – Solicitor (Corporate Governance)
    tel: 01248 752563 / email:
    awpce@anglesey.gov.uk

  – Mike Wilson, Chair of the Standards Committee
    tel:01248 752586 / email:
    lbxcs@anglesey.gov.uk

## Gwybodaeth Gyswllt ac Adnoddau (1)

- **Côd Ymddygiad Statudol**
  - **Y Côd**

    **http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/788/pdfs/wsi_20080788_mi.pdf**
  - Canllawiau

    http://www.ombudsman-wales.org.uk/~/media/Files/CodeofConductguidance_W/Code%20of%20Conduct%20Community%20Councils%20%20amended%20May%202013%20WELSH.ashx
  - Achosion a gyhoeddwyd

    http://apw.wales.gov.uk/decision/?skip=1&lang=cy

    http://www.ombudsman-wales.org.uk/cy-GB/publications/The-Code-of-Conduct-Casebook.aspx
- Caniatad Arbennig

  http://www.legislation.gov.uk/wsi/2001/2279/pdfs/wsi_20012279_mi.pdf
- Egwyddorion Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus

  http://www.legislation.gov.uk/wsi/2001/2279/pdfs/wsi_20012279_mi.pdf

## Contact Information and Resources (1)

- **Statutory Code of Conduct**
  - **Code**

    http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/788/pdfs/wsi_20080788_mi.pdf
  - Guidance

    http://www.ombudsman-wales.org.uk/~/media/Files/CodeofConductguidance_E/Code_of_Conduct__Community_Councils__-_amended_May_2013__ENGLISH_.ashx
  - Published cases

    http://apw.wales.gov.uk/decision/?lang=en

    http://www.ombudsman-wales.org.uk/en/publications/The-Code-of-Conduct-Casebook.aspx
- Dispensations

  http://www.legislation.gov.uk/wsi/2001/2279/pdfs/wsi_20012279_mi.pdf
- Principles of Conduct in Public Life

  http://www.legislation.gov.uk/wsi/2001/2276/pdfs/wsi_20012276_mi.pdf

## Casgliad

- Trin eraill gyda pharch ac ystyriaeth
- Peidiwch â dylanwadu ar unrhyw benderfyniad sy'n debygol o fod er budd i chi neu rai sydd agosaf atoch
- Prawf trothwy'r Ombwdsmon
  - Tystiolaeth uniongyrchol bod y côd wedi cael ei dorri
  - Ymchwiliad er budd y cyhoedd
- Nodweddion Gwaethygol
  - Malais
  - Budd Personol
  - Niwed i eraill
  - Torri'r Côd dro ar ôl tro
- Gweithredwch ar unwaith er mwyn lliniaru/unioni'r sefyllfa
- Cydweithredu gydag unrhyw ymchwiliad gan yr Ombwdsmon

## Conclusion

- Treat others with respect and consideration
- Do not influence any decision which is likely to benefit you or "yours"
- Ombudsman's threshold test:
  - First hand evidence of a serious breach
  - Investigation in the public interest
- Aggravating features
  - Malice
  - Personal gain
  - Damage to others
  - Repeated breaches
- Act quickly to mitigate/repair
- Cooperate with any Ombudsman investigation

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **16 Medi 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Diweddariad ar Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru – 16 Mehefin 2015** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cadeirydd y Pwyllgor** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball, lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

1. **RHAGARWEINIAD**

Mae'r Adroddiad hwn wedi'i ddylunio i ddiweddaru aelodau'r Pwyllgor Safonau ynghylch y cyfarfod o Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2015.

2. **CYD-DESTUN**

Mae'r rhaglen a ddilynwyd yn y cyfarfod ynghlwm fel **ATODIAD 1.**

2.1 **Ad-drefnu Llywodraeth Leol** – Ni chafwyd unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru hyd oni cheir cynigion pellach gan Lywodraeth Cymru.

2.2 **Hyfforddiant** - Cyfrannodd holl aelodau'r Fforwm at drafodaeth ar hyfforddiant ar gyfer clercod cynghorau cymuned ac aelodau etholedig awdurdodau lleol gan gynnwys cynghorau cymuned.

Mae rhywfaint o hyfforddiant i gynghorwyr sir yn cael ei wneud yn orfodol (e.e. mewn perthynas â Chyllid a Chynllunio) er mwyn sicrhau fod cymaint ag sy'n bosibl yn mynychu. Dywedodd rhai cynghorau hefyd nad oedd aelodau, mewn rhai achosion, yn cael gwasanaethu ar bwyllgorau penodol os nad oeddynt wedi cael yr hyfforddiant perthnasol.

Roedd peth pryder nad oedd y rheiny mewn cynghorau cymuned yn mynychu digon o hyfforddiant a chafwyd trafodaeth ynghylch sut i wella hyn; naill ai drwy gyfrwng cyfarfodydd "clwstwr", hyfforddiant sy'n canolbwyntio mwy ar anghenion penodol, pecynnau e-ddysgu, mynychu digwyddiadau hyfforddiant mewn cynghorau eraill, darparu copïau caled o'r côd ymddygiad, cyfathrebiadau rheolaidd gan swyddogion monitro er mwyn codi ymwybyddiaeth ynghylch unrhyw faterion newydd.

Un pryder arbennig, mewn ardaloedd lle yr oedd nifer fawr o gynghorau cymuned, oedd y pwysau ar amser swyddogion monitro os oeddynt am fynychu cyfarfodydd i

ddarparu hyfforddiant. Roedd yn ymddangos yn afrealistig i ddisgwyl i swyddogion monitro ddarparu'r holl hyfforddiant.

Roedd gan Gynghorwyr Sir gofnodiadau hyfforddiant unigol a oedd yn nodi'r holl hyfforddiant yr oedd pob aelod wedi'i fynychu bob blwyddyn. Mae hyn hefyd yn cael ei adrodd i'r cyhoedd yn flynyddol (**ATODIAD 2**). Ar hyn o bryd, nid oes cofnodiadau hyfforddiant ar gael ar gyfer y cynghorau cymuned.

2.3 Y Côd Ymddygiad

Rhoddwyd sylw i'r Canllawiau diweddaraf gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Roedd teimlad y gallai rhai agweddau ar y cynnwys achosi dryswch i aelodau cynghorau cymuned.

Ar hyn o bryd, fersiwn electronig yn unig sydd ar gael.

Awgrymwyd y dylai'r cynghorau sir sicrhau fod copi caled o'r Canllawiau ar gael i'r holl gynghorau cymuned.

Roedd ansicrwydd ynghylch a oedd yr Ombwdsmon wedi cysylltu gyda'r holl gynghorau gymuned i roddi iddynt y ddolen i'r fersiwn ddiweddaraf; byddai modd iddynt wedyn ei hargraffu petaent yn dymuno.

Awgrymwyd y gallai Un Llais Cymru efallai gyllido a chynhyrchu pecyn e-ddysgu ar y côd ymddygiad yr un modd â'r hyn a wnaed yn flaenorol ar gyfer rhyddid gwybodaeth a diogelu data.

2.4 Pwyllgorau Safonau Rhanbarthol

O ganlyniad i ddau gwestiwn a ofynnwyd yn y cyfarfod gan gynrychiolwyr Ynys Môn, cafwyd trafodaeth ynghylch ymarferoldeb a'r awydd cyfredol ar gyfer sefydlu pwyllgorau safonau rhanbarthol.

Ar hyn o bryd, nid yw'r gyfraith sy'n ymwneud â hyn yn weithredol. Fodd bynnag, pan fydd yn weithredol, ni fydd ond yn cynnig y grym i sefydlu pwyllgorau safonau rhanbarthol ac ni fydd hyn yn orfodol.

Oherwydd y cyhoeddiad a ddisgwylir yn fuan iawn gan Lywodraeth Cymru ynghylch ad-drefnu yng Nghymru, roedd y Fforwm o'r farn os byddai cynghorau yng Ngogledd Cymru'n cael eu had-drefnu yn y dyfodol, y byddai angen ystyried yr agwedd safonau yn wyneb hynny ac y byddai angen alinio hyn gyda chynlluniau ar gyfer y dyfodol. Teimlwyd na fyddai unrhyw gyngor yn dymuno cytuno i sefydlu pwyllgorau safonau rhanbarthol hyd nes ceir y model terfynol ar gyfer yr ad-drefnu.

Petai pwyllgorau safonau rhanbarthol yn cael eu sefydlu'n yn y dyfodol, byddai'n rhaid cael cytundeb cyfreithiol rhwng y cynghorau perthnasol ynghylch sut y byddai hynny'n gweithredu ac, yn ogystal, byddai angen newid cyfansoddiadau'r cynghorau perthnasol gan gyngor llawn i adlewyrchu'r trefniadau newydd.

2.5 Ar ddiwedd y cyfarfod, cyhoeddodd y Cadeirydd (Conwy) y byddai'n sefyll i lawr ac y byddai angen cynnwys hyn fel eitem ar Raglen y cyfarfod nesaf o'r Fforwm a phenodi Cadeirydd newydd.

2.6 Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf o'r Fforwm i gael ei drafod a chytuno ar ddyddiad, amser a lleoliad addas i'w cytuno yn dilyn y Gynhadledd Safonau ym mis Hydref 2015.

## 3. ARGYMHELLIAD

Nodi'r adroddiad a rhoi gwybod i gadeirydd ac is-gadeirydd y pwyllgor safonau a oes unrhyw faterion yr oedd aelodau'r pwyllgor yn dymuno eu codi yn y cyfarfod nesaf o'r Fforwm rhanbarthol.

ATODIAD / ENCLOSURE 1

# FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU

## Dydd Mawrth, 16 Mehefin 2015 am 2.00 pm

## Ystafell Cynhadledd 1a, Neuadd y Sir, Ruthin

**AT:-**

| | |
|---|---|
| **Ynys Môn** | Michael Wilson – Cadeirydd<br>Islwyn Jones – Is-Gadeirydd<br>Lynn Ball – Swyddog Monitro<br>Robyn Jones – Dirprwy Swyddog Monitro |
| **Conwy** | Howie Roberts – Cadeirydd ***(Cadeirydd)***<br>John Roberts – Is-Gadeirydd<br>Delyth Jones – Swyddog Monitro<br>Ceri Williams – Dirprwy Swyddog Monitro |
| **Sir Ddinbych** | Ian Trigger – Cadeirydd<br>Rev. Wayne Roberts – Is-Gadeirydd<br>Gary Williams – Swyddog Monitro<br>Lisa Jones – Dirprwy Swyddog Monitro |
| **Sir y Fflint** | Edward Hughes – Cadeirydd<br>Robert Dewey – Is-Gadeirydd<br>Gareth Owens – Swyddog Monitro |
| **Gwynedd** | Gwilym Ellis Evans – Cadeirydd<br>Sam Soysa – Is-Gadeirydd<br>Dilys Ann Phillips – Swyddog Monitro<br>Sion Huws – Swyddog Priodoldeb |
| **Wrecsam** | Rob Dawson – Cadeirydd<br>Ceri Nash – Is-Gadeirydd<br>Trevor Coxon – Swyddog Monitro<br>Sioned Wyn Davies – Dirprwy Swyddog Monitro |
| **Awdurdod Tân ac Achub** | Jane Eyton-Jones – Cadeirydd |
| **Snowdonia National Park** | David Vaughan – Cadeirydd |

---

Sian Harland – Swyddog Gwasanaethau Pwyllgorau
Conwy County Borough Council, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU
01492 576065 sian.harland1@conwy.gov.uk

# R H A G L E N

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

2. **Cofnodion**

   Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir *(Tudalennau 3 - 10)*

3. **Y Papur Gwyn Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni – Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol**

   I gael adborth ar y dyfyniad o’r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn sy'n ymwneud â’r Pwyllgorau Safonau. Amgaeir crynodeb o'r Papur Gwyn gyda’r rhaglen, ac mae copi llawn ar gael yma http://bit.ly/1K7Qt3v (*Tudalennau 11 - 44)*

   **i)** Cyngor Sir Gwynedd *(Tudalen 45)*

   **ii)** Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy *(Tudalen 46)*

   **iii)** Cyngor Sir Ddinbych *(Tudalennau 47 - 48)*

   **iv)** Cyngor Sir Ynys Mon *(Tudalennau 49 - 65)*

   **v)** Cyngor Sir y Fflint *(Tudalennau 66 - 68)*

   **vi)** Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam *(Tudalennau 69 - 80)*

4. **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Ymatebion i'r Ymgynghoriad**

   **i)** Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy *(Tudalennau 81 - 85)*

   **ii)** Cyngor Sir Ynys Mon - *Gweler Eitem 3(iv) (Tudalennau 49 - 65)*

   **iii)** Cyngor Sir Bwrdeistref Sirol Wrecsam *(Tudalennau 86 - 93)*

5. **Canllawiau Diwygiedig ar God Ymddygiad Aelodau**

   I ystyried canllawiau diwygiedig yr Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad Aelodau. *(Tudalennau 94 - 180)*

6. **Sesiwn Agored Ar Gyfer Eitemau o Ddiddordeb Cyfredol**

ATODIAD / ENCLOSURE 2

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2014/15

| Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn. | |
|---|---|
| **Cynghorydd:** | |
| **Grwp:** | **Ward:** |

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| **Rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **[1]Ffigyrau Presenoldeb** |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |

Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.

Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel ddeilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (wedi mynychu ….. cyfarfod).

| **Rwy'n cynrychiol'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:** | **Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd** | **Nifer a fynychwyd** |
|---|---|---|
| | | |
| | | |

## 2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

[1] Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

## 3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

## 4 - Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

## 5 – Gweithgareddau a Materion Eraill

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd** | **Ebrill 2015** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD:** | **16 Medi 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Cynhadledd Genedlaethol Pwyllgorau Safonau Cymru, Hydref 2015** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **I'r pwyllgor ddwyn sylw'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd at unrhyw faterion** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball, lbxcs@ynysmon.gov.uk 01248 2586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Bob dwy neu dair blynedd caiff Cynhadledd Pwyllgor Safonau ei chynnal yng Nghymru, gan newid lleoliad rhwng De Cymru, y Canolbarth neu Ogledd Cymru, a chaiff aelodau eu gwahodd o'r holl ardaloedd.

Bydd digwyddiad yn cael ei gynnal eleni gan Gyngor Sir Caerdydd ar 20 Hydref 2015. Bydd cadeirydd ac is-gadeirydd pwyllgor safonau Cyngor Sir Ynys Môn yn mynychu ac yn rhoi adborth i'r pwyllgor safonau yn ei gyfarfod ar 10 Rhagfyr 2015.

## 2. CYD-DESTUN

Mae **ATODIAD 1** yn cynnwys copi o'r rhaglenar gyfer y gynhadledd, gan gynnwys gwybodaeth am y chwe sesiwn gweithdy.

## 3. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i aelodau'r pwyllgor:-

- Nodi pa sesiynau gweithdy sy'n flaenoriaeth;
- Nodi unrhyw faterion neu gwestiynau penodol yr hoffent i'r cadeirydd a/neu'r is-gadeirydd roi sylw iddynt yn ystod y gynhadledd;
- Cytuno ar natur a graddau'r adborth i'w ddarparu i'r pwyllgor ar 10 Rhagfyr 2015.

ATODIAD / ENCLOSURE
1

Neid

caerdydd.gov.uk

Chwilio'r wefan ho

Beth sy'n agos ataf

Preswylydd | Busnes | Ymweld | Eich Cyngor | Gwneud Taliad

new cardiff > CYM > Ymweld > Cynhadledd Safonau Cymru 2015 > Rhaglen y Gynhadledd

# Cynhadledd Safonau Cymru 2015 - Rhaglen y Gynhad

## 'Safonau a Moeseg mewn Byd Newidiol'

Dydd Llun 19 Hydref: Derbyniad yr Arglwydd Faer yn y Plasty, Caerdydd
Dydd Mawrth 20 Hydref: Cynhadledd yn Neuadd y Ddinas Caerdydd

### Rhaglen y Gynhadledd

| | |
|---|---|
| 9.15am - 10.00am | **Cofrestru a The/Coffi** |
| 10.00am - 10.15am | **Anerchiad Croeso**<br>Paul Orders - Prif Weithredwr Cyngor Dinas Caerdydd |
| 10.15am - 10.45am | **Prif Anerchiad : A yw Egwyddorion Nolan yn addas at y diben yn yr hinsawdd bresennol a thros yr 20 mlynedd nesaf?**<br>Nick Bennett: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| 10.45am - 11.30am | **Sesiwn Panel:**<br>Cadeirir gan Richard Tebboth: Cadeirydd Pwyllgor Safonau a Moeseg Annibynnol Caerdydd<br>Nick Bennett: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Lyn Cadwallader: Prif Weithredwr: Un Llais Cymru<br>Peter Davies: Llywydd Panel Dyfarnu Cymru<br>Jan Williams: Comisiynydd Cwynion Heddlu Annibynnol Cymru |
| 11.30am - 12.00pm | **Te/Coffi** |

| | |
|---|---|
| 12.00pm - 1.00pm | **Gweithdai – Sesiwn Un**<br>1. **Cyfryngau Cymdeithasol – Cadw Draw o Drwbl**<br>Gweithdy dan arweiniad Daniel Hurford, CLILC, a'r Swyddfa Monitro, yn ystyried arfer gorau, achosion diweddaraf a chyfraith achos.<br><br>2. **Chwythu'r Chwiban – Addasu i ddelio â modelau gweithredu newydd i'r gwasanaethau cyhoeddus**<br><br>Gweithdy dan arweiniad y Swyddfa Monitro yn adolygu arfer gorau, rôl y pwyllgor safonau a moeseg wrth adolygu achosion a dulliau cyfathrebu.<br>3. **Cynghorau Cymuned – Llywodraethu a Safonau**<br>Gweithdy dan arweiniad Un Llais Cymru a'r Swyddfa Monitro yn edrych ar brofion arfaethedig newydd LlC ar gymhwysedd; democratiaeth; gallu; capasiti a Llywodraethu.<br>4. **Datrys Problemau'n Lleol – Yn ymarferol**<br>Gweithdy i edrych ar y broses o wrandawiadau panel, sesiwn chwarae rôl a delio â'r cyfryngau, dan arweiniad y Swyddfa Monitro.<br>5. **A yw Egwyddorion Nolan yn addas at y diben yn yr hinsawdd bresennol a thros yr 20 mlynedd nesaf?**<br>Gweithdy i barhau â'r Drafodaeth Panel dan arweiniad y Swyddfa Monitro.<br>6. **Cywirdeb ym maes Cynllunio - Diweddariad**<br>Gweithdy i adolygu statws presennol y Protocol Cynllunio sy'n ofynnol dan y Ddeddf Gynllunio, dan arweiniad y Swyddfa Monitro. |
| 1.00pm - 2.00pm | **Cinio** |
| 2.00pm - 3.00pm | **Gweithdai – Sesiwn Dau**<br>1. **Cyfryngau Cymdeithasol – Cadw Draw o Drwbl**<br>Gweithdy dan arweiniad Daniel Hurford, CLILC, yn ystyried arfer gorau, achosion diweddaraf a chyfraith achos.<br><br>2. **Chwythu'r Chwiban – Addasu i ddelio â modelau gweithredu newydd i'r gwasanaethau cyhoeddus**<br>Gweithdy dan arweiniad y Swyddfa Monitro yn adolygu arfer gorau, rôl y pwyllgor safonau a moeseg wrth adolygu achosion a dulliau cyfathrebu.<br>3. **Cynghorau Cymuned – Llywodraethu a Safonau**<br>Gweithdy dan arweiniad Un Llais Cymru a'r Swyddfa Monitro yn edrych ar brofion arfaethedig newydd LlC ar gymhwysedd; democratiaeth; gallu; capasiti a Llywodraethu.<br>4. **Datrys Problemau'n Lleol – Yn ymarferol**<br>Gweithdy i edrych ar y broses o wrandawiadau panel, sesiwn chwarae rôl a delio â'r cyfryngau, dan arweiniad y Swyddfa Monitro. |

| | |
|---|---|
| | 5. **A yw Egwyddorion Nolan yn addas at y diben yn yr hinsawdd bresennol a thros yr 20 mlynedd nesaf?**<br>Gweithdy i barhau â'r Drafodaeth Panel dan arweiniad y Swyddfa Monitro.<br>6. **Cywirdeb ym maes Cynllunio - Diweddariad**<br>Gweithdy i adolygu statws presennol y Protocol Cynllunio sy'n ofynnol dan y Ddeddf Gynllunio, dan arweiniad y Swyddfa Monitro. |
| 3.00pm - 3.30pm | **Te/Coffi** |
| 3.30pm - 4.00pm | **Trafodaeth a Sylwadau Cloi**<br>Richard Tebboth<br>Cadeirydd Pwyllgor Safonau a Moeseg Annibynnol Caerdydd<br>James Downe<br>Is-gadeirydd Pwyllgor Safonau a Moeseg Annibynnol Caerdydd |
| 4.00pm | **Diwedd** |

## Gweithdai'r Gynhadledd

I fynd i un o weithdai'r digwyddiad eleni, bydd angen i bob cynadleddwr nodi ei ddewis **ymlaen llaw.**

Cynhelir dwy sesiwn gweithdy – un am 12.00pm-1.00pm **ac** un am 2.00pm-3.00pm – a chan bob un chwe gweithdy.

### Gweithdai – Sesiwn Un

| **12.00pm i 1.00pm** | |
|---|---|
| 1 | **Cyfryngau Cymdeithasol – Cadw Draw o Drwbl**<br>Gweithdy dan arweiniad Daniel Hurford, CLILC, a'r Swyddfa Monitro, yn ystyried arfer gorau, achosion diweddaraf a chyfraith achos. |
| 2 | **Chwythu'r Chwiban – Addasu i ddelio â modelau gweithredu newydd i'r gwasanaethau cyhoeddus**<br>Gweithdy dan arweiniad y Swyddfa Monitro yn adolygu arfer gorau, rôl y pwyllgor safonau a moeseg wrth adolygu achosion a dulliau cyfathrebu. |
| 3 | **Cynghorau Cymuned – Llywodraethu a Safonau**<br>Gweithdy dan arweiniad Un Llais Cymru a'r Swyddfa Monitro yn edrych ar brofion arfaethedig newydd LIC ar gymhwysedd; democratiaeth; gallu; capasiti a Llywodraethu. |
| 4 | **Datrys Cwynion yn Lleol – Yn ymarferol**<br>Gweithdy i edrych ar y broses o wrandawiadau panel, sesiwn chwarae rôl a delio â'r cyfryngau, dan arweiniad y Swyddfa Monitro. |
| 5. | **A yw Egwyddorion Nolan yn addas at y diben yn yr hinsawdd bresennol a thros yr 20 mlynedd nesaf?**<br>Gweithdy i barhau â'r Drafodaeth Panel dan arweiniad y Swyddfa Monitro. |
| 6. | **Cywirdeb ym maes Cynllunio - Diweddariad**<br>Gweithdy i adolygu statws presennol y Protocol Cynllunio sy'n ofynnol dan y Ddeddf Gynllunio, dan arweiniad y Swyddfa Monitro. |

## Gweithdai – Sesiwn Dau

**2.00pm i 3.00pm**

1. **Cyfryngau Cymdeithasol – Cadw Draw o Drwbl**
   Gweithdy dan arweiniad Daniel Hurford, CLILC, a'r Swyddfa Monitro, yn ystyried arfer gorau, achosion diweddaraf a chyfraith achos.

2. **Chwythu'r Chwiban – Addasu i ddelio â modelau gweithredu newydd i'r gwasanaethau cyhoeddus**
   Gweithdy dan arweiniad y Swyddfa Monitro yn adolygu arfer gorau, rôl y pwyllgor safonau a moeseg wrth adolygu achosion a dulliau cyfathrebu.

3. **Cynghorau Cymuned – Llywodraethu a Safonau**
   Gweithdy dan arweiniad Un Llais Cymru a'r Swyddfa Monitro yn edrych ar brofion arfaethedig newydd LIC ar gymhwysedd; democratiaeth; gallu; capasiti a Llywodraethu.

4. **Datrys Cwynion yn Lleol – Yn ymarferol**
   Gweithdy i edrych ar y broses o wrandawiadau panel, sesiwn chwarae rôl a delio â'r cyfryngau, dan arweiniad y Swyddfa Monitro.

5. **A yw Egwyddorion Nolan yn addas at y diben yn yr hinsawdd bresennol a thros yr 20 mlynedd nesaf?**
   Gweithdy i barhau â'r Drafodaeth Panel dan arweiniad y Swyddfa Monitro.

6. **Cywirdeb ym maes Cynllunio - Diweddariad**
   Gweithdy i adolygu statws presennol y Protocol Cynllunio sy'n ofynnol dan y Ddeddf Gynllunio, dan arweiniad y Swyddfa Monitro.

This page is intentionally left blank